

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/03/2015

Cynnwys Contents

[1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[1. Questions to the First Minister](#)

[2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[2. Business Statement and Announcement](#)

[3. Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2014-15](#)

[3. Debate on the Second Supplementary Budget 2014-15](#)

[4. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#)

[4. Stage 4 Debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence \(Wales\) Bill](#)

[5. Cyfnod Pleidleisio](#)

[5. Voting Time](#)

[6. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)

[6. Stage 3 Debate on the Well-being of Future Generations \(Wales\) Bill](#)

[Neges gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, Pennaeth y Gymanwlad](#)

[A Message from Her Majesty The Queen, Head of the Commonwealth](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:31 **1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog** **Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The first item this afternoon is questions to the First Minister, and question 1 is William Powell.

1. Questions to the First Minister **Y** [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r eitem gyntaf y prynhawn yma, a daw cwestiwn 1 gan William Powell.

Meddygfeydd Teulu yng Nghefn Gwlad Cymru

GP Surgeries in Rural Wales

13:31 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynaliadwyedd meddygfeydd teulu yng nghefn gwlad Cymru? OAQ(4)2160(FM)

1. Will the First Minister make a statement on the sustainability of GP surgeries in rural Wales? OAQ(4)2160(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. GP services are provided by independent contractors. They enter into a contract with the local health boards, and are responsible for delivering the contract that they have entered into. The new GP contract arrangements for Wales provide a new agreed mechanism for addressing sustainability of GP services in both rural and deprived communities.

Gwnaf. Darperir gwasanaethau meddyg teulu gan gontractwyr annibynnol. Maen nhw'n ymrwymo i gontract gyda'r byrddau iechyd lleol, ac yn gyfrifol am gyflawni'r contract y maen nhw wedi cytuno arno. Mae'r trefniadau contract meddyg teulu newydd i Gymru yn darparu dull newydd y cytunir arno ar gyfer mynd i'r afael â chynaliadwyedd gwasanaethau meddyg teulu mewn cymunedau gwledig a difreintiedig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:31

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the First Minister for that response. There have been several examples in recent times across my region of poor practice in terms of public engagement, when surgeries are either planning a reconfiguration or, in some cases, a cessation of service in a particular area. In one instance, for example, some patients first heard of the plans by seeing a poster up in the surgery itself. In this context, First Minister, and given the limited understanding in some quarters of the important role of community health councils with regard to this area of health service, what is the Welsh Government doing to promote better practice in terms of communications, and public engagement in terms of GP services?

Diolch i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Bu nifer o enghreifftiau ar draws fy rhanbarth i yn ddiweddar o arfer gwael o ran ymgysylltiad cyhoeddus, pan fo meddygyfeydd naill ai'n cynllunio ad-drefnu neu, mewn rhai achosion, rhoi terfyn ar wasanaeth mewn ardal benodol. Mewn un achos, er enghraifft, clywodd rhai cleifion am y cynlluniau am y tro cyntaf trwy weld poster yn y feddygfa ei hun. Yn y cyd-destun hwn, Brif Weinidog, ac o ystyried y ddealltwriaeth gyfyngedig mewn rhai mannau o swyddogaeth bwysig cyngorau iechyd cymuned o ran y rhan hon o'r gwasanaeth iechyd, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu arfer gwell o ran cyfathrebu, ac ymgysylltiad cyhoeddus mewn gwasanaethau meddyg teulu?

13:32

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, it's absolutely critical that GPs themselves, as self-employed contractors, provide sufficient notice of their intentions, and look for ways to preserve services in our communities. In particular, it's important that they discuss their needs with the local health board, to see whether, in fact, their needs can be addressed. I'd encourage any practice thinking of changing its surgery provision to work closely with the local health board, in order to look to see if there is an alternative available that would still provide a service for local people.

Wel, mae'n gwbl hanfodol bod meddygon teulu eu hunain, fel contractwyr hunangyflogedig, yn rhoi digon o rybudd o'u bwriad, ac yn chwilio am ffyrdd i barhau i gynnal gwasanaethau yn ein cymunedau. Yn benodol, mae'n bwysig eu bod yn trafod eu hanghenion gyda'r bwrdd iechyd lleol, i weld a ellir, mewn gwirionedd, rhoi sylw i'w hanghenion. Byddwn yn annog unrhyw bractis sy'n ystyried newid ei ddarpariaeth meddygfa i weithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd lleol, er mwyn edrych i weld a oes dewis arall ar gael a fyddai'n dal i ddarparu gwasanaeth i bobl leol.

13:33

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Mid Wales Healthcare Study explored the challenge facing GPs, and other community services, and I welcome the appointment of Dr Ruth Hall and Jack Evershed as joint chairs of the independent commission that will now take that work forward. But my question is: ahead of the rural health conference in Newtown this Thursday, can you outline what the next steps will be in terms of securing high-quality healthcare for people living in mid Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Brif Weinidog, archwiliodd Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru yr her sy'n wynebu meddygon teulu a gwasanaethau cymunedol eraill, ac rwy'n croesawu penodiad Dr Ruth Hall a Jack Evershed fel cydgadeiryddion y comisiwn annibynnol a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwnnw nawr. Ond fy nghwestiwn i yw: cyn y gynhadledd iechyd gwledig yn y Drenewydd ddydd lau, a allwch chi amlinellu beth fydd y camau nesaf o ran sicrhau gofal iechyd o ansawdd uchel i bobl sy'n byw yn y canolbarth?

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, the conference itself will help to inform the debate, and to inform the future provision of healthcare in the middle of Wales. But, of course, the Mid Wales Healthcare Study provided recommendations on the opportunities and challenges for providing a quality, accessible, safe, and sustainable health service to the population of mid Wales. So, the study is already there, and the conference, of course, will help to inform future service provision.

Wel, wrth gwrs, bydd y gynhadledd ei hun yn helpu i lywio'r drafodaeth, ac i lywio'r ddarpariaeth o ofal iechyd yn y canolbarth yn y dyfodol. Ond, wrth gwrs, darparodd Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru argymhellion ar y cyfleoedd a'r heriau ar gyfer darparu gwasanaeth iechyd hygyrch, diogel, cynaliadwy ac o ansawdd da i boblogaeth y canolbarth. Felly, mae'r astudiaeth yno eisoes, a bydd y gynhadledd, wrth gwrs, yn helpu i lywio darpariaeth y gwasanaeth yn y dyfodol.

- 13:34 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, one of the problems that is occurring more frequently in parts of rural Wales is that, as a result of the erosion of the minimum practice income guarantee, as a result of the negotiations with the British Medical Association and others, it's becoming more difficult to sustain small, very small, rural practices in particular. What work are you going to do as a Government to work with the GP profession to ensure that there is adequate access to services for those communities that might lose out as a result of some of these changes?
- Brif Weinidog, un o'r problemau sy'n codi'n amlach mewn rhannau o Gymru wledig, o ganlyniad i erydu'r warant isafswm incwm practis, o ganlyniad i'r trafodaethau gyda Chymdeithas Feddygol Prydain ac eraill, mae'n dod yn fwy anodd cynnal meddygfeydd bychain, bychain iawn, yng nghefn gwlad yn enwedig. Pa waith ydych chi'n mynd i'w wneud fel Llywodraeth i weithio gyda'r proffesiwn meddygon teulu i sicrhau bod mynediad digonol at wasanaethau ar gael i'r cymunedau a allai ddioddef o ganlyniad i rai o'r newidiadau hyn?
- 13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, the Member will know, of course, that the Assembly's own Audit Committee expressed some reservations over this particular aspect—the minimum payment guarantee. And he will know that the current GP contract that's been agreed was agreed between Government and with representatives of the profession—in good spirit, that much is true. Any changes, I understand, will take place over seven years, so there's ample time to adapt to the new system, and I'd encourage all GP practices, if they feel that they may have a difficulty with this, to talk to the local health board, and of course, to plan for the changes that their representatives have agreed with Government.
- Wel, bydd yr aelod yn gwybod, wrth gwrs, bod Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad ei hun wedi mynegi rhai amheuan am yr agwedd benodol hon—y warant isafswm incwm. A bydd yn gwybod bod y contract meddygon teulu presennol sydd wedi'i gytuno, wedi'i gytuno rhwng y Llywodraeth a chynrychiolwyr o'r proffesiwn—gydag ewyllys da, mae cymaint â hynny'n wir. Rwy'n deall y bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud dros saith mlynedd, felly mae digon o amser i addasu i'r system newydd, a byddwn yn annog pob meddygfa deulu, os ydynt yn teimlo y gallent gael anhawster gyda hyn, i siarad â'r bwrdd iechyd lleol, ac wrth gwrs, i gynllunio ar gyfer y newidiadau y mae eu cynrychiolwyr wedi eu cytuno â'r Llywodraeth.
- 13:35 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- First Minister, the sustainability agreement that has been reached between the General Practitioners Committee (Wales) and the Welsh Government, as announced last week, provides a real opportunity for the people of Llanwrtyd Wells to maintain their practice, their surgery, in that particular location. When will doctors be able to make a risk matrix application to the sustainability fund to be judged as to whether they can receive support to maintain services in areas such as Llanwrtyd?
- Brif Weinidog, mae'r cytundeb cynaliadwyedd a wnaed rhwng Pwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol (Cymru) a Llywodraeth Cymru, fel y cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn cynnig cyfle gwirioneddol i bobl Llanwrtyd gadw eu practis, eu meddygfa, yn y lleoliad penodol hwnnw. Pryd fydd meddygon yn gallu gwneud cais matrices risg i'r gronfa gynaliadwyedd i gael dyfarniad o ba un a allan nhw gael cymorth i gadw gwasanaethau mewn ardaloedd fel Llanwrtyd?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I'm familiar with the situation in Llanwrtyd, not least because of the fact that I was there on Saturday, and so had the opportunity to discuss some of the issues. I wasn't canvassing, I can assure the Member, but I was in Llanwrtyd nevertheless and discussed the issue with people there. In terms of what's happening in Llanwrtyd, I know the LHB have recently met with the practice to discuss some further income-generating initiatives. Those discussions are positive, I understand, in any event. There is, I understand, cautious optimism in terms of developing an agreeable solution, and I hope, given the views that were expressed to me on Saturday, that that much is correct.
- Rwy'n gyfarwydd â'r sefyllfa yn Llanwrtyd, yn enwedig oherwydd y ffaith fy mod i yno ddydd Sadwrn, ac felly cefais gyfle i drafod rhai o'r materion. Nid oeddwn i'n canfasio, gallaf sicrhau'r aelod, ond roeddwn i yn Llanwrtyd serch hynny a thrafodais y mater gyda'r bobl yno. O ran yr hyn sydd yn digwydd yn Llanwrtyd, gwn fod y BILI wedi cyfarfod â'r practis yn ddiweddar i drafod rhai mentrau ychwanegol i gynhyrchu incwm. Mae'r trafodaethau hynny'n gadarnhaol, rwy'n deall, beth bynnag. Rwy'n deall bod lle i fod yn lled obeithiol o ran gallu datblygu ateb derbyniol, a gobeithiaf, o ystyried y safbwyntiau a fynegwyd wrthyf i ddydd Sadwrn, bod cymaint â hynny'n wir.

13:36

Gwenda Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, do you agree with me that it is a positive move that Abertawe Bro Morgannwg and Hywel Dda health boards are co-operating to seek to provide cross-border primary care services in the Upper Amman and Swansea valleys? Do you also concur with me that social services and the third sector must also co-operate in a similar fashion and be equal partners with the health boards?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi ei fod yn gam cadarnhaol bod byrddau iechyd Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda yn cydweithredu i geisio darparu gwasanaethau gofal sylfaenol traws-ffiniol yng Nghymoedd Aman Uchaf ac Abertawe? A ydych chi hefyd yn cytuno â mi bod yn rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector gydweithredu mewn ffordd debyg hefyd a bod yn bartneriaid cyfartal â'r byrddau iechyd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Absolutely. She will know that I'm more than familiar with the communities that she's describing, particularly the communities of lower Brynaman, of Gwauncaegurwen, Cwm-gors and Tairgwaith, which are in Neath Port Talbot but are often serviced from Carmarthenshire and have Carmarthenshire postal addresses, as she will know. Collaboration between the health boards is particularly important, and I understand there have been some positive moves in that regard. As far as social services are concerned, then, obviously, there must be co-operation between social services on both sides of the county boundary, and of course, they need to work with the local health boards in order to provide seamless care. As she will know, quite often, social care provision is provided effectively across the county border, and is made available then to those living on the other side. In an area like the Upper Amman valley, where the county follows the Amman river, it's absolutely crucial, of course, that communities are able to access services whichever side of the county boundary they live.

Yn sicr. Bydd hi'n gwybod fy mod i'n fwy na chyfarwydd â'r cymunedau y mae hi'n eu disgrifio, yn enwedig cymunedau Brynaman Isaf, Gwauncaegurwen, Cwm-gors a Thairgwaith, sydd yng Nghastell-nedd Port Talbot ond sy'n aml yn cael eu gwasanaethu o Sir Gaerfyrddin ac sydd â chyfeiriadau post Sir Gaerfyrddin, fel y gŵyr hi. Mae cydweithredu rhwng y byrddau iechyd yn arbennig o bwysig, ac rwy'n deall y bu rhai camau cadarnhaol yn hynny o beth. Cyn belled ag y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn y cwestiwn, yna, yn amlwg, mae'n rhaid cael cydweithredu rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ar ddwy ochr y ffin sirol, ac wrth gwrs, mae angen iddyn nhw weithio gyda'r byrddau iechyd lleol er mwyn darparu gofal di-dor. Fel y bydd hi'n gwybod, yn aml iawn, darperir y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn effeithiol ar draws y ffin sirol, ac yna sicrhair ei bod ar gael i'r rhai sy'n byw ar ochr arall. Mewn ardal fel Cwm Aman Uchaf, lle mae'r sir yn dilyn afon Aman, mae'n hollol hanfodol, wrth gwrs, bod cymunedau'n gallu cael mynediad at wasanaethau pa bynnag ochr i'r ffin sirol y maen nhw'n byw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Ymweliad Dug Caergrawnt â Tsieina

The Duke of Cambridge's Visit to China

13:37

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y bu Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i hyrwyddo Cymru yn ystod ymweliad Dug Caergrawnt â Tsieina? OAQ(4)2164(FM)

2. Will the First Minister outline Welsh Government collaboration with the UK Government to promote Wales during the visit to China by the Duke of Cambridge? OAQ(4)2164(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. As part of the UK-China Year of Culture, which the Duke of Cambridge launched during his visit to China, the Welsh Government office in Chongqing has been working closely with the British Council to arrange a series of performances by Welsh musicians in three Chinese cities. I can say that the Duke visited the Welsh Government office in Shanghai, and, indeed, spent some time with our representative discussing what Wales could offer to inward investors and tourists from China.

Gwnaf. Yn rhan o Flwyddyn Diwylliant y DU-Tsieina, a lansiwyd gan Ddug Caergrawnt yn ystod ei ymweliad â Tsieina, mae Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Chongqing wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r British Council i drefnu cyfres o berfformiadau gan gerddorion o Gymru mewn tair dinas yn Tsieina. Gallaf ddweud bod y Dug wedi ymweld â Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Shanghai, ac, yn wir, wedi treulio cryn amser gyda'n cynrychiolydd yn trafod beth allai Gymru ei gynnig i fewnfuddsoddwyr a thwristiaid o Tsieina.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your reply, First Minister. You will know that the suggestion is that Chinese outward global investment for the next five years could grow from something like £65 billion to over £300 billion. I'm sure you agree that Wales must be a part of that. How can you accomplish this?

Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod mai'r awgrym yw y gallai allfuddsoddiad byd-eang Tsieina dyfu o ryw beth fel £65 biliwn i dros £300 biliwn yn ystod y pum mlynedd nesaf. Rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno bod yn rhaid i Gymru fod yn rhan o hynny. Sut y gallwch chi gyflawni hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have our representative offices, of course, in China, and they work very closely with UK Trade and Investment, as Members would expect. On my visit to China some years ago, the kind of investments that China were looking to make tended to be very large investments: in the billions of pounds rather than the millions. That seems to have changed now because there are relatively few projects in Wales that fit that pattern. Nevertheless, good work is being done by our representatives, and indeed, the UKTI, working with the Chinese authorities, and much work has been done in terms of building up the cultural links and also, of course, looking at attracting Chinese tourists into Wales.

Mae ein swyddfeydd cynrychioladol gennym ni, wrth gwrs, yn Tsieina, ac maen nhw'n gweithio'n agos iawn gyda Masnach a Buddsoddi y DU, fel y byddai'r Aelodau'n ei ddisgwyl. Yn ystod fy ymweliad i â Tsieina rai blynyddoedd yn ôl, roedd y math o fuddsoddiadau yr oedd Tsieina'n dymuno eu gwneud yn tueddu i fod yn fuddsoddiadau mawr iawn: yn y biliynau o bunnoedd yn hytrach na'r miliynau. Mae'n ymddangos bod hynny wedi newid erbyn hyn gan mai cymharol brin yw'r prosiectau yng Nghymru sy'n cyd-fynd â'r patrwm hwnnw. Serch hynny, mae gwaith da'n cael ei wneud gan ein cynrychiolwyr, ac yn wir, Masnach a Buddsoddi y DU, gan weithio gydag awdurdodau Tsieina, a gwnaed llawer o waith o ran datblygu'r cysylltiadau diwylliannol a hefyd, wrth gwrs, i geisio denu twristiaid Tsieineaidd i mewn i Gymru.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In May 2013, the Welsh Government signed a memorandum of understanding with UKTI to improve the promotion of Wales in UK Government-led visits and events internationally. So, what increase year-on-year has there been in the number of leads created through UKTI-led visits since that MOU was signed?

Ym mis Mai 2013, llofnododd Llywodraeth Cymru femorandwm o ddealltwriaeth gyda Masnach a Buddsoddi y DU i wella'r gwaith o hyrwyddo Cymru mewn ymweliadau dan arweiniad Llywodraeth y DU a digwyddiadau rhyngwladol. Felly, pa gynnydd fu o fwyddyn i fwyddyn o ran nifer y cysylltiadau a grëwyd trwy ymweliadau dan arweiniad Masnach a Buddsoddi y DU ers llofnodi'r femorandwm o ddealltwriaeth hwnnw?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Some leads are UKTI leads, some are Welsh Government leads, and some are leads that are generated as a result of trade missions or ministerial visits. There's a mixture. We don't see this as a competition between us and the UKTI. In many instances, we've relocated our staff in UKTI offices. We believe that's the best way forward as far as Wales is concerned, and the two organisations working together are often able to generate leads as far as investment possibilities are concerned.

Mae rhai cysylltiadau'n gysylltiadau Masnach a Buddsoddi y DU, mae rhai'n gysylltiadau Llywodraeth Cymru, ac mae rhai'n gysylltiadau a gynhyrchir yn sgîl teithiau masnach neu ymweliadau gweinidogol. Ceir cymysgedd. Nid ydym ni'n gweld hyn fel cystadleuaeth rhyngom ni a Masnach a Buddsoddi y DU. Mewn llawer o achosion, rydym ni wedi adleoli ein staff mewn swyddfeydd Masnach a Buddsoddi y DU. Rydym ni'n credu mai dyna'r ffordd orau ymlaen cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn, ac mae'r ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd yn aml yn gallu cynhyrchu cysylltiadau cyn belled ag y mae posibiladau buddsoddi yn y cwestiwn.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from party leaders. First this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau nawr. Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

Diolch, Lywydd. First Minister, I'm sure that nearly all Assembly Members in this Chamber will have had casework from people in areas relating to the funding of, and availability of, new drugs and treatments. Now, the Minister for Health and Social Services has said, and I quote:

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, rwy'n siŵr y bydd bron bob un o aelodau'r Cynulliad yn y Siambr hon wedi cael gwaith achos gan bobl mewn ardaloedd sy'n ymwneud ag ariannu cyffuriau a thriniaethau newydd a pha un a yw'r rhain ar gael. Nawr, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud, ac rwy'n dyfynnu:

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

'It is not acceptable to me that we have decisions being made in identical circumstances but made differently between one health board and another.'

I take it, First Minister, that you agree with your health Minister, so I wonder whether you could tell us what you intend to do about it, please.

Nid yw'n dderbyniol i mi bod gennym ni benderfyniadau yn cael eu gwneud mewn amgylchiadau sy'n union yr un fath ond yn cael eu gwneud yn wahanol rhwng un bwrdd iechyd a'r llall.

Rwy'n cymryd, Brif Weinidog, eich bod yn cytuno â'ch Gweinidog iechyd, felly tybed a allech chi ddweud wrthym beth yr ydych chi'n bwriadu ei wneud am hyn, os gwelwch yn dda.

13:40

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, there is an issue in terms of consistency of decision making when it comes to individual patient funding requests. As a result of the review that we undertook, it is our intention to make sure there is greater consistency there. We have looked at the idea of a national panel, but there is a question mark over whether that panel would be able to get through the requests as quickly as we would want. Nevertheless, consistency will be crucial in the future. We can't have a situation in the future—and we've seen them—where people cannot get access to one drug in one part of Wales but can in another. That consistency is going to be important.

Oes, mae problem o ran cysondeb y penderfyniadau a wneir pan ddaw i geisiadau cyllido gan gleifion unigol. O ganlyniad i'r adolygiad a gynhaliwyd gennym, ein bwriad yw gwneud yn siŵr bod mwy o gysondeb yno. Rydym ni wedi edrych ar y syniad o banel cenedlaethol, ond mae marc cwestiwn ynghylch a fyddai'r panel hwnnw'n gallu mynd drwy'r ceisiadau mor gyflym ag y byddem ni'n dymuno. Serch hynny, bydd cysondeb yn hollbwysig yn y dyfodol. Ni allwn gael sefyllfa yn y dyfodol—ac rydym ni wedi eu gweld—lle na all pobl gael mynediad at un cyffur mewn un rhan o Gymru ond eu bod yn gallu mewn un arall. Mae'r cysondeb hwnnw'n mynd i fod yn bwysig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:40

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There was a review of the IPFR process, but there are still concerns, First Minister, that this will not result in a national and consistent process for patients. The continued use of exceptionality criteria and stand-alone LHB panels will still lead to a postcode lottery on new drugs and treatment. Can you therefore confirm that decisions on these matters will still be made primarily by health boards?

Cafwyd adolygiad o'r broses IPFR, ond ceir pryderon o hyd, Brif Weinidog, na fydd hyn yn arwain at broses genedlaethol a chyson i gleifion. Bydd parhau i ddefnyddio meini prawf eithriadoldeb a phaneli BILL annibynnol yn dal i arwain at loteri cod post ar gyffuriau a thriniaethau newydd. A allwch chi gadarnhau felly y bydd penderfyniadau ar y materion hyn yn dal i gael eu gwneud gan fyrddau iechyd yn bennaf?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The decisions will be made by clinicians. That's the important part here. IPFR requests are dealt with by clinicians. They're not dealt with by politicians. They're not dealt with by those working in local health boards on their own. That much is important. That clinical input is absolutely crucial. She makes a good point though, because, with regard to the IPFR review process, achieving that greater level of consistency is something that we are looking to do. She is right to point out that there have been instances in Wales where people have had access to drugs in one part of Wales but not in another. Now, that must be eliminated, that much is true, and the IPFR review has allowed us to move to a situation where that consistency can be enforced.

Bydd y penderfyniadau'n cael eu gwneud gan glinigwyr. Dyna'r rhan bwysig yn y fan yma. Ymdrinnir â cheisiadau IPFR gan glinigwyr. Ni ymdrinnir â nhw gan wleidyddion. Ni ymdrinnir â nhw gan y rhai sy'n gweithio mewn byrddau iechyd lleol ar eu pennau eu hunain. Mae cymaint â hynny'n bwysig. Mae'r mewnbwn clinigol hwnnw'n gwbl hanfodol. Ond mae hi'n gwneud pwynt da o ran proses adolygu IPFR, mae sicrhau'r lefel uwch hwnnw o gysondeb yn rhywbeth yr ydym yn ceisio ei wneud. Mae hi'n iawn i nodi y bu enghreifftiau yng Nghymru lle mae pobl wedi cael mynediad at gyffuriau mewn un rhan o Gymru ond nid mewn rhan arall. Nawr, mae'n rhaid rhoi terfyn ar hynny, mae cymaint â hynny'n wir, ac mae'r adolygiad IPFR wedi caniatáu i ni symud i sefyllfa lle gellir gorfodi'r cysondeb hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, it's disappointing, First Minister, that you remain unable to assure patients that the postcode lottery will be abolished. Another element linked to this, of course, is the new rebate under the pharmaceutical price regulations scheme on new drugs and treatments. Now, the Government could end the postcode lottery by introducing a national decision-making panel on new drugs and treatments, and resourcing the decisions through the new rebate. Will the Welsh Government take the opportunity to ring-fence this rebate for new drugs and treatments?
- Wel, mae'n siomedig, Brif Weinidog, eich bod yn dal i fod ddim yn gallu sicrhau cleifion y bydd y loteri cod post yn cael ei dileu. Efen arall sy'n gysylltiedig â hyn, wrth gwrs, yw'r ad-daliad newydd dan y cynllun rheoliadau prisiau fferyllol ar gyffuriau a thriniaethau newydd. Nawr, gallai'r Llywodraeth roi terfyn ar y loteri cod post trwy gyflwyno panel gwneud penderfyniadau cenedlaethol ar gyffuriau a thriniaethau newydd, a darparu adnoddau ar gyfer y penderfyniadau trwy'r ad-daliad newydd. A wnaiff Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle i glustnodi'r ad-daliad hwn ar gyfer cyffuriau a thriniaethau newydd?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, first of all, we've already had one element of payment—£4 million in the last quarter. That's already been spent within the Welsh NHS, and part of the money will be used to make available orphan and ultra-orphan drugs as the terminology has it. Now, I did note the announcement that was made by Plaid Cymru during the course of their conference. I saw the announcement about a ring-fenced general treatment fund, I think it's fair to say, without the need to demonstrate exceptionality. It's very difficult to comment on it because, if there is no need to demonstrate exceptionality, the only other way of doing it is first-come, first-served, unless there are other criteria that are going to be imposed. So, as far as we are concerned, we await to see more details in terms of how that would operate before commenting on it, but I'm certainly with her in terms of saying that, as far as the postcode lottery within Wales is concerned, the IPFR review gives us the opportunity now to look to eliminate it.
- Wel, yn gyntaf oll, rydym ni wedi cael un elfen o'r taliad eisoes—£4 miliwn yn y chwarter diwethaf. Mae hwnnw wedi cael ei wario eisoes yn y GIG yng Nghymru, a bydd rhan o'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i wneud cyffuriau amddifad a thra-amddifad, fel y mae'r derminoleg yn ei nodi, ar gael. Nawr, nodais y cyhoeddiad a wnaethpwyd gan Blaid Cymru yn ystod eu cynhadledd. Gwelais y cyhoeddiad am gronfa triniaeth gyffredinol wedi'i chlustnodi, rwy'n credu ei bod yn deg dweud, heb yr angen i ddangos eithriadoldeb. Mae'n anodd iawn cynnig sylw arno oherwydd, os nad oes angen dangos eithriadoldeb, yr unig ffordd arall o wneud hynny yw ar sail y cyntaf i'r felin, oni bai fod meini prawf eraill yn mynd i gael eu gorfodi. Felly, cyn belled ag yr ydym ni yn y cwestiwn, rydym ni'n aros i weld mwy o fanylion o ran sut y byddai hynny'n gweithredu cyn cynnig sylw arno, ond rwy'n sicr yn cytuno â hi o ran dweud, cyn belled ag y mae'r loteri cod post yng Nghymru yn y cwestiwn, bod yr adolygiad o'r IPFR yn rhoi'r cyfle i ni geisio cael gwared arno erbyn hyn.
- 13:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Can we move now to the leader of the Welsh Democrats, Kirsty Williams?
- A gawn ni symud nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams?
- 13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Thank you, Presiding Officer. First Minister, yesterday saw the publication of Professor John Furlong's report into teacher training in Wales. It's another week and another critical report on the state of education under your Government. Could you outline to the Chamber today what steps you will take to improve the quality of teacher training in Wales?
- Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddwyd adroddiad yr Athro John Furlong ar hyfforddiant athrawon yng Nghymru ddoe. Dyma wythnos arall ac adroddiad beirniadol arall ar gyflwr addysg dan eich Llywodraeth chi. A allech chi amlinellu i'r Siambr heddiw pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i wella ansawdd hyfforddiant athrawon yng Nghymru?
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- [Inaudible.]—this is a report that we ourselves commissioned. We wanted to make sure that the future provision of teacher training was right as far as Wales is concerned. I don't accept that it's another critical report of the Government, seeing as the Government itself commissioned the report, but it is important that we get teacher training right in the future.
- [Anghlywadwy.]—mae hwn yn adroddiad a gomisiynwyd gennym ni ein hunain. Roeddem ni eisiau gwneud yn siŵr bod y ddarpariaeth o hyfforddiant athrawon yn y dyfodol yn iawn cyn belled ag y mae Cymru yn y cwestiwn. Nid wyf yn derbyn ei fod yn adroddiad beirniadol arall o'r Llywodraeth, o ystyried mai'r Llywodraeth ei hun gomisiynodd yr adroddiad, ond mae'n bwysig ein bod yn cael hyfforddiant athrawon yn iawn yn y dyfodol.

- 13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You're right—you keep on commissioning these reports, First Minister, and they keep telling you the same thing: you're not doing well enough. The report highlights how the current arrangements fall well short of the standards that will be required if your Government implements the changes to the curriculum recommended by the Donaldson review. If we want to achieve a world-class education system, we need to make sure we have the very best teachers delivering the very best curriculum. Would you guarantee today that any changes to the curriculum will happen in conjunction with an overhaul of the way in which we train our teachers?
- Rydych chi'n iawn—rydych chi'n parhau i gomisiynu'r adroddiadau hyn, Brif Weinidog, ac maen nhw'n parhau i ddweud yr un peth wrthyh chi: nid ydych chi'n gwneud yn ddigon da. Mae'r adroddiad yn amlygu sut y mae'r trefniadau presennol ymhell ar ôl y safonau a fydd yn ofynnol os bydd eich Llywodraeth yn gweithredu'r newidiadau i'r cwricwlwm a argymhellwyd gan adolygiad Donaldson. Os ydym ni eisiau sicrhau system addysg sydd ymhlith goreuon y byd, mae angen i ni sicrhau bod yr athrawon gorau gennym yn darparu'r cwricwlwm gorau. A wnewch chi sicrhau i ni heddiw y bydd unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm yn digwydd ar y cyd ag ailwampio'r ffordd yr ydym ni'n hyfforddi ein hathrawon?
- 13:45 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, yes, that's stunningly obvious, I would have thought. You want me to make sure that, as we develop a new curriculum that's most appropriate for Wales, we have the teachers trained to deliver that curriculum; that stands to reason.
- Wel, gwnaf, mae hynny'n syfrdanol o amlwg, mi fyddwn i wedi meddwl. Rydych chi eisiau i mi wneud yn siŵr, wrth i ni ddatblygu cwricwlwm newydd sydd fwyaf priodol i Gymru, bod gennym yr athrawon wedi eu hyfforddi i ddarparu'r cwricwlwm hwnnw; mae hynny'n sefyll i reswm.
- 13:45 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I'm glad that we have some kind of logic in your education policy going forward. The way to make sure that we attract the very best teachers into the profession is to ensure that teaching is held in the highest regard and that the highest quality candidates will be attracted to courses that are seen to be the very best they can be and academically rigorous. Professor Furlong recommends that the current primary BA is replaced with a four-year course where 50% of students' time is spent in main subject departments. Will you make sure that teachers educated in Wales benefit from the academic excellence needed, and agree to move to a four-year course?
- Wel, rwy'n falch bod gennym ni ryw fath o resymeg yn eich polisi addysg wrth symud ymlaen. Y ffordd o wneud yn siŵr ein bod yn denu'r athrawon gorau i'r proffesiwn yw sicrhau y ceir y parch uchaf posibl at addysgu ac y bydd ymgeiswyr o'r radd flaenaf yn cael eu denu i gyrsiau yr ystyrir eu bod y gorau y gallan nhw fod ac yn academiaidd drwyadl. Mae'r Athro Furlong yn argymhell y dylid disodli'r BA sylfaenol cyfredol gyda chwrs pedair blynedd lle y caiff 50% o amser myfyrwyr ei dreulio mewn adrannau prif bynciau. A wnewch chi sicrhau bod athrawon a addysgir yng Nghymru yn elwa o'r rhagoriaeth academiaidd sydd ei hangen, a chytuno i symud i gwrs pedair blynedd?
- 13:46 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Of course, this is one of the issues that we're considering. We're not responding to the Furlong review today, but it's absolutely right to say that we want to make sure that teachers are as comprehensively trained as possible. I, for one, hold teachers in high regard as the son of two teachers, and something which certainly I very much valued. So, what we have is a curriculum review looking to provide the best curriculum for Wales, a review looking at teacher training to provide the best levels of teacher training for Wales, and that is precisely what we intend to do, which is why we commissioned the reviews in the first place.
- Mae hwn yn un o'r materion yr ydym ni'n eu hystyried, wrth gwrs. Nid ydym ni'n ymateb i adolygiad Furlong heddiw, ond mae'n hollol gywir i ddweud ein bod eisiau gwneud yn siŵr bod athrawon yn cael eu hyfforddi mewn ffordd mor gynhwysfawr â phosibl. Mae gennyf i yn un y parch mwyaf i athrawon fel mab dau o athrawon, ac yn rhywbeth yr oeddwn i'n sicr yn ei werthfawrogi. Felly, yr hyn sydd gennym ni yw adolygiad cwricwlwm sy'n ceisio darparu'r cwricwlwm gorau i Gymru, adolygiad sy'n edrych ar hyfforddiant athrawon i ddarparu'r lefelau gorau o hyfforddiant athrawon i Gymru, a dyna'n union yr ydym ni'n bwriadu ei wneud, a dyna pam y gwnaethom ni gomisiynu'r adolygiadau yn y lle cyntaf.
- 13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- And finally, the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.
- Ac yn olaf, arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:46 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition
Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, yesterday, figures came forward that showed that, in the last couple of years, there's been 100,000 incidents of medical mishaps in hospitals, costing in negligence claims £210 million. One health board, for example, has had six never events reported in one calendar year. Do you believe that there should be a statutory obligation placed on health boards to inform patients and families when these events occur?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, cyhoeddwyd ffigurau ddoe a ddangosodd y bu, yn y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, tua 100,000 o achosion o ddamweiniau meddygol mewn ysbytai, yn costio £210 miliwn mewn hawliadau esgeulustod. Mewn un bwrdd iechyd, er enghraifft, hysbyswyd am chwe digwyddiad mewn un flwyddyn galendr. A ydych chi'n credu y dylid cyflwyno ymrwymiad statudol ar fyrdau iechyd i hysbysu cleifion a theuluoedd pan fydd y digwyddiadau hyn yn digwydd?

13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, where events do happen, I expect families to be informed—of course I would expect that to happen. Let's put this in context. I've seen the media story that states that more than 100,000 patients have been at least injured by medical blunders, as it was put, since 2010. There are 20 million hospital-based contacts—let's put it into that context—but it's still too many; I don't try and belittle it in any way. But, I would remind Members that Wales was at the forefront of the campaign to improve transparency, as was visible in the 1000 Lives Plus campaign, and mortality information has been a key component of quality improvement in NHS Wales for almost a decade. So, I would expect healthcare providers to be as open as possible with families.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Yn gyntaf oll, pan fydd digwyddiadau yn digwydd, rwy'n disgwyl i deuluoedd gael eu hysbysu—wrth gwrs y byddwn i'n disgwyl i hynny ddigwydd. Gadewch i ni roi hyn yn ei gyd-destun. Rwyf wedi gweld y stori yn y cyfryngau sy'n datgan bod mwy na 100,000 o gleifion wedi cael o leiaf eu hanafu gan gamgymeriadau meddygol, fel y'u galwyd, ers 2010. Ceir 20 miliwn o gysylltiadau mewn ysbytai—gadewch i ni ei roi yn y cyd-destun hwnnw—ond mae'n dal i fod yn ormod; nid wyf yn ceisio ei fychanu mewn unrhyw ffordd. Ond, byddwn yn atgoffa'r Aelodau bod Cymru ar flaen y gad yn yr ymgyrch i wella tryloywder, fel oedd yn amlwg yn yr ymgyrch 1000 o Fwydau a Mwy, ac mae gwybodaeth am farwolaethau wedi bod yn elfen allweddol o wella ansawdd y GIG yng Nghymru ers bron i ddegawd. Felly, byddwn yn disgwyl i ddarparwyr gofal iechyd fod mor agored â phosibl gyda theuluoedd.

13:48 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you for that, First Minister, and I do take that point that, when you look at all the procedures across the NHS, this is a relatively small number, but still a significant number of poor procedures, with the devastating consequences those procedures have led to—allegations against medical staff, and, in particular, claims against health boards. But, I think we'd all have the expectation that families and patients would be informed when something goes wrong, but the evidence clearly points to the fact that that is not always the case. And, in fact, increasingly, that information is being withheld from patients and families. So, I think it's quite a simple question to say, 'Do you not think, like other parts of the United Kingdom, we here in Wales should have the same statutory footing, because, ultimately then, there would be the guarantee in law that patients and families would have that information?'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog, ac rwy'n derbyn y pwynt, pan edrychwch chi ar yr holl driniaethau ar draws y GIG, mai nifer cymharol fychan yw hwn, ond mae'n dal i fod yn nifer sylweddol o driniaethau gwael, ynghyd â'r canlyniadau dychrynlyd y mae'r triniaethau hynny wedi arwain atynt—honiadau yn erbyn staff meddygol, ac, yn benodol, hawliadau yn erbyn byrdau iechyd. Ond, rwy'n credu y byddai gennym ni oll y disgwyliad y byddai teuluoedd a chleifion yn cael eu hysbysu pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le, ond mae'r dystiolaeth yn nodi'n amlwg y ffaith nad yw hynny'n digwydd bob amser. Ac, a dweud y gwir, fwyfwy, bod gwybodaeth yn cael ei chadw'n ôl oddi wrth gleifion a theuluoedd. Felly, rwy'n credu ei fod yn gwestiwn eithaf syml i ddweud, 'Onid ydych chi'n credu, fel rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, y dylai fod gennym ni yma yng Nghymru yr un sail statudol, oherwydd, yn y pen draw wedyn, byddai'r sicrwydd yn y gyfraith y byddai cleifion a theuluoedd yn cael y wybodaeth honno?'

13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I do not think it is something that I would be opposed to in principle, and we'd have to see how that would work in practice. But, anything that can be done to improve transparency, where it's felt that transparency isn't as clear as it should be, is certainly something as a Government we'd look to consider.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Nid wyf yn credu ei fod yn rhywbeth y byddwn yn ei wrthwynebu mewn egwyddor, a byddai'n rhaid i ni weld sut y byddai hynny'n gweithio'n ymarferol. Ond, yn sicr, mae unrhyw beth y gellir ei wneud i wella tryloywder, lle teimlir nad yw tryloywder mor eglur ag y dylai fod, yn rhywbeth y byddem yn dymuno ei ystyried fel Llywodraeth.

13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for that relative endorsement of bringing forward some sort of statutory procedure that would ultimately guarantee that information to patients and families, and I hope that you will come forward in a timely manner with the way that you're going to take that forward. But how, in response to these figures—obviously, £210 million has been paid out in recent years in litigation—. That would have employed 9,000 nurses or 2,500 consultants. They are eye-watering figures, and given the scale of the NHS, regrettably there will always be some poor practice. None of us want to see that, but regrettably there will always be an element of poor practice. What efforts are the Welsh Government making to work with health boards to make sure that these figures are as low as possible, and that, ultimately, patients and clinicians are supported when these things do go wrong?

Rwy'n ddiolchgar am y gymeradwyaeth gymharol yna i gyflwyno rhyw fath o weithdrefn statudol a fyddai'n sicrhau'r wybodaeth honno i gleifion a theuluoedd yn y pen draw, ac rwy'n gobeithio y byddwch chi'n cyflwyno'n brydlon y ffordd yr ydych chi'n mynd i fwrw ymlaen â hynny. Ond sut, gan ymateb i'r ffigurau hyn—yn amlwg, talwyd £210 miliwn allan ar gyfer ymgyfreitha yn y blynyddoedd diwethaf—. Byddai hynny wedi cyflogi 9,000 o nyrsys neu 2,500 o ymgynghorwyr. Mae'r rhain yn ffigurau anhygoel, ac o gofio maint y GIG, bydd rhywfaint o arfer gwael bob amser yn anffodus. Nid oes unrhyw un ohonom ni eisiau gweld hynny, ond bydd elfen o arfer gwael bob amser yn anffodus. Pa ymdrechion mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i weithio gyda byrddau iechyd i wneud yn siŵr bod y ffigurau hyn mor isel â phosibl, ac, yn y pen draw, bod cleifion a chlinigwyr yn cael eu cefnogi pan fydd y pethau hyn yn mynd o chwth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We expect local health boards, of course, to take the right steps to make sure that the possibility of accidents or incidents is minimised. I have to say, from personal experience in a previous life before I came here, that it is important that, where it's felt that a claim is not a strong claim, in fact, it's resisted. There is a tendency, sometimes, to settle; that's a natural tendency and, sometimes, settlements are made when, perhaps, the claim is not as strong as it might be. It's important, of course, that local health boards assess the risks of a claim going to court that's impossible, but also, of course, support medical staff, particularly where there are instances where it's felt that the claim isn't a strong one at all. It's for local health boards to decide whether, in fact, they should resist claims and I would encourage them to do so if they feel that that is the right thing to do, rather than looking, necessarily, to settle at the earliest opportunity where that's not appropriate.

Rydym ni'n disgwyl i fyrddau iechyd lleol, wrth gwrs, gymryd y camau cywir i wneud yn siŵr bod cyn lleied o bosibilrwydd o ddamweiniau neu ddigwyddiadau â phosibl. Mae'n rhaid i mi ddweud, o brofiad personol, mewn bywyd blaenorol cyn i mi ddod yma, ei bod yn bwysig, lle teimlir nad yw hawliad yn hawliad cryf, ei fod, mewn gwirionedd, yn cael ei wrthwynebu. Ceir tuedd, weithiau, i setlo; dyna'r tueddiad naturiol ac, weithiau, cytunir ar setliadau lle, efallai, nad yw'r hawliad mor gryf ag y gallai fod. Mae'n bwysig, wrth gwrs, bod byrddau iechyd lleol yn asesu'r peryglon y bydd hawliad sy'n amhosibl yn mynd i'r llys, ond hefyd, wrth gwrs, yn cefnogi staff meddygol, yn enwedig lle ceir achosion pan deimlir nad yw'r hawliad yn un cryf o gwbl. Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol yw penderfynu a ddylent, mewn gwirionedd, wrthwynebu hawliadau a byddwn yn eu hannog i wneud hynny os ydynt yn teimlo mai dyna'r peth iawn i'w wneud, yn hytrach na cheisio, o reidrwydd, setlo ar y cyfle cynharaf pan nad yw hynny'n briodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move back to questions on the order paper.
Question 3—Janet Finch-Saunders.

Symudwn yn ôl at gwestiynau ar y papur trefn nawr.
Cwestiwn 3—Janet Finch-Saunders.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Gwasanaethau Mamolaeth

Maternity Services

13:51 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yng Nghymru? OAQ(4)2162(FM)*

3. *Will the First Minister make a statement on maternity services in Wales? OAQ(4)2162(FM)*

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Our 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales', published in September 2011, sets out the Welsh Government's expectations of NHS Wales in delivering safe, sustainable and high-quality maternity services.

Gwnaf. Mae ein 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2011, yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru gan GIG Cymru o ran darparu gwasanaethau mamolaeth diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. Following your comments last week that you had not received a formal request from the community health council for you to intervene in Ysbyty Glan Clwyd and the decision by the board to remove consultant-led maternity services, I wrote immediately to the chief officer, who found your response to be quite bizarre, himself having written to the Minister for health asking him to intervene and commending him on taking forward the matter to a review. However, the CHC's members and officers met with the deputy chief medical officer last week and were advised that it was not a review; they were not considering statistical or clinical evidence and the decision by the health board to move the service could not be altered. First Minister, you have the power, the authority and, I believe, the moral duty to intervene in this process. Will you do this?

Diolch i chi, Brif Weinidog. Yn dilyn eich sylwadau yr wythnos diwethaf nad oeddech chi wedi derbyn cais ffurfiol gan y cyngor iechyd cymuned i chi ymyrryd yn Ysbyty Glan Clwyd a'r penderfyniad gan y Bwrdd i gael gwared ar wasanaethau mamolaeth dan arweiniad ymgynghorwyr, ysgrifennais ar unwaith at y Prif Swyddog, a oedd yn credu fod eich ymateb yn rhyfedd iawn, ar ôl iddo ef ei hun ysgrifennu at y Gweinidog iechyd yn gofyn iddo ymyrryd ac yn ei gymeradwyo am fwrw ymlaen â'r mater i adolygiad. Fodd bynnag, cafodd aelodau a swyddogion y CIC gyfarfod â'r dirprwy brif swyddog meddygol yr wythnos diwethaf ac fe'u hysbyswyd nad adolygiad oedd hwn; nid oedden nhw'n ystyried tystiolaeth ystadegol na chlinigol ac ni ellid newid y penderfyniad gan y bwrdd iechyd i symud y gwasanaeth. Brif Weinidog, mae gennych chi'r grym, yr awdurdod ac, rwy'n credu, y ddyletswydd foesol i ymyrryd yn y broses hon. A wneuch chi hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The proper procedure has now been followed and, of course, we will take on board the CHC's comments. I think it's right just to expand a little on this point. The deputy chief medical officer and the chief nursing officer have been to the department and have looked at the situation there. It is not easy reading; Members will see the report that they have produced. There are no trainees there. They complain about the quality of their training, so they will not go back there. There is a real problem in recruiting middle-grade doctors, apart from locums, because of the difficult reputation that the department now has because of the two reports.

Mae'r weithdrefn briodol wedi'i dilyn bellach ac, wrth gwrs, byddwn yn ystyried sylwadau'r CIC. Rwy'n credu ei bod yn iawn i ymhelaethu ychydig ar y pwynt hwn. Mae'r dirprwy brif swyddog meddygol a'r prif swyddog nyrsio wedi bod yn yr adran ac wedi edrych ar y sefyllfa yno. Nid yw'n hawdd ei ddarllen; bydd yr Aelodau'n gweld yr adroddiad a gynhyrchwyd ganddyn nhw. Nid oes unrhyw hyfforddeion yno. Maen nhw'n cwyno am ansawdd eu hyfforddiant, felly nid ydynt yn fodlon dychwelyd yno. Ceir problem wirioneddol o ran recriwtio meddygon canolradd, ac eithrio staff locwm, oherwydd yr enw gwael sydd gan yr adran erbyn hyn oherwydd y ddau adroddiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

But, let's see how we can be positive here. In Withybush, when there were problems about the provision of 24-hour A&E, the consultants themselves came forward with ideas as to how that service could be continued. I'd invite the consultants in Ysbyty Glan Clwyd to come forward with some ideas now for the local health board to consider as to how the service can be maintained and kept safe, because it's quite clear that it wouldn't be in the future. But, if there are ways in which that can be done, and if the consultants to bring those views forward, I'm sure the local health board will give them due consideration.

Ond, gadewch i ni weld sut y gallwn ni fod yn gadarnhaol yn y fan yma. Yn Ysbyty Llwynhelyg, pan roedd problemau ynghylch darparu adran damweiniau ac achosion brys 24 awr, cynigiwyd syniadau ar sut y gellid parhau'r gwasanaeth hwnnw gan yr ymgynghorwyr eu hunain. Byddwn yn gwahodd yr ymgynghorwyr yn Ysbyty Glan Clwyd i gynnig syniadau nawr i'r bwrdd iechyd lleol eu hystyried o ran sut y gellir cynnal y gwasanaeth a'i gadw'n ddiogel, gan ei bod yn gwbl eglur na fyddai yn y dyfodol. Ond, os oes ffyrdd y gellir gwneud hynny, ac os gwnaiff yr ymgynghorwyr gynnig y safbwyntiau hynny, rwy'n siŵr y bydd y bwrdd iechyd lleol yn rhoi ystyriaeth ddyledus iddyn nhw.

13:53

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rydych chi'n cyfeirio'n gyson at yr angen am dystiolaeth glinigol fel sail i benderfyniadau, ac, wrth gwrs, mae hynny'n gwbl resymol. Ond, mae astudiaeth gan y King's Fund ar aildrefnu gwasanaethau clinigol wedi amlygu astudiaeth o enedigaethau yn Ffrainc a oedd yn dangos bod gorfod teithio dros 45 cilometr yn cynyddu'r risg o farwolaeth yn ystod genedigaethau. Mae yna astudiaeth arall, o'r Iseldiroedd, yn dangos bod gorfod teithio mwy nag 20 munud hefyd yn cynyddu'r risg yn sylweddol. Nawr, gydag Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Wrexham Maelor dros 45 cilometr i ffwrdd, ac yn sicr dros 20 munud i ffwrdd, onid yw hynny'n codi cwestiynau sylfaenol ynglŷn â phenderfyniad y bwrdd iechyd yn y cyd-destun yma?

You regularly refer to the need for clinical evidence as a basis for decisions and, of course, that is entirely reasonable. However, a study by the King's Fund on the reorganisation of clinical services has highlighted a study of births in France, which showed that having to travel over 45 km increases the risk of death during childbirth. Another study, from the Netherlands, shows that having to travel over 20 minutes can also increase the risk significantly. With Ysbyty Gwynedd and Wrexham Maelor Hospital being more than 45 km away, and certainly more than 20 minutes away, does that not raise significant and basic questions on the health board decision in this context?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Beth rŷm ni'n ei wybod yw bod tystiolaeth gref gennym ar hyn o bryd sy'n dangos na fydd y gwasanaeth yn saff yn y pen draw. Ni all neb osgoi hynny. Y cwestiwn, felly, yw: ym mha ffordd y gallwn ni sicrhau bod gwasanaeth saff yn y dyfodol? Rwyf wedi dweud yn blwmp ac yn blaen, ac rwyf wedi dweud wrth y bwrdd iechyd ei hun, fy mod i'n erfyn gweld y gwasanaeth yn ôl o fewn blwyddyn.

Nawr, y broblem yw bod problem wedi bod ynglŷn â recriwtio. Rŷm ni'n gwybod hynny, ac nid oes pwynt inni fynd dros y tir yna eto. Ond, os oes yna ffordd i sicrhau gwasanaeth sy'n saff yn y dyfodol, ac os yw'r arbenigwyr â syniadau eu hunain, wrth gwrs, byddwn i'n erfyn i'r bwrdd iechyd wneud hynny. Mae wedi digwydd, fel y dywedais i, yn ysbwy Llynwelyg. Felly, os oes cynlluniau saff y gellid eu hystyried gan y bwrdd iechyd yn y dyfodol, wel, digon hapus, wrth gwrs, rwy'n siŵr y bydd y bwrdd iechyd i weld y cynlluniau hynny. A gaf i ddweud wrth Aelodau hefyd ein bod ni, fel Llywodraeth, yn sicrhau ein bod ni'n cadw llygaid barcud ar y broses er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweld pethau'n dod yn ôl i'w lle o fewn blwyddyn?

Well, what we do know is that we have strong evidence that shows that the service would not be safe ultimately, and you cannot avoid that. The question, therefore, is this: how can we ensure a safe service in the future? I have said this frankly, and I have said this to the health board itself: I expect to see the service returned within a year.

Now, the issue is that there has been a problem with recruitment. We know that, and there is no point in us going over that ground again. But, if there is a way of securing a service that is safe for the future, and if the specialists have their own ideas, then we would expect the board to look into that. This has happened, as I said, in Withybush. If there are safe schemes that can be considered by the health board in the future, then, of course, we would be very pleased to see those plans. May I say to Members also that we, as a Government, will ensure that we keep a very close eye on the process in order to ensure that we see things returning within a year?

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, fel rhan o'r penderfyniad, fe drosglwyddwyd hefyd wasanaethau llawdriniaethau i'r frest o Fangor a Wrecsam i Lan Clwyd. Felly, a gaf i ofyn ichi ystyried hynny fel rhan o'r broses o adolygu'r penderfyniad? A gaf i hefyd dynnu eich sylw chi at drafodaethau yn y bwrdd y bore yma, lle mae rhai o benaethiaid y bwrdd wedi dweud na fydd hi'n bosib cynnal gwasanaethau obstetreg ar draws y tri safle i'r dyfodol, sydd yn wahanol iawn i beth ddywedwyd wrthym ni fel Aelodau Cynulliad ryw bythefnos yn ôl pan drafodwyd eu penderfyniad gwreiddiol? Felly, maen nhw'n newid eu meddwl o wythnos i wythnos, ac rwy'n meddwl mai dyna beth sy'n pryderu trigolion gogledd Cymru.

First Minister, as part of the decision, thoracic surgery services were transferred from Bangor and Wrexham to Glan Clwyd. Can I ask you to consider that as part of the process of reviewing this decision? May I also draw your attention to discussions in the board this morning, where some of the heads at the board said that it wouldn't be possible to maintain obstetric services across the three sites for the future, which is very different to what we were told as Assembly Members around a fortnight ago when we discussed their original decision. So, they are changing their mind on a weekly basis, and I think that that is what concerns residents in north Wales.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

A gaf i ddweud— rwyf i wedi dweud o'r blaen—pan fydd y SuRNICC yn dod i safle Glan Clwyd, bydd yna newidiadau yn yr adrannau eraill yn y gogledd? Mae hynny'n bownd o ddigwydd o achos y ffaith bod yna adran newydd a fydd yn rhoi mwy o wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau arbenigol, yn y pen draw. Felly, mae hynny'n iawn i'w ddweud. Ond, beth sy'n bwysig, ynglŷn ag Ysbyty Glan Clwyd, yw bod yr amserlen benodol yn cael ei dal ati, sef 12 mis ac, wrth gwrs, fod unrhyw syniadau eraill ynglŷn â chadw'r gwasanaeth hefyd yn cael eu hystyried. Dyna beth fyddwn ni'n gofyn i'r arbenigwyr i'w wneud. A chofio'r problemau sydd wedi bod yn yr adran ei hunan, nawr yw'r amser, wrth gwrs, inni dynnu gyda'n gilydd er mwyn sicrhau bod yna gynlluniau eraill y gall y bwrdd iechyd eu hystyried.

May I say—and I have said this before—when the SuRNICC comes to the Glan Clwyd site, there will be changes at other sites in north Wales? It is bound to happen because of the fact that there will be a new department that will be able to provide services, particularly more specialist services, at the end of the day. That much is true. However, what's important as regards Glan Clwyd Hospital is that a specific schedule is adhered to, namely the 12 months, and, of course, that any other ideas as to the retention of services are considered. That is what we will be asking the specialists to do. Bearing in mind the problems that they've had in the department itself, it is time that everybody worked together to ensure that there are other plans that the health board can consider.

Economi Gorllewin Cymru**The Economy of West Wales**

- 13:56 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
4. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi economi gorllewin Cymru? OAQ(4)2167(FM)
4. Will the First Minister provide an update Welsh Government action to support the economy of west Wales? OAQ(4)2167(FM)
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n cynlluniau ar gyfer sicrhau twf economaidd a swyddi cynaliadwy wedi eu nodi yn y rhaglen lywodraethu ac, wrth gwrs, rydym ni'n parhau i sicrhau twf economaidd yn y gorllewin.
- Our plans for economic growth and sustainable jobs are set out in the programme for government and, of course, we continue to ensure that there is economic growth in west Wales.
- 13:57 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Diolch. Roedd ymweliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Fanceinion yr wythnos diwethaf yn dangos y manteision economaidd o awdurdodau yn cydweithio ar wella rhwydweithiau lleol. A ydych chi'n cytuno â fi, Brif Weinidog, y bydd y rhanbarthau dinesig yng Nghymru llawn crystal i gynhyrchu buddsoddiad mewnol ac, felly, wella economi yn y rhanbarthau?
- Thank you. The Enterprise and Business Committee, during its visit to Manchester last week, saw the economic advantages of authorities collaborating on improving local networks. Do you agree with me, First Minister, that the city regions in Wales will be just as effective in securing internal investment and, as a result, in improving the economy of those regions?
- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yn hollol. Rŷm ni wedi gweld, wrth gwrs, yr enghraifft sydd wedi cael ei rhoi gan Fanceinion a beth sydd wedi cael ei wneud yn fanna. Nid oes reswm pam na ddylai'r rhanbarthau dinesig yng Nghymru wneud yr un peth, a'u bod nhw'n gweithio dros ffiniau. Rydym ni'n gweld hynny yn rhanbarth Abertawe ac yn rhanbarth Caerdydd.
- Quite. Of course, we have seen the example given by Manchester and what they've achieved there. There is no reason why the city regions in Wales shouldn't do the same thing, working across borders. We have seen that in the Swansea region and in the Cardiff region.
- 13:57 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, beth sy'n hanfodol i wella'r economi yng ngorllewin Cymru yw ein bod ni'n gweld isadeiledd gwell yn yr ardal. Byddwch chi'n ymwybodol fy mod i'n credu y byddai troi'r A40 yn sir Benfro yn ffordd ddeuol yn help i wella'r economi yng ngorllewin Cymru. Rwy'n derbyn bod y Gweinidog trafniadaeth yn ystyried y mater, ond a allwch chi ddweud wrthym ni pryd fyddwch chi fel Llywodraeth mewn sefyllfa i adrodd ar y mater pwysig hwn?
- First Minister, what is crucially important to improve the economy in west Wales is that we see better infrastructure in that area. You will be aware that I believe that turning the A40 in Pembrokeshire into a dual carriageway would assist in improving the economy in west Wales. I accept that the Minister for transport is currently considering this issue, but can you tell us when you as a Government will be in a position to report on this important issue?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wel, mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Rŷm ni wedi dweud, wrth gwrs, fod hyn yn rhywbeth y byddem ni'n gefnogol ohono. Mae'n rhaid inni ystyried y sefyllfa ariannol, ond gan ddeall, yn enwedig ar ôl gweld cau 'plant' Murco yn Aberdaugleddau, fod hwn yn rhywbeth rŷm ni'n moyn symud ymlaen ag e cyn gynted ag sy'n bosib.
- Well, this is under consideration at present. We have said, of course, that this is something that we would be supportive of. We must consider the financial position, while understanding that, following the closure of the Murco plant in Milford Haven, this is something that we want to proceed with as soon as possible.
- 13:58 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, mae yna lawer iawn o syniadau'n cael eu cynnig ynglŷn â sut i hyrwyddo'r economi yng ngorllewin Cymru, ond, o ystyried bod y gorllewin wedi derbyn cefnogaeth o'r cronfeydd strwythurol ers degawd a hanner—ers 15 mlynedd bellach—onid yw hi'n bryd inni edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd? Onid oes yna angen inni edrych ar sefydlu rhywbeth fel yr hen fwrdd datblygu gwledig yn y gorllewin er mwyn hyrwyddo'r economi a hefyd, o bosib, hyrwyddo'r iaith Gymraeg yr un pryd?
- First Minister, a number of ideas have been put forward in terms of how to promote the economy of west Wales, but, given that west Wales has received European structural fund support for the last decade and a half—for 15 years—isn't it time that we looked at the situation holistically? Shouldn't we seek to establish in the west something similar to the former development board for rural Wales in order to promote the economy and, possibly, to promote the Welsh language simultaneously?

13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Na, nid wyf yn credu y byddai cwango yn ateb i'r sefyllfa hon. Ond a gaf i ddweud fod yn rhaid inni, wrth gwrs, ystyried yn fanwl ym mha ffordd y bydd unrhyw gyllid newydd Ewropeaidd sydd yn dod i Gymru yn gallu cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn cael yr impact mwyaf ar yr economi? Mae pethau wedi bod yn anodd yn y gorllewin, wrth cofio, wrth gwrs, beth sydd wedi digwydd yn Murco—rhywbeth y gwnaethom ninnau fel Llywodraeth, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, weithio'n galed i gesio'i osgoi. Ond, os edrychwch chi ar y rhaglen lywodraethu, mae'n hollol glir ynglŷn â beth yw nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y gorllewin a gweddill Cymru.

No, I don't believe that a quango would provide a solution to this situation. May I say that we must consider in detail how any new European funding coming to Wales may be used in different ways in order to have the greatest impact on the economy? Things have been difficult in the west, bearing mind, of course, what occurred in Murco, which was something that we as a Government, along with the United Kingdom Government, worked hard to avoid. However, if you look at the programme for government, it sets out clearly the Welsh Government's aim for west Wales and the rest of Wales.

13:59 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, the M4 is a vital economic lifeline to west Wales and, of course, one of the reasons given for closing junction 41 is so that we can improve road links to settlements to the west of Port Talbot. However, the impact in Port Talbot has been, effectively, a declining footfall, as evidenced by the Government's own figures. At least three or four shops have closed since Christmas and, of course, the chamber of trade estimated a 20 per cent fall-off in trade. Is Port Talbot being sacrificed for the benefit of the economic vitality of those settlements to the west of it?

Brif Weinidog, mae'r M4 yn llwybr economaidd hanfodol i orllewin Cymru ac, wrth gwrs, un o'r rhesymau a roddwyd am gau cyffordd 41 oedd er mwyn i ni allu gwella cysylltiadau ffordd i aneddiadau i'r gorllewin o Bort Talbot. Fodd bynnag, yr effaith ym Mhort Talbot, i bob pwrpas, fu llai o ymwelwyr, fel y gwelir yn ffigurau'r Llywodraeth ei hun. Mae o leiaf tair neu bedair o siopau wedi cau ers y Nadolig ac, wrth gwrs, amcangyfrifodd y siambr fasnach ostyngiad o 20 y cant i fasnach. A yw Port Talbot yn cael ei aberthu er budd hyfywedd economaidd yr aneddiadau hynny i'r gorllewin ohono?

14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
No, no, Port Talbot isn't being sacrificed for Neath or Swansea. The reality is that we have, in the overhead section of the M4 at Port Talbot, slip roads and junctions that are well below the standard that we would build now. We know that they've caused problems in terms of the traffic flow on the M4 itself. I've said before, of course, that we will look to evaluate, once the trial comes to an end, the results of that trial with a view to looking at what then happens in Port Talbot. We will approach that with an open mind.

Na, na, nid yw Port Talbot yn cael ei aberthu ar ran Castell-nedd neu Abertawe. Y gwir amdani yw bod gennym ni, yn y darn uwchben o'r M4 ym Mhort Talbot, ffyrdd ymuno ac ymadael a chyffyrdd sy'n llawer is na'r safon y byddem ni'n ei adeiladu heddiw. Rydym ni'n gwybod eu bod wedi achosi problemau o ran llif y traffig ar yr M4 ei hun. Rwyf wedi dweud o'r blaen, wrth gwrs, y byddwn yn gwerthuso, ar ôl i'r prawf ddod i ben, canlyniadau'r prawf hwnnw gyda'r nod o ystyried beth fydd yn digwydd ym Mhort Talbot wedyn. Byddwn yn ymdrin â hynny gyda meddwl agored.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Natural Resources Wales

14:01 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol? OAQ(4)2153(FM)

5. Will the First Minister outline how Natural Resources Wales works with local authorities? OAQ(4)2153(FM)

14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, it works with local authorities on a range of activities, including flood-risk management and coastal erosion, fly-tipping and regulatory enforcement. It is also a statutory consultee for planning applications.

Wel, mae'n gweithio gydag awdurdodau lleol ar amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, tipio anghyfreithlon a gorfodi rheoliadol. Mae hefyd yn ymgynghorai statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio.

14:01

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the answer, Minister. Neath Port Talbot County Borough Council has suggested to a constituent of mine—and yours, actually—that NRW has not been supportive in finding a solution for the opencast void at Margam. NRW has said it can only act after there has been a water breach at Margam. Do you know if this is the case, as NRW has stated that they don't know whether or not any calculations have been made to determine if the discharge consents in place for Margam are sufficient to drain the void or how long that would take? The constituent feels that responsibility has been pushed from NRW to the local authority; the local authority, vice versa. We would like some clarity on the issue.

Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot wedi awgrymu i un o'm hetholwyr—ac un o'ch rhai chithau, a dweud y gwir—nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn gefnogol o ran dod o hyd i ateb ar gyfer y gwagle glo brig ym Margam. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud mai dim ond pan fydd toriad dŵr ym Margam y bydd yn gallu gweithredu. A ydych chi'n gwybod a yw hyn yn wir, gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datgan nad yw'n gwybod a oes unrhyw gyfrifiadau wedi'u gwneud i benderfynu os yw'r caniatâd gollwng sydd ar waith ar gyfer Margam yn ddigonol i ddraenio'r gwagle na pha mor hir y byddai hynny'n ei gymryd? Mae'r etholwr yn teimlo bod cyfrifoldeb wedi ei wthio oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru i'r awdurdod lleol; a'r awdurdod lleol, i'r gwrthwyneb. Hoffem weld rhywfaint o eglurder ar y mater.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, NRW have been asked by the local planning authorities concerned to undertake regular testing and monitoring of the water at Parc Slip, for example. It's an old problem—one that I've been involved with for more than 10 years, and others here as well. The fundamental problem, as she will know, is the water level in the void at Parc Slip and the need to keep on pumping to make sure that it doesn't go up to a level that will be regarded as unsafe. The fundamental problem is that there isn't enough money that's been set aside in order to pay for the restoration of that site or indeed the East pit. She will know—and I know that she takes the same view as me on this—that there is a responsibility, I believe, on the UK Government, because this happened 20 years ago, to make sure there are sufficient funds available in order to restore these sites. At the time that the privatisation of British Coal occurred, a deliberate decision was taken not to require operators to put aside sufficient money as a bond. Now, of course, 20 years on, communities are seeing the difficulties that that is causing.

Wel, gofynnwyd i Gyfoeth Naturiol Cymru gan yr awdurdodau cynllunio lleol dan sylw i brofi a monitro'r dŵr ym Mharc Slip yn rheolaidd, er enghraifft. Mae'n hen broblem—un yr wyf wedi bod yn ymwneud â hi am fwy na 10 mlynedd, ac eraill yma hefyd. Y broblem sylfaenol, fel y bydd yn gwybod, yw lefel y dŵr yn y gwagle ym Mharc Slip a'r angen i barhau i bwmpio i wneud yn siŵr nad yw'n codi i lefel a ystyrir yn beryglus. Y broblem sylfaenol yw nad oes digon o arian wedi'i neilltuo i dalu am y gwaith o adfer y safle hwnnw neu, yn wir, yr East pit. Bydd hi'n gwybod—a gwn ei bod o'r un farn â mi yn hyn o beth—bod gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb, rwy'n credu, oherwydd yr hyn a ddigwyddodd 20 mlynedd yn ôl, i wneud yn siŵr bod digon o arian ar gael i adfer y safleoedd hyn. Ar yr adeg y preifateiddiwyd Glo Prydain, gwnaed penderfyniad bwriadol i beidio â'i gwneud yn ofynnol i weithredwyr roi digon o arian o'r neilltu fel bond. Nawr, wrth gwrs, 20 mlynedd yn ddiweddarach, mae cymunedau'n gweld yr anawsterau y mae hynny'n eu hachosi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03

David Rees [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, when NRW was actually established, there was concern over its ability to actually separate its regulatory role from its commercial activities role, particularly in the area of forestry on land on behalf of the Welsh Government. There's presently a planning application for exploratory boreholes within the Cwmafan area in my constituency, and it's on NRW-managed forestry. I've become aware that NRW actually have flattened the piece of land where they intend to do that work, prior to the application actually being decided upon. What actions can the Welsh Government take to ensure and reassure local residents that NRW works with local authorities transparently?

Brif Weinidog, pan sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru, roedd pryder am ei allu i wahanu ei swyddogaeth reoleiddio oddi wrth ei swyddogaeth gweithgareddau masnachol, yn enwedig ym maes coedwigaeth ar dir ar ran Llywodraeth Cymru. Ceir cais cynllunio ar gyfer tyllau turio archwiliadol yn ardal Cwmafan yn fy etholaeth i ar hyn o bryd, ac mae'n goedwigaeth a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf wedi darganfod bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwastatáu'r darn o dir lle mae'n bwriadu gwneud y gwaith hwnnw, cyn i benderfyniad gael ei wneud ar y cais mewn gwirionedd. Pa gamau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau a thawelu meddwl trigolion lleol bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol mewn ffordd dryloyw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:03	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Absolutely. NRW are not a planning authority, of course. They are there as a statutory consultee. It's for the local planning authority to decide how it moves forward in terms of any planning application, but certainly there can be no question of any kind of predetermination, in that sense, by NRW. They're not involved in the planning system in terms of being a decision-making body.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Yn bendant. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod cynllunio, wrth gwrs. Maen nhw yno fel ymgynghorai statudol. Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio lleol yw penderfynu sut mae'n bwrw ymlaen o ran unrhyw gais cynllunio, ond yn sicr ni all fod unrhyw gwestiwn o unrhyw fath o benderfynu ymlaen llaw, yn yr ystyr hwnnw, gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw'n rhan o'r system gynllunio o ran bod yn gorff gwneud penderfyniadau.</p>
14:04	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, I'm sure you'll be aware of the works in Llanrwst, in north Wales, where council flood-alleviation work led to an important trout river being destroyed and, in particular, gravel being removed during the season that fish would be laying their eggs. That's one of the poor examples of NRW working with a local council. What are you doing to identify bad practice and make sure that it doesn't happen again, particularly where there are the types of conflicts of interest that David Rees highlighted in his earlier question?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch chi'n ymwybodol o'r gwaith yn Llanrwst, yn y gogledd, lle arweiniodd gwaith lliniaru llifogydd gan y cyngor at ddinistrio afon frithyll bwysig ac, yn benodol, at gael gwared ar raeau yn ystod y tymor y byddai pysgod yn dodwy eu hwyau. Dyna un o'r enghreifftiau gwael o Gyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda'r cyngor lleol. Beth ydych chi'n ei wneud i nodi arfer gwael a gwneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd eto, yn enwedig lle ceir y mathau o wrthdaro buddiannau a amlygwyd gan David Rees yn ei gwestiwn yn gynharach?</p>
14:04	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We would obviously expect NRW to comply with the law, and we expect NRW to comply with the requirements upon them to ensure that spawning beds, particularly for migratory fish, are not disturbed, as they will be required of course to structure their operations so as not to interfere with the spawning season for brown trout particularly in our rivers and, indeed, where they have responsibilities to maintain hedgerows, to observe the law in that regard as well. So, of course, they are bound to observe not just the law, but also good practice in terms of the environment.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Byddem yn amlwg yn disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru gydymffurfio â'r gyfraith, ac rydym ni'n disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru fodloni'r gofynion arno i sicrhau na amherio ar welyau silio, yn enwedig ar gyfer pysgod mudol, gan y bydd yn ofynnol iddynt wrth gwrs i strwythuro eu gweithrediadau fel nad ydynt yn amharu ar y tymor silio ar gyfer brithyll brown, yn enwedig yn ein hafonydd ac, yn wir, pan fo ganddynt gyfrifoldebau i gynnal perthi, i weithredu'n unol â'r gyfraith yn y cyswllt hwnnw hefyd. Felly, wrth gwrs, maen nhw wedi eu hymrwymo i ddilyn nid yn unig y gyfraith, ond hefyd arfer da o ran yr amgylchedd.</p>
<p>Cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi</p>		<p>The St David's Day Announcement</p>
14:05	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography <i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi ynglŷn â datganoli mwy o rymoedd i Gymru? OAQ(4)2169(FM)</i></p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>6. Will the First Minister make a statement on the St David's Day announcement regarding devolving further powers to Wales? OAQ(4)2169(FM)</i></p>
14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Gwnaf. Fe wnes i ddatganiad ar hwn yr wythnos diwethaf yn y Cynulliad.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Yes. I made a statement on this last week in the Assembly.</p>
14:05	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Wel, un o'r meysydd sydd am gael ei ddatganoli, wrth gwrs, yw maes trwyddedu ar gyfer ffracio ac echdynnu nwyon eraill ar y tir. Ond, a allwch chi ddweud wrthym ni, Brif Weinidog—o dan y setliad presennol, o safbwynt y grymoedd sydd gan eich Llywodraeth chi ar hyn o bryd—a chadarnhau a oes gan eich Llywodraeth chi y pwerau i gyflwyno moratoriwm ar ffracio yng Nghymru?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Well, one of the areas to be devolved, of course, is the area of licensing for fracking and the extraction of other gases. But, can you tell us, First Minister—under the current settlement, in terms of the powers that your Government has at present—and confirm whether your Government has the powers to introduce a moratorium on fracking in Wales?</p>

- 14:05 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ynglŷn â'r system gynllunio, mae'r Gweinidog wedi dweud bod hwn yn rhywbeth sydd fwy neu lai wedi digwydd, ond, wrth gwrs, mae'n wir i ddweud y byddai mwy o reolaeth pe bai'r system drwyddedu wedi cael ei datganoli hefyd.
- As regards the planning system, the Minister has stated that this is something that has more or less happened, but, of course, it's true to say that there would be greater control if the licensing system was also devolved.
- 14:06 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, the St David's agreement was a good news story for Wales in many ways, wasn't it, not least because of the devolution of—and you've just mentioned fracking—large-scale energy projects, but also the commitment to a proper funding floor for Wales, along with those powers? Do you agree with me that the proposed funding floor to the Barnett formula has been needed for a long time and your Government has called for this for a long time? It is one way of ensuring that, as the economy improves, under the auspices of the UK coalition Government, funding within Wales is now more likely to keep pace with funding in England, certainly compared with previous years of Labour administrations.
- Brif Weinidog, roedd cytundeb Dewi Sant yn stori newyddion da i Gymru mewn llawer o ffyrdd, onid oedd, ac un o'r prif resymau am hynny oedd datganoli—ac rydych chi newydd sôn am ffracio—prosiectau ynni graddfa fawr, ond hefyd yr ymrwymiad i lawr cyllido priodol i Gymru, ynghyd â'r pwerau hynny? A ydych chi'n cytuno â mi y bu angen y llawr cyllido arfaethedig i fformiwla Barnett ers amser maith a bod eich Llywodraeth wedi galw am hyn ers amser maith? Mae'n un ffordd o sicrhau, wrth i'r economi wella, dan reolaeth Llywodraeth glymblaid y DU, bod cyllid o fewn Cymru yn fwy tebygol o gadw i fyny â chyllid yn Lloegr nawr, yn sicr o'i gymharu â blynyddoedd gweinyddiaethau Llafur yn y gorffennol.
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, we're in a position where we are five years on, and it took us five years to get to a position where something was agreed in principle. I think the Member misunderstands the way that Barnett works. The Barnett floor applies when public spending increases and that's where the floor comes into operation. The general state of the economy doesn't affect the operation of Barnett or, indeed, the Barnett floor. It's public spending that affects it. But, well, there you are, there is a recognition in principle that Wales is underfunded. Unfortunately, however, at this point in time, there's no timescale as to how that will be addressed.
- Wel, rydym ni mewn sefyllfa lle'r ydym ni bum mlynedd yn ddiweddarach, a chymerodd bum mlynedd i ni gyrraedd sefyllfa lle cytunwyd ar rywbeth mewn egwyddor. Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn camdeall y ffordd y mae Barnett yn gweithio. Mae'r llawr Barnett yn berthnasol pan fydd gwariant cyhoeddus yn cynyddu a dyna pryd y rhoddir y llawr ar waith. Nid yw cyflwr cyffredinol yr economi yn effeithio ar weithrediad Barnett nac, yn wir, y llawr Barnett. Gwariant cyhoeddus sy'n effeithio arno. Ond, wel, dyna ni, ceir cydnabyddiaeth mewn egwyddor bod Cymru wedi'i thanariannu. Yn anffodus, fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw amserlen o ran sut y bydd hynny'n cael sylw.
- Ariannu Ysgolion ym Mhowys** **School Funding in Powys**
- 14:07 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ariannu ysgolion ym Mhowys? OAQ(4)2156(FM)
- 7. Will the First Minister make a statement on school funding in Powys? OAQ(4)2156(FM)*
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. Powys's budgeted net revenue expenditure on education is £97.6 million. Including funding from other sources, Powys's gross budgeted expenditure on schools is £108.8 million. That equates to £5,880 per pupil.
- Gwnaf. £97.6 miliwn yw gwariant refeniw net wedi'i gyllidebu Powys ar addysg. Gan gynnwys cyllid o ffynonellau eraill, £108.8 miliwn yw gwariant gros wedi'i gyllidebu Powys ar ysgolion. Mae hynny'n cyfateb i £5,880 fesul disgybl.
- 14:07 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for your answer, First Minister. You will be aware of the funding pressures that local authorities are facing, which inevitably will impact on the schools budget. There is some concern in my constituency that the provision of bilingual education will be disproportionately affected due to the fact that it requires additional resources. What assurance can you give me and my constituents in this regard?
- Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol o'r pwysau ariannol y mae awdurdodau lleol yn ei wynebu, a fydd yn effeithio'n anochel ar y gyllidebu ysgolion. Ceir rhywfaint o bryder yn fy etholaeth i y bydd y ddarpariaeth o addysg ddwyieithog yn cael ei heffeithio'n anghymesur oherwydd y ffaith ei bod angen adnoddau ychwanegol. Pa sicrwydd allwch chi ei roi i mi a'm hetholwyr yn hyn o beth?

14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, we have protected front-line spending on schools. We expect local councils, of course, to pass that funding on, but it is for local authorities to explain the funding decisions that they take. But, I'm sure they are relieved to know they don't have to put up with your party's plans, which are a 12% cut for local government and a 20% cut in education spending.

Wel, rydym ni wedi diogelu gwariant rheng flaen ar ysgolion. Rydym yn disgwyl i gynghorau lleol, wrth gwrs, drosglwyddo'r cyllid hwnnw ymlaen, ond cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw esbonio'r penderfyniadau cyllido maen nhw'n eu gwneud. Ond, rwy'n siŵr eu bod yn falch o glywed nad oes rhaid iddyn nhw ddygymod â chynlluniau eich plaid chi, sef toriad o 12% i lywodraeth leol a thoriad o 20% i wariant ar addysg.

14:08 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
There are concerns in Powys regarding reorganisation and Welsh-language and sixth-form provision in particular. Do you agree with me, First Minister, that changes driven by school standards or improving standards, or changes driven by school places, can be justified, but changes that are driven simply by a lack of resources are not? Can you therefore confirm that your protection for schools spending does not apply to 16 plus and you have actually cut funding for 16-plus education?

Ceir pryderon ym Mhowys ynghylch ad-drefnu a darpariaeth chweched dosbarth Cymraeg yn arbennig. A ydych chi'n cytuno â mi, Brif Weinidog, y gellir cyfiawnhau newidiadau yn seiliedig ar safonau ysgolion neu wella safonau, neu newidiadau'n seiliedig ar leoedd ysgol, ond na ellir cyfiawnhau newidiadau sy'n seiliedig ddim ond ar ddiffyg adnoddau? A allwch chi gadarnhau felly nad yw eich diogeliad o wariant ysgolion yn berthnasol i addysgu ôl-16 a'ch bod chi mewn gwirionedd wedi torri cyllid ar gyfer addysg ôl-16?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It's right to say that the protection is there for schools and not for colleges. That much is true. It is also right to say that changes to education provision should not be primarily driven by cost. That much is true. It should be down to standards and it should be down to ensuring the best education for children. We would expect, of course, Powys to have passported the protection that we put in place for schools' cash budgets in order for them to spend that on schools.

Mae'n iawn dweud bod y diogeliad yno i ysgolion ac nid i golegau. Mae cymaint â hynny'n wir. Mae hefyd yn iawn dweud na ddylai newidiadau i ddarpariaeth addysg fod yn seiliedig ar gost yn bennaf. Mae cymaint â hynny'n wir. Dylai fod yn seiliedig ar safonau a dylai fod yn seiliedig ar sicrhau'r addysg orau i blant. Byddem yn disgwyl, wrth gwrs, i Bowys fod wedi pasbortio'r diogeliad yr ydym ni wedi ei roi ar waith ar gyfer cyllidebau arian parod ysgolion er mwyn iddyn nhw ei wario ar ysgolion.

Cyllid Awdurdodau Lleol

Local Authority Funding

14:09 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
8. Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwario'r cyllid a gaiff ei ddyrannu iddynt yn ddoeth? OAQ(4)2159(FM)

8. How does the Welsh Government ensure that local authorities are spending their allocated funding wisely? OAQ(4)2159(FM)

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Well, it's a matter for each local authority, of course, but, in making those decisions, they should take account of local needs and priorities and, of course, engage with their communities.

Wel, mae'n fater i bob awdurdod lleol yn unigol, wrth gwrs, ond, wrth wneud y penderfyniadau hynny, dylen nhw gymryd anghenion a blaenoriaethau lleol i ystyriaeth ac, wrth gwrs, ymgysylltu â'u cymunedau.

14:09 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. Just by way of example, you will know that Bridgend County Borough Council, covering your own constituency, has faced considerable unanticipated expenditure this year, through its own questionable decisions, and legal costs for its failure to follow procedures in connection with Tynyrheol Primary School and the removal of the silt mound in Porthcawl. In your opinion, should that unanticipated expenditure be met from reserves, this year's large increase in council tax, a reduction in services or another source? And, what guidance is there to support your opinion?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Dim ond fel enghraifft, byddwch yn gwybod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yr Ogwr, gan gynnwys eich etholaeth eich hun, wedi wynebu cryn wariant annisgwyl eleni, trwy ei benderfyniadau amheus ei hun, a chostau cyfreithiol am ei fethiant i ddilyn gweithdrefnau o ran Ysgol Gynradd Tynyrheol a chael gwared ar y twmpath silt ym Mhorthcawl. Yn eich barn chi, a ddylid talu'r gwariant annisgwyl hwnnw o gronfeydd wrth gefn, y cynnydd mawr i'r dreth gyngor eleni, gostyngiad i wasanaethau neu ffynhonnell arall? A, pha ganllawiau sydd ar gael i gefnogi eich barn chi?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

It's a matter for them, of course. But I'm sure she will welcome the fact that Bridgend has opened three brand new comprehensive schools under Labour leadership. I'm sure she will be happy with the fact that new schools are yet planned—primary schools. I'm sure she will very much welcome the fact that the council are now moving forward with the redevelopment of the Jennings building in Porthcawl, which, of course, will help to redevelop the harbour, building on top of the marina—the harbour gate, rather—that has been put there; and, of course, the proposed development elsewhere around the harbour. So, I think Bridgend County Borough Council, far from being criticised, are to be commended for the investment they have made in schools and, indeed, in Porthcawl.

Mater iddyn nhw yw hwn, wrth gwrs. Ond rwy'n siŵr y bydd hi'n croesawu'r ffaith bod Pen-y-bont ar Ogwr wedi agor tair ysgol gyfun newydd sbon dan arweinyddiaeth y blaid Lafur. Rwy'n siŵr y bydd hi'n hapus â'r ffaith bod ysgolion newydd yn yr arfaeth eto—ysgolion cynradd. Rwy'n siŵr y bydd hi'n croesawu'n fawr iawn y ffaith bod y cyngor yn bwrw ymlaen erbyn hyn ag ailddatblygu adeilad Jennings ym Mhorthcawl, a fydd, wrth gwrs, yn helpu i ailddatblygu'r harbwr, gan adeiladu ar ben y marina—porth yr harbwr, yn hytrach—sydd wedi ei roi yno; ac, wrth gwrs, y datblygiadau arfaethedig mewn mannau eraill o gwmpas yr harbwr. Felly, ymhell o gael ei feirniadu, rwy'n credu y dylid canmol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr am y buddsoddiad y mae wedi ei wneud mewn ysgolion ac, yn wir, ym Mhorthcawl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:10 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, mae cronfeydd wrth gefn sydd yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol i fod i gael eu defnyddio mewn sefyllfaoedd argyfyngus. O ystyried y toriadau sydd yn wynebu awdurdodau lleol ledled Cymru y dyddiau yma, onid yw'r dyddiau hyn yn ddyddiau argyfyngus, ac oni ddylai cyngorau edrych ar y cronfeydd wrth gefn yma fel ffyrdd o sicrhau nad yw gwasanaethau sylfaenol yn cael eu torri?

First Minister, reserve funds that are retained by local authorities are supposed to be used in emergency situations. Considering the cuts facing local authorities throughout Wales these days, aren't these critical days and shouldn't the councils look at these reserve funds as a means of ensuring that basic services aren't cut?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae hwnnw'n bwynt, wrth gwrs, ac mae'n bwynt teg i awdurdodau lleol ofyn iddynt eu hunain. Rydym wedi dweud wrth awdurdodau lleol bod pethau yn anodd ar hyn o bryd. Does dim sôn y bydd pethau'n gwella yn y tymor hir. Yn yr un ffordd ag yr ydym ni wedi gorfod dangos disgyblaeth ariannol ynglŷn â'n cyllideb ni, byddem yn erfyn i awdurdodau lleol wneud yr un peth. Lle maen nhw'n teimlo ei fod yn iawn i ddefnyddio mwy o arian wrth gefn, o gofio'r sefyllfa ariannol, mae hynny'n rhywbeth y byddem yn eu hannog i wneud, ac o leiaf i feddwl amdano.

That's a point, of course, and it's a fair point for local authorities to question themselves on. We've told local authorities that things are difficult at present. There's no great likelihood of things improving in the long term and, just as we have had to show financial discipline in our budget, we would expect local authorities to do likewise. Where they feel that it's appropriate to use more of their reserves, given the financial situation, that is something that we would encourage them to do, and to at least consider the option.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Papur Gorchymyn 'Pwerau at Bwrpas'

The 'Powers for a Purpose' Command Paper

- 14:11 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 9. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Phrif Weinidog y DU am amserlen weithredu ar gyfer y materion lle y nodwyd bod consensws yn Atodiad A y papur gorchymyn Pwerau at Bwrpas? OAQ(4)2158(FM)*
- 9. What discussions has the First Minister had with the UK Prime Minister on the implementation timetable for issues on which it was noted that there was consensus in Annexe A of the Power for a Purpose Command Paper? OAQ(4)2158(FM)*
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- 'Dim', yw'r ateb—na neb arall chwaith, nid wyf yn credu. Ond, wrth gwrs, rwy'n siŵr y bydd hwn yn rhywbeth a fydd yn bwnc llosg ar ôl yr etholiad cyffredinol.*
- The answer is 'none', and neither has anybody else either, I don't believe. But I'm sure that this will be something that will be a very controversial topic after the general election.
- 14:12 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wel, rydw i'n siomedig iawn nad ydy Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn gweld yn dda i drafod yn gyson gyda Phrif Weinidog Cymru. Ond, rwyf am ofyn yn benodol am y rhannau o'r papur sy'n ymwneud ag etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, lle mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cytuno bod yna ddadl gref o blaid datganoli cymwyseddau deddfwriaethol a gweithredol llawn yng nghyswllt cynnal etholiadau'r Cynulliad. Fy nghwestiwn i yw hyn: pe byddai hyn yn digwydd yn yr Alban ar gyfer etholiad Senedd yr Alban yn 2016, a fyddai'r Prif Weinidog o'r farn ei fod yn briodol i hynny ddigwydd hefyd yng Nghymru?*
- Well, I'm very disappointed that the Prime Minister of the UK doesn't see fit to have regular discussions with the First Minister of Wales. But I want to ask specifically about the parts of the paper referring to election to the National Assembly for Wales, where the UK Government agrees that there is a strong case in favour of the devolution of full legislative and executive competence in relation to the holding of Assembly elections. My question is this: if this were to happen in Scotland for the Scottish Parliament election in 2016, would the First Minister be of the view that it would be appropriate for that to happen in Wales also?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Os yw'n gallu cael ei wneud mor gyflym â hynny i'r Alban, nid oes rheswm pam na ddylai hynny ddigwydd yng Nghymru hefyd, yn fy marn i. Byddai'n uchelgeisiol gweld y newidiadau hyn yn digwydd cyn yr etholiad nesaf. Ond, os oes unrhyw sôn bod hynny'n mynd i ddigwydd yn yr Alban yn gyflym iawn, wel, pam na, felly, yng Nghymru?*
- If it can be done as quickly as that for Scotland, then there's no reason why that shouldn't happen in Wales also, in my view. It would be very ambitious to see these changes taking place before the next election, but if there's any mention of these changes happening swiftly in Scotland, then why not in Wales?
- 14:13 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, we had a debate last week in which—I might have misunderstood you—I think you were indicating that you didn't believe there was an agreement around the St David's Day proposals. I would just like to understand: is it your understanding that, while, obviously, you might have wished for more—or less, even—in that agreement, it is definitely an agreement and it is an understanding that, whoever wins the general election in May, those proposals will be taken forward and will be legislated on so that those powers and responsibilities can come here to the Senedd?*
- Brif Weinidog, cawsom ddadl yr wythnos diwethaf ac—efallai fy mod wedi eich camddeall chi—rwy'n credu i chi nodi yn y ddadl honno nad oeddech chi'n credu bod cytundeb yn bodoli o ran y cynigion Dydd Gŵyl Dewi. Hoffwn ddeall: eich dealltwriaeth chi, er, yn amlwg, efallai y bydddech chi wedi dymuno cael mwy—neu lai, hyd yn oed—yn y cytundeb hwnnw, ei fod yn sicr yn gytundeb a bod dealltwriaeth, pwy bynnag fydd yn ennill yr etholiad cyffredinol ym mis Mai, y bydd y cynigion hynny'n cael eu datblygu a'u deddfu fel y gall y pwerau a'r cyfrifoldebau hynny ddod yma i'r Senedd?*

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I'm sure there are other parties in the Chamber that would take the same view as me and say, 'Well, there was no agreement; we were never asked to agree, or to come to a formal agreement, in the same way as has happened in other parts of the UK'. Nevertheless, he's right to say, of course, that what appears in that document represents what is common ground pro tem, if I can put it that way, but certainly not an agreement. I would never have agreed, for example, to air passenger duty not being devolved. I'm never going to agree to that. I would not agree to policing not being devolved, and other parties will take their own view in terms of what they would have actually agreed to. Nevertheless, it represents, as it were, what is common ground thus far between the parties.

Unigrwydd ac Arwahanrwydd

Wel, rwy'n siŵr bod pleidiau eraill yn y Siambr a fyddai o'r un farn â mi ac yn dweud, 'Wel, nid oedd cytundeb; ni ofynnwyd i ni gytuno erioed, nac i ddod i gytundeb ffurfiol, yn yr un modd ag sydd wedi digwydd mewn rhannau eraill o'r DU'. Serch hynny, mae'n iawn i ddweud, wrth gwrs, bod yr hyn sy'n ymddangos yn y ddogfen honno yn cynrychioli'r tir cyffredin pro tem, os caf ei roi felly, ond yn sicr nid yw'n gytundeb. Ni fyddwn i fyth wedi cytuno, er enghraifft, i beidio â datganoli treth teithwyr awyr. Nid wyf byth yn mynd i gytuno i hynny. Ni fyddwn yn cytuno i beidio â datganoli plismona, a bydd gan y pleidiau eraill eu barn eu hunain o ran yr hyn y byddent wedi cytuno iddo mewn gwirionedd. Serch hynny, mae'n cynrychioli, fel petai, yr hyn sy'n dir cyffredin rhwng y pleidiau hyd yma.

Isolation and Loneliness

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau'r broblem o unigrwydd ac arwahanrwydd ymhlith pobl hŷn? OAQ(4)2157(FM)

10. What action is the Welsh Government taking to reduce the problem of isolation and loneliness in elderly people? OAQ(4)2157(FM)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Our strategy for older people sets out our commitment to tackling isolation and loneliness. We are funding, for example, befriending schemes across Wales to reduce the number of older people feeling lonely or isolated.

Mae ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn yn nodi ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd. Rydym nŷn ariannu, er enghraifft, cynlluniau cyfeillio ledled Cymru i leihau nifer y bobl hŷn sy'n teimlo'n unig neu ar wahân.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following the success of free bus travel and the AdvantAGE scheme, as well as the befriending schemes in Wales, in dealing with loneliness in elderly people, what further plans does the Welsh Government have to reduce loneliness and isolation?

Yn dilyn llwyddiant teithiau bws am ddim a'r cynllun Mantais, yn ogystal â'r cynlluniau cyfeillio yng Nghymru, i ymdrin ag unigrwydd ymhlith pobl oedranus, pa gynlluniau eraill sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, we already invest £428,500 a year in third sector grants to help fund befriending schemes across Wales to tackle isolation and loneliness, and a good example of this investment is the Royal Voluntary Service Newport good neighbours scheme. That includes over 300 hours of support a month, provided by 50 volunteers through one-to-one visits with older people, and I know that they also have services elsewhere in Wales. What we hope to see, of course, is schemes like that continue in the future, expand in the future, and then, of course, we will see what money can be made available to fund them.

Wel, rydym ni eisoes yn buddsoddi £428,500 y flwyddyn mewn grantiau trydydd sector i helpu i ariannu cynlluniau cyfeillio ledled Cymru i fynd i'r afael ag arwahanrwydd ac unigrwydd, ac un enghraifft dda o'r buddsoddiad hwn yw cynllun cymdogion da Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol Casnewydd. Mae hwnnw'n cynnwys dros 300 awr o gefnogaeth y mis, a ddarperir gan 50 o wirfoddolwyr trwy ymweliadau un i un â phobl hŷn, a gwn fod ganddynt wasanaethau mewn mannau eraill yng Nghymru hefyd. Yr hyn rydym ni'n gobeithio ei weld, wrth gwrs, yw cynlluniau fel hwnnw'n parhau yn y dyfodol, yn ehangu yn y dyfodol, ac yna, wrth gwrs, byddwn yn gweld pa arian y gellir ei roi ar gael i'w hariannu.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:15 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Of course, I commend the excellent Gofal befriending scheme in north Wales, launched by the Red Cross with lottery money, but key to this agenda is co-production, breaking down the barriers between service users and professionals. How do you therefore respond to the call, which was put in a letter to you backed by 120 practitioners and organisations across Wales, for a formal, independent, member-led co-production network for Wales, underpinned by a shared understanding of the term with the Welsh Government?
- Wrth gwrs, rwy'n canmol cynllun cyfeillio rhagorol Gofal yn y gogledd, a lanswyd gan y Groes Goch gydag arian y loteri, ond mae cyd-gynhyrchu'n allweddol i'r agenda hon, gan chwalu'r rhwystrau rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol. Sut ydych chi'n ymateb felly i'r alwad, a gyflwynwyd mewn llythyr atoch chi a gefnogwyd gan 120 o ymarferwyr a sefydliadau o bob cwr o Gymru, am rwydwaith cydgynhyrchu annibynnol dan arweiniad aelodau ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar gyd-ddealltwriaeth o'r term gyda Llywodraeth Cymru?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- These are matters that the Minister will be keeping under consideration. It's always a mistake, isn't it, to mention one particular service—the others will feel that they should have been mentioned—and I thank the Member for mentioning another service there, and, indeed, all services across Wales that provide so much valuable companionship to so many of our older people. But we will keep under consideration, of course, any suggestions that will help to improve the service that already exists.
- Mae'r rhain yn faterion y bydd y Gweinidog yn parhau i'w hystyried. Mae bob amser yn gamgymeriad, onid yw, i sôn am un gwasanaeth penodol—bydd y lleill yn teimlo y dylen nhw fod wedi cael eu crybwyll—a diolchaf i'r aelod am grybwyll gwasanaeth arall yn y fan yna, ac, yn wir, pob gwasanaeth ledled Cymru sy'n darparu cymaint o gwmnïaeth werthfawr i gynifer o'n pobl hŷn. Ond byddwn yn parhau i ystyried, wrth gwrs, unrhyw awgrymiadau a fydd yn helpu i wella'r gwasanaeth sy'n bodoli eisoes.
- 14:16 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, we face a particular problem in terms of loneliness with older men, and there is a tendency for men to maintain fewer close social relationships than women over the course of their lives, and a lot of men will often avoid efforts to bring them into social contact through voluntary efforts as well. Do you agree that we need a target—a strategy, sorry—specifically tailored to combat loneliness in older men, taking into account the unique challenges that older men face, to ensure that all of Wales benefits?
- Brif Weinidog, rydym ni'n wynebu problem benodol o ran unigrwydd ymhlith dynion hŷn, a cheir tueddiad i ddynion gynnal llai o gysylltiadau cymdeithasol agos na menywod yn ystod eu bywydau, a bydd llawer o ddynion yn aml yn osgoi ymdrechion i ddod â nhw i gysylltiad cymdeithasol trwy ymdrechion gwirfoddol hefyd. A ydych chi'n cytuno bod angen targed arnom ni—strategaeth, mae'n ddrwg gennyf—wedi'i theilwra'n benodol i fynd i'r afael ag unigrwydd ymhlith dynion hŷn, gan gymryd i ystyriaeth yr heriau unigrwy y mae dynion hŷn yn eu hwynebu, er mwyn sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa?
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, RVS has set up a befriending scheme for men, working with rugby clubs across the UK. The aim of the scheme is to support older men to continue to socialise, whether that is going with them to a game, or going to a pub to watch a game with somebody else, and that then, of course, it is hoped, will increase the number of men who volunteer as well. So, the RVS already have a scheme in place, although I suspect you have to be a rugby fan to benefit the greatest from it.
- Wel, mae'r Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol wedi sefydlu cynllun cyfeillio i ddynion, gan weithio gyda chlybiau rygbi ledled y DU. Nod y cynllun yw cefnogi dynion hŷn i barhau i gymdeithasu, pa un a yw hynny'n mynd â nhw i gêm, neu fynd i dafarn i wyllo gêm gyda rhywun arall, a bydd hynny wedyn, wrth gwrs, gobeithio, yn cynyddu nifer y dynion sy'n gwirfoddoli hefyd. Felly, mae gan y Gwasanaeth Gwirfoddoli Brenhinol gynllun ar waith eisoes, er fy mod i'n amau bod yn rhaid i chi fod yn gefnogwr rygbi i gael y budd mwyaf ohono.
- 14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister. Diolch i chi, Brif Weinidog.
- 14:17 **2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes** **Y** Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister, Jane Hutt. Symudwn nawr at eitem 2, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

- 14:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business
I've two changes to announce to this week's business, Llywydd. The Government has extended the time available for the debate on the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill from 15 minutes to 30 minutes to allow further discussion on this important Bill. The timing of the Stage 3 debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill has been extended to 270 minutes, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.
- Mae gennyf ddau newid i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon, Lywydd. Mae'r Llywodraeth wedi ymestyn yr amser sydd ar gael ar gyfer y ddadl am y Bil Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) o 15 munud i 30 munud i ganiatáu trafodaeth bellach am y Bil pwysig hwn. Mae amseriad y ddadl Cyfnod 3 am y Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi'i ymestyn i 270 munud, ac mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir ar y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith y papurau agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.
- 14:18 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Business Minister, yesterday, as I'm sure you're aware, was Commonwealth Day. I attended a raising the Commonwealth flag ceremony at County Hall, just outside Usk in Monmouthshire, and I know that many other Assembly Members attended events as well. However, this doesn't happen across the whole of Wales, and it's still a relatively new event. Will the Welsh Government do what it can to encourage all local authorities in Wales, and groups, to take part in Commonwealth Day? It's a vital opportunity for local people to really show how much they value the Commonwealth as a family of nations that has done a lot of good in the world and can continue to do a lot more good.
- Weinidog Busnes, ddoe, fel yr ydych yn gwybod rwy'n siŵr, oedd Diwrnod y Gymanwlad. Es i i seremoni codi baner y Gymanwlad yn Neuadd y Sir, ychydig y tu allan i Frynbuga yn Sir Fynwy, a gwn fod llawer o Aelodau eraill y Cynulliad yn bresennol mewn digwyddiadau hefyd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ledled Cymru gyfan, ac mae'n dal i fod yn ddigwyddiad cymharol newydd. A wnaiff Llywodraeth Cymru wneud popeth yn ei gallu i annog pob awdurdod lleol yng Nghymru, a grwpiau, i gymryd rhan yn Niwrnod y Gymanwlad? Mae'n gyfle hollbwysig i bobl leol ddangos mewn gwirionedd cymaint y maent yn gwerthfawrogi'r Gymanwlad fel teulu o genhedloedd sydd wedi gwneud llawer o waith da yn y byd ac a all barhau i wneud llawer mwy o ddaioni.
- 14:18 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Well, I welcome very much that you've brought this to our attention as part of the response to the business statement today, Nick Ramsay, and, of course, as you say, there were many important events across Wales, and local authorities have very much taken the lead in this, as well as local communities and other organisations. Of course, the Welsh Government will look to ways in which we can also promote and extol the importance of the Commonwealth in terms of Commonwealth Day.
- Wel, croesawaf yn fawr y ffaith eich bod wedi tynnu ein sylw at hyn yn rhan o'r ymateb i'r datganiad busnes heddiw, Nick Ramsay, ac, wrth gwrs, fel y dywedwch, roedd llawer o ddigwyddiadau pwysig ledled Cymru, ac mae awdurdodau lleol yn sicr wedi cymryd yr awenau yn hyn o beth, yn ogystal â chymunedau lleol a sefydliadau eraill. Wrth gwrs, bydd Llywodraeth Cymru'n edrych ar ffyrdd y gallwn ninnau hefyd hyrwyddo a chanmol pwysigrwydd y Gymanwlad o ran Diwrnod y Gymanwlad.
- 14:19 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
It seems to be commemoration day; I wanted to ask how we are planning to commemorate Europe Day, because it falls on 9 May, which, of course, is just after the general election. In many other countries and regions of Europe, it is celebrated across the whole community; it's a public holiday, and, obviously, for countries that were occupied by the Nazis, it's extremely significant. So, I wondered if we could, at the very least, have a debate here in the Assembly the week after 9 May, which is a Saturday, and I wondered if you could tell us what other ways the Welsh Government is planning to celebrate this important day.
- Mae'n ymddangos ei bod yn ddiwrnod coffa; roeddwn am ofyn sut yr ydym ni'n bwriadu dathlu Diwrnod Ewrop, oherwydd mae hwnnw ar 9 Mai, sydd, wrth gwrs, yn union ar ôl yr etholiad cyffredinol. Mewn llawer o wledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop, fe'i dethlir ar draws y gymuned gyfan; mae'n ŵyl gyhoeddus, ac, yn amlwg, mewn gwledydd a gafodd eu meddiannu gan y Natsïaid, mae'n hynod o arwyddocaol. Felly, tybed a allem ni, o leiaf, gael dadl yma yn y Cynulliad yr wythnos ar ôl 9 Mai sy'n ddydd Sadwrn, a tybed a allech chi ddweud wrthym am unrhyw ffyrdd eraill y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu defnyddio i dathlu'r diwrnod pwysig hwn.

14:20

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, I thank Jenny Rathbone for raising the importance of Europe Day. Of course, we do hold a number of events leading up to Europe Day. We've got the Wales Forum on Europe, for example, on 23 April in Cardiff, and the theme of that forum is jobs growth and the EU. Of course, that is very important in terms of demonstrating how Wales's businesses and small and medium-sized enterprises particularly are benefitting from access to the single market, as well as through our EU funding programmes. But also there are going to be a number of events in the week following 11 May. There's going to be a third sector event on EU funding opportunities, achievements and benefits for the third sector, and the European Commission office in Wales will be hosting a reception at the Senedd during the week of 11 May. Of course we will look to this in terms of other opportunities for debate and statements in due course in terms of our business statement.

Unwaith eto, diolchaf i Jenny Rathbone am godi pwysigrwydd Diwrnod Ewrop. Wrth gwrs, rydym yn cynnal nifer o ddigwyddiadau sy'n arwain at Ddiwrnod Ewrop. Mae gennym Fforwm Cymru ar Ewrop, er enghraifft, ar 23 Ebrill yng Nghaerdydd, a thema'r fforwm hwnnw yw twf swyddi a'r UE. Wrth gwrs, mae hynny'n bwysig iawn o ran dangos sut y mae busnesau Cymru a busnesau bach a chanolig yn arbennig yn elwa ar allu manteisio ar y farchnad sengl, yn ogystal â drwy ein rhaglenni cyllid yr UE. Ond bydd nifer o ddigwyddiadau hefyd yn yr wythnos yn dilyn 11 Mai. Bydd digwyddiad trydydd sector ar gyfleoedd ariannu'r UE, ei gyflawniadau a'i fuddion i'r trydydd sector, a bydd swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn cynnal derbyniad yn y Senedd yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn ar 11 Mai. Wrth gwrs byddwn yn edrych ar hyn i gyd fel cyfleoedd eraill i gael dadl a datganiadau maes o law o ran ein datganiad busnes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fe fydd y Gweinidog busnes wedi clywed ateb gwarthus—nid ateb gwarthus, ateb cywir y Prif Weinidog i'r sefyllfa warthus lle nad yw Prif Weinidog y Deyrnas Unedig wedi trafferthu trafod cynnwys y Papur Gwyn hwn gydag ef. Onid yw felly yn ddyletswydd arnom ni yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, dan arweiniad y Llywodraeth, yn amser y Llywodraeth, i gynnal dadl effeithiol ar bwerau at bwrsas er mwyn inni gael trafod ein dyfodol ein hunain, gan nad yw Prif Weinidog y Deyrnas Unedig yn fodlon fod yn rhan o'r drafodaeth?

The business Minister will have heard the disgraceful—or rather not disgraceful, the correct response of the First Minister to the disgraceful situation where the UK Prime Minister hasn't actually gone to the trouble of discussing the contents of this White Paper with him. Aren't we therefore duty bound in this National Assembly, led by the Government, and in Government time, to hold an effective debate on powers for a purpose so that we can discuss our own future, as the UK Prime Minister isn't willing to participate in that discussion?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Clearly, Dafydd Elis-Thomas, powers for a purpose are what we have sought as a National Assembly for Wales, and indeed have secured cross-party consensus in so many respects, not just in response to Gerry Holtham's independent commission, but through to the Silk commission, of course, which all parties took part in, and leading to our Wales Act 2014. Now, of course, we do take account of and respond to the latest command paper, and look also to the opportunities that will lie ahead post the forthcoming election, which is taking place in another place, and which of course will have a huge impact on how we take this forward.

Yn amlwg, Dafydd Elis-Thomas, pwerau at ddiben yw'r hyn yr ydym wedi'i geisio fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn wir rydym wedi sicrhau consensws trawsbleidiol mewn cynifer o ffyrdd, nid dim ond mewn ymateb i gomisiwn annibynnol Gerry Holtham, ond drwy Gomisiwn Silk, wrth gwrs, y bu pob plaid yn cymryd rhan ynddo, ac a arweiniodd at ein Deddf Cymru 2014. Nawr, wrth gwrs, rydym yn ystyried y papur gorchymyn diweddaraf ac yn ymateb iddo, ac rydym yn edrych hefyd ar y cyfleoedd a ddaw ar ôl yr etholiad sydd i ddod, sy'n digwydd mewn man arall, ac a gaiff effaith enfawr wrth gwrs ar sut y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Business Minister, would you find time on the agenda for the Minister for transport to make a statement on road safety following the tragic events on the A470 near Storey Arms on Friday night? I'd like to take this opportunity to express my condolences to the family and friends who lost loved ones at Storey Arms on Friday, and wish those that remain in hospital a speedy recovery. You will be aware that, as a result of the Government's review of speed limits, the stretch of road on the A470 from Garwnant to Libanus was identified as a road that needed action. Unfortunately, the Welsh Government has logged that action as to be carried out in the medium term, which means three to four years. Whilst I appreciate events surrounding the accident are still being investigated by the police, if it was found, Minister, that improvements to the structure and the camber of the road, and, indeed, a reduction in the speed limit, could have assisted, will the Minister make a statement with a view to bringing forward the work that she has already identified needs to be carried out on that stretch of the A470?

Weinidog Busnes, a allech chi ddod o hyd i amser ar yr agenda i'r Gweinidog trafndiaeth wneud datganiad am ddiogelwch ffyrdd ar ôl y digwyddiadau trasig ar yr A470 ger Storey Arms nos Wener? Hoffwn achub ar y cyfle hwn i fynegi fy nghydymdeimlad â'r teuluoedd a'r ffrindiau a gollodd anwyliaid yn Storey Arms ddydd Gwener, a dymuno gwellhad buan i'r rhai sy'n dal i fod yn yr ysbyty. Byddwch yn ymwybodol, o ganlyniad i adolygiad y Llywodraeth o gyfyngiadau cyflymder, y nodwyd bod y darn o ffordd yr A470 o Arwnant i Libanus yn un lle'r oedd angen gweithredu. Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y gwneir y gweithredu hwnnw yn y tymor canolig, sy'n golygu tair i bedair blynedd. Rwyf yn gwerthfawrogi bod digwyddiadau'n ymwneud â'r ddamwain yn dal i fod yn destun archwiliad gan yr heddlu, ond pe byddem yn canfod, Weinidog, y gallai gwelliannau i adeiledd a chrymedd y ffordd, ac, yn wir, gostyngiad yn y cyfyngiad cyflymder, fod wedi bod o gymorth, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad gyda golwg ar ddwyn ymlaen y gwaith y mae eisoes wedi nodi bod angen ei wneud ar y darn hwnnw o'r A470?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:24

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do thank Kirsty Williams for drawing attention again in the business statement to this tragic incident. I'm sure that I can extend our sincere sympathies, on behalf of the whole Chamber here today, to all of the families of the people involved in this tragic incident, particularly, I would say, in my constituency of the Vale of Glamorgan. Now, a serious incident on our roads is always a great cause of concern, and we will be seeking further information when the police have concluded their investigations. We can't comment, of course, today on the causes of the collision, but we will keep Members informed. It's the safety of our motorway and trunk road network of course that we have to take very seriously, recognising the importance of continued co-ordinated action to further improve safety on Welsh roads. The Minister for Economy, Science and Transport does meet regularly with both local authority leaders and the Welsh chief constables to discuss this important issue. We will continue to deliver road safety engineering improvements on the trunk road network at locations where there is a high risk of serious collisions occurring.

Diolchaf i Kirsty Williams am dynnu sylw unwaith eto yn y datganiad busnes at y digwyddiad trasig hwn. Rwyf yn siŵr y gallaf estyn ein cydymdeimlad diffuant, ar ran y Siambr gyfan yma heddiw, i holl deuluoedd y bobl a fu'n rhan o'r digwyddiad trasig hwn, ac yn enwedig, byddwn yn dweud, yn fy etholaeth i sef Bro Morgannwg. Nawr, mae unrhyw ddigwyddiad difrifol ar ein ffyrdd yn peri pryder mawr, a byddwn yn ceisio cael mwy o wybodaeth ar ôl i'r heddlu gwblhau eu hymchwiliadau. Ni allwn wneud sylwadau, wrth gwrs, heddiw am achosion y gwrthdrawiad, ond byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau. Mae diogelwch ein rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd wrth gwrs yn fater y mae'n rhaid i ni fod yn gwbl o ddifrif yn ei gylch, ac mae'n rhaid inni gydnabod pwysigrwydd gweithredu cydgysylltiedig parhaus i wella diogelwch ar ffyrdd Cymru ymhellach. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr awdurdodau lleol a phrif gwnstabiliaid Cymru i drafod y mater pwysig hwn. Byddwn yn parhau i gyflawni gwelliannau peiriannu diogelwch ffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd mewn lleoliadau lle ceir risg uchel o wrthdrawiadau difrifol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:25

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to make two requests, if I may. First, Samuel Lauder, a constituent of mine who works at Powys County Council, has recently returned home from Sierra Leone, where he spent time as part of a British Red Cross team helping to tackle the Ebola outbreak. I congratulate Sam on his commitment. But what I would like to ask the business Minister is whether she will speak to her Cabinet colleagues to raise awareness of the Red Cross Ebola emergency appeal within their departments, in the hope that Welsh Government departments will follow Powys's example in allowing staff time to undertake similar voluntary work.

Hoffwn wneud dau gais, os caf. Yn gyntaf, mae Samuel Lauder, etholwr imi sy'n gweithio yng Nghyngor Sir Powys, wedi dychwelyd adref yn ddiweddar o Sierra Leone, lle treuliodd amser fel rhan o dîm y Groes Goch Brydeinig sy'n helpu i ymdrin â'r achosion Ebola. Hoffwn longyfarch Sam ar ei ymrwymiad. Ond yr hyn yr hoffwn ei ofyn i'r Gweinidog busnes yw a wnaiff hi siarad â'i chyd-Aelodau yn y Cabinet i godi ymwybyddiaeth o apêl argyfwng Ebola y Groes Goch o fewn eu hadrannau, yn y gobaieth y bydd adrannau Llywodraeth Cymru yn dilyn esiampl Powys i ganiatáu amser i staff ymgymryd â gwaith gwirfoddol tebyg.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, and quickly, I am aware that elective operations are being cancelled in Bronglais hospital due to so-called winter pressures. Would we be able to have a statement on this from the health Minister, as it is entirely unacceptable, as I hope you would agree, that elderly residents in my constituency, some of whom have had their operations cancelled three times in a row and are still waiting, are to be palmed off with this particular excuse?

Yn ail, ac yn gyflym, rwyf yn ymwybodol bod llawdriniaethau dewisol yn cael eu canslo yn Ysbyty Bronglais oherwydd yr hyn a elwir yn bwysau'r gaeaf. A fyddai modd inni gael datganiad am hyn gan y Gweinidog iechyd, oherwydd mae'n gwbl annerbyniol, fel yr wyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno, bod trigolion oedranus yn fy etholaeth, a rhai ohonynt wedi cael eu llawdriniaethau wedi'u canslo deirgwaith yn olynol ac yn dal i aros, yn cael eu siomi â'r esgus penodol hwn?

14:26 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think we would all want to thank very much and acknowledge the voluntary work of your constituent in Sierra Leone and also recognise the contribution that Powys County Council has made to enable that volunteer to play a very important part. Certainly this is something that we would welcome. I know there are examples across Wales where Welsh expertise and support and voluntary effort has been made available to serve and support in the fight against Ebola. I think it's again very important that you drew this to our attention today, Russell George.

Credaf yr hoffem i gyd ddiolch yn fawr iawn a chydabod gwaith gwirfoddol eich etholwr yn Sierra Leone a chydabod hefyd y cyfraniad a wnaeth Cyngor Sir Powys i alluogi'r gwirfoddolwr hwnnw i chwarae rhan bwysig iawn. Yn sicr mae hyn yn rhywbeth y byddem yn ei groesawu. Gwn fod enghreifftiau ledled Cymru lle mae arbenigedd a chymorth ac ymdrech wirfoddol o Gymru wedi bod ar gael i wasanaethu a darparu cymorth yn y frwydr yn erbyn Ebola. Credaf ei bod eto'n bwysig iawn eich bod wedi tynnu ein sylw at hyn heddiw, Russell George.

On your second point, of course, this is a question and a matter of responsibility for the Powys health board, and of course it is to them that you should then address any concerns that you want to raise in terms of their management of the situation.

O ran eich ail bwynt, wrth gwrs, mae hwn yn gwestiwn ac yn fater o gyfrifoldeb i fwrdd iechyd Powys, ac wrth gwrs atynt hwy y dylech gyfeirio unrhyw bryderon yr hoffech eu codi o ran sut y maent yn rheoli'r sefyllfa.

14:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Following the short debate on loneliness and isolation amongst many of the elderly that I led last week, and can I thank Mark Drakeford for his response to it, I would like to ask for a statement on proposed Government action to combat loneliness and isolation amongst pensioners.

Yn dilyn y ddadl fer am unigrwydd ac ynysu ymhlith llawer o'r henoed a arweiniais yr wythnos diwethaf, ac a gaf i ddiolch i Mark Drakeford am ei ymateb iddi, hoffwn ofyn am ddatganiad am gamau gweithredu arfaethedig y Llywodraeth i ymdrin ag unigrwydd ac ynysu ymhlith pensïynwyr.

14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, Mike Hedges, you did, of course, make full use of the short debate, with the Minister for Health and Social Services' response, and, indeed, again today importantly followed this up with the First Minister as well, and I think the First Minister did respond giving examples of the way in which we are supporting, particularly those organisations like the Royal Voluntary Service. But I think it is key that, as the First Minister has outlined, it's one of the three themes of the strategy for older people in terms of ensuring that older people have the social resources to age well. Also, it highlights the importance to older people of seeing friends and family and feeling part of their community. I think the Ageing Well in Wales programme, being led by the commissioner for older people, is also a good example of way in which we are working, and the commissioner is working, to tackle isolation and loneliness.

Wel, Mike Hedges, fe wnaethoch, wrth gwrs, wneud defnydd llawn o'r ddadl fer, gydag ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac, yn wir, unwaith eto heddiw rhoesoch sylw pellach i hyn gyda'r Prif Weinidog hefyd, ac rwy'n meddwl bod y Prif Weinidog wedi ymateb gan roi enghreifftiau o'r ffordd yr ydym yn darparu cymorth, yn enwedig i'r sefydliadau hynny fel y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol. Ond rwy'n meddwl ei bod yn allweddol, fel yr amlinellodd y Prif Weinidog, mai un o dair thema'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn yw sicrhau bod gan bobl hŷn yr adnoddau cymdeithasol i heneiddio'n dda. Hefyd, mae'n amlygu pa mor bwysig yw hi i bobl hŷn weld ffrindiau a theulu a theimlo'n rhan o'u cymuned. Credaf fod y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru, sy'n cael ei harwain gan y comisiynydd pobl hŷn, hefyd yn enghraifft dda o'r ffordd yr ydym yn gweithio, ac y mae'r comisiynydd yn gweithio, i ymdrin ag arwahanrwydd ac unigrwydd.

- 14:28 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There have been important announcements in the past fortnight with regard to both the curriculum and initial teacher training. We held a debate last week with regard to the recommendations within the Donaldson review. Can I ask that the Government also ensures, once it's had the opportunity to consider in full the recommendations contained in that report, that we actually have a debate here on the changes that need to be considered as part of the initial teacher training programme?
- Bu cyhoeddiadau pwysig yn y bythefnos diwethaf ynglŷn â'r cwricwlwm a hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Cynaliasom ddadl yr wythnos diwethaf ynglŷn â'r argymhellion yn adolygiad Donaldson. A gaf fi ofyn i'r Llywodraeth sicrhau hefyd, ar ôl iddi gael y cyfle i ystyried yn llawn yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad hwnnw, y cawn ddadl yma mewn gwirionedd am y newidiadau y mae angen eu hystyried yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant cychwynnol athrawon?
- 14:29 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think it is very important, and I'm sure you've already been engaged in many of the discussions and the briefing that's been held, particularly in relation to the importance of the Donaldson report in relation to the curriculum. Of course, now the Minister is receiving the report, which he commissioned, in terms of teacher training. I know there will be opportunities for you to explore that further with the Minister at appropriate times.
- Wel, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn, ac rwyf yn siŵr eich bod eisoes wedi bod yn rhan o lawer o'r trafodaethau a'r briffio sydd wedi digwydd, yn enwedig ynglŷn â phwysigrwydd adroddiad Donaldson o ran y cwricwlwm. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog nawr yn cael yr adroddiad, a gomisiynwyd ganddo, ynglŷn â hyfforddiant athrawon. Gwn y bydd cyfleoedd i chi archwilio hynny ymhellach gyda'r Gweinidog ar adegau priodol.
- 14:29 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I'd like to request a statement on the positive news that came out of Cardiff Airport in the last few days, namely the Flybe expansion of their routes. I can assure you that it's very warmly welcomed on this side of the Chamber. However, in the interests of transparency, I'd like to request that the Government make a statement, please, on the financial contribution they've made to support the routes of Flybe, directly or indirectly, and also whether the routes are sustainable. There are huge concerns centred around the Wales Audit Office at present, on their unpublished report about the sustainability of the public funds into the airport and its operations.
- Weinidog, hoffwn ofyn am ddatganiad am y newyddion cadarnhaol a ddaeth allan o faes awyr Caerdydd yn y dyddiau diwethaf, sef ehangu llwybrau Flybe. Gallaf eich sicrhau bod croeso cynnes iawn i hynny ar yr ochr hon i'r Siambr. Fodd bynnag, er budd tryloywder, hoffwn ofyn i'r Llywodraeth wneud datganiad, os gwelwch yn dda, am y cyfraniad ariannol y mae wedi'i wneud i gefnogi llwybrau Flybe, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a hefyd pa un a yw'r llwybrau'n gynaliadwy. Ceir pryderon enfawr o gwmpas Swyddfa Archwilio Cymru ar hyn o bryd, ynglŷn â'u hadroddiad heb ei gyhoeddi am gynaliadwyedd y cyllid cyhoeddus i mewn i'r maes awyr a'i weithrediadau.
- 14:30 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I think I'm very glad that we can put on record today that the Welsh Conservatives are very pleased with the announcement about Flybe, as far as the Cardiff Airport is concerned. Of course, it was an announcement that was made by Cardiff Airport, which is responsible, and which has taken this initiative forward with the support of the airport route development financial transactions funding that we have made available as a Welsh Government.
- Wel, rwy'n meddwl fy mod yn falch iawn ein bod yn gallu rhoi ar gofnod heddiw bod Ceidwadwyr Cymru'n hapus iawn â'r cyhoeddiad am Flybe, cyn belled ag y mae maes awyr Caerdydd yn y cwestiwn. Wrth gwrs, roedd hwn yn gyhoeddiad a wnaed gan faes awyr Caerdydd, sy'n gyfrifol, ac sydd wedi bwrw ymlaen â'r fenter hon gyda chymorth y cyllid trafodion ariannol i ddatblygu llwybrau'r maes awyr a ddarparwyd gennym ni fel Llywodraeth Cymru.

14:30

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'd like to call for an oral statement on proposals affecting Big Pit National Coal Museum in Blaenavon. I've been approached by a number of constituents who work there about plans that include detrimental changes to terms and conditions, which disproportionately affect lower-paid staff, and the introduction of a charge for underground tours. Now, as the local Assembly Member, I am vehemently opposed to the introduction of charges at Big Pit, because it flies square in the face of our commitment to free entry to national museums and galleries, and the underground tours are not, as is being argued, an additional extra, but are the very heart of the museum. They connect us with our history, breathe life into our rich industrial heritage, and, for many children, a trip down Big Pit has for a long time been a rite of passage. Presiding Officer, this is an issue of national importance, and I believe is worthy of further discussion and scrutiny in the Assembly at the earliest opportunity.

Hoffwn alw am ddatganiad llafar am gynigion sy'n effeithio ar Amgueddfa Lofaol Cymru Big Pit ym Mlaenafon. Mae nifer o etholwyr sy'n gweithio yno wedi cysylltu â mi ynglŷn â chynlluniau sy'n cynnwys newidiadau niweidiol i'r telerau ac amodau, sy'n effeithio'n anghymesur ar staff ar gyflog is, a chyflwyno tâl am deithiau dan y ddaear. Nawr, fel yr Aelod Cynulliad lleol, rwyf yn gwrthwynebu'n gryf cyflwyno ffioedd yn Big Pit, oherwydd mae'n mynd yn gwbl groes i'n hymrwymiad i fynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau cenedlaethol, ac nid yw'r teithiau tanddaearol, fel y dadleir, yn rhywbeth ychwanegol; maent yn gwbl ganolog i'r amgueddfa. Maent yn ein cysylltu â'n hanes, yn dod â'n treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog yn fyw, ac, i lawer o blant, mae taith i lawr Big Pit wedi bod yn ddefod newid byd ers amser maith. Lywydd, mae hwn yn fater o bwysigrwydd cenedlaethol, ac rwy'n credu ei fod yn haeddu trafodaeth bellach a chraffu yn y Cynulliad cyn gynted â phosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:31

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for Torfaen for her question and support of the Big Pit, and the fact that, as you say, so many of us, with our children, have visited Big Pit. It is, of course, a significant attraction of importance in terms of tourism locally, nationally, and globally. But, of course, we do face, as does National Museums and Galleries Wales, very difficult budgetary pressures, as a result of the £1.5 billion cut, I would have to say, by the UK coalition Government, to our financial public finances. But, I would say that the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism is taking a very close interest in the situation, and he will report back in due course, in terms of the circumstances that you've outlined.

Diolch i'r Aelod dros Dorfaen am ei chwestiwn a'i chefnogaeth i Big Pit, a'r ffaith, fel y dywedwch, bod cynifer ohonom, gyda'n plant, wedi ymweld â Big Pit. Mae, wrth gwrs, yn atyniad sylweddol bwysig o ran twristiaeth yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Ond, wrth gwrs, rydym ni, fel y mae Amgueddfeydd ac Orielau Cymru, yn wynebu pwysau cyllidebol anodd iawn, o ganlyniad i'r toriad £1.5 biliwn, mae'n rhaid imi ddweud, gan Lywodraeth glymblaid y DU, i'n cyllid cyhoeddus ariannol. Ond, byddwn yn dweud bod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn cymryd diddordeb brwd iawn yn y sefyllfa, a bydd ef yn adrodd yn ôl maes o law ynglŷn â'r amgylchiadau yr ydych wedi'u hamlinellu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, a report on public libraries in Wales, published in July last year, suggested that lessons learned from England, in terms of community-managed libraries were not that positive and, I quote:

'the piecemeal development of community-managed libraries and inadequate guidance of good practice have resulted in many volunteers receiving a chronic lack of support from local authorities and facing a range of unrealistic demands'.

You'll be aware, Minister, of the decision by the Vale of Glamorgan Council cabinet to hand a number of libraries in the Vale of Glamorgan over to community management, and campaigners who have been fighting to save them in the local authority's care are understandably devastated. In particular, campaigners in Rhose are doubly concerned, as theirs is the only one of the libraries affected that doesn't have a town or community council in place locally to be able to underpin the financial and legal responsibilities that may be required of anyone seeking to take over the management of that.

Weinidog, roedd adroddiad ar lyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf y llynedd, yn awgrymu nad oedd gwersi a ddysgwyd gan Loegr, o ran llyfrgelloedd yn cael eu rheoli'n gymunedol, mor gadarnhaol â hynny, a dyfynnaf:

'mae datblygiad tameidiog llyfrgelloedd wedi'u rheoli'n gymunedol ac arweiniad annigonol o arferion da wedi arwain at ddiffyg cymorth cronig i lawer o wirfoddolwyr gan awdurdodau lleol gan eu gadael yn wynebu amrywiaeth o alwadau afrealistig'.

Byddwch yn ymwybodol, Weinidog, o benderfyniad cabinet Cyngor Bro Morgannwg i drosglwyddo nifer o lyfrgelloedd ym Mro Morgannwg i reolaeth gymunedol, ac mae ymgyrchwyr sydd wedi bod yn brwydro i'w cadw dan ofal yr awdurdod lleol yn anhapus iawn, yn ddealladwy. Yn arbennig, mae ymgyrchwyr yn y Rhŵs ddwywaith mor bryderus, gan mai eu llyfrgell hwy yw'r unig un o'r rhai yr effeithiwyd arnynt lle nad oes cyngor tref neu gymuned yn lleol a all danategu'r cyfrifoldebau ariannol a chyfreithiol a allai fod yn ofynnol gan unrhyw un sy'n ceisio cymryd rheolaeth o'r llyfrgell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I wonder if I could request a statement from the Minister, not only on the sustainability of community-managed libraries in Wales, and the experience that we've had, but also on the responsibilities of local authorities not to cut these volunteers adrift, in a sea of bureaucracy. Local authorities seem to be following a practice that's happening elsewhere, without taking account of the lessons learned, and I'd be very grateful of guidance coming forward from the Welsh Government to ensure that there is a framework, so that communities such as Rhose aren't left lumbered, really, with responsibilities that they don't have a hope of delivering.

Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog, nid yn unig am gynaliadwyedd llyfrgelloedd a reolir yn gymunedol yng Nghymru, a'r profiad yr ydym wedi'i gael, ond hefyd am gyfrifoldebau awdurdodau lleol i beidio â chefnu ar y gwirfoddolwyr hyn, mewn môr o fiwrocratiaeth. Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn dilyn arfer sy'n digwydd mewn mannau eraill, heb ystyried y gwersi a ddysgwyd, a byddwn yn ddiolchgar iawn am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod fframwaith wedi'i sefydlu, fel na chaiff cymunedau fel y Rhôs eu beichio, mewn gwirionedd, â chyfrifoldebau nad oes ganddynt o'baith o'u cyflawni.

14:34

Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Eluned Parrott for that important question. I'm sure she will be aware that the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism has produced, very recently, in the last two weeks, the community asset transfer guidance, specifically focusing on culture, sport and leisure facilities, and it is bespoke in terms of guidance. And, of course, also, I'm working, as the Minister responsible for national assets, on overarching guidance in terms of community asset transfer, alongside guidance that's been given by a number of organisations like the development trust, the Wales Co-operative Centre and, indeed, the Wales Council for Voluntary Action. So, I think that it is timely and important that you have again drawn this to our attention this afternoon, and of course, this new guidance, I'm sure, will assist local authorities in addressing these important issues.

Diolch i Eluned Parrott am y cwestiwn pwysig yna. Rwyf yn siŵr y bydd hi'n ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi cynhyrchu, yn ddiweddar iawn, yn y pythefnos diwethaf, y canllawiau trosglwyddo asedau cymunedol, sy'n canolbwyntio'n benodol ar gyfleusterau diwylliant, chwaraeon a hamdden, ac maent yn ganllawiau wedi'u teilwra. Ac, wrth gwrs, hefyd, rwyf innau'n gweithio, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am asedau cenedlaethol, ar ganllawiau cyffredinol ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, ochr yn ochr â chanllawiau a roddwyd gan nifer o sefydliadau fel yr ymddiriedolaeth datblygu, Canolfan Cydweithredol Cymru ac, yn wir, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Felly, credaf ei bod yn amserol ac yn bwysig eich bod wedi tynnu ein sylw at hyn unwaith eto y prynhawn yma, ac wrth gwrs, rwyf yn siŵr y bydd y canllawiau newydd hyn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymdrin â'r materion pwysig hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

I call for two statements. Firstly, on the independent living fund, I call for an update on Welsh Government's intentions for this. The Minister will be aware that, after the responsibility and funding was transferred from the Treasury to UK Government for this, supporting disabled people to live independently, disabled groups expressed concern that the Welsh Government was not proposing to ring-fence the fund. Well, we're now into March, with less than four months to the final closure of the existing funding on 30 June, and we're still awaiting a decision following the consultation that ended before Christmas, I understand, which leaves very little time for new arrangements to be put in place. Therefore, there are many anxious existing ILF recipients and carers, fearful about their future ability to continue living independently. Concerns have been exacerbated by rumours, which may be no more than that, that Welsh Government will delay a decision for 12 months, which, if the case, it's hard to imagine anything other than the funds being transferred to local authorities against the opposition of recipients, carers, the Wales Alliance for Citizen Directed Support, Disability Wales and other third sector organisations.

Galwaf am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, am y gronfa byw'n annibynnol; galwaf am ddiweddiariad am fwriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyn. Bydd y Gweinidog yn gwybod, ar ôl i'r cyfrifoldeb a'r cyllid gael eu trosglwyddo o'r Trysorlys i Lywodraeth y DU ar gyfer hyn, i gynorthwyo pobl anabl i fyw'n annibynnol, bod grwpiau anabl wedi mynegi pryder nad oedd Llywodraeth Cymru'n cynnig neilltuo'r gronfa. Wel, rydym nawr ym mis Mawrth, a llai na phedwar mis i fynd tan i'r cyllid presennol gau'n derynol ar 30 Mehefin, ac rydym yn dal i ddisgwyl am benderfyniad ar ôl yr ymgynghoriad a ddaeth i ben cyn y Nadolig, rwyf ar ddeall, sy'n gadael ychydig iawn o amser i roi trefniadau newydd ar waith. Felly, mae llawer o dderbynwyr presennol y gronfa byw'n annibynnol a gofawr yn pryderu am eu gallu i barhau i fyw'n annibynnol yn y dyfodol. Mae pryderon wedi'u gwaethygu gan y straeon, nad ydynt yn ddim mwy na hynny efallai, y bydd Llywodraeth Cymru'n gohirio penderfyniad am 12 mis, ac os bydd hynny'n digwydd, mae'n anodd dychmygu unrhyw beth heblaw trosglwyddo'r cronfeydd i awdurdodau lleol yn erbyn gwrthwynebiad derbynwyr, gofawr, Cynghrair Cymru ar gyfer Cymorth a Gyfarwyddir gan Ddinasyddion, Anabledd Cymru a sefydliadau eraill y trydydd sector.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, under this, I understand that some local authorities, certainly in north Wales, are writing to people regarding their final care plan from the ILF, telling them that, for funding after June, they should contact the local authority social services department and giving a named person to contact who's already left.

Yn olaf, o dan hyn, deallaf fod rhai awdurdodau lleol, yn sicr yn y gogledd, yn ysgrifennu at bobl ynglŷn â'u cynllun gofal olaf o'r gronfa byw'n annibynnol, gan ddweud wrthynt, ar gyfer cyllid ar ôl mis Mehefin, y dylent gysylltu ag adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol gan enwi rhywun i gysylltu ag ef sydd eisoes wedi gadael.

Secondly, and finally, I call for a statement on ophthalmology services for the treatment of disorders and diseases of the eye, after a constituent in north-east Wales contacted me, after having contacted me four years ago with concerns regarding delays in securing an appointment at the eye clinic at Wrexham Maelor Hospital. The situation didn't improve, despite my suggestion to speak to their complaints department, and this person was forced to go private. He was seen within a fortnight, and the same consultant he would have seen was now monitoring his situation regularly. Having seen on the BBC website that the situation on waiting times for eye clinic consultations had not improved, he's seeking private healthcare again. He said that 'This doesn't fit comfortably with me or my wallet', but—

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad am wasanaethau offthalmoleg i drin anhwylderau ac afiechydon y llygaid, ar ôl i etholwr yn y gogledd-ddwyrain gysylltu â mi, ar ôl cysylltu â mi bedair blynedd yn ôl gyda phryderon ynghylch oedi cyn sicrhau apwyntiad yn y clinig llygaid yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Ni wnaeth y sefyllfa wella, er gwaethaf fy awgrym i siarad â'u hadran gwynion, a gorfodwyd yr unigolyn hwn i fynd yn breifat. Gwelwyd ef o fewn pythefnos, ac roedd yr un ymgynghorydd y byddai wedi'i weld bellach yn monitro ei sefyllfa'n rheolaidd. Ar ôl gweld ar wefan y BBC nad oedd sefyllfa amseroedd aros am ymgynoriadau yn y clinig llygaid wedi gwella, mae'n ceisio gofal iechyd preifat unwaith eto. Dywedodd 'Dydy hyn ddim yn gyfforddus i mi nac i fy waled', ond—

14:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Are you coming to the point that you're requesting, please?

A ydych chi'n dod at y pwynt yr ydych yn gofyn amdano, os gwelwch yn dda?

14:37 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

[Continues.]—in view of the fact that the appointment has not been approved—. Given this situation, he's asked me to raise this with Welsh Government as ultimate decision-makers, and I call for a statement accordingly.

[Parhau.]—o ystyried y ffaith na chymeradwywyd y penodiad—. O gofio'r sefyllfa hon, mae wedi gofyn imi godi hyn gyda Llywodraeth Cymru fel y penderfynwyr yn y pen draw, a galwaf am ddatganiad yn unol â hynny.

14:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On the first point, I'm very glad to put the record straight and to remind Mark Isherwood that his Government in London has cut the independent living fund. Yes, they've transferred responsibility, as usual with cuts. Every time they transfer responsibility—. Council tax benefit; don't you remember, the cuts to the council tax benefit—
[Interruption.]

Ar y pwynt cyntaf, rwyf yn falch iawn i gywiro gwall Mark Isherwood a'i atgoffa mai ei Lywodraeth ef yn Llundain sydd wedi torri'r gronfa byw'n annibynnol. Ydynt, maent wedi trosglwyddo cyfrifoldeb, fel arfer gyda thoriadau. Bob tro y maent yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb—. Budd-dal y dreth gyngor; onid ydych yn cofio, y toriadau i fudd-dal y dreth gyngor—[Torri ar draws.]

14:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Order.

Trefn.

14:38 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

And cuts again to the independent living fund. I know that the Minister for Health and Social Services is working closely with the stakeholder group and local government, so that we can manage this effectively and responsibly for some of the most vulnerable people in our community. Your Government in London has not only cut the transfer, but also stopped the independent living fund itself, which has such an important role to play in terms of enabling people to be independent—it is an independent living fund. That is being cut back and disadvantaging those most vulnerable people in Wales.

A thoriadau unwaith eto i'r gronfa byw'n annibynnol. Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'r grŵp rhanddeiliaid a llywodraeth leol, fel y gallwn reoli hyn yn effeithiol ac yn gyfrifol ar gyfer rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned. Nid yn unig y mae eich Llywodraeth chi yn Llundain wedi torri'r trosglwyddiad, ond mae hefyd wedi atal y gronfa byw'n annibynnol ei hun, sydd â rhan mor bwysig i'w chwarae o ran galluogi pobl i fod yn annibynnol—cronfa byw'n annibynnol ydyw. Mae hi'n cael ei thorri ac yn rhoi'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru dan anfantais.

Yes, of course, your second point is a point for Betsi Cadwaladr University Local Health Board.

Ie, wrth gwrs, mater i Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yw eich ail bwynt.

14:39

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last weekend there was another important day— International Women’s Day—and there were many events throughout Wales. I spoke outside City Hall in Cardiff about women’s access to abortion and the harassment of women who use the British Pregnancy Advisory Service clinic on St Mary Street by anti-abortion groups that stand outside when women are going into the clinic. Is the Minister aware of the Back Off campaign, which calls for protected buffer zones around abortion clinics, so that women don’t have to put up with this harassment? Would there be any opportunity to debate this in the Assembly?

Roedd diwrnod pwysig arall y penwythnos diwethaf— diwrnod rhyngwladol y menywod— a bu llawer o ddiwyddiadau ledled Cymru. Bùm yn siarad y tu allan i Neuadd y Ddinas yng Nghaerdydd am sut y mae erthyliad ar gael i fenywod ac am aflonyddu ar fenywod sy'n defnyddio clinig Gwasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd Prydain ar Heol Eglwys Fair gan grwpiau gwrth-erthyliad sy'n sefyll y tu allan pan fo menywod yn mynd i'r clinig. A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o'r ymgyrch Back Off, sy'n galw am fannau clustogi gwarchoddedig o amgylch clinigau erthyliad, fel nad oes rhaid i fenywod ddygydd â'r aflonyddu hwn? A fyddai unrhyw gyfle i gynnal dadl am hyn yn y Cynulliad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for her question. It's very important that a whole range of issues were raised during International Women’s Day events. Issues to celebrate and then also issues of great concern, including campaigns like the Back Off campaign. Also, it is important that you've drawn attention to that unacceptable behaviour in terms of restricting access to those facilities at St Mary Street. So, certainly, this is something that, of course, we would look at in terms of that campaign.

Diolch i Julie Morgan am ei chwestiwn. Mae'n bwysig iawn bod amrywiaeth eang o faterion wedi cael sylw yn ystod digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Materion i'w dathlu a hefyd materion o bryder mawr, gan gynnwys ymgyrchoedd fel yr ymgyrch Back Off. Mae'n bwysig hefyd eich bod wedi tynnu sylw at yr ymddygiad annerbyniol hwnnw o gyfyngu ar fynediad i'r cyfleusterau hynny ar Heol Eglwys Fair. Felly, yn sicr, mae hyn yn rhywbeth y byddem, wrth gwrs, yn fodlon edrych arno o ran yr ymgyrch honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you may well be aware of the tragic news today in north Wales on the A55, where there has been another fatal accident. The A55 has been closed west-bound. In an earlier answer on road safety, you committed to looking at these issues. I wonder whether you could include in your review the A55. Of course, we extend our condolences to the families affected in that accident.

Weinidog, efallai y byddwch yn ymwybodol o'r newyddion trasig heddiw yn y gogledd ar yr A55, lle bu damwain angheuol arall. Caewyd yr A55 tua'r gorllewin. Mewn ateb cynharach am ddiogelwch ffyrdd, gwnaethoch ymrwmo i edrych ar y materion hyn. Tybed a allech chi gynnwys yr A55 yn eich adolygiad. Wrth gwrs, rydym yn estyn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y ddamwain honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, in the light of the First Minister's confirmation that he has now received correspondence in relation to a review from the community health council in north Wales into maternity services at the Glan Clwyd Hospital, I wonder whether we could have a short written statement from the health Minister outlining the timetable that will be followed. At present, there is an intention, as I understand it, to withdraw services by 6 April, and I do think it would be useful to have a timetable set out so that all the stakeholders and many other people affected by this decision know exactly what the position is.

Yn ail, yng ngoleuni cadarnhad y Prif Weinidog ei fod bellach wedi derbyn gohebiaeth ynglŷn ag adolygiad gan y cyngor iechyd cymuned yn y gogledd o wasanaethau mamolaeth ysbyty Glan Clwyd, tybed a allem ni gael datganiad ysgrifenedig byr gan y Gweinidog iechyd i amlinellu'r amserlen a ddilyniir. Ar hyn o bryd, y bwriad, fel y deallaf, yw tynnu gwasanaethau'n ôl erbyn 6 Ebrill, a chredaf y byddai'n ddefnyddiol i nodi amserlen er mwyn i'r holl randdeiliaid a llawer o bobl eraill y mae'r penderfyniad hwn yn effeithio arnynt gael gwybod beth yn union yw'r sefyllfa.

14:41

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Antoinette Sandbach, I know that we would also obviously extend our sincere sympathies in terms of the fatality on the A55. As I said earlier on, the Minister for the Economy, Science and Transport is working very closely with local authority leaders and chief constables on this issue and looking at how we can continue to deliver road safety engineering improvements on the trunk road network. On your second point, of course, the health Minister is currently considering recent correspondence from the community health council and any local consideration needs to continue to be made first and foremost on the safe delivery of local services.

Antoinette Sandbach, gwn y byddem ninnau hefyd yn amlwg yn estyn ein cydymdeimlad diffuant am y farwolaeth ar yr A55. Fel y dywedais yn gynharach, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gweithio'n agos iawn gydag arweinwyr awdurdodau lleol a phrif gwnstabiliaid ar y mater hwn ac yn edrych ar sut y gallwn barhau i gyflawni gwelliannau peiriannu diogelwch ffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd. Ar eich ail bwynt, wrth gwrs, ar hyn o bryd mae'r Gweinidog iechyd yn ystyried gohebiaeth ddiweddar gan y cyngor iechyd cymuned ac mae angen i unrhyw ystyriaeth leol barhau i fod yn seiliedig yn bennaf oll ar gyflenwi gwasanaethau lleol diogel.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could we have a statement from the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism about grass-roots sports in Wales? Blaenau Gwent council proposes to increase the costs and fees for sports clubs in the borough, doubling them in some cases. Cricket clubs will see an increase in fees to £80 for adults and £40 for juniors. In Newport, it has come to my attention that there were nine Asian cricket teams in Newport and there are only six left, because they cannot afford £48 an hour for indoor training. Fees for bowling clubs will increase from £42 a year to £80, while junior tickets will increase from £20 to £45. Match fees for bowling clubs will increase from £21 to £42—virtually double. Minister, sport has a direct impact on the health and wellbeing of our younger and future generations. The proposed increases for football and rugby clubs are more than 50% in some cases. May I ask for a statement on the effect these swingeing increases will have on grass-roots sports in Wales?

Weinidog, a gawn ni ddatganiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth am chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru? Mae cyngor Blaenau Gwent yn cynnig cynyddu costau a ffioedd clybiau chwaraeon yn y fwrdeistref, a'u dyblu mewn rhai achosion. Bydd ffioedd clybiau criced yn cynyddu i £80 i oedolion a £40 i chwaraewyr iau. Yng Nghasnewydd, mae wedi dod i'm sylw bod naw tîm criced Asiaidd yn arfer bod yng Nghasnewydd ac mai dim ond chwech sydd ar ôl, oherwydd na allant fforddio £48 yr awr i hyfforddi dan do. Bydd ffioedd clybiau bowlio'n cynyddu o £42 y flwyddyn i £80, tra bydd tocynnau iau'n cynyddu o £20 i £45. Bydd ffioedd gemau clybiau bowlio'n cynyddu o £21 i £42—dwbl bron. Weinidog, mae chwaraeon yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a lles ein cenedlaethau iau a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynnydd arfaethedig i glybiau pêl-droed a rygbi'n fwy na 50% mewn rhai achosion. A gaf i ofyn am ddatganiad am yr effaith a gaiff y codiadau llym hyn ar chwaraeon ar lawr gwlad yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You know, Mohammad Asghar, that these are local matters for local determination. [Interruption.] Although we have protected local government substantially in terms of our budgetary management over the last five years, we, of course, recognise that there are tough decisions to be made by local authorities as a result of the coalition Government—your coalition Government—cutting our budget by £1.5 billion. [Interruption.] Where is the money going to come from? Tough decisions have to be now made locally and, of course, that is the responsibility that rests at your doorstep in terms of coalition Government policy. [Interruption.]

Gwyddoch, Mohammad Asghar, mai materion lleol i'w penderfynu'n lleol yw'r rhain. [Torri ar draws.] Er ein bod wedi diogelu llywodraeth leol yn sylweddol wrth reoli ein cyllideb dros y pum mlynedd diwethaf, rydym, wrth gwrs, yn cydnabod bod rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd o ganlyniad i'r ffaith bod y Llywodraeth glymblaid—eich Llywodraeth glymblaid chi—wedi lleihau ein cyllideb gan £1.5 biliwn. [Torri ar draws.] O ble y daw'r arian? Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd yn lleol nawr ac, wrth gwrs, dyna'r cyfrifoldeb sydd ar garreg eich drws chi o ran polisiau'r Llywodraeth glymblaid. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think you made all your points when you were sitting down. Do you want to make another point? Andrew R.T. Davies.

Credaf eich bod wedi gwneud eich holl bwyntiau pan oeddech yn eistedd. A ydych chi eisiau gwneud pwynt arall? Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the House, is it possible to have two statements, please—one from the health Minister in relation to recruiting and retaining staff within the health service? On a journey back on First Great Western yesterday, I was reading an article in the London Evening Standard about how the Bristol health board have an inducement policy of £3,000 per mental health nurse to bring mental health nurses to their particular area, and the positive advertising campaign that the health board just across the Severn is engaged in in order to make sure that there are limited or no vacancies amongst their key personnel. Obviously, with the south Wales health boards being so close to Bristol, the inducements that are being offered on the other side of the Severn offer a clear inducement for health workers to travel over the Severn bridge, whereas in this country, we have very little to promote and encourage health workers to stay here and support our health service.

Arweinydd y tŷ, a fyddai'n bosibl cael dau ddatganiad, os gwelwch yn dda—un gan y Gweinidog Iechyd ynglŷn â recriwtio a chadw staff o fewn y gwasanaeth iechyd? Ar daith yn ôl ar First Great Western ddoe, roeddwn yn darllen erthygl yn y London Evening Standard am bolisi cymhelliad bwrdd iechyd Bryste o £3,000 i bob nyrs iechyd meddwl er mwyn dod â nyrsys iechyd meddwl i'w hardal benodol hwy, a'r ymgyrch hysbysebu cadarnhaol gan y bwrdd iechyd ar yr ochr arall i afon Hafren i wneud yn siŵr nad oes llawer neu ddim swyddi gwag ymhlith eu personél allweddol. Yn amlwg, gan fod byrddau iechyd De Cymru mor agos i Fryste, mae'r cymhellion sydd ar gynnig ar yr ochr arall i afon Hafren yn gymhelliad clir i weithwyr iechyd deithio dros bont Hafren, ond yn y wlad hon, ychydig iawn sydd gennym i hybu ac annog gweithwyr iechyd i aros yma a chefnogi ein gwasanaeth iechyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, is it possible to have a statement on the provision of the First Great Western service from Cardiff to London? The service is pretty appalling, to say the least, to be honest with you. Many people who travel on that service are businessmen and businesswomen who are going to make key decisions around investment. I appreciate and I have written to colleagues at Westminster around their role in awarding the franchise, but ultimately, it is vital that this service offers a shop window for what Wales has to offer. Whilst we do have this exciting electrification coming down the line—excuse the pun—for 2018-19, we cannot allow an antiquated rail carriage and rail system to give a negative image of Wales. So, I'd be grateful if I could understand exactly, from a statement from the Welsh Government, how the transport Minister engages with colleagues to make sure that Wales isn't put at a disadvantage.

Yn ail, a yw'n bosibl cael datganiad am ddarpariaeth y gwasanaeth First Great Western o Gaerdydd i Lundain? Mae'r gwasanaeth yn hynod o wael, a dweud y lleiaf, i fod yn onest. Mae llawer o bobl sy'n teithio ar y gwasanaeth hwnnw yn wŷr a gwragedd busnes a fydd yn gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch buddsoddi. Rwyf yn gwerthfawrogi'r rhan y mae ein cydweithwyr yn San Steffan yn ei chwarae o ran dyfarnu'r fasnachfaint ac rwyf wedi ysgrifennu atynt, ond yn y pen draw, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth hwn yn cynnig ffenestr siop i'r hyn sydd gan Gymru i'w cynnig. Er bod y trydaneiddio cyffrous hwn yn dod i lawr y llinell—maddeuwch y mwysair—ar gyfer 2018-19, ni allwn ganiatáu i system gerbydau a rheilffyrdd hen ffasiwn roi delwedd negyddol o Gymru. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallwn ddeall yn union, mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru, sut y mae'r Gweinidog trafnidiaeth yn ymgysylltu â chydweithwyr i wneud yn siŵr nad yw Cymru'n cael ei rhoi dan anfantais.

14:46

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As far as recruiting our health workforce is concerned, of course there's active recruitment and ongoing recruitment campaigns by all our health boards. There is not only active recruitment, but also joint recruitment and learning from health bodies across the UK in terms of recruitment exercises. I would say there's a great deal to offer our health workforce here in Wales, including, for example, the fact that we actually pay the living wage to our health workforce, those who we really do need to recruit and retain. It isn't just about recruiting, is it, leader of the opposition? It's about retaining them as well. I hope you would be part of a welcome party, Andrew R.T. Davies, for the health workforce that we not only want to recruit to Wales, but also want to retain by giving good working conditions, as we do, particularly in relation to the living wage.

Cyn belled ag y mae recriwtio ein gweithlu iechyd dan sylw, wrth gwrs, mae ein byrddau iechyd i gyd yn recriwtio'n egniol ac yn cynnal ymgyrchoedd recriwtio parhaus. Nid yn unig y maent yn recriwtio'n egniol, ond maent hefyd yn recriwtio ar y cyd ac yn dysgu gan gyrrff iechyd ledled y DU o ran ymarferion recriwtio. Byddwn yn dweud bod gennym lawer iawn i'w cynnig i'n gweithlu iechyd yma yng Nghymru, gan gynnwys, er enghraifft, y ffaith ein bod mewn gwirionedd yn talu cyflog byw i'n gweithlu iechyd, y bobl hynny y mae gwir angen inni eu recriwtio a'u cadw. Nid dim ond mater o recriwtio yw hwn, nage, arweinydd yr wrthblaid? Mae'n fater o'u cadw hefyd. Rwyf yn gobeithio y byddech chi'n rhan o barti croeso, Andrew R.T. Davies, nid yn unig i'r gweithlu iechyd yr hoffem ei recriwtio i Gymru, ond hefyd y gweithlu yr hoffem ei gadw drwy roi amodau gwaith da, fel yr ydym yn ei wneud, yn enwedig o ran y cyflog byw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

On your second question, yes, I think actually you perhaps should be asking this question in a different place. The question about the Great Western Service of course is one for the Ministers in London. You've made the point that you've actually raised that with the transport Ministers in London, but, as you know, our transport Minister works very closely with your colleagues at Westminster. That close collaboration and co-operation resulted in the electrification, in securing that electrification, which is so important to west Wales and the Valleys. Of course, that is the result of close, positive and constructive collaboration between our transport Minister and transport Ministers at Westminster.

O ran eich ail gwestiwn, ie, rwyf yn meddwl mewn gwirionedd efallai y dylech ofyn y cwestiwn hwn mewn lle gwahanol. Wrth gwrs, cwestiwn i'r Gweinidogion yn Llundain yw'r un ynglŷn â'r gwasanaeth Great Western. Rydych wedi gwneud y pwynt eich bod mewn gwirionedd wedi codi hynny gyda'r Gweinidogion trafnidiaeth yn Llundain, ond, fel yr ydych yn gwybod, mae ein Gweinidog trafnidiaeth ni yn cydweithio'n agos iawn â'ch cydweithwyr yn San Steffan. Arweiniodd y cydweithio a'r cydweithredu agos hwnnw at drydaneiddio, at sicrhau'r trydaneiddio hwnnw, sydd mor bwysig i'r gorllewin a'r Cymoedd. Wrth gwrs, canlyniad cydweithredu agos, cadarnhaol ac adeiladol rhwng ein Gweinidog trafnidiaeth ni a'r Gweinidogion trafnidiaeth yn San Steffan yw hynny.

14:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:48

3. Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2014-15

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the next item, which is a debate on the second supplementary budget. I call on the Minister for Finance and Government Business to move the motion. Jane Hutt.

3. Debate on the Second Supplementary Budget 2014-15

Symudwn yn awr at yr eitem nesaf, sef dadl am yr ail gyllideb atodol. Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig. Jane Hutt.

Y Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 10 Chwefror 2015.

To propose that the Assembly, in accordance with Standing Order 20.30, approves the Second Supplementary Budget for the financial year 2014-15 laid in the Table Office and emailed to Assembly Members on Tuesday, 10 February 2015.

Cynigiwyd y cynnig.

Motion moved.

14:48

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

The second supplementary budget, which I published on 10 February, reflects all the changes we've made since the first supplementary budget, approved last July. The financial challenges we're facing as a result of the reductions to our budget need to be reaffirmed. By 2015-16, the Welsh budget will be 9 per cent lower in real terms than in 2010-11. The challenges we face in this current financial year are no different, but as a Government we remain resolute in our commitment to protect our priorities and, where possible, counteract austerity.

Mae'r ail gyllideb atodol, a gyhoeddais ar 10 Chwefror, yn adlewyrchu pob un o'r newidiadau yr ydym wedi'u gwneud ers y gyllideb atodol gyntaf, a gymeradwywyd fis Gorffennaf diwethaf. Mae angen ailddatgan yr heriau ariannol yr ydym yn eu hwynebu o ganlyniad i'r gostyngiadau i'n cyllideb. Erbyn 2015-16, bydd cyllideb Cymru 9 y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11. Nid yw'r heriau a wynebwn yn y flwyddyn ariannol bresennol yn ddim gwahanol, ond fel Llywodraeth, rydym yn dal yn benderfynol yn ein hymrwymiad i amddiffyn ein blaenoriaethau a, lle bo modd, gwrthweithio cyni.

I would like to take this opportunity to thank the Finance Committee for their scrutiny of this second supplementary budget, and I will, of course, respond to the Chair with regard to the specific recommendations in due course. Lywydd, we have been clear that protecting the Welsh NHS is a priority and, as I announced in October, alongside the draft budget and following the publication of the independent report by the Nuffield Trust, this supplementary budget details allocations to the Welsh NHS of £200 million. That funding package responds directly and fully to the evidence provided by the Nuffield Trust. Since then, the Welsh NHS, like health services across the UK, has experienced sustained pressure over the Christmas and new year period. As a result, we're allocating an additional £40 million to help manage these winter pressures.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei gwaith craffu ar yr ail gyllideb atodol hon, a byddaf, wrth gwrs, yn ymateb maes o law i'r Cadeirydd ynglŷn â'r argymhellion penodol. Lywydd, rydym wedi bod yn glir bod amddiffyn y GIG yng Nghymru yn flaenoriaeth ac, fel y cyhoeddais ym mis Hydref, ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft ac wedi i Ymddiriedolaeth Nuffield gyhoeddi'r adroddiad annibynnol, mae'r gyllideb atodol hon yn rhoi manylion dyraniadau gwerth £200 miliwn i GIG Cymru. Mae'r pecyn cyllido hwnnw'n ymateb yn uniongyrchol ac yn llawn i'r dystiolaeth a ddarparwyd gan Ymddiriedolaeth Nuffield. Ers hynny, mae GIG Cymru, fel gwasanaethau iechyd ledled y DU, wedi profi pwysau cyson dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. O ganlyniad, rydym yn dyrannu £40 miliwn yn ychwanegol i helpu i reoli pwysau'r gaeaf hwn.

It means increased investment in our Welsh NHS of more than £0.5 billion over two years. This demonstrates our clear commitment to a sustainable NHS in Wales, based on the reforms outlined in the Nuffield report. This supplementary budget details a number of capital allocations, which are made in line with the priorities set out in the 'Wales Infrastructure Investment Plan for Growth and Jobs'. These include an additional £14.9 million-worth package of capital funding for the Welsh NHS to provide for increased investment in diagnostic equipment and additional emergency ambulances. In addition, this investment will support the roll-out of both the community care information and emergency department clinical information management system schemes, supporting a transformation of services.

Mae'n golygu buddsoddiad mwy yn ein GIG Cymru o dros £0.5 biliwn dros ddwy flynedd. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad clir i GIG cynaliadwy yng Nghymru, yn seiliedig ar y diwygiadau a amlinellir yn adroddiad Nuffield. Mae'r gyllideb atodol hon yn rhoi manylion nifer o ddyraniadau cyfalaf, sy'n cael eu gwneud yn unol â'r blaenoriaethau a nodir yn y 'Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi'. Mae'r rhain yn cynnwys pecyn ychwanegol gwerth £14.9 miliwn o gyllid cyfalaf i GIG Cymru i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y buddsoddiad mewn offer diagnostig ac ambiwlansys brys ychwanegol. Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn cefnogi cyflwyno'r wybodaeth gofal cymunedol a'r cynlluniau systemau rheoli gwybodaeth glinigol adrannau achosion brys, gan gefnogi gwaith i weddnewid gwasanaethau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Further demonstrating our commitment to invest in housing, this budget also allocates £5.8 million, which will be invested in the social housing grant scheme and will bring forward the delivery of 70 to 90 new affordable homes, acting as an economic stimulus supporting growth and jobs. In addition, it funds our home improvement loans initiative, which will provide short to medium-term loan finance, enabling individual property owners to bring poor housing back to suitable living conditions.

This budget also provides additional funding for the Finance Wales capital growth fund, giving support to Welsh small and medium-sized enterprises and a commercial loan to support the development of the Swansea bay tidal lagoon energy scheme. This budget also includes a number of allocations in 2014-15 from our invest-to-save fund, providing support to help public sector organisations transform the way that they work. I'm pleased to be able to announce the latest series of projects that will benefit from invest-to-save in 2015-16, including 23 schemes that will be supported through the allocation of £10 million over the next two years. The details of these schemes are laid out in a written statement today.

Together, these projects will benefit health boards, local authorities and both further and higher education establishments, and they demonstrate that good practice from within Wales, from the rest of the UK, and further afield is spreading. Our investment will align with new and innovative ideas on service delivery being developed in Wales, which will, in turn, become the best practice of tomorrow. There are also a number of schemes that concentrate on energy efficiency, reducing not only cost but carbon emissions. The level of interest in invest-to-save has been high, and I anticipate making a further announcement on a second tranche later on this year.

Again, I would like to take this opportunity to thank the Finance Committee for its scrutiny of the supplementary budget, and for its subsequent report. I hope Members will welcome this supplementary budget, which shows how, despite the challenges we face, we're determined to protect our priorities.

I ddangos ymhellach ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn tai, mae'r gyllideb hon hefyd yn dyrannu £5.8 miliwn, a fydd yn cael ei fuddsoddi yn y cynllun grant tai cymdeithasol ac a fydd yn cyflwyno 70 i 90 o gartrefi fforddiadwy newydd, gan weithredu fel ysgogiad economaidd i gefnogi twf a swyddi. Yn ogystal, mae'n ariannu ein menter benthyciadau i wella cartrefi, a fydd yn darparu cyllid benthyciad tymor byr i ganolig, gan alluogi perchnogion eiddo unigol i adfer tai gwael i amodau byw addas.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cronfa twf cyfalaf Cyllid Cymru, gan roi cymorth i fentrau bach a chanolig Cymru a benthyciad masnachol i gefnogi datblygiad cynllun ynni morlyn llanw bae Abertawe. Mae'r gyllideb hon hefyd yn cynnwys nifer o ddyraniadau yn 2014-15 o'n cronfa buddsoddi i arbed, sy'n darparu cymorth i helpu sefydliadau'r sector cyhoeddus i weddnewid y ffordd y maent yn gweithio. Rwyf yn falch o allu cyhoeddi'r gyfres ddiweddaraf o brosiectau a fydd yn elwa o fuddsoddi i arbed yn 2015-16, gan gynnwys 23 o gynlluniau a gynorthwyr gan y dyraniad o £10 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae manylion y cynlluniau hyn wedi'u nodi mewn datganiad ysgrifenedig heddiw.

Gyda'i gilydd, bydd y prosiectau hyn o fudd i fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, ac maent yn dangos bod arfer da oddi mewn i Gymru, o weddill y DU, ac o ymhellach i ffwrdd yn lledaenu. Bydd ein buddsoddiad yn gydnaws â syniadau newydd ac arloesol am ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu datblygu yng Nghymru, a fydd, yn eu tro, yn dod yn arfer gorau yfory. Ceir hefyd nifer o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni, gan leihau nid yn unig y gost ond allyriadau carbon. Mae lefel y diddordeb mewn buddsoddi i arbed wedi bod yn uchel, ac rwyf yn rhagweld gwneud cyhoeddiad pellach am ail gyfran yn nes ymlaen eleni.

Unwaith eto, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor Cyllid am ei waith craffu ar y gyllideb atodol, ac am ei adroddiad dilynol. Gobeithiaf y bydd Aelodau'n croesawu'r gyllideb atodol hon, sy'n dangos sut yr ydym, er gwaethaf yr heriau a wynebwn, yn benderfynol i ddiogelu ein blaenoriaethau.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Finance Committee, Jocelyn Davies.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:52 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. The committee met and considered the second supplementary budget for 2014-15 on 25 February, and I'd like to thank all those who were part of the process, and in particular, I'd like to thank the Minister for giving evidence. We've published a report that sets out our conclusions following scrutiny and outlines our recommendations to the Government and we hope that the Minister will consider those recommendations carefully.

Diolch, Lywydd. Cyfarfu'r pwyllgor i ystyried yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2014-15 ar 25 Chwefror, a hoffwn ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r broses, ac yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am roi tystiolaeth. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad sy'n amlinellu ein casgliadau ar ôl y gwaith craffu ac sy'n amlinellu ein hargymhellion i'r Llywodraeth, ac rydym yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn ystyried yr argymhellion hynny'n ofalus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We had a number of concerns, which I'd like to mention to Members today. The committee would like to see invest-to-save projects delivering savings, particularly in relation to Natural Resources Wales's voluntary early release scheme. We also want to see more flexibility in relation to the budget exchange system, and I'm sure we'll continue to monitor these matters. However, the committee's primary concern is the surge of funding to the health and social care budget. We raised this issue during our autumn budget scrutiny, and it continues to be our main focus with the scrutiny of this supplementary budget motion.

As a committee, we firmly believe that the setting of priorities is a matter purely for the Government. However, additional funding to the health and social care budget is problematic in a number of ways. Firstly, this influx of funding to health seems to be based on the evidence of just one report, the Nuffield report, which the Minister mentioned earlier. Now, in Wales, we have historically had a partnership approach to health and social services, with each sector playing an important role. The committee's concern is that the Nuffield report looks at the NHS in isolation and does not consider the wider role of other sectors in contributing to the health of the people of Wales.

Secondly, there seem to be no firm targets being set that show how the NHS will improve and become financially sustainable. An increase in funding should be accompanied by clear targets to assess the impact that it's having.

Thirdly, there's a lack of clarity about the decision-making process behind the relative contributions of the other six main expenditure groups to the additional funding allocated to health and social services.

So, we continue to have concerns about the impact that this increased funding is having on other sectors, particularly local government and the third sector. During the autumn, we heard that these sectors would not be able to undertake much of the important work that they believe alleviates pressures on the health service. We sincerely hope that the Minister will consider our concerns over the funding allocations to health, and the detrimental effect this has on other sectors and their ability to undertake important preventative work.

Roedd gennym nifer o bryderon, a hoffwn sôn amdanynt wrth yr Aelodau heddiw. Hoffai'r Pwyllgor weld prosiectau buddsoddi i arbed yn sicrhau arbedion, yn enwedig o ran cynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol Cyfoeth Naturiol Cymru. Hoffem hefyd weld mwy o hyblygrwydd o ran y system cyfnewid cyllidebau, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn parhau i fonitro'r materion hyn. Fodd bynnag, prif bryder y Pwyllgor yw'r ymchwydd o gyllid i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol. Codasom y mater hwn wrth graffu ar gyllideb yr hydref, a hwn yw ein prif bwyslais o hyd wrth graffu ar y cynnig cyllideb atodol hwn.

Fel pwyllgor, rydym yn credu'n gryf mai mater i'r Llywodraeth yn unig yw gosod blaenoriaethau. Fodd bynnag, mae arian ychwanegol i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol yn broblemus mewn nifer o ffyrdd. Yn gyntaf, mae'n ymddangos bod y mewnlifiad hwn o arian i iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth un adroddiad yn unig, adroddiad Nuffield, y cyfeiriodd y Gweinidog ato'n gynharach. Nawr, yng Nghymru, yn hanesyddol rydym wedi defnyddio dulliau partneriaeth ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gyda phob sector yn chwarae rhan bwysig. Pryder y Pwyllgor yw bod adroddiad Nuffield yn edrych ar y GIG ar wahân ac nad yw'n ystyried swyddogaeth ehangach y sectorau eraill o ran cyfrannu at iechyd pobl Cymru.

Yn ail, ymddengys nad oes unrhyw dargedau pendant yn cael eu gosod sy'n dangos sut y bydd y GIG yn gwella ac yn dod yn gynaliadwy yn ariannol. Dylid cael targedau dir gydfynd â'r cynnydd yn y cyllid i asesu'r effaith y mae'n ei chael.

Yn drydydd, ceir diffyg eglurder am y broses o wneud penderfyniadau y tu ôl i gyfraniadau cymharol y chwe phrif grŵp gwariant arall at yr arian ychwanegol a ddyrannwyd i iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Felly, mae gennym bryderon o hyd ynghylch yr effaith y mae'r cynnydd hwn yn y cyllid yn ei chael ar sectorau eraill, yn enwedig llywodraeth leol a'r trydydd sector. Yn ystod yr hydref, clywsom na fyddai'r sectorau hyn yn gallu ymgymryd â llawer o'r gwaith pwysig y maent yn credu ei fod yn lleddfu pwysau ar y gwasanaeth iechyd. Mawr obeithiwn y gwnaiff y Gweinidog ystyried ein pryderon dros y dyraniadau cyllid i iechyd, a'r effaith niweidiol y mae hyn yn ei chael ar sectorau eraill a'u gallu i wneud gwaith ataliol pwysig.

14:55

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, can I thank you for bringing this debate forward today, and indeed for your briefings on the issue of the budget, both to the Finance Committee as a whole, chaired by Jocelyn Davies, and also individually? That's been most helpful.

Supplementary budgets and secondary supplementary budgets are not everyone's cup of tea, it's true, but they are nevertheless very important in trying to make best use of extra resources coming down the line, albeit late on, from UK Government. Finance Committee focused, as the Chair has said, on the funding of the NHS, the clear priority for the people of Wales, and specifically how the Welsh Government are balancing the need for additional NHS funding with the competing needs of the other portfolios.

Weinidog, a gaf fi ddiolch i chi am gyflwyno'r ddadl hon heddiw, ac yn wir am eich sesiynau briffio am y gyllideb, ill dau i'r Pwyllgor Cyllid yn ei gyfanrwydd, wedi'i gadeirio gan Jocelyn Davies, a hefyd yn unigol? Mae hynny wedi bod o gymorth mawr.

Nid yw cyllidebau atodol a chyllidebau atodol eilaidd at ddant pawb, mae hynny'n wir, ond serch hynny maent yn bwysig iawn wrth geisio gwneud y defnydd gorau o adnoddau ychwanegol a ddaw, er eu bod yn hwyr, gan Lywodraeth y DU. Canolbwyntiodd y Pwyllgor Cyllid, fel y dywedodd y Cadeirydd, ar ariannu'r GIG, y flaenoriaeth glir i bobl Cymru, ac yn benodol sut y mae Llywodraeth Cymru'n cydbwysu'r angen am arian ychwanegol i'r GIG â'r anghenion sy'n cystadlu o'r portffolios eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Nuffield report has been mentioned. That was clearly commissioned by this Government, and its recommendations, based on performance indicators, has done much to define the financial decision-making process. I am reminded of Mike Hedges's ongoing question—I can see he's going to speak shortly, so I won't steal his thunder—'Why are independent reports always right?', a question which you asked many times in committee, Mike, but that is indeed another question, and I'm sure you'll talk more about that later.

So, £60 million has been found from departmental cuts and £140 million drawn from reserves, so an additional £200 million or so allocated to health. One of the overriding concerns of the committee was not necessarily that additional funding had been allocated to the health budget—of course, Welsh Conservatives have been calling for this extra resource for a long time—but it appears this has been done without any targets being set on how the NHS will improve and become financially sustainable: the key recommendation on page 12 of our report, chapter 2 on NHS prioritisation.

We all remember, of course, Minister, the fuss over your moving the goalposts after the last discussion on catch-up money for the NHS, when health boards were given extra amounts of money in-year, with a requirement for them to show value for money seemingly placed by you on them afterwards. That's caused confusion, and we certainly don't want to see that sort of confusion again.

Local authorities have obviously been very concerned about declining sums in local government settlements in recent years. As we know from our discussions with local government in Wales, this year's settlement has been particularly challenging. Nevertheless, during an evidence session to the Finance Committee on 25 February, you claimed that, in terms of the local government settlement over the past three years, Welsh Government support for local government had increased in cash terms compared with England, and that it had been protected over the period of the spending review. I took issue with this in the Finance Committee session on two grounds. First of all, since when has the definition of protection of a budget relied on it being a bigger percentage than in England? Secondly, of course, it simply isn't the case that you protected the budget; the local government budget has not been protected in real terms, and that is taking into account inflation. I suppose the question is: what do you mean by 'protection'? When Welsh Conservatives say we would've protected the health budget, that means in real terms, including inflation. In fact, if you are saying that protection means cash terms, by your definition, the UK Government has actually protected the block grant, even though that hasn't kept up with inflation, and I'm sure you wouldn't say that, would you, Minister? I can see Carl Sargeant already realising there's a trap there if we go by your own definitions—or maybe you would, so you can clarify that later.

Mae adroddiad Nuffield wedi'i grybwyll. Yn amlwg, cafodd ei gomisiynu gan y Llywodraeth hon, ac mae ei argymhellion, yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad, wedi gwneud llawer i ddiffinio'r broses gwneud penderfyniadau ariannol. Caf fy atgoffa o gwestiwn parhaus Mike Hedges—gallaf weld ei fod yn mynd i siarad cyn bo hir, felly ni wnaf ddwyn ei glodydd—'Pam mae adroddiadau annibynnol bob amser yn gywir?', cwestiwn y gwnaethoch ei ofyn sawl gwaith yn y Pwyllgor, Mike, ond mae hwnnw wir yn gwestiwn arall, ac rwyf yn siŵr y gwnewch siarad mwy am hynny yn nes ymlaen.

Felly, canfuwyd £60 miliwn o doriadau adrannol a daeth £140 miliwn o gronfeydd wrth gefn, felly mae tua £200 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu i iechyd. Un o bryderon pennaf y Pwyllgor oedd nid o reidrwydd bod cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu i'r gyllideb iechyd—wrth gwrs, mae Ceidwadwyr Cymru wedi bod yn galw am yr adnodd ychwanegol hwn ers amser maith—ond ymddengys bod hyn wedi'i wneud heb osod unrhyw dargedau ar gyfer sut y bydd y GIG yn gwella ac yn dod yn gynaliadwy'n ariannol: yr argymhelliad allweddol ar dudalen 12 ein hadroddiad, pennod 2 ar flaenoriaethu'r GIG.

Rydym i gyd yn cofio, wrth gwrs, Weinidog, y ffwdan oherwydd eich bod wedi symud y pyst ar ôl y drafodaeth ddiwethaf am arian dal i fyny ar gyfer y GIG, pan gafodd byrddau iechyd symiau ychwanegol o arian yn ystod y flwyddyn, a'ch bod yn ôl pob golwg wedi mynnu wedi hynny eu bod yn dangos gwerth am arian. Mae hynny wedi achosi dryswch, ac yn sicr nid ydym am weld y math hwnnw o ddryswch eto.

Mae awdurdodau lleol yn amlwg wedi bod yn bryderus iawn bod symiau mewn setliadau i lywodraeth leol wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Fel y gwyrddom o'n trafodaethau gyda llywodraeth leol yng Nghymru, bu setliad eleni'n arbennig o heriol. Serch hynny, yn ystod sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 25 Chwefror, honasoch, o ran y setliad llywodraeth leol dros y tair blynedd diwethaf, fod cymorth Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol wedi cynyddu yn nhermau arian parod o'i gymharu â Lloegr, a'i fod wedi'i ddiogelu dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Anghytunais â hyn yn y sesiwn Pwyllgor Cyllid am ddau reswm. Yn gyntaf oll, ers pryd mae'r diffiniad o ddiogelu cyllideb wedi dibynnu ar iddo fod yn ganran mwy nag yn Lloegr? Yn ail, wrth gwrs, nid yw'n wir o gwbl eich bod wedi diogelu'r gyllideb; nid yw cyllideb llywodraeth leol wedi'i diogelu mewn termau real, ac mae hynny'n cymryd chwyddiant i ystyriaeth. Mae'n debyg mai'r cwestiwn yw: beth ydych chi'n ei olygu wrth 'diogelu'? Pan ddywed Ceidwadwyr Cymru y byddem wedi diogelu'r gyllideb iechyd, mae hynny'n golygu mewn termau real, gan gynnwys chwyddiant. Mewn gwirionedd, os ydych yn dweud bod diogelu'n golygu termau arian parod, yn ôl eich diffiniad chi, mae Llywodraeth y DU mewn gwirionedd wedi diogelu'r grant bloc, er nad yw hwnnw wedi cadw i fyny â chwyddiant, ac rwyf yn siŵr na fydddech yn dweud hynny, fydddech chi, Weinidog? Gallaf weld bod Carl Sargeant eisoes yn sylweddoli bod magl yno os dilynwn eich diffiniadau chi—neu efallai y byddech, felly gallwch egluro hynny'n nes ymlaen.

The fact is, Minister, you cannot have it both ways. This budget in local government has been cut in real terms. You may have felt you had no alternative, but you must come clean with the people of Wales and admit that that cut has happened.

Turning briefly to the education and skills budget, and that large decrease to the youth engagement, unemployment and post-16 education actions, which we know includes funding for apprenticeships, that is of concern. We hear the warm words from your Government on supporting apprenticeships, but this cut would appear to fly in the face of that. You have maintained that funding to traineeships has not been affected and you continue to fund apprenticeships, but that doesn't seem to be what is being borne out in practice, so we'd be grateful for some clarification on how you intend to support apprenticeships, given that your budget lines appear to be going in the opposite direction.

Invest-to-save, Minister—I don't think anyone disagrees with the principle behind the invest-to-save scheme, but the Finance Committee clearly needed to scrutinise the associated revenue transfers of £24 million. You've issued a written statement this afternoon; forgive me, I've not had time to fully digest it in the hour or so since it was released, but I will be looking at that. I would ask you to bring forward more detail in the wake of that statement on exactly how the invest-to-save schemes are performing and how you intend to allocate future revenues to the next tranche of invest-to-save.

15:00

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf i am ganolbwyntio ar ddau fater yn unig, sydd wedi cael eu crybwyll eisoes, sef yr arian ychwanegol i fyrdau iechyd a'r toriad sylweddol i gyllideb llywodraeth leol.

Rydych chi, eto heddiw, wedi cyfeirio at adroddiad Nuffield fel sail i'r arian ychwanegol yma, ond fe fydddech chi hefyd yn cydnabod bod yr archwilydd cyffredinol eisoes wedi rhybuddio, mewn adroddiad cyn cyhoeddi Nuffield, y bydd pob bwrdd iechyd yn gorwario yn drwm ac, felly, fe fyddai'r arian hwnnw wedi gorfod cael ei ddarganfod petai Nuffield wedi adrodd ai peidio ar yr angen Ond, y cwestiwn sy'n codi o hyn ydy: pa ddeilliannau y mae'r Llywodraeth yn eu disgwyl, neu yn eu mynnu, yn dilyn y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ein gwasanaeth iechyd?

Y ffaith yw, Weinidog, na allwch ei chael hi y ddwy ffordd. Mae'r gyllideb hon i lywodraeth leol wedi'i thorri mewn termau real. Efallai eich bod wedi teimlo oedd gennych ddewis arall, ond mae'n rhaid ichi ddweud y gwir wrth bobl Cymru a chyfaddef bod y toriad hwnnw wedi digwydd.

I droi'n sydyn at gyllideb addysg a sgiliau, a'r gostyngiad mawr hwnnw i ymgysylltu ag ieuencid, camau gweithredu diweithdra ac addysg ôl-16, sydd fel y gwyddom yn cynnwys cyllid ar gyfer prentisiaethau, mae hynny'n peri pryder. Clywn y geiriau cynnes gan eich Llywodraeth am gefnogi prentisiaethau, ond mae'n ymddangos bod y toriad hwn yn mynd yn groes i hynny. Rydych wedi mynnu nad yw hyn wedi effeithio ar gyllid i hyfforddiaethau a'ch bod yn parhau i ariannu prentisiaethau, ond nid yw'n ymddangos bod hynny'n digwydd mewn gwirionedd, felly byddem yn ddiolchgar am eglurhad o sut yr ydych yn bwriadu cefnogi prentisiaethau, o gofio ei bod yn ymddangos bod eich llinellau cyllideb yn mynd i'r cyfeiriad arall.

Buddsoddi i arbed, Weinidog—nid wyf yn credu bod unrhyw un yn anghytuno â'r egwyddor y tu ôl i'r cynllun buddsoddi i arbed, ond yn amlwg roedd angen i'r Pwyllgor Cyllid graffu ar y trosglwyddiadau refeniw cysylltiedig o £24 miliwn. Rydych wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig y prynhawn yma; maddeuwch imi, nid wyf wedi cael amser i'w dreulio'n llawn yn y tua awr ers iddo gael ei ryddhau, ond byddaf yn edrych ar hynny. Byddwn yn gofyn ichi gyflwyno mwy o fanylion yn sgil y datganiad hwnnw i nodi sut yn union y mae'r cynlluniau buddsoddi i arbed yn perfformio a sut yr ydych yn bwriadu dyrannu refeniw yn y dyfodol i'r gyfran nesaf o fuddsoddi i arbed.

I want to concentrate on two issues, which have already been mentioned, namely the additional funding for health boards and the significant cut in the local government funding allocation.

You have again today referred to the Nuffield report as a basis for this additional funding, but would you also recognise that the auditor general previously warned, in a report prior to the publication of Nuffield, that every health board would overspend significantly and that, therefore, that funding would have had to have been found, regardless of whether Nuffield had reported or not. However, the question that arises from this is: what outputs does the Government expect, or what outputs will it insist upon, following this additional investment in our health service?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae eraill wedi nodi, beth bynnag, fod yna ochr arall i'r geiniog yma, gan fod gwasanaethau cymdeithasol, wrth gwrs, yn greiddiol i iechyd cyffredinol pobl Cymru, ac, wrth gwrs, mae llywodraeth leol wedi gweld toriad pellach yn dilyn y toriadau sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf yma. Yn wir, bellach, mae amryw o arweinwyr yn dweud eu bod nhw ar ymyl y dibyn ariannol. Rydym wedi gweld y digwyddiadau, wrth gwrs, yng Nghaerdydd, sy'n dangos y tensynau sydd yna mewn cynghorau ar hyd a lled Cymru. Y cwestiwn sydd gen i yw: gan eich bod yn cyfeirio byth a beunydd, wrth ateb cwestiynau yma, at y toriad sydd wedi dod o Lundain—toriad sy'n cyfateb i £1.5 biliwn, meddech chi, yn y gyllideb—pe bai Llafur yn ffurfio Llywodraeth yn San Steffan yn dilyn yr etholiad sydd ar ddod, a fyddwn ni'n gweld dadwneud y toriadau sydd wedi digwydd yn y pedair blynedd diwethaf yma? Buaswn yn ddiolchgar i gael sylwadau ar y ddau fater yna. Diolch.

Others have already noted that there is another side to this coin, as social services, of course, are at the heart of the general health of the Welsh population, and, of course, local government has seen a further cut, following the cuts imposed over previous years. Indeed, many local government leaders are saying that they are on the cliff edge in financial terms. We have seen events in Cardiff that demonstrate the tensions that exist within councils the length and breadth of Wales. The question that I have is this: as you constantly refer when answering questions in this place to the cut imposed from London—a cut that corresponds to £1.5 billion, according to your figures—if Labour were to form the next Government in Westminster after the forthcoming election, will we see a reversing of the cuts that have happened over the past four years? So, I would be grateful if we could hear your comments on those two issues. Thank you.

15:03

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can I start by welcoming the draft budget? Of course, we all welcome the extra money that has gone into the health service. I think, though, that the committee's report raises some very fundamental and important questions not just about the evidence on which that investment has taken place, but also about the consequences of that investment in terms of the impacts on other budgets, the way that that funding is being allocated and how its impact is being measured, and what objectives the additional funding is seeking to achieve.

I think, Presiding Officer, that, clearly, when it comes to the impact of those decisions in the last budget—the Welsh Government's budget—you can see, in terms of the impact on local government, that not only are local government having to make substantial cuts in their own service provision because of that additional funding for health, but also that there is evidence that some of the Welsh Government's own commitments are not being met as a result of that cut to the local government budget.

In Swansea, for example, the Welsh Government's pledge of increasing funding for schools by 1 per cent above the Welsh block should have led to a 0.6 per cent increase in funding for schools across Wales. In Swansea, we have a 5 per cent cut to the funding for schools as a result of the fact that Welsh Government has reduced funding for local councils by around 3.5 per cent. Now, that is a decision that has been taken by the Minister. She has the Nuffield report—and I'm glad we clarified that that was a Welsh Government-commissioned report—as providing evidence for that funding, but what I don't see, in terms of how effective we were able to scrutinise that additional funding, is what outcomes the Welsh Government expects to see from that extra money given to health, what the outputs they are expecting from that extra investment are going to be, and how that extra investment is going to deliver the improved health service that we all want to see and hope is going to come about.

A gaf fi ddechrau drwy groesawu'r gyllideb ddrafft? Wrth gwrs, rydym ni i gyd yn croesawu'r arian ychwanegol sydd wedi mynd i'r gwasanaeth iechyd. Credaf, fodd bynnag, fod adroddiad y Pwyllgor yn codi rhai cwestiynau sylfaenol a phwysig iawn, nid yn unig am y dystiolaeth a fu'n sail i'r buddsoddiad hwnnw, ond hefyd am ganlyniadau'r buddsoddiad hwnnw o ran yr effeithiau ar gyllidebau eraill, y modd y dyrennir y cyllid hwnnw a sut y mae ei effaith yn cael ei mesur, a pa amcanion y mae'r cyllid ychwanegol yn ceisio'u cyflawni.

Rwy'n credu, Lywydd, ei bod yn amlwg, o ran effaith y penderfyniadau hynny yn y gyllideb ddiwethaf—gyllideb Llywodraeth Cymru—y gallwch weld, o ran yr effaith ar lywodraeth leol, nid yn unig bod llywodraeth leol yn gorfod gwneud toriadau sylweddol yn eu darpariaeth gwasanaethau eu hunain oherwydd yr arian ychwanegol hwnnw ar gyfer iechyd, ond y ceir tystiolaeth hefyd nad yw rhai o ymrwymadau Llywodraeth Cymru ei hun yn cael eu bodloni o ganlyniad i'r toriad hwnnw i'r gyllideb llywodraeth leol.

Yn Abertawe, er enghraifft, dylai fod addewid Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ar gyfer ysgolion 1 y cant uwchlaw bloc Cymru wedi arwain at gynydd o 0.6 y cant mewn cyllid ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Yn Abertawe, mae gennym doriad o 5 y cant i'r cyllid ar gyfer ysgolion o ganlyniad i'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi lleihau cyllid ar gyfer cynghorau lleol o tua 3.5 y cant. Nawr, mae hwnnw'n benderfyniad a wnaethpwyd gan y Gweinidog. Mae ganddi adroddiad Nuffield—ac rwyf yn falch inni ei gael yn glir mai adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru oedd hwnnw—sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer y cyllid hwnnw, ond yr hyn na allaf ei weld, o ran pa mor effeithiol yr oeddem yn gallu craffu ar y cyllid ychwanegol hwnnw, yw pa ganlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld o roi'r arian ychwanegol hwnnw i iechyd, pa allbynnau y byddant yn eu disgwyl o'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, a sut y mae'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw'n mynd i ddarparu'r gwasanaeth iechyd gwell yr hoffem i gyd ei weld ac y gobeithiwn y bydd yn digwydd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think, Minister, that there's a complete opaqueness about the way that that health boards are funded, which means that, in terms of the Finance Committee's scrutiny and, I suspect, the health committee's scrutiny as well, it is very difficult to get to the heart of where exactly that £9 billion of funding actually goes and how effectively it is spent, how efficiently it is spent and how that investment relates to the patient experience. Because, despite that extra funding, we still have a situation, as we come near to the end of the financial year, of health boards cancelling operations, of patients queuing to get into accident and emergency, and of other crises hitting various health boards as the money starts to run out. That is despite the three-year funding crisis—maybe that was a Freudian slip there—the three-year funding regime that has been put into place for those health boards. So, I think, Minister, that the committee does raise some very valid concerns about the way this budget is being allocated and about, particularly, the supplementary budget. I think we do need to have a great deal more transparency and accountability in terms of those extra allocations that you've put into the health and social services MEG.

Of course, the other side of that is the impact the cuts to local government have on social services. You will know, Minister, that, when we discussed the main budget, I did raise the issue of the impact on social services of the cuts to local government and how that would impact in particular on the partnership working, which is working well, between local government and health services in terms of delivering care in the community. Now, clearly, you have put an extra £10 million into social services, but, as I pointed out at the time, that barely covers the deficit funding of one social services department in a large council in Wales. We have the intermediate care fund, and there has been additional money allocated to that, which is very welcome, but, at the end of the day, I think, across Wales, decisions are having to be made in terms of adult care in particular, where funding is not being made available and, as a result of that, beds are being blocked and decisions are having to be made about care in the community that are putting further pressure on our hospitals. So, I think, Minister, we do need to get a more joined-up approach to how this funding is working. By all means, take money from local government to put into health, but you also have to look at the other side of it and make sure that if you're going to do that, there are not unforeseen consequences for health as a result of that and as a result of social services suffering a lack of funding as well.

Just very briefly, in the 15 seconds I have available, I also want to endorse the committee's views on invest-to-save—we do need some more transparency on that as well. Thank you, Presiding Officer.

15:08

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

I welcome the supplementary budget. If only things were like Nick Ramsay made out: that you could give more money to education, more money to local government and more money to health. The reality is that the inevitable consequence of more money to health is less money for local government.

Credaf, Weinidog, fod diffyg tryloywder llwyr ynghylch y ffordd y caiff byrddau iechyd eu hariannu, sy'n golygu, o ran gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ac, rwyf yn amau, gwaith craffu'r pwyllgor iechyd hefyd, ei bod yn anodd iawn canfod i ble'n union y mae'r £9 biliwn hwnnw o arian yn mynd mewn gwirionedd a pha mor effeithiol y caiff ei wario, pa mor effeithlon y caiff ei wario a sut y mae'r buddsoddiad hwnnw'n berthnasol i brofiad y claf. Oherwydd, er gwaethaf yr arian ychwanegol hwnnw, mae gennym sefyllfa o hyd, wrth inni agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, lle mae byrddau iechyd yn canslo llawdriniaethau, cleifion yn cwio i fynd i mewn i adrannau damweiniau ac achosion brys, ac argyfyngau eraill yn taro gwahanol fyrddau iechyd wrth i'r arian ddechrau mynd yn brin. Mae hynny er gwaethaf yr argyfwng ariannu tair blynedd—efallai mai llithriad Freudaidd oedd hynny—y drefn ariannu tair blynedd a roddwyd ar waith ar gyfer y byrddau iechyd hynny. Felly, credaf, Weinidog, fod y pwyllgor yn codi rhai pryderon dilys iawn ynghylch y ffordd y mae'r gyllideb hon yn cael ei dyrannu ac, yn benodol, am y gyllideb atodol. Credaf fod angen inni gael llawer mwy o dryloywder ac atebolrwydd o ran y dyraniadau ychwanegol hynny yr ydych wedi'u rhoi i'r prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Wrth gwrs, yr ochr arall i hynny yw effaith y toriadau i lywodraeth leol ar wasanaethau cymdeithasol. Byddwch yn gwybod, Weinidog, pan fuom yn trafod y brif gyllideb, fy mod wedi sôn am effaith y toriadau i lywodraeth leol ar wasanaethau cymdeithasol a sut y byddai hynny'n effeithio'n arbennig ar y gwaith partneriaeth, sy'n gweithio'n dda, rhwng llywodraeth leol a gwasanaethau iechyd o ran darparu gofal yn y gymuned. Nawr, yn amlwg, rydych wedi rhoi £10 miliwn ychwanegol i wasanaethau cymdeithasol, ond, fel y nodais ar y pryd, prin bod hynny'n ddigon i dalu am ddiffyg cyllid un adran gwasanaethau cymdeithasol mewn cyngor mawr yng Nghymru. Mae gennym y gronfa gofal canolraddol, ac mae arian ychwanegol wedi'i ddyrannu i honno, sydd i'w groesawu, ond, yn y pen draw, credaf, ledled Cymru, fod yn rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â gofal i oedolion yn arbennig, lle nad oes arian ar gael ac, o ganlyniad i hynny, mae gwelyau'n cael eu blocio ac mae'n rhaid gwneud penderfyniadau am ofal yn y gymuned sy'n rhoi mwy o bwysau ar ein hysbytai. Felly, credaf, Weinidog, fod arnom angen ymagwedd fwy cydgysylltiedig at sut y mae'r cyllid hwn yn gweithio. Ar bob cyfrif, cymerwch arian oddi ar lywodraeth leol i'w roi i iechyd, ond mae'n rhaid ichi hefyd edrych ar y llaw arall a gwneud yn siŵr, os ydych yn mynd i wneud hynny, nad oes canlyniadau annisgwyl ar gyfer iechyd o ganlyniad i hynny ac o ganlyniad i'r ffaith bod y gwasanaethau cymdeithasol yn dioddef diffyg cyllid hefyd.

Yn gyflym iawn, yn y 15 eiliad sydd ar gael imi, hoffwn hefyd ategu barn y Pwyllgor am fuddsoddi i arbed—mae arnom angen mwy o dryloywder ar hynny hefyd. Diolch, Lywydd.

Croesawaf y gyllideb atodol. O na byddai pethau fel yr awgrymodd Nick Ramsay: y gallech roi mwy o arian i addysg, mwy o arian i lywodraeth leol a mwy o arian i iechyd. Y gwirionedd yw mai canlyniad anochel mwy o arian i iechyd yw llai o arian i lywodraeth leol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The committee's view on the draft budget was that the setting of priorities was a matter for the Welsh Government. This view, held by the committee, is one I fully endorse. The Welsh Government will be held responsible for the spending of this money and will be held responsible for the budget. The role of both the committee and the Assembly is to scrutinise this expenditure, and I want to talk about two areas: health funding and invest-to-save.

Health funding seems to go through the same cycle every year: first quarter: substantial overspend; second quarter: a small reduction; third quarter: serious end-of-year problems are predicted and substantial additional money given to health in the supplementary budget or just before it; and fourth quarter: major hospital services cut back—to be repeated next year. This seems to have happened year on year on year. Three questions arise. Firstly, the Assembly has granted health boards the ability to plan a three-year budget, so an overspend in some years can be offset by savings in other years. Will we get an outturn report showing underspends or overspends this year and how that fits into the three-year budget cycle?

The second question is: what is being done to ensure medical interventions that are, in the opinion of the National Institute for Health and Care Excellence, either of no benefit or likely to do harm to a patient—? There are a lot of interventions, and the auditor general has produced a report on this as well, where he's identified a lot of health expenditure that, at best, does no harm and, possibly, does harm rather than good. Thirdly, is the split between primary and secondary care correct, and is the funding methodology fair for each? General practitioners are, in the main, paid so much per patient when hospitals are paid per intervention. Is this a fair way of funding, because what is produced is a widening of the gap in both monetary and percentage terms between primary and secondary care expenditure?

Finally, on health, two rhetorical questions: how much of the Welsh budget can we spend on health? What happens when it does reach 50 per cent? If social care is not adequately funded, will this not have a serious effect on health needs? We've seen that in England—there are substantial problems occurring in health in England, caused by the cutbacks in local government, which have led to cutbacks in social services.

On invest-to-save—and I'm someone who really does believe in invest-to-save—I think it's an excellent scheme to use capital funding injections to reduce future revenue expenditure, and there have been very many good schemes carried out by the Welsh Government, which have led to substantial savings in different areas. I always think of the one down at the botanical gardens, where they've put in solar panels and, over five years, they've made a substantial saving.

Barn y pwylgor am y gyllideb ddrafft oedd mai mater i Lywodraeth Cymru oedd gosod blaenoriaethau. Mae'r farn hon, a ddelir gan y pwylgor, yn un y cymeradwyaf yn llawn. Llywodraeth Cymru fydd yn cael ei dal yn gyfrifol am wario'r arian hwn ac yn cael ei dal yn gyfrifol am y gyllideb. Swyddogaeth y pwylgor a'r Cynulliad ill dau yw craffu ar y gwariant hwn, a hoffwn sôn am ddau faes: cyllid iechyd a buddsoddi i arbed.

Mae'n ymddangos bod cyllid iechyd yn mynd drwy'r un cylch bob blwyddyn: chwarter cyntaf: gorwariant sylweddol; ail chwarter: gostyngiad bychan; trydydd chwarter: rhagfynegi problemau difrifol ar ddiwedd y flwyddyn a rhoi symiau sylweddol o arian ychwanegol i iechyd yn y gyllideb atodol neu ychydig cyn hynny; a'r pedwerydd chwarter: toriadau mawr i wasanaethau ysbyty—i'w ailadrodd y flwyddyn nesaf. Ymddengys bod hyn wedi digwydd flwyddyn ar ôl blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'n codi tri chwestiwn. Yn gyntaf, mae'r Cynulliad wedi rhoi'r gallu i fyrddau iechyd gynllunio cyllideb tair blynedd, fel y gellir gwrthbwysu gorwariant mewn rhai blynyddoedd gydag arbedion mewn blynyddoedd eraill. A gawn ni adroddiad alldro i ddangos tanwario neu orwario eleni a sut y mae hynny'n cyd-fynd â'r cylch cyllideb tair blynedd?

Yr ail gwestiwn yw: beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod ymyraethau meddygol sydd, ym marn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, naill ai'n ddi-fudd neu'n debygol o niweidio claf—? Ceir llawer o ymyraethau, ac mae'r archwilydd cyffredinol wedi cynhyrchu adroddiad ar hyn hefyd, lle mae ef wedi nodi llawer o wariant ar iechyd sydd, ar y gorau, ddim yn gwneud dim drwg ac sydd, o bosibl, yn gwneud niwed yn hytrach na lles. Yn drydydd, a yw'r rhaniad rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd yn gywir, ac a yw'r fethodoleg ariannu'n deg ar gyfer y naill a'r llall? Ar y cyfan, telir hyn a hyn fesul claf i feddygon teulu, ond telir ysbytai fesul ymyrraeth. A yw hon yn ffordd deg o ariannu, oherwydd yr hyn a greir yw ehangu'r bwlb mewn termau arian ac mewn termau canrannol rhwng gwariant ar ofal sylfaenol ac eilaidd?

Yn olaf, ar iechyd, dau gwestiwn rhethregol: faint o gyllideb Cymru gawn ni ei wario ar iechyd? Beth sy'n digwydd pan fo'n cyrraedd 50 y cant? Os nad yw gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu'n ddigonol, oni chaiff hyn effaith ddifrifol ar anghenion iechyd? Rydym wedi gweld hynny yn Lloegr—mae problemau sylweddol yn digwydd ym maes iechyd yn Lloegr, wedi'u hachosi gan y toriadau ar lywodraeth leol, sydd wedi arwain at doriadau ar wasanaethau cymdeithasol.

O ran buddsoddi i arbed—ac rwyf yn rhywun sydd wir yn credu mewn buddsoddi i arbed—credaf ei fod yn gynllun rhagorol i ddefnyddio hwb arian cyfalaf i leihau gwariant refeniw yn y dyfodol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni llawer iawn o gynlluniau da, sydd wedi arwain at arbedion sylweddol mewn gwahanol feysydd. Rwyf bob amser yn meddwl am yr un i lawr yn y gerddi botaneg, lle maen nhw wedi gosod paneli solar a, dros bum mlynedd, maent wedi gwneud arbediad sylweddol.

I also believe that the simpler the scheme, the more likely it is to succeed. I am also relaxed about schemes paying back over five years rather than three. Three years can be ambitious, but five years, I think, is not unreasonable. What does concern me is those schemes that are making no payments in the first year, and the Finance Committee will be failing in its duty to scrutinise the expenditure if it does not keep a close watch on those schemes in future years.

A major recipient of invest-to-save money has been Natural Resources Wales. It has had substantial sums from invest-to-save since inception. It has postponed payment from the year after the investment to future years. If the problem is that the cost of a merger is substantially higher than was predicted—. In my experience of mergers, they always cost more and produce less savings. I have gone through lots of mergers, not just local government, but within colleges and a whole range of other places, and the savings seemed to not materialise, but the costs seemed to increase. If that's the case, then a better way would be to fully fund the merger costs and not use invest-to-save as a method of filling the gap, and allowing the invest-to-save money to be used to create future years' savings, especially in health, where it's worked incredibly well.

Finally, budgeting is about using resources as effectively as possible, and this is the aim of this supplementary budget—and I would fail in my duty if I were not to say this—despite the draconian cuts of the Conservative-Liberal Democrat Government at Westminster.

Credaf hefyd mai'r symlaf yw'r cynllun, y mwyaf tebygol ydyw o lwyddo. Rwyf hefyd yn hapus ynglŷn â chynlluniau sy'n talu'n ôl dros bum mlynedd yn hytrach na thair. Gall tair blynedd fod yn uchelgeisiol, ond nid yw pum mlynedd, rwy'n credu, yn afresymol. Yr hyn sydd yn peri pryder imi yw'r cynlluniau hynny sy'n gwneud dim taliadau yn y flwyddyn gyntaf, a bydd y Pwyllgor Cyllid yn methu yn ei ddyletswydd i graffu ar y gwariant os nad yw'n cadw llygad barcud ar y cynlluniau hynny yn y blynyddoedd i ddod.

Un corff sydd wedi cael llawer iawn o arian buddsoddi i arbed yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae wedi cael symiau sylweddol o fuddsoddi i arbed ers ei sefydlu. Mae wedi gohirio talu o'r flwyddyn ar ôl y buddsoddiad i flynyddoedd yn y dyfodol. Os mai'r broblem yw bod cost uno'n sylweddol uwch nag a ragwelwyd—. Yn fy mhrofiad i o uno, mae bob amser yn costio mwy ac yn cynhyrchu llai o arbedion. Rwyf wedi mynd drwy uno lawer gwaith, nid dim ond o fewn llywodraeth leol, ond o fewn colegau ac amrywiaeth eang o leoedd eraill, ac roedd yn ymddangos nad oedd yr arbedion yn dod i'r amlwg, ond roedd yn ymddangos bod y costau'n cynyddu. Os mai dyna sydd wedi digwydd, un ffordd well fyddai ariannu costau'r uno'n llawn yn hytrach na defnyddio buddsoddi i arbed fel dull o lenwi'r bwlch, a chaniatáu i'r arian buddsoddi i arbed gael ei ddefnyddio i greu arbedion yn y blynyddoedd i ddod, yn enwedig ym maes iechyd, lle mae wedi gweithio'n anhygoel o dda.

Yn olaf, mae cyllidebu'n fater o ddefnyddio adnoddau mewn modd mor effeithiol â phosibl, a dyma yw nod y gyllideb atodol hon—a byddwn yn methu yn fy nyletswydd pe na bawn yn dweud hyn—er gwaethaf toriadau llym Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan.

15:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call the Minister for finance to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog cyllid i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business

Well, I'd like to thank colleagues for a very constructive response to my supplementary budget. As I said, I look forward to responding in detail to the Finance Committee report, but also in relation to some of the points that have been raised here today. I also thank the committee for the very constructive scrutiny of the supplementary budget. I think, as I said at that committee, and during that scrutiny, there's no question that this is the toughest supplementary budget that this National Assembly, and certainly the Welsh Government, has had to manage, deliver and present, as a result—and, I think, as Mike Hedges summed it up—of a draconian cut, which has meant that not only have we had to handle that cut in terms of our budget for this financial year of 2014-15, but also that we've had to reprioritise, because we are a responsible Government and we have recognised that we have had to respond to health and social services' financial needs. I think that the Chair was right to acknowledge, as the committee did, that, clearly, it is up to the Welsh Government to set its priorities, and then it has to account for those decisions and to account, as has been said by Members today, for the impact of those decisions, to acknowledge the impact in terms of outcomes, and, of course, to also be very clear and transparent about the impact of those tough decisions when you're reprioritising against reducing public finances.

Across this Chamber, I don't think anybody or any party would dispute the fact—and Peter Black said it—that investment in the health service is what we feel that we need to deliver. Of course, and I do acknowledge, it is about investment for what purpose and what the impact of that investment will be.

Now, the additional funding that I announced of £425 million for investment in the health service over two years, which I announced in September as part of the draft budget, including £200 million in this financial year, and we've announced an extra £70 million, following the autumn statement—. I remember we made the decision there and then that that money would go to health. I think, again, that was welcomed across this Chamber. But, also, we then listened to the views about how that should be spent, and the health and social services Minister and the Deputy Minister listened. So, some of that money has gone to help extend, for next year, the intermediate care fund, and I think that was welcomed as well. So, it's quite clear that, as a Government, we are recognising the importance of those decisions and the impact.

Wel, hoffwn ddiolch i fy nghydweithwyr am ymateb adeiladol iawn i fy nghyllideb atodol. Fel y dywedais, edrychaf ymlaen at ymateb yn fanwl i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, ond hefyd o ran rhai o'r pwyntiau a godwyd yma heddiw. Diolch hefyd i'r pwyllgor am graffu mewn modd adeiladol iawn ar y gyllideb atodol. Credaf, fel y dywedais yn y pwyllgor hwnnw, ac yn ystod y gwaith craffu hwnnw, nad oes amheuaeth mai hon yw'r gyllideb atodol anoddaf y mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, ac yn sicr Llywodraeth Cymru, wedi gorfod ei rheoli, ei darparu a'i chyflwyno, o ganlyniad—ac, rwyf yn credu, fel y crynhodd Mike Hedges—i doriad llym, sydd nid yn unig wedi golygu ein bod wedi gorfod ymdrin â'r toriad hwnnw o ran ein cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, 2014-15, ond ein bod hefyd wedi gorfod ailflaenoriaethu, oherwydd ein bod yn Llywodraeth gyfrifol ac rydym wedi cydnabod ein bod wedi gorfod ymateb i anghenion ariannol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Credaf fod y Cadeirydd yn iawn i gydnabod, fel y gwnaeth y pwyllgor, mai, yn amlwg, lle Llywodraeth Cymru yw gosod ei blaenoriaethau, ac yna rhaid iddi roi cyfrif am y penderfyniadau hynny a rhoi cyfrif, fel y dywedodd Aelodau heddiw, am effaith y penderfyniadau hynny, cydnabod yr effaith ar ganlyniadau, ac, wrth gwrs, bod yn glir ac yn dryloyw iawn hefyd am effaith y penderfyniadau anodd hynny pan eich bod yn ailflaenoriaethu yn erbyn lleihau cyllid cyhoeddus.

Ar draws y Siambr hon, nid wyf yn meddwl y byddai unrhyw un nac unrhyw blaid yn gwadu'r ffaith—a dywedodd Peter Black hyn—mai buddsoddi yn y gwasanaeth iechyd yw'r hyn yr ydym yn teimlo bod angen inni ei gyflawni. Wrth gwrs, ac rwyf yn cydnabod, mae'n fater o fuddsoddiad at ba ddiben a beth fydd effaith y buddsoddiad hwnnw.

Nawr, y cyllid ychwanegol a gyhoeddais o £425 miliwn i'w fuddsoddi yn y gwasanaeth iechyd dros ddwy flynedd, a gyhoeddais ym mis Medi yn rhan o'r gyllideb ddrafft, gan gynnwys £200 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon, ac rydym wedi cyhoeddi £70 miliwn ychwanegol, yn dilyn datganiad yr hydref—. Cofiaf ein bod wedi gwneud y penderfyniad yn y fan a'r lle y byddai'r arian hwnnw'n mynd i iechyd. Credaf, unwaith eto, fod hynny wedi'i groesawu ar draws y Siambr hon. Ond, hefyd, buom yn gwrandawed yn y safbwyntiau ynghylch sut y dylid ei wario, a gwrandawodd y Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog. Felly, mae rhywfaint o'r arian hwnnw wedi mynd i helpu i ymestyn, ar gyfer y flwyddyn nesaf, y gronfa gofal canolraddol, ac rwy'n meddwl bod hynny wedi'i groesawu hefyd. Felly, mae'n eithaf clir ein bod, fel Llywodraeth, yn cydnabod pwysigrwydd y penderfyniadau hynny a'u heffaith.

But, I do think, on the point that's been made and the question that's been put to me by Alun Ffred Jones and Nick Ramsay and, indeed, others today, the message from the Nuffield report is clear. It is an independent report and it is very clear. If you recall the statement that Mark Drakeford, the Minister, made last June, the message from Nuffield, an independent foundation—which, of course, has also reported on the state of the finances of health in England and, of course, the UK Government also took account of that—is clear: a sustainable NHS is within our grasp, provided we make the necessary improvements in productivity and service delivery, in tandem with this additional investment. Of course, all the subsequent announcements that have been made by the Minister and the Deputy Minister are in line with that reform.

Of course, we also had the additional £40 million for winter pressures for 2014-15 and, like all health services across the UK, the Welsh health service was experiencing sustained pressure over Christmas and the new year. Again, a responsible Government then responds and allocates funding, and that £40 million has helped to manage these winter pressures. This £8 million has been allocated towards emergency ambulance services to respond to rising demand, particularly over recent months.

Of course, again, the issues in relation to the impacts on spend, in terms of the other portfolios and MEGs, if we do look at the settlement for local government in Wales, I will say, again, as I've said every year, that the settlement for local government in Wales has been considerably better than that for England over the period of this 2010 spending review, and has been delivered against a backdrop of contracting public funding. Nick.

Ond, credaf, ar y pwynt a wnaethpwyd a'r cwestiwn a ofynnwyd imi gan Alun Ffred Jones a gan Nick Ramsay ac yn wir, gan eraill heddiw, fod neges adroddiad Nuffield yn glir. Mae'n adroddiad annibynnol, ac mae'n glir iawn. Os cofiwch y datganiad a wnaeth Mark Drakeford, y Gweinidog, fis Mehefin diwethaf, mae'r neges gan Nuffield, sefydliad annibynnol—sydd, wrth gwrs, hefyd wedi adrodd ar gyflwr cyllid iechyd yn Lloegr ac, wrth gwrs, ystyriwyd hynny gan Lywodraeth y DU—yn glir: mae GIG cynaliadwy o fewn ein gafael, cyn belled â'n bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol o ran cynhyrchiad a darparu gwasanaethau, ochr yn ochr â'r buddsoddiadau ychwanegol hwn. Wrth gwrs, mae pob un o'r cyhoeddiadau dilynol a wnaethpwyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn cyd-fynd â'r diwygiad hwnnw.

Wrth gwrs, cawsom hefyd y £40 miliwn ychwanegol ar gyfer pwysau'r gaeaf yn 2014-15 ac, fel pob gwasanaeth iechyd ar draws y DU, roedd gwasanaeth iechyd Cymru dan bwysau parhaus dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Unwaith eto, mae Llywodraeth gyfrifol yna'n ymateb ac yn dyrannu arian, ac mae'r £40 miliwn hwnnw wedi helpu i reoli'r pwysau gaeaf hwn. Dyrannwyd yr £8 miliwn hwn tuag at wasanaethau ambiwlans brys i ymateb i'r galw cynyddol, yn enwedig dros y misoedd diwethaf.

Wrth gwrs, unwaith eto, mae'r materion sy'n ymwneud â'r effeithiau ar wariant, o ran y portffolios a phrif grwpiau gwariant, os edrychwn ar y setliad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, dywedaf, unwaith eto, fel yr wyf wedi'i ddweud bob blwyddyn, bod y setliad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru wedi bod gryn dipyn yn well na'r un ar gyfer Lloegr dros gyfnod yr adolygiad o wariant 2010, ac mae wedi'i gyflawni yn erbyn cefndir o leihau arian cyhoeddus. Nick.

15:17 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Minister, for giving way. You're right to say that protecting the health budget is certainly our priority in the opposition. Would you agree with me that, rather than giving ad hoc amounts of money as and when you feel that there's an emergency arising, actually it would be better for the health service and health boards to have a consistency of funding over a number of years? That would really help them more than just this piecemeal distribution of money.

Diolch, Weinidog, am ildio. Rydych yn iawn i ddweud mai diogelu'r gyllideb iechyd, yn sicr, yw ein blaenoriaeth yn yr wrthblaid. A fydddech chi'n cytuno â mi, yn hytrach na rhoi symiau o arian ad hoc pryd bynnag y byddwch yn teimlo bod argyfwng yn codi, y byddai'n well mewn gwirionedd i'r gwasanaeth iechyd a'r byrddau iechyd sicrhau cyllid cyson dros nifer o flynyddoedd? Byddai hynny'n wir yn eu helpu'n fwy na dim ond dosbarthu arian yn dameidiog fel hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:17 **Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

Well, I think increased investment in the Welsh NHS of more than £0.5 billion over two years is a clear and consistent and constructive response to an independent report, which the Nuffield Foundation provided us with.

I will just move on to an important point, again to confirm the points I've made about local government. Over the past three years, Welsh Government support for local government has increased in cash terms, whilst provision in England, on a like-for-like basis, has decreased. We've made it clear that we've given authorities the time to invest in that transformational activity, to enable them to maintain local services in terms of this tougher financial climate.

Wel, credaf fod cynyddu'r buddsoddiad i GIG Cymru o dros £0.5 biliwn dros ddwy flynedd yn ymateb clir a chyson ac adeiladol i adroddiad annibynnol, sef yr hyn a roddodd Sefydliad Nuffield inni.

Symudaf ymlaen at bwynt pwysig, unwaith eto i gadarnhau'r pwyntiau yr wyf wedi'u gwneud ynglŷn â llywodraeth leol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol wedi cynyddu mewn termau arian parod, ac mae'r ddarpariaeth yn Lloegr, ar sail tebyg am debyg, wedi gostwng. Rydym wedi'i gwneud yn glir ein bod wedi rhoi amser i awdurdodau i fuddsoddi yn y gweithgarwch gweddnewidol hwnnw, i'w galluogi i gynnal gwasanaethau lleol o ran yr hinsawdd ariannol lymach hon.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

So, just finally, I want to comment on the apprenticeships that have been raised today. We're committed to apprenticeships and we've made progress in Wales—dramatically increasing the number of people starting apprenticeships in the past few years, with success rates for apprenticeships well above 80 per cent. On invest-to-save, I'm delighted that it is such an important scheme and acknowledged not just by Mike Hedges, but by the Finance Committee. Just to say, of course, again, in terms of invest-to-save, particularly in relation to resources, that £2.5 million allocated to support a voluntary early severance scheme for Natural Resources Wales is part of its transition programme and efficiency savings. I will, of course, be glad to respond to more questions about invest-to-save as I've issued my written statement today.

So, finally, Llywydd, the challenges we face, as I say, in this current financial year are the toughest challenges we've had to face as a Government. But, we remain resolute in our commitment to protect our priorities and, where possible, counteract austerity.

Felly, dim ond i gloi, hoffwn wneud sylwadau am y prentisiaethau a godwyd heddiw. Rydym wedi ymrwymo i brentisiaethau ac rydym wedi gwneud cynnydd yng Nghymru—gan gynyddu'n sylweddol nifer y bobl a gychwynnodd brentisiaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae cyfraddau llwyddiant prentisiaethau'n gryn dipyn yn uwch na 80 y cant. O ran buddsoddi i arbed, rwyf yn falch iawn ei fod yn gynllun mor bwysig sydd wedi'i gydnabod nid yn unig gan Mike Hedges, ond gan y Pwyllgor Cyllid. Dim ond i ddweud, wrth gwrs, unwaith eto, o ran buddsoddi i arbed, yn enwedig o ran adnoddau, mae'r £2.5 miliwn hwnnw a ddyrannwyd i gefnogi cynllun diswyddo cynnar gwirfoddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhan o'i raglen bontio a'i arbedion effeithlonrwydd. Wrth gwrs, byddaf yn hapus i ymateb i fwy o gwestiynau am fuddsoddi i arbed gan fy mod wedi cyhoeddi fy natganiad ysgrifenedig heddiw.

Felly, yn olaf, Lywydd, yr heriau a wynebwn, fel y dywedaf, yn y flwyddyn ariannol bresennol hon yw'r heriau anoddaf yr ydym wedi gorfod eu hwynebu fel Llywodraeth. Ond rydym yn parhau'n benderfynol yn ein hymrwymiad i warchod ein blaenoriaethau a, lle bo modd, gwrthweithio cyni.

15:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] Object. I'll move all voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gwrthwynebu. Rwyf am symud yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:19 **4. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)**

We now move to item 4, which is the Stage 4 debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. I call on the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5719 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Cynigiwyd y cynnig.

4. Stage 4 Debate on the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Symudwn nawr at eitem 4, sef y ddadl Cyfnod 4 ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflwyno'r cynnig — Leighton Andrews.

Motion NDM5719 Leighton Andrews

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Approves the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill.

Motion moved.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch, Lywydd. I move the motion, and I would like to thank Members for contributing to the scrutiny of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. I would also like to thank my predecessors, Lesley Griffiths and Carl Sargeant, for their fundamental contributions to the development of this groundbreaking Bill. Since it was introduced on 30 June last year, there has been much constructive debate in committee and in the Chamber. I'm grateful to members of the Communities, Equality and Local Government Committee, and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their thorough scrutiny and reports of their findings. I also want to thank the Plaid Cymru spokesperson, Jocelyn Davies, for the constructive and practical discussions we have had over the last week. I would also like to thank stakeholders who have engaged with the committees' scrutiny of this Bill. I take the scrutiny process very seriously, and I thank them for their engagement and their ideas for improving the Bill. Many of those organisations have campaigned for years for legislation of this kind, and they have achieved their goals.

I have listened carefully to the views of Members and stakeholders and have considerably strengthened the Bill as a result: adding a new section specifically on the disproportionate impact of violence against women and girls; changing the title of the Bill to reflect that; amending the Bill in respect of education; enabling Welsh Ministers to place a duty on local authorities to report on how they are addressing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence in the exercise of their educational functions, including schools; strengthening the preventative aspects with the amendment to clarify that awareness-raising guidance to be issued under section 14 will be focused on changing attitudes; including provisions to ensure consultation with relevant stakeholders on national and local strategies; making amendments to provide additional examples of guidance that could be issued under section 14, including workplace policies and the commissioning of services; making amendments in respect of further and higher education, and for the designation of a member of staff by a relevant authority, for the purpose of taking steps to increase awareness or change attitudes. Such guidance could outline the steps that we would want a local authority to take to designate a staff member as a champion to support the purposes of the Bill. The Government has listened to Members and to stakeholders and taken on board their comments in strengthening this Bill. I have also outlined, at length, the package of educational provisions, including statutory guidance, that the Government will undertake in support of the Bill.

Diolch, Lywydd. Cynigiau y cynnig, a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at y gwaith o graffu ar y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Hoffwn ddiolch hefyd i'm rhagflaenwyr, Lesley Griffiths a Carl Sargeant, am eu cyfraniadau hollbwysig at ddatblygiad y Bil arloesol hwn. Ers ei gyflwyno ar 30 Mehefin y llynedd, bu llawer o ddadlau defnyddiol yn y Pwyllgor ac yn y Siambr. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, am eu gwaith craffu trylwyr a'r adroddiadau o'u canfyddiadau. Hoffwn ddiolch hefyd i lefarydd Plaid Cymru, Jocelyn Davies, am y trafodaethau defnyddiol ac ymarferol dros yr wythnos ddiwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i'r rhanddeiliaid sydd wedi cyfrannu at waith y pwyllgorau o graffu ar y Bil hwn. Rwyf yn cymryd y broses o graffu yn hollol o ddifrif, ac rwy'n ddiolchgar iddynt am eu hymgyssylltiad a'u syniadau ar gyfer gwella'r Bil. Mae llawer o'r sefydliadau hynny wedi ymgyrchu ers blyneddoddedd i gael y math hwn o ddeddfwriaeth, ac maent wedi cyrraedd eu nod.

Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar farn Aelodau a rhanddeiliaid ac wedi cryfhau'r Bil yn sylweddol o ganlyniad i hynny: gan ychwanegu adran newydd yn benodol am effaith anghymesur trais yn erbyn menywod a merched; newid teitl y Bil i adlewyrchu hynny; diwygio'r Bil o ran addysg; galluogi Gweinidogion Cymru i osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gyflwyno adroddiad ar eu dull o ymdrin â thrais ar sail y rhywiol, cam-drin domestig a thrais rhywiol wrth arfer eu swyddogaethau addysgol, gan gynnwys ysgolion; cryfhau'r agweddau ataliol gyda'r gwelliant er mwyn egluro y bydd y canllawiau a gyhoeddir i godi ymwybyddiaeth o dan adran 14 yn canolbwyntio ar newid agweddau; gan gynnwys darpariaethau i sicrhau yr ymgynghorir â rhanddeiliaid perthnasol ar strategaethau cenedlaethol a lleol; gwneud gwelliannau er mwyn darparu enghreifftiau ychwanegol o ganllawiau y gellid eu cyhoeddi o dan adran 14, gan gynnwys polisiâu ar gyfer y gweithle a chomisiynu gwasanaethau; gwneud gwelliannau ynglŷn ag addysg bellach ac addysg uwch, ac ar gyfer pennu aelod o staff gan awdurdod perthnasol, er mwyn cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth neu i newid agweddau. Gallai canllawiau o'r fath amlinellu'r camau y byddem eisïau i awdurdod lleol eu cymryd er mwyn pennu aelod o staff yn hyrwyddwr i gefnogi dibenion y Bil. Mae'r Llywodraeth wedi gwrando ar Aelodau a rhanddeiliaid ac wedi ystyried eu sylwadau er mwyn cryfhau'r Bil hwn. Rwyf hefyd wedi rhoi amlinelliad, pur faith, o'r pecyn o ddarpariaethau addysgol, gan gynnwys canllawiau statudol, y bydd y Llywodraeth yn ei roi at ei gilydd i gefnogi'r Bil.

In direct response to comments from the communities committee, I also tabled amendments at Stage 3 to change the name of the ministerial adviser to national adviser, reflecting the important national, independent focus of the role. Some of these amendments were agreed and some were not, which has resulted in an element of inconsistency within the Bill. I therefore intend to clarify these inconsistencies within the explanatory memorandum and the explanatory notes at the earliest opportunity. I do not consider this difference in the title of the adviser role to be sufficiently unclear to prevent the Bill from being successfully implemented, or moving forward with the Bill as amended at Stage 3. The duty to appoint the adviser and their functions are clearly set out in the Bill.

Stakeholders have welcomed the changes we have made to the Bill and agree that they considerably strengthen it. We must retain a focus on the issues that this Bill seeks to address. One in four women in Wales has suffered violence or abuse in a relationship. Every year, 150 women die in the UK at the hands of their partner or former partner. Preventing this and protecting and supporting victims in Wales is the purpose of the Bill in front of us today. It will make a real difference to the lives of victims. As such, I urge Members to support this Bill. We should all be proud that Wales is leading the way on this issue.

15:23

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

We will be supporting this Bill, after a number of quite up-and-down days. Again, I welcome Jocelyn's role as intermediary for the opposition parties over these last few days. Of course, we don't want to lose things such as the national training framework for front-line professionals; such as public sector workforce policies on domestic abuse and sexual violence; such as public behaviour change campaigns and local and national strategies; and a national adviser. I note the reason we are able to support this is because of this legislature doing its job, and because of the three opposition parties working together to secure concessions from the Minister, which have strengthened this Bill and give greater hope for the future. It is noted, however, that correspondence from the Minister detailing those concessions still states that the statutory guidance will provide or include provisions for approaches such as how schools can drive forward a whole-school approach by appointing a staff, pupil and governor general. It therefore doesn't require them; it's simply detailing the approaches that they could take if that's the direction they choose to follow. We therefore welcome the fact that he states that he will involve stakeholders from the violence against women sector in developing the Donaldson proposals on the curriculum, which will ensure that healthy relationship education is developed within the curriculum, which will be followed by all schools, and I would welcome his assurance that Members of this Assembly will also be kept up to date with that, as, I'm sure, the stakeholder groups will.

Mewn ymateb uniongyrchol i'r sylwadau gan y pwyllgor cymunedau, fe gyflwynais welliannau yng Nghyfnod 3 hefyd i newid enw'r cynghorydd gweinidogol i gynghorydd cenedlaethol, sy'n cyfleu ffocws cenedlaethol, annibynnol pwysig y swydd. Cytunwyd ar rai o'r gwelliannau hyn ac nid ar eraill, ac mae hyn wedi arwain at elfen o anghysondeb o fewn y Bil. Rwyf yn bwriadu egluro'r anghysondebau hyn felly o fewn y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol ar y cyfle cynharaf. Nid wyf yn ystyried y gwahaniaeth hwn yn nheithl rôl y cynghorydd yn ddigon aneglur i atal y Bil rhag cael ei weithredu'n llwyddiannus, na symud ymlaen â'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3. Mae'r ddyletswydd i benodi'r cynghorydd a'r swyddogaethau wedi eu nodi'n glir yn y Bil.

Mae rhanddeiliaid wedi croesawu'r newidiadau yr ydym wedi eu gwneud i'r Bil ac yn cytuno eu bod yn ei gryfhau'n sylweddol. Rhaid inni gadw ffocws ar y materion y mae'r Bil hwn yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae un o bob pedair o fenywod yng Nghymru wedi dioddef trais neu gamdriniaeth mewn perthynas. Bob blwyddyn, mae 150 o fenywod yn y DU yn cael eu lladd gan eu partner neu gyn-bartner. Atal hyn ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr yng Nghymru yw diben y Bil sydd ger ein bron heddiw. Bydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau dioddefwyr. Am hynny, anogaf yr Aelodau i gefnogi'r Bil hwn. Dylem i gyd fod yn falch bod Cymru'n arwain y ffordd ar y mater hwn.

Byddwn yn cefnogi'r Bil hwn, ar ôl nifer o ddyddiau eithaf ansicr. Unwaith eto, rwy'n croesawu rôl Jocelyn fel canolwr ar gyfer y gwrthbleidiau dros y dyddiau diwethaf. Wrth gwrs, nid ydym ni eisiau colli pethau megis y fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer gweithwyr proffesiynol y rheng flaen; polisïau gweithlu'r sector cyhoeddus ar gam-drin domestig a thrais rhywiol; ymgyrchoedd cyhoeddus i newid ymddygiad a strategaethau lleol a chenedlaethol; a chynghorydd cenedlaethol. Rwy'n nodi mai'r rheswm y mae modd inni gefnogi hyn yw bod y ddeddfwra hon wedi gwneud ei gwaith, ac am fod y tair gwrthblaid wedi cydweithio i sicrhau consesiynau gan y Gweinidog, ac mae hynny wedi cryfhau'r Bil hwn ac yn rhoi mwy o obaith ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nodir bod gohebiaeth gan y Gweinidog sy'n rhoi manylion y consesiynau hynny yn datgan o hyd y bydd y canllawiau statudol yn darparu neu'n cynnwys darpariaethau ar gyfer sut i symud ymlaen megis sut gall ysgolion sbarduno dull gweithredu ar gyfer yr ysgol gyfan drwy benodi swyddog cyffredinol ar gyfer y staff, y disgyblion a'r llywodraethwr. Felly nid oes angen hynny; mae'n manylu ar y dulliau gweithredu posibl os mai dyna'r cyfeiriad y byddant yn dewis ei ddilyn. Rydym felly yn croesawu'r ffaith ei fod yn nodi y bydd yn cynnwys rhanddeiliaid o'r sector trais yn erbyn menywod wrth ddatblygu cynigion Donaldson ar y cwricwlwm. Bydd hyn yn sicrhau bod addysg perthynas iach yn cael ei datblygu o fewn y cwricwlwm, ac yn cael ei dilyn gan bob ysgol. Byddwn yn croesawu sicrwydd ganddo hefyd y bydd Aelodau'r Cynulliad hwn, yn ogystal â'r rhanddeiliaid, yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

It's vital that this piece of legislation is instrumental in driving change—change in awareness, change in behaviour, change in understanding and, hopefully, a change in the levels of incidents of abuse and violence. It must not become an emblematic piece of legislation where certain people from Wales boast internationally of how we've led the way, rather than what effect this has had in improving lives and the wellbeing of women, children and victims generally in Wales.

Not having a Report Stage was not a good way of proceeding. A Report Stage would have been appropriate, given the issues raised by last week's debate on this Bill. This legislature must not allow the Welsh Government to establish this as a precedent for the future. Of course, personally, I wish there had been, still, something on the face of the Bill regarding perpetrator programmes. I'll be watching closely to see how the Minister delivers on his promises in that respect. And, clearly, I'd have liked to have seen, whilst protecting specificity around services for women, some gender-specific recognition of the needs of male victims too, but, again, I'll be looking to see how the Minister develops his pledges in that respect.

We note that opposition Members and Members of the Government side have received large numbers of e-mails over the last week, since last week's debate, urging us to support this. I'd say to them: much as I respect you hugely, and I've worked with many of you, please remember that we are the legislature, not the Government. The opposition was doing its job, trying to secure a strengthening of the Bill to achieve more of the things that you'd called for. In future, please point your cannons both ways, and try to add to the work of the opposition in doing its job as a legislature: scrutinising the Government, holding it to account and trying to strengthen legislation.

In terms of a national versus a ministerial adviser, there is some inconsistency. I look forward to seeing how the Minister will address that without a Report Stage. Again, I regret, however, that it's simply a name change and that the calls by the committee in its Stage 1 report for that person to be given greater independence in their role have not been delivered. But a balance has to be struck. The wins from this certainly exceed the exclusions, and therefore we will be supporting.

15:28

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I've been clear, since this Bill was first introduced, that I want to see a strong, effective piece of legislation that can have a real impact on preventing violence against women, domestic abuse and sexual violence. This is a hugely important and emotive issue, and that's why I've been willing to fight so hard for what I believe is right. The Bill contains some very good things that the Minister outlined earlier on, and these are things that we can be very proud of. I would have liked to have seen victims' rights in the Bill and, of course, the repeal of the reasonable punishment defence, but these are battles that we'll return to, no doubt, at another time.

Mae'n hanfodol bod y darn hwn o ddeddfwriaeth yn gyfrwng i ysgogi newid — newid ymwybyddiaeth, newid ymddygiad, newid dealltwriaeth a, gobeithio, newid yn lefelau'r achosion o gam-drin a thrais. Rhaid iddo beidio â dod yn ddarn o ddeddfwriaeth symbolaidd lle mae rhai pobl o Gymru yn brolio'n rhyngwladol ein bod wedi arwain y ffordd, yn hytrach nag yn brolio ynghylch ei effaith yn y gwaith o wella bywydau a lles menywod, plant a dioddefwyr yn gyffredinol yng Nghymru.

Nid oedd peidio â chael Cyfnod Adrodd yn ffordd dda o symud ymlaen. Byddai Cyfnod Adrodd wedi bod yn briodol, o ystyried y materion a godwyd gan ddaol yr wythnos diwethaf ar y Bil hwn. Rhaid i'r ddeddfwra hon beidio â gadael i Lywodraeth Cymru sefydlu hyn fel cynsil ar gyfer y dyfodol. Wrth gwrs, byddai'n dda gennyf i yn bersonol pe byddai rhywbeth wedi bod ar wyneb y Bil ynghylch rhaglenni i dramgwyddwyr. Byddaf yn gwyltio'n ofalus i weld sut mae'r Gweinidog yn cyflawni ei addewidion yn hynny o beth. Ac, yn amlwg, byddai'n dda gennyf fod wedi gweld rhywfaint o gydnabyddiaeth benodol o anghenion dynion sy'n ddiodeffwyr, yn ogystal â diogelu gwasanaethau penodol ar gyfer menywod ond, unwaith eto, byddaf yn awyddus i weld sut mae'r Gweinidog yn datblygu ei addewidion yn hynny o beth.

Nodwn fod aelodau'r wrthblaid ac aelodau ar ochr y Llywodraeth wedi derbyn nifer fawr o negeseuon e-bost dros yr wythnos ddiwethaf, ers y ddaol yr wythnos diwethaf, yn ein hannog ni i gefnogi hyn. Fe fyddwn i'n dweud wrth y rhain: er cymaint fy mharch tuag atoch, ac rydw i wedi gweithio gyda llawer ohonoch chi, cofiwch mai'r ddeddfwra, nid y Llywodraeth ydym ni. Roedd yr wrthblaid yn gwneud ei gwaith, yn ceisio sicrhau bod y Bil yn cael ei gryfhau er mwyn cyflawni mwy o'r pethau hynny yr oeddech chi'n galw amdanynt. Yn y dyfodol, os gwelwch yn dda anelwch eich canonau'r ddwy ffordd, a cheisiwch ychwanegu at waith yr wrthblaid a hithau'n gwneud ei gwaith fel deddfwra: yn craffu ar y Llywodraeth, ei dwyn i gyfrif a chryfhau'r ddeddfwriaeth.

O ran cynghorydd cenedlaethol neu gynghorydd gweinidogol, mae rhywfaint o anghysondeb. Rwy'n edrych ymlaen at weld sut bydd y Gweinidog yn ymdrin â hynny heb Gyfnod Adrodd. Mae'n anffodus unwaith eto, fodd bynnag, mai dim ond enw sydd wedi newid ac nad yw'r galwadau gan y Pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1 ar i'r person hwnnw gael mwy o annibyniaeth yn ei rôl wedi eu cyflawni. Ond rhaid cael cydbwysedd. Mae'r hyn sydd wedi'i ennill yn bendant yn rhagori ar yr hyn sydd wedi'i hepgor, ac felly byddwn yn ei gefnogi.

Rydw i wedi bod yn glir, ers cyflwyno'r Bil gyntaf, bod arnaf eisiau gweld deddfwriaeth gref, effeithiol a all gael effaith wirioneddol o ran atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hwn yn fater hynod bwysig ac emosïynol, a dyna pam fy mod wedi bod yn barod i ymladd mor galed am yr hyn rwy'n ei gredu sy'n iawn. Mae'r Bil yn cynnwys rhai pethau da iawn a amlinellwyd gan y Gweinidog yn gynharach, ac mae'r rhain yn bethau y gallwn fod yn falch iawn ohonynt. Byddwn wedi hoffi gweld hawliau diodeffwyr yn y Bil ac, wrth gwrs, ddiddymu'r amddiffyniad cosb resymol, ond mae'r rhain yn frwydrau y byddwn yn dychwelyd atynt ar adeg arall yn ddia.

Now, the evidence we received throughout the consultation process was very clear: education is the key to beginning to change the attitudes that fuel violence against women. If we want to prevent violence and abuse, then we must deliver effective sex and relationship education to all young people. We must instil values of tolerance, respect and equality. Some schools are already doing fantastic work on this issue, but too many are falling short. And when we stop and listen to young people themselves, we hear stories of sexual harassment and coercion taking place in our schools. Here in Wales, Professor Emma Renold's research into pre-teen children found that, even before the age of 12, children's lives are already shaped by sexism and gender stereotypes. And this only gets worse as children get older. An NSPCC study published last month found that 40 per cent of teenage girls have experienced sexual coercion and physical violence, and abuse is a factor in 20 per cent of relationships. We know that women the world over are victims because they are women. Now, this is the result of the inequalities that we are all facing, and this is not to dismiss the violence experienced by men.

Now, Emma Renold's report includes a quote from a 10-year-old Welsh schoolgirl, which I'd like to share with you. She said that:

'The playground monitor'—

that's the dinner lady to us, I think, in this Chamber—

'says the more they hit you and chase you, the more they love you.'

Now, just let that sink in. So, boys that hit you, love you. That's a very sobering thought. Now, that's symbolic, I think, of the inequality that women have been subjected to for, well, hundreds, perhaps thousands, of years, and that is at its root, isn't it—the gender balance discrimination that women suffer. For me, that quote hits the nail right on the head; it's the sexism that dominates our culture and many other cultures the world over.

Now, this is why victims do not recognise their experience of abuse early on, because it's one step away, you see, from telling someone that the abuse is an expression of affection. That is the reality of sexism, and that's what runs deep within us. It's not an attack on men; as you know, I like men—it's no more their fault than it is mine. But it is tempting for us to see this as a problem that exists outside. It exists in this room. It exists within each one of us, in fact. These attitudes are to be found everywhere—in our public gallery here, in this building, and in society at large. I see it everywhere, even in some feminists I know well.

Nawr, roedd y dystiolaeth a dderbyniwyd gennym drwy gydol y broses ymgynghori yn glir iawn: mae addysg yn allweddol i ddechrau newid yr agweddau sy'n megino trais yn erbyn menywod. Os ydym ni am atal trais a cham-drin, yna mae'n rhaid inni roi addysg rhyw a pherthynas effeithiol i bob person ifanc. Rhaid inni feithrin goddefgarwch, parch a chydaddoldeb. Mae rhai ysgolion eisoes yn gwneud gwaith gwych ar y mater hwn, ond mae gormod yn methu â chyrraedd y nod. A phan fyddwn yn gwrandao ar bobl ifanc eu hunain, clywn straeon am aflonyddu rhywiol a gorfodaeth sy'n digwydd yn ein hysgolion. Yma yng Nghymru, mae ymchwil yr Athro Emma Renold i blant cyn cyrraedd eu harddegau wedi canfod bod rhagfarn ar sail rhyw a stereoteipiau cysylltiedig â rhyw yn effeithio ar fywydau plant, cyn iddynt gyrraedd 12 oed hyd yn oed. A dim ond gwaethygu mae hyn wrth i blant fynd yn hŷn. Canfu astudiaeth gan yr NSPCC a gyhoeddwyd y mis diwethaf bod 40 y cant o ferched yn eu harddegau wedi cael profiad o orfodaeth rywiol a thrais corfforol, a bod camdriniaeth yn ffactor mewn 20 y cant o berthnasoedd. Gwyddom fod menywod ledled y byd yn dioddef am eu bod yn fenywod. Nawr, mae hyn yn deillio o'r anghydraddoldebau yr ydym ni i gyd yn eu hwynebu, ac nid yw hyn yn diystyru'r trais a brofir gan ddynion.

Mae adroddiad Emma Renold yn cynnwys dyfyniad y byddwn yn hoffi ei rannu gyda chi gan ferch ysgol 10 mlwydd oed o Gymru. Meddai:

'Mae monitor yr iard chwarae' —

cynorthwy-ydd cinio i ni yn y Siambr hon rwy'n credu —

yn dweud po fwyaf maen nhw'n eich taro chi ac yn rhedeg ar eich ôl chi, y mwyaf maen nhw'n eich caru chi.

Beth am ystyried hyn am funud. Felly, mae bechgyn sy'n eich taro chi, yn eich caru chi. Dyna syniad sy'n gwneud i chi feddwl. Rwy'n credu bod hynny'n symbolaidd o'r anghydraddoldeb sy'n wynebu menywod ers cannoedd, os nad miloedd o flynyddoedd, a dyma sydd wrth ei wraidd—y gwahaniaethu rhwng y rhywiau y mae menywod yn ei ddioddef. I mi, mae'r dyfyniad yn taro'r hoelen ar ei phen; dyma'r rhagfarn ar sail rhyw sy'n frith drwy ein diwylliant a nifer o ddiwylliannau eraill ym mhob cwr o'r byd.

Dyma pam nad yw dioddefwyr yn adnabod eu profiad o gam-drin ar y dechrau, am fod hynny un cam i ffwrdd o ddweud wrth rywun bod camdriniaeth yn fynegiant o anwylddeb. Dyna realiti rhagfarn ar sail rhyw, a dyna sy'n rhedeg yn ddwfn oddi mewn inni. Nid ymosodiad ar ddynion yw hyn; rwy'n hoffi dynion fel y gwyddoch—nid oes dim mwy o fai arnyh nhw nag sydd arnaf i. Ond mae'n demtasiwn inni weld hon fel problem sy'n bodoli y tu allan. Mae'n bodoli yn yr ystafell hon. Mae'n bodoli o fewn pob un ohonom ni, mewn gwirionedd. Mae'r agweddau hyn i'w gweld ym mhobman—yn ein horiel gyhoeddus yma, yn yr adeilad hwn ac yn y gymdeithas yn gyffredinol. Rydw i'n ei weld ym mhobman, hyd yn oed mewn rhai ffeminyddion rwy'n eu hadnabod yn dda.

Now, I know that the strength of feeling about this Bill exists, because I've experienced those attempts—I thought Mark was being very diplomatic; I would say they were attempts to bully us in supporting the Bill. I have to say that they come from people who should have known better. I'll say this to you: it is many, many years since I've allowed myself to be bullied, and I'm not going back there anytime soon.

Now, it's nice to be popular—we all like to be popular. It's not my top priority, I can tell you that, and it has always been more important to me to do the right thing by the people I represent; I'm not the mouthpiece for the third sector. But it does confirm to me that bullying needs to be tackled in everyone, and even the most enlightened people sometimes need to think about how their behaviour impacts on others.

Now, I'm not claiming that education is a magic bullet that's going to solve this age-old injustice. But sexual harassment, homophobic bullying, racism, and prejudice about people with disabilities, people with poor mental health perhaps, or even people who look different, they're all fuelled by a culture where difference isn't tolerated, and we all grow up in this culture. But schools are in a unique position to help tackle this problem, and they need ongoing support, I think, to cope with the young people, to support with the complexities of growing up today; it's a different world than when we grew up—the pressures that they're experiencing are far greater than for us.

Now, too often, victims of abuse say they didn't know until it was too late that what they were experiencing was abuse. They didn't know where to turn when they experienced sexual harassment from classmates, and they didn't realise that they had the right to say 'no' to unwanted sexual experiences. So, understanding consent, and having empathy, may not come naturally to everyone. Now, some live for many, many years in fear. Survivors' stories are very strong, but not all do survive, as the Minister mentioned: three women a week are killed by their partners.

So, we need to see the change in the whole culture of schools. Effective sexual and healthy relationships education being included on the curriculum is important, yes, but teachers have a lot to do already, and are under pressure to squeeze everything into the curriculum they need to teach. To really make a difference, we need to transform the atmosphere in schools, so that learning about respect, equality, and healthy relationships is embedded in everything that children do. Not only would this have a positive impact on preventing violence against women, it'll stop bullying of all types. That's why the whole-school approach is so important, because there are huge influences we can't do anything about, but we can do something about what happens in schools.

Nawr, rwy'n gwybod bod teimladau cryfion yn bodoli ynglŷn â'r Bil hwn, gan fy mod i wedi profi'r ymdrechion hynny—roeddwn yn meddwl bod Mark yn bod yn ddiplomyyddol iawn; fe fyddwn i'n dweud bod ymgais wedi bod i'n bwlio ni i gefnogi'r Bil. Rhaid imi ddweud bod hyn wedi dod gan bobl a ddylai wybod yn well. Fe ddywedaf i hyn wrthyhych chi: mae blynyddoedd maith ers imi ganiatáu i mi fy hun gael fy mwlio, ac nid ydw i am wneud hynny eto ar frys.

Nawr, mae'n braf bod yn boblogaidd—mae pawb yn hoffi bod yn boblogaidd. Nid dyna fy mhrif flaenoriaeth, gallaf ddweud hynny wrthyhych, ac mae hi bob amser wedi bod yn bwysicach i mi fy mod i'n gwneud y peth iawn ar ran y bobl rwy'n eu cynrychioli; nid llefarydd i'r trydydd sector ydw i. Ond mae'n cadarnhau i mi bod angen mynd i'r afael â bwlio ym mhawb, ac weithiau mae angen i'r rhai mwyaf goleuedig hyd yn oed ystyried sut mae eu hymddygiad yn effeithio ar eraill.

Nawr, dydw i ddim yn honni bod addysg yn ffon hud sy'n mynd i ddatrys yr anghyfiawnder oesol hwn. Ond mae aflonyddu rhywiol, bwlio homoffobig, hiliaeth a rhagfarn yn erbyn pobl sydd ag anableddau, pobl sydd ag iechyd meddwl gwael o bosibl neu bobl sy'n edrych yn wahanol hyd yn oed, maen nhw i gyd yn cael eu hysgogi gan ddiwylliant sydd ddim yn goddef gwahaniaethau, ac rydym ni i gyd yn cael ein magu yn y diwylliant hwn. Ond mae ysgolion mewn sefyllfa unigryw i helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon, ac rwy'n meddwl bod arnynt angen cymorth parhaus i ymdopi â'r bobl ifanc, i gynorthwyo gyda chymhlethdodau tyfu'n oedolyn heddiw; mae'n fyd gwahanol i'r un y cawsom ni ein magu ynddo—maen nhw'n profi llawer mwy o bwysau na ni.

Nawr, yn rhy aml, mae pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn dweud nad oeddent yn gwybod nes iddi fod yn rhy hwyr eu bod yn cael eu cam-drin. Nid oeddent yn gwybod ble i droi pan oeddent yn profi aflonyddu rhywiol gan gyd-ddisgyblion, nac yn sylweddoli bod ganddynt yr hawl i ddweud 'na' wrth brofiadau rhywiol digroeso. Felly, efallai nad yw'n dod yn naturiol i bawb ddeall cydsyniad, ac empathi. Mae rhai pobl yn byw am flynyddoedd maith iawn mewn ofn. Mae straeon y goroeswyr yn gryf iawn, ond nid yw pob un yn goroesi, fel y soniodd y Gweinidog: mae tair menyw yr wythnos yn cael eu lladd gan eu partneriaid.

Felly, mae angen inni weld y newid yn holl ddiwylliant ein hysgolion. Ydi, mae'n bwysig bod addysg effeithiol ar ryw a pherthnasoedd iach yn cael ei chynnwys ar y cwricwlwm, ond mae gan athrawon lawer i'w wneud yn barod, ac maen nhw o dan bwysau i wasgu popeth y mae angen iddynt ei addysgu i mewn i'r cwricwlwm. Er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, mae angen inni drawsnewid awryglych ysgolion, fel bod dysgu am barch, cydraddoldeb a pherthnasoedd iach wedi'i wreiddio ym mhopeth y mae'r plant yn ei wneud. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar atal trais yn erbyn menywod, ond byddai hefyd yn rhoi diwedd ar fwlio o bob math. Dyna pam mae'r dull ysgol gyfan mor bwysig, oherwydd bod rhai dylanwadau enfawr yn bodoli na allwn wneud dim amdanynt, ond gallwn wneud rhywbeth ynghylch yr hyn sy'n digwydd mewn ysgolion.

So, I welcome the Minister's commitment on this. The letter he sent me yesterday outlined, I think, a stronger vision of how schools will be addressed with the statutory guidance. It falls short of putting a duty on the face of the Bill for schools, so there is now an element of trust. I have appreciated his efforts; it's been a pleasure, actually, to work with a Minister with such a sunny disposition— [Laughter.]—on this important principle. So, I'm trusting the Welsh Government to follow through and to deliver that statutory guidance that contains the promised educational provisions. The Minister's resistance to putting healthy relationships on the face of the Bill remains a mystery to me. I will still explore that with the Minister, if he gives me opportunities in the future, but I'll live with it; that is, while this Government continues.

So, today, I'm pleased to welcome this legislation. It will achieve improvements for women in Wales. It's not perfect by any means, but it is the best that I can achieve at the moment. Thank you, Presiding Officer.

15:36

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think the Minister's sunny disposition has characterised the whole nature of this Bill and dealing with it, and certainly I think there have been some difficult times, which we, thankfully, have got over. I'm happy to confirm that, on the basis of the Minister's letter to Jocelyn Davies, the Welsh Liberal Democrats are happy to support this Bill. I think, though, that a great debt is owed to Jocelyn Davies, who has acted on behalf of the opposition parties in negotiating with the Minister on this issue and actually secured the concessions that we've been seeking from him. The opposition parties have all worked together very closely on this Bill, and I think that the scrutiny that we've applied to it, together with the Labour members of the committee as well, of course, has led to an improved Bill, and certainly to changes that I think have meant that we are able to say that the Bill that we have in front of us is a much better one than when it was introduced. Certainly, it specifically now deals with the issue of violence against women, whereas it didn't before; it deals with issues in terms of higher education and further education, and, of course, we have as well the Minister's assurances in terms of how the provision for education about healthy relationships is now going to be taken forward in schools.

I think, though, that the points made by Jocelyn Davies and by Mark Isherwood in relation to the lobbying over the last week are important ones. I think that this has been a partnership in a sense. The Minister has worked with us as well in terms of taking on board some of our concerns and delivering some of those amendments. And I think that lobbying needed to reflect that. If you're going to be lobbying in terms of trying to get a better Bill, you also need to be lobbying the Minister as well to talk to the opposition further to deliver on that. I am concerned sometimes, I think, about the closeness of some of the third sector to the Government, and their dependency on them for funding, which I think can sometimes cloud judgment in relation to how these things are delivered and in terms of their attitude towards certain aspects.

Felly, rwy'n croesawu ymrwymiad y Gweinidog i hyn. Rwy'n credu bod y llythyr a anfonodd ataf ddoe yn amlinellu gwledigaeth gryfach o'r sylw a roddir i'r ysgolion gyda'r canllawiau statudol. Nid yw'n rhoi dyletswydd ar ysgolion ar wyneb y Bil, felly mae elfen o ymddiriedaeth erbyn hyn. Rwyf wedi gwerthfawrogi ei ymdrechion; mae hi wedi bod yn bleser, mewn gwirionedd, gweithio gyda Gweinidog mor llawen ei natur—[Chwerthin.]—ar yr egwyddor bwysig hon. Felly, rwy'n ymddiried y bydd Llywodraeth Cymru'n gwireddu'r ymrwymadau ac yn darparu canllawiau statudol sy'n cynnwys y darpariaethau addysgol a addawyd. Mae gwrthwynebiad y Gweinidog i roi perthnasoedd iach ar wyneb y Bil yn parhau'n ddirgelwch i mi. Byddaf yn parhau i ymchwilio i hynny gyda'r Gweinidog, os bydd yn rhoi cyfleoedd imi wneud hynny yn y dyfodol, ond fe wnaif fyw gyda'r peth; hynny yw, tra pery'r Llywodraeth hon.

Felly, heddiw, rwy'n falch o groesawu'r ddeddfwriaeth hon. Bydd yn sicrhau gwelliannau i fenywod yng Nghymru. Nid yw'n berffaith o gwbl, ond dyma'r gorau y gallaf ei gyflawni ar hyn o bryd. Diolch ichi, Lywydd.

Credaf fod natur lawen y Gweinidog wedi nodweddu holl natur y Bil a phob ymwneud ag ef, a chredaf yn sicr bod adegau anodd wedi bod, a'u bod wedi pasio diolch byth. Rwy'n falch o gadarnhau, ar sail llythyr y Gweinidog at Jocelyn Davies, bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn fodlon cefnogi'r Bil hwn. Er hynny, credaf ein bod yn ddyledus iawn i Jocelyn Davies, sydd wedi gweithredu ar ran y gwrthbleidiau wrth gyd-drafod gyda'r Gweinidog ar y mater hwn ac sydd mewn gwirionedd wedi sicrhau'r consesiynau hynny yr oeddem ni'n gobeithio eu cael ganddo. Mae'r gwrthbleidiau i gyd wedi cydweithio'n agos iawn ar y Bil hwn, a chredaf fod y gwaith craffu a wnaethom ni, ar y cyd ag Aelodau Llafur y Pwyllgor yn ogystal, wrth gwrs, wedi arwain at fesur gwell. Yn sicr mae'r gwaith wedi arwain at newidiadau sydd wedi golygu, yn fy marn i, bod modd dweud bod y Bil sydd o'n blaenau yn un llawer gwell na'r un a gyflwynwyd. Yn sicr, yn wahanol i'r fersiwn gyntaf, mae bellach yn ymdrin yn benodol â'r mater o drais yn erbyn menywod; mae'n ymdrin â materion sy'n ymwneud ag addysg uwch ac addysg bellach ac, wrth gwrs, mae gennym ni sicrwydd gan y Gweinidog ynglŷn â'r ffordd y bydd darpariaeth addysg ynglŷn â pherthnasoedd iach yn cael ei gweithredu mewn ysgolion nawr.

Er hynny, rwy'n credu bod y pwyntiau a wnaed gan Jocelyn Davies a Mark Isherwood ynglŷn â lobio dros yr wythnos diwethaf yn rhai pwysig. Credaf fod hon wedi bod yn bartneriaeth mewn ffordd. Mae'r Gweinidog wedi gweithio gyda ni hefyd i ystyried rhai o'n pryderon a chyflwyno rhai o'r gwelliannau hynny. A chredaf fod angen i'r lobio adlewyrchu hynny. Os ydych chi'n mynd i fod yn lobio i geisio cael Bil gwell, mae angen i chi hefyd lobio'r Gweinidog i siarad â'r gwrthbleidiau er mwyn cyflawni hynny. Rwy'n pryderu weithiau ynghylch perthynas agos rhai aelodau o'r trydydd sector â'r Llywodraeth, a'u dibyniaeth arni i gael cyllid gan fod hynny, rwy'n credu, yn gallu cymylu barn ar sut y mae'r pethau hyn yn cael eu cyflawni weithiau ac o ran eu hagwedd tuag at rai elfennau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If I can just turn to the letter that the Minister has sent to Jocelyn Davies—well, to all opposition parties, via Jocelyn Davies—I think it's important, as I said in the last debate on the third reading, that we do deal with education for healthy relationships in schools. As Jocelyn Davies has said, mutual respect and understanding in relationships is absolutely vital, and helping children to recognise abuse is crucial to this whole agenda. If we're going to start changing minds and changing mindsets, and if we're going to start changing attitudes not just towards domestic abuse, but towards relationships, we have to do so through the education system. The reason why I moved the amendment in the third reading is I felt it was important that, although we have promises in terms of the curriculum, there was a need for statutory guidance for schools in terms of making sure there was a member of each governing body, that there was a teacher, allocated and assigned to dealing with this issue to mainstream that whole agenda through the education system and through the curriculum, making sure that children's experiences in school, leading on to FE and HE colleges, all reflect that change in attitudes towards relationships that we need to bring about if we're to eliminate the sort of domestic abuse and sexual violence that we all want to eliminate and which this Bill is aimed at.

I was disappointed, and I'm still disappointed, that the Bill does not contain that statutory guidance, but I'm happy to accept the Minister's confirmation that statutory guidance can be developed that will include provisions for approaches to tackling violence against women and girls and other gender-based violence, domestic abuse and sexual violence, and that will include how schools can drive forward the whole-school approach by appointing a staff, pupil and governor champion. What I would like to see, which the letter touches on, and maybe the Minister can address this in response to this debate, is how reporting and monitoring of that provision can be strengthened and how we as an Assembly—as a committee and as an Assembly—can hold the Minister to account on how that guidance is being delivered and how every school in Wales is putting in place those champions to ensure that healthy relationship education is being delivered and mainstreamed throughout the whole curriculum and the delivery of the curriculum in each school. I think, Minister, that it really is important that we are able to monitor and have reports on that so that we can see that that is being delivered, because, at the end of the day, this Bill is absolutely crucial in changing those attitudes.

This Bill is hugely important symbolically in terms of putting Wales ahead of the rest of the UK, but what really matters is how this Bill is delivered on the ground—how pupils and how people are actually influenced and the whole attitude towards the opposite sex is changed as a result of this Bill. The outputs are what are important here. The Bill is just the first stage of that. What we now need to do is see this agenda delivered on, and I want to see this agenda delivered on and I want to see it reported on and monitored so that we can be sure it is being delivered on and maybe we don't have to return to this so soon, although I suspect that we will maybe have to look at that statutory guidance in some future legislation if needs be. Thank you, Presiding Officer.

Os caf droi at y llythyr y mae'r Gweinidog wedi ei anfon at Jocelyn Davies—wel, at yr holl wrthbleidiau, drwy Jocelyn Davies—rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, fel y dywedais yn y ddadl ddiwethaf ar y trydydd darlleniad, ein bod ni'n ymddrin ag addysg ar berthnasoedd iach mewn ysgolion. Fel y dywedodd Jocelyn Davies, mae parch a dealltwriaeth yn gwbl hanfodol mewn perthynas, ac mae'n hanfodol i'r holl agenda ein bod yn helpu plant i adnabod camdriniaeth. Os ydym ni am ddechrau newid meddyliau a newid meddylfryd, ac os ydym ni'n mynd i ddechrau newid agweddau, nid tuag at gam-drin domestig yn unig, ond tuag at berthnasoedd, rhaid inni wneud hynny drwy'r system addysg. Y rheswm y gwnes i gynnig y gwelliant yn y trydydd darlleniad yw fy mod yn teimlo'i bod yn bwysig, er bod gennym ni addewidion o ran y cwricwlwm, bod angen canllawiau statudol ar gyfer ysgolion er mwyn gwneud yn siŵr bod aelod o bob corff llywodraethu, bod athro wedi cael ei neilltuo i ymddrin â'r mater hwn er mwyn rhoi'r agenda gyfan honno ym mhrif ffrwd y system addysg a'r cwricwlwm gan wneud yn siŵr bod profiadau plant yn yr ysgol, mewn colegau AB ac AU, i gyd yn adlewyrchu'r newid hwnnw mewn agweddau tuag at berthnasoedd y mae angen inni ei weithredu er mwyn dileu'r math o gam-drin domestig a thrais rhywiol yr hoffem ni i gyd ei ddileu ac y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni.

Roeddwn i'n siomedig, ac rwy'n dal yn siomedig, nad yw'r Bil yn cynnwys y canllawiau statudol, ond rwy'n hapus i dderbyn cadarnhad y Gweinidog bod modd datblygu canllawiau statudol a fydd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dulliau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched a math arall o drais, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail rhywedd, ac y bydd hyn yn cynnwys ffordd i ysgolion hyrwyddo dull sy'n cynnwys yr ysgol gyfan drwy benodi hyrwyddwr o blith y staff, y disgyblion a'r llywodraethwyr. Yr hyn yr hoffwn i ei weld, sy'n cael ei grybwyll yn y llythyr, ac efallai y gallai'r Gweinidog ymddrin â hyn mewn ymateb i'r ddadl hon, yw sut y gellir cryfhau'r gwaith adrodd a monitro mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth honno a sut y gallwn ni fel Cynulliad — fel pwyllgor ac fel Cynulliad — ddwyn y Gweinidog i gyfrif ar y ffordd y cyflwynir y canllawiau hynny a sut mae pob ysgol yng Nghymru'n sefydlu swyddogaeth yr hyrwyddwyr hynny i sicrhau bod addysg ar berthnasoedd iach yn cael ei darparu a'i rhoi ym mhrif ffrwd y cwricwlwm cyfan a'r modd y caiff y cwricwlwm ei gyflwyno ym mhob ysgol. Rwy'n credu, Weinidog, ei bod yn wirioneddol bwysig ein bod yn gallu monitro a chael adroddiadau ar hynny er mwyn inni weld bod hynny'n cael ei gyflawni. Yn y pen draw, mae'r Bil hwn yn gwbl hanfodol er mwyn newid yr agweddau hynny.

Mae'r Bil hwn yn aruthrol o bwysig yn symbolaidd o ran rhoi Cymru ar y blaen i weddill y DU, ond yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw'r ffordd y cyflwynir y Bil hwn ar lawr gwlad—sut mae'n dylanwadu ar ddisgyblion a phobl mewn gwirionedd a sut mae agwedd gyfan pobl tuag at y rhyw arall yw newid o ganlyniad i'r Bil hwn. Y canlyniadau sy'n bwysig yma. Dim ond cam cyntaf yw'r Bil. Yr hyn y mae angen inni ei wneud bellach yw gweld yr agenda hon yn cael ei rhoi ar waith, ac rydw i eisiau gweld yr agenda hon yn cael ei rhoi ar waith a gweld adroddiad arni a'i monitro fel y gallwn fod yn sicr ei bod yn cael ei rhoi ar waith ac nad oes angen inni ddod yn ôl at hyn mor fuan, er fy mod yn amau y bydd yn rhaid inni edrych ar y canllawiau statudol hynny mewn deddfwriaeth yn y dyfodol os bydd angen. Diolch ichi, Lywydd.

I want to speak very briefly in the debate this afternoon. To do so, I looked over both the Stage 1 debate we held here in November, the Bill as introduced last July, and the report that the committee issued in response to the Stage 1 inquiry, and what was striking to me was the power and the strength of the testimony that this Bill is required, the power and the strength of those witnesses giving evidence as to why this Bill is required and why this Bill needs to be the strongest possible piece of legislation to enable Welsh public authorities to deal with violence against women and children. And it is important, and it is important that we recognise the work that has been done over the period of debate in this place. This place has worked as a legislature. If you look at the Bill that was first published, that was first brought here—it has changed significantly as a consequence of the debate here, the debate in committee, and the debate in the country. That is something which all parties in this place should be very proud of achieving over the last few months. And it has succeeded. The debate in this place has succeeded because the arguments have been strong, the arguments have been correct and because the Minister has listened to those arguments and because the Minister has made the amendments to the legislation to enable those arguments to have the force of law, and that is absolutely critical to our legislative process.

When I spoke in the debate back in November, I asked the Minister to consider three areas to strengthen the Bill. The first was, of course, over the role of the ministerial adviser, and we've still got some way to go there, but I recognise that the Minister's done all that he can on that. The second area was that of education. We've heard the debate this afternoon on education, and I agree very much with much of what has been said by different Members in this debate. But I also recognise what the Minister said in his statement two weeks ago, and I recognise the power of that statement, which goes beyond much of what we were actually demanding back in September. When we were cross-examining witnesses about education, as a part of that Stage 1 inquiry, we did not anticipate as a committee that the Government would move the distance it has moved and that the Bill would be strengthened in the way that it has been strengthened. I think we need to recognise that as well.

Rwyf eisiau siarad yn gryno yn y ddadl y prynhawn yma. Er mwyn gwneud hynny, edrychais dros ddadl Cyfnod 1 a gynhaliwyd yma ym mis Tachwedd, y Bil fel y'i cyflwynwyd ym mis Gorffennaf diwethaf, a'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y pwyllgor mewn ymateb i ymchwiliad Cyfnod 1. Yr hyn a oedd yn drawiadol i mi oedd grym a chryfder y dystiolaeth bod angen y Bil hwn, grym a chryfder y tystion a roddodd dystiolaeth i egluro pam mae angen Bil y hwn a pham mae angen i'r Bil hwn i fod y darn cryfaf bosibl o ddeddfwriaeth er mwyn galluogi awdurdodau cyhoeddus Cymru i ymdrin â thrais yn erbyn menywod a phlant. Ac mae'n bwysig, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y gwaith a wnaed dros y cyfnod ers y ddadl yn y fan hon. Mae'r fan hon wedi gweithio fel deddfwrfa. Os edrychwch chi ar y Bil a gyhoeddwyd i dechrau, a gyflwynwyd inni ar y dechrau—mae wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i'r ddadl yma, y ddadl yn y pwyllgor, a'r ddadl yn y wlad. Mae hynny'n rhywbeth y dylai pob plaid yn y fan hon fod yn falch iawn o fod wedi'i gyflawni dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Ac mae wedi llwyddo. Mae'r ddadl yn y lle hwn wedi llwyddo am fod y dadleuon wedi bod yn gryf, am fod y dadleuon wedi bod yn gywir ac am fod y Gweinidog wedi gwrandao ar y dadleuon hynny ac am fod y Gweinidog wedi gwneud y gwelliannau i'r ddeddfwriaeth i roi grym y gyfraith i'r dadleuon hynny, ac mae hynny'n gwbl dyngedfennol i'n proses deddfwriaethol.

Pan siaredais yn y ddadl ym mis Tachwedd, gofynnais i'r Gweinidog ystyried tri maes lle gellid cryfhau'r Bil. Y cyntaf, wrth gwrs, oedd rôl y cynghorydd gweinidogol, ac mae gennym gryn ffordd i fynd yn o hyd yn hynny o beth, ond rwy'n cydnabod bod y Gweinidog wedi gwneud popeth y mae modd ei wneud ar hynny. Yr ail faes oedd addysg. Rydym ni wedi clywed y ddadl y prynhawn yma ar addysg, ac rwy'n cytuno'n gryf iawn â llawer o'r hyn a ddywedwyd gan wahanol aelodau yn y ddadl hon. Ond rwy'n cydnabod hefyd yr hyn a ddywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad bythefnos yn ôl, ac rwy'n cydnabod grym y datganiad hwnnw, sydd mewn gwirionedd yn mynd y tu hwnt i lawer o'r hyn yr oeddem yn galw amdano yn ôl ym mis Medi. Pan oeddem ni'n croesholi tystion ynglŷn ag addysg, fel rhan o ymchwiliad Cyfnod 1, nid oeddem ni fel pwyllgor yn rhagweld y byddai'r Llywodraeth yn symud cyn belled ag y mae wedi symud ac y byddai'r Bil yn cael ei gryfhau yn y ffordd y mae wedi'i gryfhau. Rwy'n credu bod angen inni gydnabod hynny yn ogystal.

I agree very much with what Peter Black has just said—that it is delivery on the ground that is actually what counts—and Jocelyn Davies is absolutely correct in what she says about the requirement for statutory guidance that will actually deliver in a school setting up and down the country. We have the ability to do that here. We can bring the Minister back to committee if he doesn't deliver on our expectations. If the Minister does not deliver as he has promised, he can be brought back to committee and we can be holding him to account for the promises he's made and the commitments that he's given, and that is the democratic accountability that we hold here in this place. It is for us to put this Bill on the statute book this afternoon, but not to walk away from it today and tonight—not to think that our job is done when this Bill reaches the statute book this evening, but to continue to hold the Government to account for the strategies it endorses, the decisions it takes and for the delivery of the programmes on the ground when this becomes law. That, Jocelyn, and that, Peter, is the power of this place, and the power of the argument that's been deployed over the last six months, and I believe it is what our constituents will want us to do.

I'm proud of the way that this Bill has been debated in this place. I pay tribute to the work of Lesley Griffiths and Carl Sargeant, who've done an enormous amount of work on this Bill over the last few years, and I recognise that the current Minister has moved and has changed and has amended the Bill as a consequence of the debates that we've had in this place. So, I hope that, today, this Assembly can pass this Bill into law and that tomorrow we can start the work of delivering on the ground for the people who need this up and down our country. Thank you very much.

15:46

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I didn't have the advantage of sitting in the committee like Alun Davies did, and therefore, for me, the Stage 3 part of the Bill was so important, because that's when you see legislation coming before the Assembly and you get to learn, as a non-committee Member, what the nuts and bolts of it were. I have to say that Peter Black's explanation as to why the amendment on the education section of the Bill formed such a vital plank of the Bill was key, and was very persuasive. I'm not aware of how sunny or not the Minister's disposition was, and I perhaps saw a different approach, which appeared much more like a game of chicken, to be honest. I have to say that I'm very supportive of the aims of the Bill and I'm delighted that we will be voting for it, but I see that a lot of those third sector organisations are sitting in the gallery and I have to echo the concerns of Jocelyn Davies in her contribution today: that the tone of the correspondence was bullying, and it did you a great disservice, and the people that you represent a great disservice.

Rwy'n cytuno'n gryf iawn â'r hyn a ddywedodd Peter Black—mai rhoi'r materion hyn ar waith ar lawr gwlad sy'n cyfrif mewn gwirionedd—ac mae Jocelyn Davies yn hollol gywir yn yr hyn y mae'n ei ddweud ynglŷn â'r angen am ganllawiau statudol a fydd yn cyflawni mewn ysgolion ledled y wlad. Mae gennym y gallu i wneud hynny yma. Gallwn ddod â'r Gweinidog yn ôl i'r pwyllgor os nad yw'n cyflawni ein disgwyliadau. Os nad yw'r Gweinidog yn cyflawni fel y mae wedi addo, gellir dod ag ef yn ôl i'r pwyllgor, a gallwn ei ddwyn i gyfrif am ei addewidion a'i ymrwymadau. Dyna'r atebolrwydd democrataidd sydd gennym ni yma yn y fan hon. Ein gwaith ni yw rhoi'r Bil hwn ar y llyfr statud brynhawn heddiw, ond nid cerdded oddi wrtho heddiw a heno—peidio â meddwl bod ein gwaith wedi ei wneud pan fydd y Bil hwn yn cyrraedd y llyfr statud heno, ond parhau i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y strategaethau y mae'n eu cymeradwyo a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud, ac am y ffaith bod y rhaglenni'n cael eu cyflwyno ar lawr gwlad pan fydd y Bil hwn yn dod yn gyfraith. Hynny, Jocelyn, a hynny, Peter, yw grym y fan hon, a grym y ddadl sydd wedi bod yn cael ei chynnal dros y chwe mis diwethaf, ac rwy'n credu mai dyna fydd ein hetholwyr eisiau inni ei wneud.

Rwy'n falch o'r ffordd y mae'r Bil hwn wedi ei drafod yn y fan hon. Rwy'n talu teyrnged i waith Lesley Griffiths a Carl Sargeant, sydd wedi gwneud llawer iawn o waith ar y Bil hwn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac rwy'n cydnabod bod y Gweinidog presennol wedi cynnig ac wedi newid ac wedi diwygio'r Bil o ganlyniad i'r dadleuon a gawsom yn y fan hon. Felly gobeithio, heddiw, y gall y Cynulliad hwn basio'r Bil a'i wneud yn gyfraith ac y gallwn ni ddechrau ar y gwaith o gyflawni ar lawr gwlad yfory er lles y bobl sydd angen hyn ar hyd a lled ein gwlad. Diolch yn fawr iawn.

Wel, chefais i mo'r fantais o eistedd yn y pwyllgor fel y cafodd Alun Davies, ac felly, i mi, roedd rhan Cyfnod 3 o'r Bil mor bwysig, oherwydd mai dyna pa bryd yr ydych chi'n gweld deddfwriaeth yn dod gerbron y Cynulliad ac yn cael gweld manylion y ddeddfwriaeth honno, fel Aelod nad yw'n aelod o'r pwyllgor. Rhaid imi ddweud bod eglurhad Peter Black yn allweddol ynglŷn â pham yr oedd y gwelliant i adran addysg y Bil yn elfen mor hanfodol o'r Bil, ac roedd yn argyhoeddiadol iawn. Nid wyf yn ymwybodol o ba mor llawen neu beidio y mae natur y Gweinidog, ac efallai fy mod i wedi gweld agwedd wahanol, a oedd yn debycach o lawer i chwarae gêm i weld pwy fyddai'n ildio gyntaf, i fod yn onest. Rhaid imi ddweud fy mod yn gefnogol iawn o amcanion y Bil ac rwy'n falch iawn y byddwn yn pleidleisio o'i blaid, ond rydw i'n gweld bod llawer o sefydliadau'r trydydd sector yn eistedd yn yr oriel ac mae'n rhaid imi adleisio pryderon Jocelyn Davies yn ei chyfraniad heddiw: bod naws yr ohebiaeth yn debyg i fwlio, ac fe wnaeth anghymwynas fawr â chi, ac anghymwynas fawr â'r bobl yr ydych yn eu cynrychioli.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think it is right that, as a legislature, when we get representations from organisations, we know how much funding they are receiving from Welsh Government and what is potentially at risk for them. I think what's sad about what has happened is that there's a risk now, today, that the focus is not on the outcomes of the Bill, which are so important, and which we need to see—we really want to see that focus on outcomes, because that's how we hold the Welsh Government to account—but may be on the way that the lobbying was conducted in between the Stage 3 proceedings and now. I think that is deeply regrettable, because the focus should be on the outcomes. But I'm glad that other Assembly Members in this Chamber have highlighted the events of the last week, because I think it's important that that's on the record and people understand that we are here to represent all our constituents, we are here to scrutinise the Government and we are here to improve the legislation. That needs to be understood in a wider context, where the public ought to be able to see and know that, where organisations are lobbying, they are potentially funded by Welsh Government. That doesn't detract from the outcomes that we want to see, and which every party across this Chamber wants to see, but I have to say that it did make me very upset and quite concerned, and that's why I felt strongly enough to want to stand up today and put that on the record.

Pan fyddwn yn cael sylwadau gan sefydliadau, rwy'n credu ei bod yn iawn ein bod ni'n gwybod, fel deddfwrfa, faint o arian y maent yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru a beth y gallent fod yn ei fentro. Y peth trist ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd yw bod perygl nawr, heddiw, nad ar ganlyniadau'r Bil y mae'r pwyslais. Mae hynny mor bwysig, ac mae angen inni eu gweld — rydym ni'n wirioneddol eisiau gweld y pwyslais hwnnw ar ganlyniadau, gan mai dyma sut mae dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Gallai'r pwyslais yn hytrach fod ar y ffordd y cynhaliwyd y lobio rhwng trafodion Cyfnod 3 a'r pwynt yma. Rwy'n credu bod hynny'n anffodus iawn, oherwydd y dylem ni fod yn canolbwyntio ar y canlyniadau. Ond rwy'n falch bod aelodau eraill y Cynulliad yn y Siambr hon wedi tynnu sylw at ddiwyddiadau'r wythnos diwethaf, oherwydd fy mod yn credu ei bod yn bwysig i hynny gael ei gofnodi ac i bobl ddeall ein bod ni yma i gynrychioli ein hetholwyr i gyd, ein bod ni ydym yma i graffu ar y Llywodraeth a'n bod ni yma i wella'r ddeddfwriaeth. Mae angen deall hynny mewn cydestun ehangach. Dylai'r cyhoedd allu gweld a gwybod bod sefydliadau sy'n lobio yn debygol o fod yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw hynny'n amharu ar y canlyniadau yr ydym ni eisiau eu gweld, ac y mae pob plaid yn y Siambr hon eisiau eu gweld, ond rhaid imi ddweud ei fod wedi fy ngofidio a'm pryderu'n arw, a dyna pam fy mod i'n teimlo'n ddigon cryf i sefyll heddiw i ddatgan hynny.

15:49

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm going to bring the debate back: it is on the Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. What we have before us this afternoon, I believe, is a better Bill and a stronger Bill, and it is a Bill that's been shaped by the negotiation of recent days and recent weeks. Those negotiations have had the focus of Wales very much on this Bill, and I think that that is a good thing, because for a very long time I don't really think that the wider public necessarily realised the extent of domestic abuse. I don't think it was well known that two women, every single week, die as a consequence of domestic abuse. I don't think it was widely known either that, within the time we will have debated this again this afternoon, 100 women will have called for help. I think that is a good thing that has happened.

Coming back to the Bill, it has been shaped by the women who have campaigned for years and decades to better protect others. I pay tribute to those organisations—to those third sector organisations that have, year after year, day after day, night after night, looked at and dealt with the consequences of domestic abuse. I think that did give them the right to actually lobby us. They are not the only organisations that have ever lobbied me to vote. If they can't lobby us, and if they can't say something about what they see every day and implore us to vote for a Bill that will change the life chances of people, then I don't know who has that right.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n mynd i ddod â'r ddatl yn ôl: y Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yw'r pwnc. Ger ein bron y prynhawn yma, yn fy marn i, mae gennym well Bil a chryfach Bil, ac mae'n Fil sydd wedi ei lunio gan gyd-drafodaethau'r dyddiau diwethaf a'r wythnosau diwethaf. Mae'r cyd-drafodaethau hynny wedi hoelio sylw Cymru ar y Bil hwn, ac rwy'n credu bod hynny'n beth da, oherwydd nad oedd y cyhoedd yn gyffredinol o anghenraid, yn fy marn i, wedi sylweddoli union raddau cam-drin domestig am gyfnod hir iawn. Nid wyf yn meddwl bod pobl yn gwybod yn gyffredinol bod dwy fenyw'n marw o ganlyniad i gam-drin domestig bob wythnos. Nid wyf yn meddwl bod pobl yn gwybod yn gyffredinol ychwaith, y bydd 100 o fenywod wedi galw am help o fewn yr amser y byddwn ni wedi ei dreulio yn trafod hyn eto brynhawn heddiw. Rwy'n credu ei bod yn beth da bod hyn wedi digwydd.

Gan ddod yn ôl at y Bil, fe'i lluniwyd gan y menywod sydd wedi ymgyrchu ers blynyddoedd a degawdau i amddiffyn eraill yn well. Rwy'n talu teyrnged i'r sefydliadau hynny—i sefydliadau'r trydydd sector sydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ddydd ar ôl dydd, nos ar ôl nos, wedi edrych ar ganlyniadau cam-drin domestig ac ymdrin â nhw. Rwy'n credu bod hynny mewn gwirionedd yn rhoi'r hawl iddynt ein lobio ni. Nid nhw yw'r unig sefydliadau sydd wedi fy lobio i bleidleisio erioed. Os na chawn nhw ein lobio ni, ac os na chawn nhw ddweud rhywbeth am yr hyn y maen nhw'n ei weld bob dydd ac ymbil arnom ni i bleidleisio dros Fil a fydd yn newid cyfleoedd bywyd pobl, yna wn i ddim pwy sydd â'r hawl.

But, we here today have a chance to make a difference by legislating, by passing this legislation. It would be a deep personal regret for me if that opportunity was missed today. So, I really do welcome the fact that all the parties have said they will be supporting this Bill. I don't think that anybody here would want to waste any more time in getting this legislation forward and on to the books. We've heard an awful lot about education. We've heard an awful lot about bringing schools on board to teach their pupils—and staff, I would argue—about the effects of domestic abuse. I'm really proud to say that Coedcae School in Llanelli did that here on 25 November last year. They presented their understanding of domestic abuse to this Assembly on white ribbon day. They did that because there was a will within that school to ensure that that happened. That is a model that can be copied and will be copied, I hope.

The other thing that I really am pleased about that the Minister has put in the Bill is the annual reporting mechanisms. There is no place any longer for local government and others to hide. They will have to write back to the Assembly, to the Minister—whoever that person is—and say what progress they've made. That progress can be scrutinised, not only by us, because we're not the only players here, but by local government, by other elected members in other places. I really do welcome that and I support the Bill.

Ond, yma heddiw mae gennym ni gyfle i wneud gwahaniaeth drwy ddeddfu, drwy basio'r ddeddfwriaeth hon. Byddai'n ofid personol dwfn i mi pe byddem yn colli'r cyfle hwnnw heddiw. Felly, rwyf wir yn croesawu'r ffaith bod y pleidiau i gyd wedi dweud y byddant yn cefnogi'r Bil hwn. Nid wyf yn meddwl y byddai unrhyw un yma eisiau gwastraffu mwy o amser cyn symud y ddeddfwriaeth hon yn ei blaen a'i rhoi ar y llyfrau. Rydym ni wedi clywed llawer iawn am addysg. Rydym ni wedi clywed llawer iawn am sicrhau ymrwymiad ysgolion i addysgu eu disgyblion—a'r staff, fe fyddwn i'n dadlau—ynghlŷn ag effeithiau cam-drin domestig. Rwy'n wirioneddol falch o ddweud bod Ysgol Coedcae yn Llanelli wedi gwneud hynny yma ar 25 Tachwedd y llynedd. Fe wnaethant gyflwyno eu dealltwriaeth o gam-drin domestig i'r Cynulliad hwn ar ddiwrnod rhuban gwyn. Fe ddigwyddodd hynny am fod ewyllys o fewn yr ysgol honno i sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae hwnnw'n fodel y mae modd ei gopio ac a fydd yn cael ei gopio, gobeithio.

Y peth arall yr ydw i'n wirioneddol falch bod y Gweinidog wedi ei roi yn y Bil yw'r mecanweithiau ar gyfer cyflwyno adroddiadau blynyddol. Nid oes unman i lywodraeth leol ac eraill guddio mwyach. Bydd yn rhaid iddynt ysgrifennu'n ôl at y Cynulliad, at y Gweinidog—pwy bynnag yw'r person hwnnw—a rhoi gwybod beth maent wedi'i gyflawni. Bydd modd inni graffu ar yr hyn maent wedi'i gyflawni, ac nid ni yn unig, nid ni yw'r unig rai sydd â rhan yma, ond llywodraeth leol hefyd, aelodau etholedig eraill mewn manau eraill. Rwy'n wirioneddol groesawu hynny ac yn cefnogi'r Bil.

15:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Public Services to reply to the debate—Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddatl—Leighton Andrews.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:53 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services

Thank you, Llywydd. I welcome the general support that has been expressed for the principles of the Bill and I would like to thank Members for contributing to the scrutiny of this Bill.

Diolch ichi, Lywydd. Rwy'n croesawu'r gefnogaeth gyffredinol sydd wedi'i mynegi i egwyddorion y Bil a hoffwn ddiolch i'r Aelodau am gyfrannu at y gwaith o graffu ar y Bil hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Jocelyn Davies said that we can be proud of this Bill and I agree with her. I very much welcome the fact that the Wales Violence Against Women Action Group has described it as a strong and powerful piece of legislation. Now, I've known Jocelyn Davies long enough to know that she won't be blinded by my sunny disposition, and I've never seen her as starry eyed in any respect, but I do very much welcome, let me say, the way in which we have been able to engage on these issues during the course of this legislation. I think she has made very important points about the need for us to ensure that that respect agenda is properly embedded within schools. She has rightly referred to pioneering research that's been undertaken in Wales in that regard. We will want to take that forward.

Dyweddodd Jocelyn Davies y gallwn fod yn falch o'r Bil hwn ac rwy'n cytuno â hi. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod Grŵp Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod Cymru wedi ei ddisgrifio fel darn o ddeddfwriaeth cryf a phwerus. Rydw i wedi adnabod Jocelyn Davies yn ddigon hir erbyn hyn i wybod na fydd hi'n cael ei dallu gan fy natur lawen, ac rwyf bob amser wedi meddwl amdani fel rhywun â'i thraed ar y ddaear ond, gadewch imi ddweud, rydw i'n croesawu'n fawr y ffordd yr ydym wedi llwyddo i ymgysylltu ar y materion hyn yn ystod hynt y ddeddfwriaeth hon. Rwy'n credu ei bod wedi gwneud pwyntiau pwysig iawn ynghylch yr angen inni sicrhau bod yr agenda'n ymwneud â pharch yn cael ei gwreiddio'n briodol mewn ysgolion. Mae hi wedi cyfeirio, yn gwbl briodol, at ymchwil arloesol sydd wedi ei chynnal yng Nghymru yn hynny o beth. Bydd arnom eisiau ystyried hynny.

It was right—as Alun Davies said—to say that this Bill has shown how we work as a legislature, because I think all parties in this Chamber now have ownership of this Bill. There has been cross-party engagement on the issues and we have moved on the Bill in response to suggestions from the different parties. As Peter Black recognised, I have taken on board amendments that have been brought forward by opposition parties.

I can promise Peter Black and Mark Isherwood that we will ensure that we have effective monitoring and reporting arrangements in place. Amongst those will be, of course, the annual reporting on the work of local authorities and local health boards referred to by Joyce Watson just now. We will also have opportunities, of course, for the national adviser to report on the work that that individual undertakes for us as well, and we will create the mechanisms to ensure that Members are engaged in these issues. Mark Isherwood asked specifically about how we keep up to date on the curriculum and the implementation of the Donaldson review, and that is certainly something that I will want to be reporting on. I can also give Mark Isherwood an undertaking, given his continued pressure throughout this process on the importance of perpetrator programmes, that, of course, we will be reporting on those as well, where they operate, bearing in mind that the research in this area is still being developed and we need to ensure that we are putting in place programmes that actually work.

Joyce Watson, rightly, referred to the awareness raising that is necessary in this area, and she herself has given examples from schools in her own region, but also she has played a pioneering role, of course, alongside the white ribbon campaign, and has brought that to this Assembly, and I congratulate her on that work. She rightly said that third sector organisations are passionate about this Bill and have been passionate in their lobbying. I want to say very fundamentally that I have been on the receiving end of lobbying by third sector organisations on this issue and, indeed, on many issues in my time in the Chamber and I don't regard that in any way as bullying. I think third sector organisations have the right to lobby this Assembly and we should certainly not be looking to fetter their right to lobby this Assembly, as is being threatened in Westminster at the current time. I think we need to stand up for the right of the third sector to make representations to Assembly Members.

But, today, as Joyce Watson absolutely rightly said, we need to focus on the issues at stake, the issues of domestic abuse, sexual violence, violence against women and other forms of gender-based violence. That is what this Bill is about. I am glad that the Assembly has come together to develop a Bill that is seen in the sector as a strong piece of legislation and a powerful piece of legislation. This is a landmark Bill, not just for this Assembly, but it is the first of its kind in the UK. As Alun Davies rightly said, we pass the Bill today, then we move on to delivery.

Roedd yn iawn dweud—fel y dywedodd Alun Davies—bod y Bil hwn wedi dangos sut yr ydym ni'n gweithio fel deddfwrfa, oherwydd bod pob plaid yn y Siambr hon bellach yn teimlo eu bod yn berchen ar y Bil hwn, yn fy marn i. Cafwyd ymgysylltiad trawsbleidiol ar y materion dan sylw ac rydym ni wedi symud o ran y Bil mewn ymateb i awgrymiadau gan y gwahanol bleidiau. Fel y cydnabu Peter Black, rydw i wedi derbyn gwelliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau.

Gallaf addo i Peter Black a Mark Isherwood y byddwn yn sicrhau ein bod wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro a chyflwyno adroddiadau. Ymhlith y rhain, wrth gwrs, bydd yr adroddiadau blynyddol ar waith awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol y cyfeiriodd Joyce Watson atynt. Bydd cyfleoedd hefyd, wrth gwrs, i'r cynghorydd cenedlaethol gyflwyno adroddiad ar y gwaith y mae ef neu hi yn ei wneud inni yn ogystal, a byddwn yn creu trefniadau i sicrhau bod yr Aelodau'n rhan o'r materion hyn. Holodd Mark Isherwood yn benodol ynglŷn â sut y byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o safbwynt y cwricwlwm a gweithrediad adolygiad Donaldson. Yn sicr mae hynny'n rhywbeth y byddaf eisiau rhoi adroddiad yn ei gylch. O gofio'r pwysau y mae wedi ei roi arnom trwy gydol y broses hon ynglŷn â phwysigrwydd rhaglenni i dramgwyddwyr, gallaf hefyd roi addewid i Mark Isherwood y byddwn, wrth gwrs, yn cyflwyno adroddiad ar y rhaglenni hynny hefyd, lle maent yn weithredol, gan gadw mewn cof bod ymchwil yn y maes hwn yn cael ei datblygu o hyd a bod angen sicrhau bod y rhaglenni syn cael eu gweithredu yn rhai sy'n gweithio.

Cyfeiriodd Joyce Watson, yn gwbl briodol, at yr angen i godi ymwybyddiaeth yn y maes hwn, ac mae hi ei hun wedi rhoi enghreifftiau o ysgolion yn ei rhanbarth ei hun, ond mae hi hefyd wedi chwarae rhan arloesol ochr yn ochr â'r ymgyrch rhuban gwyn wrth gwrs, ac wedi dod â hwnnw i'r Cynulliad hwn, a hoffwn ei llongyfarch ar y gwaith hwnnw. Roedd yn llygad ei lle pan ddywedodd fod mudiadau'r trydydd sector yn teimlo'n angerddol ynglŷn â'r Bil hwn a'u bod wedi lobbio yn angerddol. Roedd arnaf i eisiau nodi, yn sylfaenol iawn, fy mod i wedi cael fy lobbio gan fudiadau'r trydydd sector ar y mater hwn ac, yn wir, ar lawer o faterion yn fy amser yn y Siambr ac nad wyf yn ystyried hynny'n fwlio mewn unrhyw ffordd. Credaf fod gan sefydliadau'r trydydd sector yr hawl i lobbio'r Cynulliad hwn ac yn sicr ni ddylem fod yn llyffetheirio eu hawl i lobbio'r Cynulliad hwn, fel sy'n cael ei fygwth yn San Steffan ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod angen inni sefyll dros hawl y trydydd sector i gyflwyno sylwadau i aelodau'r Cynulliad.

Ond, heddiw, fel y dywedodd Joyce Watson yn hollol gywir, mae angen inni ganolbwyntio ar y materion sydd yn y fantol, materion cam-drin domestig, trais rhywiol, trais yn erbyn menywod a mathau eraill o drais ar sail rhywedd. Dyna beth yw diben y Bil hwn. Rwy'n falch bod y Cynulliad wedi dod at ei gilydd i ddatblygu Bil a ystyrir yn y sector yn ddeddfwriaeth gref a deddfwriaeth bwerus. Mae'r Bil hwn yn garreg filltir, nid ar gyfer y Cynulliad hwn yn unig. Dyma'r cyntaf o'i fath yn y DU. Fel y dywedodd Alun Davies, rhaid pasio'r Bil heddiw, yna symud ymlaen i gyflawni.

15:58	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, therefore it is agreed in accordance with Standing Order 12.36. I would like to congratulate the Assembly on this momentous Bill today.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36</i></p>	<p>Y cynnig yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Hoffwn longyfarch y Cynulliad ar y Bil pwysig hwn heddiw.</p> <p><i>Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:58	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>It has been agreed that voting time will take place before the Stage 3 debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. We have now reached that point in the agenda. So, unless anyone objects, I intend to proceed directly to voting. No objections.</p>	<p>Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio'n cael ei gynnal cyn y ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau Dyfodol (Cymru). Rydym ni bellach wedi cyrraedd y pwynt hwnnw yn yr agenda. Felly, oni bai fod gwrthwynebiad, rwy'n bwriadu mynd yn syth i bleidleisio. Dim gwrthwynebiadau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
15:58	<p>5. Cyfnod Pleidleisio</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>We will now take a vote on the second supplementary budget. I call for a vote on the motion tabled in the name of Jane Hutt. Open the vote. Close the vote. In favour, 33, 11 abstentions, 12 against. Therefore, the motion is carried.</p> <p><i>Derbyniwyd y cynnig: O blaid 33, Yn erbyn 12, Ymatal 11.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar gynnis NNDM5696</p>	<p>5. Voting Time</p> <p>Byddwn nawr yn cynnal pleidlais ar yr ail gyllideb atodol. Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. O blaid, 33, ymatal 11, 12 yn erbyn. Felly, derbynir y cynnig.</p> <p><i>Motion agreed: For 33, Against 12, Abstain 12.</i></p> <p>Result of the vote on motion NNDM5696</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
15:59	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Before we move to the Stage 3 debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill I will suspend proceedings for 10 minutes. The bell will be rung five minutes before we reconvene. I would encourage Members to return to the Chamber promptly. Thank you very much.</p> <p><i>Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 15:59.</i></p> <p><i>Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:10, gyda'r Dirprwy Lywydd (David Melding) yn y Gadair.</i></p>	<p>Cyn inni symud i'r ddadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau Dyfodol (Cymru) byddaf yn atal trafodion am 10 munud. Caiff y gloch ei chanu bum munud cyn inni ailymgynnull. Byddwn yn annog Aelodau i ddychwelyd i'r Siambr yn brydlon. Diolch yn fawr iawn.</p> <p><i>Plenary was suspended at 15:59.</i></p> <p><i>The Assembly reconvened at 16:10, with the Deputy Presiding Officer (David Melding) in the Chair.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:10	<p>6. Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Order. Order. The next item is our Stage 3 consideration of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.</p> <p>Grŵp 1: Diffyniad Datblygu Cynaliadwy (Gwelliannau 28, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 49, 23, 58 a 59)</p>	<p>6. Stage 3 Debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill</p> <p>Trefn. Trefn. Yr eitem nesaf yw ystyriaeth Cyfnod 3 o Fil Llesiant Cenedlaethau Dyfodol (Cymru).</p> <p>Group 1: Sustainable Development Definition (Amendments 28, 60, 61, 62, 63, 64, 65, 66, 67, 68, 69, 70, 49, 23, 58 and 59)</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>

- 16:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The first group of amendments relates to a sustainable development definition. The lead amendment in this group is amendment 28. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and to the other amendments in the group.
- Mae'r grŵp cyntaf o welliannau'n ymwneud â diffinio datblygu cynaliadwy. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 28. Galwaf ar y Gweinidog i gynniw y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.
- Cynigiwyd gwelliant 28 (Carl Sargeant).* *Amendment 28 (Carl Sargeant) moved.*
- 16:10 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*
- Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move the Government's amendments and the non-Government amendments we will be seeking to support in this group.
- Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigaf yn ffurfiol welliannau'r Llywodraeth a'r gwelliannau anllwywodraethol y byddwn yn eu cefnogi yn y grŵp hwn.
- I have considered carefully the strong desire from Members to provide a definition of sustainable development in the Bill. We believe amendment 28 secures this. Working with opposition parties, we've managed to also lay amendments that we will be happy to support in the name of Llyr Gruffydd. I formally move.
- Rwyf wedi ystyried yn ofalus awydd cryf yr Aelodau i ddarparu diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil. Credwn fod gwelliant 28 yn gwneud hyn. Drwy weithio gyda'r gwrthbleidiau, rydym wedi llwyddo hefyd i gyflwyno gwelliannau y byddwn yn hapus i'w cefnogi yn enw Llyr Gruffydd. Cynigaf yn ffurfiol.
- 16:11 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Well, I am very grateful to the Minister for inserting this new amendment. It has been an important clarification of the sustainable development definition. I think there have been numerous reports from the committee that indicated that the approach prior to this was deficient and I am glad that the Government has listened on this amendment because it is an important move forward. So, we will be supporting it.
- Wel, rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am fewnosod y gwelliant newydd hwn. Mae wedi bod yn eglurhad pwysig o ddiffiniad datblygu cynaliadwy. Mae'r Pwyllgor wedi llunio nifer o adroddiadau a oedd yn dangos bod yr ymagwedd cyn hyn yn ddiffygiol ac rwyf yn falch bod y Llywodraeth wedi gwrandao ynglŷn â'r gwelliant hwn oherwydd mae'n gam pwysig ymlaen. Felly, byddwn yn ei gefnogi.
- 16:11 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- From the beginning, Plaid Cymru's been clear about the need for a strong definition of sustainable development on the face of the Bill. Despite resisting this at Stage 2, we welcome that the Government has now accepted our argument for the inclusion of a specific section in the Bill establishing a clearer definition. Our preference, of course, has always been the definition of sustainable development used in 'One Wales: One Planet', in the interest of consistency, continuity and in recognition of the fact that it is a widely recognised definition that already has a great deal of currency in Wales and, of course, it's a definition previously agreed by this National Assembly for Wales. That said, I'm content with the wording in the Government amendment and I'm confident it will provide clarity and certainty and will reduce litigation concerns. Without a definition on the face of the Bill, the policy could, I believe, have been subject to political changes resulting in uncertainty in the direction of travel for all sectors involved. It also reduces the risk of multiple, conflicting and confusing definitions from different legislation and policy.
- O'r dechrau, mae Plaid Cymru wedi bod yn glir ynghylch yr angen i gynnwys diffiniad cryf o ddatblygu cynaliadwy ar wyneb y Bil. Er iddynt wrthod hyn yng Nghyfnod 2, rydym yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth bellach wedi derbyn ein dadl dros gynnwys adran benodol yn y Bil yn sefydlu diffiniad mwy eglur. Rydym bob amser wedi dweud, wrth gwrs, mai ein dewis ddiffiniad ni o ddatblygu cynaliadwy fyddai'r un a ddefnyddir yn 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned', er mwyn sicrhau cysondeb a dilyniant ac er mwyn cydnabod y ffaith ei fod yn ddiffiniad sy'n cael ei gydnabod yn eang sydd eisoes wedi ei ddefnyddio'n helaeth yng Nghymru ac, wrth gwrs, mae'n ddiffiniad y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol hwn arno eisoes. Wedi dweud hynny, rwyf yn fodlon â geiriad gwelliant y Llywodraeth ac rwyf yn hyderus y bydd yn darparu eglurder a sicrwydd ac y bydd yn lliniaru pryderon ynglŷn ag ymglyfreitha. Heb ddiffiniad ar wyneb y Bil, gallai'r polisi, yn fy marn i, fod yn destun newidiadau gwleidyddol a fyddai'n arwain at ansicrwydd ynghylch y cyfeiriad teithio i'r holl sectorau dan sylw. Hefyd mae'n lleihau'r risg o gael diffiniadau amrywiol, sy'n gwrthdaro ac yn ddryslyd, mewn gwahanol ddeddfwriaeth a pholisïau.

Mae rheswm pellach hefyd i gefnogi'r gwelliannau yma, rhywbeth, unwaith eto, oedd yn destun gwelliannau gan Plaid Cymru a wrthodwyd gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 2 ond sydd, erbyn hyn, wedi cael eu derbyn sef, wrth gwrs, i gynnwys diwylliant fel un o gonglfeini datblygu cynaliadwy yng Nghymru. Mae 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' yn pwysleisio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a diwylliant fel rhan o ddatblygu cynaliadwy a llesiant yng Nghymru ac mae'r gwelliannau yn y grŵp yma yn sicrhau cysondeb efo'r polisi hwnnw. Mae hefyd gydnabyddiaeth ryngwladol i ddiwylliant fel pedwerydd piler datblygu cynaliadwy ac rydym ni'n croesawu nawr y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein diffiniad ni fan hyn yng Nghymru. Mae prif welliant y grŵp yn sefydlu hynny ac mi fyddwn ni yn ei gefnogi ac fel arwydd o'r gefnogaeth honno, ac mewn cydnabyddiaeth hefyd fod y Llywodraeth wedi derbyn ein dadl ni ar y mater yma, mi roeddwn i'n falch iawn i osod y gwelliannau canlyniadol ac yn ddiolchgar hefyd i'r Gweinidog am ei gefnogaeth ef i'r rheini.

There is also a further reason for supporting these amendments, something else that was the subject of Plaid Cymru amendments that were rejected by the Government at Stage 2, but have now been accepted, namely of course the inclusion of culture as one of the cornerstones of sustainable development in Wales. 'One Wales: One Planet' emphasises the importance of the Welsh language and culture as part of sustainable development and wellbeing in Wales, and the amendments in this group ensure consistency with that policy. There is also international recognition of culture as the fourth pillar of sustainable development and we welcome that this will now be reflected in our definition here in Wales. The lead amendment in the group establishes that and we will be supporting it. As a sign of that support, and in recognition of the fact that the Government has accepted our case on this issue, I was very pleased to table the consequential amendments and grateful to the Minister for his support for those.

16:13

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I too join those who are welcoming the definition that has been found in amendment 31. The Minister will know that he and I have had a number of conversations about what we mean by sustainable development and ensuring that the meaning of sustainable development is not subject to a misinterpretation in future years. So, I very much welcome the lead that the Minister has taken and how hard he's worked to ensure that we have an effective definition of sustainable development.

The recognition of living within environmental constraints is absolutely key to this, but also the Minister has indicated previously that he recognises the importance of a balance between the different pillars of sustainability, the environment, economy and community. I hope that the Minister continues to be committed to the balance of these different pillars of sustainability and recognises that reaching a balance between these different pillars of sustainability would place a different emphasis on each element of sustainability at different times. I hope the Minister will be able to reassure us this afternoon that he recognises that this definition of sustainable development will drive forward a way of working in Wales that is very different to that which we've seen in the past, but also that we will have a more profound and a more holistic understanding of the meaning of sustainability in the future than perhaps we've had in the past.

Rwyf finau hefyd am groesawu'r diffiniad sydd yng ngwelliant 31. Bydd y Gweinidog yn gwybod ei fod ef a minnau wedi cael nifer o sgrysiâu am yr hyn a olygwn wrth ddatblygu cynaliadwy ac ynglŷn â sicrhau nad yw ystyr datblygu cynaliadwy'n cael ei gamdehongli yn y dyfodol. Felly, croesawaf yn fawr yr arweiniad y mae'r Gweinidog wedi'i gymryd a'r ffaith ei fod wedi gweithio mor galed i sicrhau bod gennym ddiffiniad effeithiol o ddatblygu cynaliadwy.

Mae cydnabyddiaeth i fyw'n unol ag ystyriaethau amgylcheddol yn gwbl allweddol yn hyn o beth, ond hefyd mae'r Gweinidog wedi dweud eisoes ei fod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng gwahanol bileri cynaliadwyedd, yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned. Rwyf yn gobeithio bod y Gweinidog yn dal i fod yn ymrwymedig i sicrhau cydbwysedd rhwng y gwahanol bileri sicrhau cynaliadwyedd hyn ac yn cydnabod y byddai sicrhau cydbwysedd rhwng y gwahanol bileri cynaliadwyedd hyn yn rhoi pwyslais gwahanol ar bob elfen o gynaliadwyedd ar wahanol adegau. Gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gallu rhoi sicrwydd inni'r prynhawn yma ei fod yn cydnabod y bydd y diffiniad hwn o ddatblygu cynaliadwy'n sbarduno ffordd o weithio yng Nghymru sy'n wahanol iawn i'r hyn yr ydym wedi ei weld yn y gorffennol, ond hefyd y bydd gennym ddealltwriaeth fwy dwys a mwy cyfannol o ystyr cynaliadwyedd yn y dyfodol nag efallai a fu gennym yn y gorffennol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:15

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move no amendments in group 1, but given the importance of us having a robust and accurate definition of sustainable development within the Bill, I'm pleased that the definition provided in the revised version of the Bill, and indeed the amendments tabled today, will provide us with a firm definition that can be used as a clear point of reference in future legislation, and indeed provide clarity in the event of any legal challenge.

I would also like to add my voice to those who are recognising the way in which the Minister has engaged in a significant way with opposition parties on these matters, and I'm grateful for the fact that that sets the tone of the debate that we're commencing just now.

Nid wyf yn cynnig dim gwelliannau yn grŵp 1, ond o gofio pwysigrwydd cynnwys diffiniad cadarn a chywir o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil, rwyf yn falch y bydd y diffiniad a ddarperir yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Bil, ac yn wir y gwelliannau a gyflwynir heddiw, yn rhoi diffiniad pendant y gellir ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio clir mewn deddfwriaeth yn y dyfodol, ac yn wir yn darparu eglurder pe ceid her gyfreithiol.

Hefyd, hoffwn ychwanegu fy llais at y rhai sy'n cydnabod y ffordd y mae'r Gweinidog wedi ymgysylltu mewn ffordd arwyddocaol â'r gwrthbleidiau ar y materion hyn, ac rwyf yn ddiolchgar mai hynny sy'n pennu naws y dadl yr ydym yn cychwyn arni yn awr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:16

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I'm very grateful for the comments made by Members this afternoon. This is, I hope, the start of some consensus around this Bill to deliver on sustainable development. In noting Alun Davies's comment regarding the definition of socioeconomic issues, I think it is about balancing the principles together of sustainability. I think this Bill in its framework will be able to demonstrate to people interpreting the SD duty and how that will be interpreted on the ground and there will be added value from this Bill. It is something that I'm grateful that he welcomes too. I formally move the amendments.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am y sylwadau a wnaed gan Aelodau'r prynhawn yma. Mae hyn, rwyf yn gobeithio, yn ddechrau ar rywfaint o gonsensws ynghylch y Bil hwn i roi datblygu cynaliadwy ar waith. Wrth nodi sylwadau Alun Davies ynglŷn â diffinio materion economaidd-gymdeithasol, credaf fod hyn yn fater o gydbwysio egwyddorion cynaliadwyedd gyda'i gilydd. Credaf y bydd y Bil hwn yn ei fframwaith yn gallu dangos i bobl sy'n dehongli'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a sut y bydd hynny'n cael ei ddehongli ar lawr gwlad ac y bydd y Bil hwn yn ychwanegu gwerth. Mae'n rhywbeth yr wyf yn ddiolchgar ei fod yntau'n ei groesawu hefyd. Cynigïaf y gwelliannau'n ffurfiol.

16:16

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The question is that amendment 28 be agreed to. Does any Member object? Amendment 28 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 28. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 28 wedi'i dderbyn felly'n unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 28 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 2: Dyletswydd Llesiant (Gwelliannau 29, 5, 32, 7, 8, 33, 24, 25 a 26)

Group 2: Wellbeing Duty (Amendments 29, 5, 32, 7, 8, 33, 24, 25 and 26)

16:17

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The next group of amendments relates to the wellbeing duty. The lead amendment in this group is amendment 29. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â'r dyletswyddau llesiant. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 29. Galwaf ar y Gweinidog i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

Cynigiwyd gwelliant 29 (Carl Sargeant).

Amendment 29 (Carl Sargeant) moved.

16:17

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I speak to the lead amendment and the other Government amendments in this group.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Siaradaf am y prif welliant a gwelliannau eraill y Llywodraeth yn y grŵp hwn.

This brings together, into one place, the key parts of the wellbeing duty to which public bodies will be subject. The new duty provides that the specified public bodies must carry out specific sustainable development. It puts into no doubt that sustainable development must be at the heart of each public body. I formally move.

Mae hyn yn dwyn ynghyd, mewn un lle, rannau allweddol y dyletswyddau llesiant y bydd cyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig iddynt. Mae'r ddyletswydd newydd yn darparu bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus penodedig ymgymryd â datblygu cynaliadwy penodol. Mae'n nodi fod yn rhaid i ddatblygu cynaliadwy heb os nac oni bai fod yn ganolog i bob corff cyhoeddus. Cynigïaf yn ffurfiol.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful for the Minister clarifying that. Of course, sustainable development is already supposedly the central organising principle of Welsh Government, and it's going to be very interesting to see how this provision applies in the future, particularly when you look at announcements around the M4 and the Circuit of Wales in terms of whether or not sustainable development really has been put at the heart of Welsh Government. If this duty that's now imposed actually is carried through, and we see outcomes that relate to it, which is, of course, what the Welsh Conservatives want to see, then there is potentially a very great shift in approach, but I would argue that we haven't seen it to date.

I do welcome the clarity that this changed wellbeing duty provides, in particular the requirement that there are reasonable steps on public bodies, but, Minister, I would caution you that, actually, we need to see the action rather than the words, and that people, on the whole, are judged by actions rather than their words. What is going to be key to this legislation is the outcomes that it produces, rather than the principles that it expresses. With that note of caution, we will be supporting your amendment.

Wrth yn ddiolchgar i'r Gweinidog am egluro hynny. Wrth gwrs, datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefniadol ganolog Llywodraeth Cymru eisoes yn ôl pob sôn, a bydd yn ddiddorol iawn gweld sut y mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol yn y dyfodol, yn enwedig pan edrychwch ar gyhoeddiadau ynghylch yr M4 a Chylchdaith Cymru o ran a yw datblygu cynaliadwy mewn gwirionedd wedi cael ei roi wrth galon Llywodraeth Cymru ai peidio. Os cyflawnir y ddyletswydd hon a orfodir yn awr mewn gwirionedd, ac os gwelwn ganlyniadau sy'n gysylltiedig â hi, sef, wrth gwrs, yr hyn y mae'r Ceidwadwyr Cymreig am ei weld, yna mae'n bosib y bydd newid mawr iawn o ran ymagwedd, ond byddwn yn dadlau nad ydym wedi gweld hynny hyd yma.

Wrth yn croesawu'r eglurder y mae'r dyletswyddau llesiant hyn ar eu newydd wedd yn ei ddarparu, yn enwedig y gofyniad bod camau rhesymol ar gyffwrdd cyhoeddus, ond, Weiniidog, byddwn yn eich rhybuddio bod angen inni, a dweud y gwir, weld gweithredu yn hytrach na geiriau, a bod pobl, ar y cyfan, yn cael eu barnu yn ôl eu gweithredoedd yn hytrach na'u geiriau. Yr hyn a fydd yn allweddol i'r ddeddfwriaeth hon yw'r canlyniadau y mae'n eu sicrhau, yn hytrach na'r egwyddorion y mae'n eu mynegi. Gyda'r gair hwnnw o rybudd, byddwn yn cefnogi eich gwelliant.

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Un o wendidau mawr y Bil yma pan y'i gyflwynwyd ar ei ffurf wreiddiol oedd y diffyg eglurder, ac yn bwysicach efallai diffyg cryfder y dyletswydd ynghylch llesiant a datblygu cynaliadwy a oedd yn cael ei osod ar gyffwrdd cyhoeddus. Roedd gennym ni a llawer o randdeiliaid bryderon ynghylch cryfder yr iaith a ddefnyddiwyd—dyletswydd 'i geisio' cyflawni rhywbeth, yn lle dyletswydd 'i gyflawni rhywbeth, er enghraifft.

Mae gwelliant 29 i'w groesawu, yn enwedig cymal un sydd yn dweud yn glir:

'Rhaid i bob corff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy.'

Geiriad llawer mwy eglur, llawer mwy cryf a dyletswydd llawer mwy pwrpasol nag oedd gennym ni ynghynt. Gwendid arall yn y Bil oedd y gorbwyslais ar lywodraethu o fewn y sector cyhoeddus, a'r diffyg ffocws felly ar waith y sector yn arfer ei swyddogaethau. Hynny yw, roedd y Bil yn dweud llawer am greu byrddau, pwyllgorau, asesiadau, cynlluniau ac adroddiadau, ond yn dawedog, braidd, o safbwynt rhoi dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus i roi ystyriaeth ddyledus i ddarpariaethau'r Bil wrth weithredu.

Nawr, mae'r gwelliannau yma yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd yna. Er enghraifft, fel rŷm ni'n gweld yng ngwelliant 29, mae'n cyfeirio'n benodol fod angen cymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion llesiant. Mae'r gwelliannau eraill yn cael effaith debyg hefyd wrth gwrs, felly gyda gwell pwyslais ar beth yw'r penderfyniadau rydych chi'n eu cymryd, yn lle sut rydych chi'n eu cymryd nhw, mi fyddwn ni'n cefnogi'r gwelliannau yn y grŵp yma.

One of the great weaknesses of the Bill when it was put forward in its original form was the lack of clarity and, more importantly than that, the lack of strength in the duty in relation to wellbeing and sustainable development that was placed on public bodies. We, and many other stakeholders, had concerns about the strength of the language used—a duty 'to try' to do something, rather than a duty 'to' do something, for example.

Amendment 29 is to be welcomed, especially clause one that says:

'Each public body must carry out sustainable development.'

That is a much clearer, stronger wording and a more purposeful duty than the one we had previously. Another weakness in the Bill was the overemphasis on governance within the public sector, and the lack of focus on the work of the sector in fulfilling its functions. That is, the Bill said a lot about creating boards, committees, assessments, plans and reports, but was rather quiet about placing a duty on public bodies to pay due regard to the provisions of the Bill when undertaking their functions.

Now, these amendments do get to grips with that lack of balance. For example, as we see in amendment 29, it says specifically that every reasonable step needs to be taken in fulfilling their functions to achieve these wellbeing aims. The other amendments have a similar effect as well, of course, so with better emphasis on what the decisions are that you are taking, rather than on how you take them, we will be supporting the amendments in this group.

16:20

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, unlike Antoinette, I'm not a glass-half-empty person and I strongly believe that these amendments do clarify that the public sector is going to have to change in the way it analyses and takes forward its policy agendas. I think it does set out very clear obligations on public bodies to act sustainably, particularly amendment 32, which strengthens the roles and duties of public bodies to reach out and,

Wel, yn wahanol i Antoinette, nid wyf yn berson gwydr hanner gwag a chredaf yn gryf fod y gwelliannau hyn yn egluro bod y sector cyhoeddus yn mynd i orfod newid y ffordd y mae'n dadansoddi ac yn datblygu ei agendâu polisi. Credaf fod hyn yn pennu rhwymedigaethau clir iawn ar gyrrff cyhoeddus i weithredu'n gynaliadwy, yn enwedig gweliant 32, sy'n cryfhau rolau a dyletswyddau cyrrff cyhoeddus i estyn allan a,

'involve other persons with an interest in achieving the well-being goals and ensure that those persons reflect the diversity of the population'.

'cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth.'

That, for example, can include tapping into the expertise of people on disabled access when we're designing buildings, or other ways in which we can use the resources and expertise of the community to ensure we get the Wales We Want decisions.

Gall hynny, er enghraifft, gynnwys manteisio ar arbenigedd pobl ynglŷn â mynediad i bobl anabl wrth gynllunio adeiladau, neu ffyrdd eraill y gallwn ddefnyddio adnoddau ac arbenigedd y gymuned i sicrhau y cawn benderfyniadau'r Gymru a Garem.

16:21

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

16:21

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Again, Deputy Presiding Officer, thank you for the comments made by Members on this section. Picking up the issues Antoinette raised with me, first of all, non-specific and not to any planning application that the Member may wish to raise, I think what this Bill does, particularly in amendment 32—the wellbeing statement—is mean that public bodies have to explain how they've applied the new sustainable development principle, and crucially show how the people they've involved reflect the diversity of the population they serve. So, it's very clear how that process takes place. Also, the commissioner and the auditor general now having a view over the principles of sustainable development is something that we are very keen to ensure works and that means further amendments during the Bill process.

Unwaith eto, Ddirprwy Lywydd, diolch ichi am y sylwadau a wnaed gan Aelodau ar yr adran hon. A sôn am y materion a gododd Antoinette gyda mi, yn gyntaf oll, yn amhenodol ac nid o ran unrhyw gais cynllunio y bydd yr Aelod o bosib yn dymuno'i godi, credaf mai'r hyn a wna'r Bil hwn, yn enwedig yng ngweliant 32—y datganiad llesiant—yw golygu bod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus esbonio sut y maent wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy newydd, ac yn allweddol, dangos sut y mae'r bobl y maent wedi'u cynnwys yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu. Felly, mae'n glir iawn sut y mae'r broses honno'n digwydd. Hefyd, rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod golwg y comisiynydd a'r archwilydd cyffredinol ar egwyddorion datblygu cynaliadwy'n gweithio ac mae hynny'n golygu gwelliannau pellach yn ystod proses y Bil.

During the amendment stages, I listened carefully, again, to opposition Members and I've also made it clear that William Powell's suggestion at Stage 2 that public bodies must work to each of the goals—. I've been very clear and we've included that at this stage of the amendments. I formally move.

Yn ystod cyfnodau'r gwelliannau, gwrandewais yn astud, unwaith eto, ar Aelodau'r gwrthbleidiau ac rwyf hefyd wedi'i gwneud yn glir fod awgrym William Powell yng Nghyfnod 2 fod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio tuag at bob un o'r nodau—. Rwyf wedi bod yn glir iawn ac rydym wedi cynnwys hynny yn y cyfnod hwn o welliannau. Cynigiau yn ffurfiol.

16:22

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 29 be agreed. Does any Member object? Amendment 29 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gweliant 29. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gweliant 29 wedi'i dderbyn felly.

Derbyniwyd gweliant 29 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 29 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 3: Nodau Llesiant (Gwelliannau 30G, 30B, 30C, 30D, 30A, 30E, 30F, 30, 3, 74, 75, 129, 140, 141 a 27)

Group 3: Wellbeing Goals (Amendments 30G, 30B, 30C, 30D, 30A, 30E, 30F, 30, 3, 74, 75, 129, 140, 141 and 27)

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next group of amendments relates to the wellbeing goals. The lead amendment in this group is amendment 30. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â'r nodau llesiant. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 30. Galwaf ar y Gweinidog i gynnegi y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

Cynigiwyd gwelliant 30 (Carl Sargeant).

Amendment 30 (Carl Sargeant) moved.

16:23 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm very grateful, Presiding Officer. I formally move the Government's amendments 3, 30 and 27. We will be supporting, also in this group, 30F, 140 and 141 in the name of William Powell. We will not be seeking to support the others in this group.

Rwyf yn ddiolchgar iawn, Lywydd. Cynigaf yn ffurfiol welliannau'r Llywodraeth 3, 30 a 27. Byddwn yn cefnogi, hefyd yn y grŵp hwn, 30F, 140 a 141 yn enw William Powell. Ni fyddwn yn cefnogi gweddill y gwelliannau yn y grŵp hwn.

My amendments in this group respond to the views expressed during both Stages 1 and 2 that the wording of the wellbeing goals needed to be strengthened in respect of a number of key issues. Amendments 3 and 30 together remove the original goals and insert a new set, which have the following revisions: there are now direct references to 'climate change' in the first two goals; the inclusion of an explicit reference to recognising the importance of environmental limits, which has been strengthened since my Stage 2 proposals; the first goal has been rewritten to include an explicit reference to decent work; and there is a new goal, namely a globally responsible Wales, which has also been strengthened in light of the discussions at Stage 2. Specified public bodies will be required to consider whether, in improving the wellbeing of Wales, they may make a positive contribution to global wellbeing. I formally move these amendments.

Mae fy ngwelliannau yn y grŵp hwn yn ymateb i'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod Cyfnodau 1 a 2 fod angen cryfhau geiriad y nodau llesiant o safbwynt nifer o faterion allweddol. Mae gwelliannau 3 a 30 gyda'i gilydd yn dileu'r nodau gwreiddiol ac yn mewnosod set newydd, â'r diwygiadau canlynol: bellach ceir cyfeiriadau uniongyrchol at 'newid yn yr hinsawdd' yn y ddau nod cyntaf; mae cyfeiriad penodol at gydnabod pwysigrwydd terfynau ar yr amgylchedd, sydd wedi'i gryfhau ers fy nghynigion yng Nghyfnod 2; mae'r nod cyntaf wedi ei ailysgrifennu i gynnwys cyfeiriad penodol at waith addas; ac mae nod newydd, sef Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang, sydd hefyd wedi ei gryfhau yng ngoleuni trafodaethau yng Nghyfnod 2. Bydd yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus penodedig ystyried, wrth wella llesiant Cymru, a allant wneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. Cynigaf yn ffurfiol y gwelliannau hyn.

16:24 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, I'm sure the Minister's going to be amazed at the consensus that's coming from this side of the Chamber, but again we welcome this strengthening of the wellbeing goals. Throughout the scrutiny process, there has been considerable criticism of the wellbeing goals, previously, and how they were drafted. I do think that the scrutiny process has led to an evolution in the wellbeing goals that we see now. I do think it's particularly important that climate change is specifically mentioned in the first two goals. It was absent before, and we welcome the fact that that now is present. We also welcome the fact that the fourth goal includes an explicit reference to socioeconomic background and circumstances.

Wel, rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn synnu at y consensws sy'n dod o'r ochr hon i'r Siambr, ond unwaith eto croesawn y cryfhau hwn ar y nodau llesiant. Drwy gydol y broses graffu, bu cryn feirniadu ar y nodau llesiant, o'r blaen, a'r ffordd yr oeddent wedi eu drafftio. Credaf fod y broses graffu wedi arwain at esblygiad y nodau llesiant a welwn yn awr. Credaf ei bod yn arbennig o bwysig crybwyll newid yn yr hinsawdd yn benodol yn y ddau nod cyntaf. Roedd yn absennol o'r blaen, ac rydym yn croesawu'r ffaith ei fod yn bresennol yn awr. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pedwerydd nod yn cynnwys cyfeiriad penodol at gefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol.

We will largely be supporting the amendments tabled by William Powell. It's quite clear that there are concerns over the scale of environmental—about how we can preserve the environment, and particularly around diverse and high-quality landscapes and, importantly, seascapes too, which largely have been excluded from the Bill. I do think that those amendments do add to the Bill in quite a significant way. Therefore, we will be supporting the Liberal Democrat amendments, largely, in this section. Thank you.

Byddwn yn cefnogi i raddau helaeth y gwelliannau a gyflwynwyd gan William Powell. Mae'n amlwg fod pryderon ynghylch graddfa'r—ynghylch â sut y gallwn ddiogelu'r amgylchedd, ac yn enwedig ynghylch tirweddau amrywiol o ansawdd uchel ac, yn bwysicach, morweddau hefyd, sydd i raddau helaeth wedi'u heithrio o'r Bil. Credaf fod y gwelliannau hynny'n ychwanegu at y Bil mewn ffordd eithaf sylweddol. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol, i raddau helaeth, yn yr adran hon. Diolch.

Mae gennym ni, fan hyn, rwy'n meddwl, ddau gategori o welliannau yn y grŵp yma: rhai i newid y nodau a'u disgrifiadau fel maen nhw'n ymddangos ar wyneb y Bil a rhai i sefydlu'r broses o fynd ati i newid y nodau yn y dyfodol. Nawr, mae'n rhaid, yn fy marn i, gwarchod rôl y Cynulliad pan fo'n dod i newid y nodau yn y dyfodol ac osgoi, efallai, sefyllfaoedd lle mae yna newidiadau yn cael eu gwneud â chymhellion gwleidyddol neu ar fympwy Gweinidogion. Mi fydd Plaid Cymru'n awyddus i weld proses gref yn cael ei sefydlu drwy'r gwelliannau yn hynny o beth.

Mae gwelliant Plaid Cymru, sef gwelliant 30A, yn ceisio ychwanegu at y disgrifiad o'r chweched nod, sy'n sôn am Gymru

'â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.'

Nod ein gwelliant ni yw sicrhau ei bod hi'n ofynnol bod cyrff cyhoeddus yn ystyried sefyllfa'r Gymraeg ar bob lefel, ac nid yn unig ar lefel y corff o dan sylw. Er enghraifft, mae penderfyniadau cynllunio, gan awdurdodau cynllunio neu gan Lywodraeth Cymru, yn cael effaith ar y Gymraeg ar lefel gymunedol. Gall effeithiau ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, yn eu tro, gael goblygiadau cenedlaethol pwysig hefyd. O safbwynt iaith, mae cynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg ar lefel genedlaethol yn medru cuddio cwmp y nifer y cymunedau sy'n gymunedau Cymraeg eu hiaith, ac yn y blaen. Yn ei hanfod, pwrpas y gwelliant yw adlewyrchu'r pwyslais sydd yna ar y lefel gymunedol yn strategaeth iaith Gymraeg y Llywodraeth ei hun. Rwyf felly yn eich annog chi i'w gefnogi ef.

Er bod geiriad gwelliant 129 yn ymddangos fel ei fod yn cryfhau'r egwyddor o integreiddio, rwyf wedi cael cyngor sy'n awgrymu, mewn termau cyfreithiol, y bydd, mewn gwirionedd yn gwanhau'r ddyletswydd ar gyrrff cyhoeddus. Ar sail hynny, felly, byddwn ni'n pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwnnw. Felly hefyd 30G: wrth fewnosod y cymal yma, mae'n torri ar draws y disgrifiad a oedd yn dweud:

'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach'

ac mae e'n newid yr ystyr. Nawr, nid wyf yn meddwl bod hynny'n fwiadol, os caf i ddweud, ac rwy'n gefnogol o'r sentiment tu ôl i'r gwelliant, ond mae'r ystyr yn cael ei newid. Rwyf wedi edrych yn ofalus ac wedi cymryd y ddwy achos i ystyriaeth. Mae'r ffocws clir oedd ar gynnal a gwella bioamrywiaeth yn cael ei golli, neu, yn sicr, beth bynnag, yn ymddangos yn wannach nag yn y geiriad gwreiddiol.

Mae hyn, efallai, yn enghraifft, yn fy marn i, o'r angen am gyfnod arall yn y broses ddeddfu yn y lle yma, gyda gwelliannau mor sylfaenol a phellgyrhaeddol yn cael eu cyflwyno gan y Llywodraeth yng Nghyfnod 3 fel hyn—bron iawn yn ailysgrifennu rhannau helaeth o'r Bil—a gwelliannau i'r gwelliannau yn cael eu cyflwyno wedyn gan y gwrthbleidiau. Mae angen inni fedru ystyried rhai o'r rhain ymhellach, ond, ta waeth am hynny, mae yna newid yn yr ystyr fan hyn ac, felly, ni fyddwn ni'n cefnogi'r gwelliannau penodol hynny.

We have here, I think, two categories of amendments in this particular group: some to change the goals and the descriptions as they appear on the face of the Bill, and some to put in place the process of changing the goals for the future. Now, in my view, we must safeguard the role of the Assembly when it comes to changing these goals in future and avoid situations where changes can be made with political motivations or at the whim of a Minister. Plaid Cymru will be very eager to see a robust process put in place through these amendments.

Plaid Cymru's amendment, which is 30A, attempts to add to the description of the sixth goal, which talks about a Wales

'of vibrant culture and thriving Welsh language.'

The aim of our amendment is to ensure that it's a requirement that public bodies consider the situation of the Welsh language at all levels, and not only at the level of the body concerned. For example, planning decisions, by planning authorities or taken by the Welsh Government, have an impact on the Welsh language at a community level. Impacts on Welsh-speaking communities can, in turn, have nationally important impacts also. From the point of view of language, an increase in the number of Welsh speakers at a national level can actually disguise a fall in the number of Welsh-speaking communities, and so on. Essentially, the purpose of the amendment is to reflect the emphasis that there is on the community level in the Government's own Welsh language strategy. I therefore encourage you to support that amendment.

Although the wording of amendment 129 appears to be strengthening the integration principle, I have been given advice that suggests that, in legal terms, it will in reality dilute the duty on public bodies. On that basis, we will be voting against amendment 129. Also 30G: by inserting this clause, it does actually cut across the description that did say:

'A nation which maintains and enhances a biodiverse natural environment with healthy... ecosystems'

and it does change the meaning. Now, I don't think that that is deliberate, and I am supportive of the sentiment behind the amendment, but the meaning is changed. I have looked carefully at that and have taken both sides into account. The clear focus on maintaining biodiversity is lost, or certainly appears to be diluted, compared to the original wording.

This is an example, perhaps, of the need for another stage in the legislative process in this place, with such fundamental and far-reaching amendments being tabled by the Government at Stage 3, almost rewriting large parts of the Bill, and then amendments to the amendments being tabled by opposition parties. We need to be able to consider some of these further, but, regardless of that, there is a change of meaning here and therefore we won't be supporting these specific amendments.

Mick Antoniw [Bywgraffiad Biography](#)

Minister, can I particularly welcome the way in which you're proposing to amend and redraft the actual wellbeing goals? As you know, right from the beginning, my key concern on this legislation, and in discussions with your predecessor as well, has been that, as this ties together sustainability on an environmental, a social and an economic basis, there was always a necessity to have a focus on the issue of social justice within that. We've obviously had some sort of fraught tussles along the way in formulating these goals and getting them into the state that they are in now. I don't raise that as any criticism, because this is new, it's innovative legislation. It is legislation that is making a mark internationally, because there are other countries that are very interested in the approach that we have actually adopted. Of course, when you are actually setting the scene for new legislation of this type, legislation as innovative as this, then you have no precedent. There's nothing you can rely on in terms of practice that's gone on before. That's why I think, within this Assembly, we can actually take great pride in where we are. If we look at the actual goals now, the things that particularly please me with regard to the social justice element, which is a fundamental part of sustainability as well, are the issue of securing decent work and the creation of a well-educated workforce benefiting from the generation of wealth. Those must be fundamental, as is fulfilling potential equal opportunity and cohesive communities.

All those things, I think, collectively are major aspirations that we all have, and that we want this legislation to secure. Because one of the things it culturally hopes to change—and certainly how I see the importance of this legislation is that it's about partly creating a change in culture in our society, ethical employment, ethical business, so that the issues with regard to a living wage, zero hours, decent terms and conditions, the role of trade unions and so on, are all things that form a part of ethical employment and an end to unethical, I think, corporatism, which has grown so much. So, I very much welcome that, but I think that I can congratulate you on actually the work that you and your predecessor have done to get together what I think is actually going to be landmark international legislation and landmark goals that we will be seeing replicated across many other countries.

Weinidog, a gaf fi groesawu'n arbennig y ffordd yr ydych yn bwriadu diwygio ac aildrafftio'r nodau llesiant eu hunain? Fel y gwyddoch, o'r dechrau'n deg, fy mhryder allweddol ynghylch y ddeddfwriaeth hon, ac mewn trafodaethau â'ch rhagflaenydd yn ogystal, gan fod hyn yn clymu ynghyd gynaliadwyedd ar sail amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, oedd bod yn rhaid sicrhau pwyslais bob amser ar gyfiawnder cymdeithasol yn hynny o beth. Wrth gwrs cafwyd rhai sgarmesoedd dyrys ar hyd y ffordd wrth lunio'r nodau hyn a'u datblygu i'r cyflwr y maent ynddo yn awr. Nid wyf yn codi hynny fel beirniadaeth, oherwydd mae hyn yn newydd, mae'n ddeddfwriaeth arloesol. Mae'n ddeddfwriaeth sy'n gwneud argraff yn rhyngwladol, oherwydd mae gan wledydd eraill ddiddordeb mawr yn yr ymagwedd a fabwysiadwyd gennym. Wrth gwrs, pan fyddwch yn paratoui'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth newydd o'r math hwn, deddfwriaeth mor arloesol â hyn, nid oes gennych gynsail. Nid oes dim y gallwch ddibynnu arno o ran arferion blaenorol. Dyna pam yr wyf yn meddwl y gallwn, yn y Cynulliad hwn, fod yn falch iawn o ble'r ydym. Os edrychwn ar y nodau eu hunain yn awr, y pethau sy'n galonidid arbennig imi o ran yr elfen cyfiawnder cymdeithasol, sy'n rhan hanfodol o gynaliadwyedd hefyd, yw sicrhau gwaith addas a chreu gweithlu addysgedig sy'n elwa ar gynhyrchu cyfoeth. Rhaid i'r rheini fod yn sylfaenol, fel y mae cyflawni cyfle cyfartal o bosibl a chymunedau cydlynol.

Credaf fod yr holl bethau hynny, gyda'i gilydd, yn ddyheadau mawr sydd gan bob un ohonom, ac yr ydym am i'r ddeddfwriaeth hon eu sicrhau. Oherwydd un o'r pethau y mae'n gobeithio eu newid yn ddiwyllianol—ac yn sicr credaf fod y ddeddfwriaeth hon yn bwysig am ei bod yn ymwneud yn rhannol ag ysgogi newid diwylliant yn ein cymdeithas, cyflogaeth foesebol, busnes moesebol, fel bod materion o ran cyflog byw, dim oriau, telerau ac amodau addas, rôl yr undebau llafur ac ati, i gyd yn bethau sy'n rhan o gyflogaeth foesebol a rhoi terfyn, yn fy marn i, ar gorfforaetholdeb anfoesebol, sydd wedi tyfu i'r fath raddau. Felly, croesawaf hynny'n fawr iawn, ond credaf y gallaf eich llongyfarch, a dweud y gwir, ar y gwaith a wnaethoch chi a'ch rhagflaenydd i greu'r hyn y credaf sy'n mynd i fod yn ddeddfwriaeth ryngwladol nodedig â nodau nodedig y byddwn yn gweld yn cael eu dyblygu mewn llawer o wledydd eraill.

William Powell [Bywgraffiad Biography](#)

I speak to and move amendments 30G, 30B, 30C, 30D, 30E, 30F, 140 and 141. I've also taken the advice that Llyr Gruffydd referred to, and, in the context of that, decline to move amendment 129.

Resilience can only be realised if the range and quality of an area's landscapes, or indeed—to pick up the reference by Antoinette Sandbach—seascape characteristics, and the ecosystems that contribute to this character, are cared for in a harmonious and integrated manner, and at a scale and to a standard that enables their intrinsic qualities to remain self-sustaining.

Siaradaf am welliannau 30G, 30B, 30C, 30D, 30E, 30F, 140 a 141 ac fe'u cynigiau. Rwyf hefyd wedi cymryd y cyngor y cyfeiriodd Llyr Gruffydd ato, ac, yng nghyd-destun hynn, nid wyf am gynnig gwelliant 129.

Ni ellir sicrhau cydnherthedd heb ofalu am amrywiaeth ac ansawdd tirweddau ardal, neu yn wir—a mynd ar drywydd yr hyn y cyfeiriodd Antoinette Sandbach ato—nodweddion morweddau, a'r ecosystemau sy'n cyfrannu at y cymeriad hwnnw, mewn modd integredig a chytûn, ac ar raddfa ac yn unol â safon sy'n galluogi i'w nodweddion cynhenid barhau i fod yn hunangynhaliol.

The proposed amendments 30G, 30B and 30C in this group therefore reflect the view that a landscape's scale, quality and diversity, along with the need for change to take place within acceptable environmental limits, must all be recognised as integral to the term 'resilience' if the term 'wellbeing' is to be interpreted correctly.

Amendment 30D reflects the fact that the Welsh public has a strong connection with its own specific localities and a community sense of place in Wales, or even the wider world. This conveys a distinctive identity. I therefore maintain that valuing an area's 'distinctive sense of place' should be recognised as a fundamental component of wellbeing.

Amendment 30E acknowledges that valuing local identity and traditions are important dimensions of wellbeing, and this should therefore be appropriately reflected in the goals. I pay tribute to Llyr Gruffydd for the way in which he has consistently maintained this position also.

Amendment 30F deletes the mechanism for the Minister to change the wellbeing goals, meaning that Ministers in a future time will not have the power to change them at a whim. I welcome this very much. This is fitting, given that these goals are meant to direct the public sector in this country up to 2050 and beyond. I see this as an extremely important amendment. By leaving out subsections (2) to (5), changes to the wellbeing goals would only be able to happen via primary legislation. If the wellbeing goals are to be credible to be on the face of the Bill, then surely it follows that they shouldn't be able to be changed without such due and careful consideration. I urge Members to vote for amendment 30F.

Amendment 129: our original intention with this amendment was to ensure that public bodies had to look seriously at how they could actively achieve the wellbeing goals and not simply consider pros and cons, which we felt was implied by the phrase 'impact upon'. However, given the assurances from the Minister that he expects public bodies actively to seek to achieve the goals, and so as not to inadvertently weaken the wording, and in accordance with wider advice, as I said earlier, I decline to move amendment 129.

Amendments 140 and 141 are consequential amendments, as they refer to a section of the Bill that we are deleting in amendment 30F.

Mae gwelliannau 30G, 30B a 30C yn y grŵp hwn felly'n adlewyrchu'r farn bod yn rhaid i raddfa, ansawdd ac amrywiaeth tirwedd, ynghyd â'r angen i newid ddiwydd o fewn terfynau amgylcheddol derbyniol, i gyd gael eu cydnabod fel rhan annatod o'r term 'cydnerthedd' os ydym am ddehongli'r term 'llesiant' yn gywir.

Mae gwelliant 30D yn adlewyrchu'r ffaith bod gan y cyhoedd yng Nghymru gysylltiad cryf â'u hardaloedd penodol eu hunain ac ymdeimlad cymunedol o le yng Nghymru, neu hyd yn oed yn y byd ehangach. Mae hyn yn cyfleu hunaniaeth unigryw. Felly credaf y dylai gwerthfawrogi 'ymdeimlad arbennig o le' gael ei gydnabod fel elfen hanfodol o lesiant.

Mae gwelliant 30E yn cydnabod bod gwerthfawrogi hunaniaeth leol a thraddodiadau yn elfennau pwysig o lesiant, ac y dylid felly adlewyrchu hynny'n briodol yn y nodau. Talaf deyrnged i Llyr Gruffydd am y ffordd y mae'n gyson wedi cadw at y safbwynt hwn hefyd.

Mae gwelliant 30F yn dileu'r mecanwaith i'r Gweinidog newid y nodau llesiant, sy'n golygu na fydd gan Weinidogion yn y dyfodol rym i'w newid ar fympwy. Croesawaf hyn yn fawr iawn. Mae hyn yn briodol, o gofio mai'r bwriad yw y bydd y nodau hyn yn cyfarwyddo'r sector cyhoeddus yn y wlad hon hyd at 2050 a thu hwnt. Credaf fod hwn yn welliant eithriadol bwysig. Trwy hepgor isadrannau (2) i (5), dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellid newid y nodau llesiant. Er mwyn i'r nodau llesiant fod yn gredadwy ar wyneb y Bil, yna siawns nad yw'n dilyn na ddylid gallu eu newid heb ystyriaeth ddyledus a gofalus o'r fath. Anogaf yr Aelodau i bleidleisio o blaid gwelliant 30F.

Gwelliant 129: ein bwriad gwreiddiol gyda'r gwelliant hwn oedd sicrhau bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus edrych o ddifrif ar sut y gellid mynd ati i gyflawni'r nodau llesiant ac nid dim ond ystyried y manteision a'r anfantais, y teimlem oedd ymhyg yn yr ymadrodd 'effeithio ar'. Fodd bynnag, o ystyried y sicrwydd gan y Gweinidog ei fod yn disgwyl i gyrff cyhoeddus fynd ati'n rhagweithiol i geisio cyflawni'r nodau, ac er mwyn peidio â gwanhau'r geiriad yn anfwriadol, ac yn unol â'r cyngor ehangach, fel y dywedais yn gynharach, nid wyf am gynnig gwelliant 129.

Mae gwelliannau 140 a 141 yn welliannau canlyniadol, gan eu bod yn cyfeirio at adran o'r Bil yr ydym yn ei dileu yng ngwelliant 30F.

16:34

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, I very much hope that Mick Antoniw is right that other regions and countries will follow the example of Wales, because, certainly, if we do nothing on the rise and rise of emissions, we will all go to hell in a handcart. We don't have to do anything to bring about the Armageddon: all we have to do is nothing. So, absolutely, we can only really change things if we ensure that public bodies actually implement what's in this Bill, but we also have to engage with all the stakeholders across our country. Therefore, these wellbeing goals, which are written in plain language, ensure that everybody understands what it is we are aiming to do and ensures that they can be a part of that. So, I think that these are very clear definitions. They were presented at Stage 2 and, disappointingly, some members of the committee rejected them. So, I'm delighted to see them back here at Stage 3. We have to make sure that we are in a position to articulate clearly what it is we need to do if the future of Wales is going to be worth inheriting by future generations.

Wel, gobeithiaf yn fawr fod Mick Antoniw yn iawn y bydd rhanbarthau a gwledydd eraill yn dilyn esiampl Cymru, oherwydd, yn sicr, os na wnawn ddim ynglŷn â'r cynnydd ar ôl cynnydd mewn allyriadau, byddwn oll yn mynd ar ein pennau i uffern. Nid oes raid i ni wneud dim i achosi'r Armageddon: y cyfan y mae'n rhaid i ni ei wneud yw gwneud dim. Felly, yn hollol, yr unig ffordd y gallwn newid pethau mewn gwirionedd yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi'r hyn sydd yn y Bil hwn ar waith, ond mae'n rhaid i ni hefyd ymgysylltu â phob rhanddeiliad ar hyd a lled ein gwlad. Felly mae'r nodau llesiant hyn, sydd wedi eu hysgrifennu mewn iaith glir, yn sicrhau bod pawb yn deall yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud ac yn sicrhau y gallant fod yn rhan o hynny. Felly, credaf fod y rhain yn ddiffiniadau clir iawn. Cawsant eu cyflwyno yng Nghyfnod 2 ac, yn anffodus, gwrthododd rhai o aelodau'r Pwyllgor hwy. Felly, rwyf yn falch iawn o'u gweld yn ôl yma yng Nghyfnod 3. Rhaid inni wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa i fynegi'n glir yr hyn y mae angen inni ei wneud er mwyn i ddyfodol Cymru fod yn werth ei etifeddu gan genedlaethau'r dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:36

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And the Minister to reply.

A'r Gweinidog i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:36

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. Again, Members' contributions have been very welcome. The process of this Bill has been an interesting one; going through the scrutiny procedures, and the amendments around the goals have probably been one of the trickiest elements of that. What we've tried to do here is balance the views of all Members in terms of how we redefine what the goals' definitions mean. Again, I recognise the points that Mick Antoniw raised about how we've put the Welsh stamp on this, but it's a Welsh stamp in a global context, because there are other countries looking in at us about how and what we've done here. I'm grateful for the contribution of Members in the development of those goals.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Unwaith eto, rwyf yn croesawu cyfraniadau'r Aelodau'n fawr iawn. Bu proses y Bil hwn yn un diddorol; mae'n debyg mai mynd drwy'r gweithdrefnau craffu, a'r gwelliannau ynghylch y nodau oedd un o'r elfennau anoddaf yn hynny o beth. Yr hyn yr ydym wedi ceisio ei wneud yma yw sicrhau cydbwysedd rhwng barn yr holl Aelodau o ran y ffordd yr ydym yn ailddiffinio'r hyn y mae diffiniadau'r nodau'n ei olygu. Unwaith eto, rwyf yn cydnabod y pwyntiau a godwyd gan Mick Antoniw ynghylch y ffaith ein bod wedi rhoi stamp Cymreig ar hyn, ond mae'n stamp Cymreig mewn cyddestun byd-eang, oherwydd mae gwledydd eraill yn edrych arnom ynglŷn â sut a beth yr ydym wedi ei wneud yma. Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad yr Aelodau wrth ddatblygu'r nodau hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Can I also say the development of the goals has been welcomed by the third sector and, by no means least, the third sector has heavily influenced the way the goals have been written, too? Therefore, it is about bringing together similar minds in terms of how we develop quality legislation.

Hoffwn ddweud hefyd fod datblygu'r nodau wedi ei groesawu gan y trydydd sector ac, i raddau helaeth iawn, mae'r trydydd sector wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'r nodau wedi'u hysgrifennu, hefyd. Felly, mae'n fater o ddod â meddyliau tebyg at ei gilydd o ran y ffordd yr ydym yn datblygu deddfwriaeth o safon.

As regards the amendments, as I mentioned, I will be supporting William Powell's amendment 30F, which amends my amendment 30 and removes completely the power to amend the goals by regulation. We believe this is only right and appropriate and therefore we're supporting that principle.

O ran y gwelliannau, fel y soniais, byddaf yn cefnogi gwelliant 30F William Powell, sy'n diwygio fy ngwelliant 30 ninnau ac yn cael gwared yn llwyr ar y grym i ddiwygio'r nodau drwy reoliadau. Credwn fod hyn yn iawn ac yn briodol ac felly rydym yn cefnogi'r egwyddor honno.

Again, I recognise the principle of Members' thoughts about amendments to the goals, but, on balance, we believe that we've constructed this right and we are seeking to move the amendments in my name and the ones I mentioned earlier in supporting the opposition Members—30F, 140 and 141.

Unwaith eto, rwyf yn cydnabod egwyddor safbwyntiau'r Aelodau am y gwelliannau i'r nodau, ond, ar y cyfan, credwn ein bod wedi saernio hyn yn iawn ac rydym yn cynnig y gwelliannau yn fy enw i a'r rhai a grybwyllais yn gynharach i gefnogi Aelodau'r gwrthbleidiau — 30F, 140 a 141.

16:38	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Before disposing of amendment 30, we will deal with the amendments to that amendment. William Powell, do you wish to move amendment 30G?</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 30G (William Powell).</i></p>	<p>Cyn ymdrin â gwelliant 30, rydym am ymdrin â'r gwelliannau i'r gwelliant hwnnw. William Powell, a ydych am gynnig gwelliant 30G?</p> <p><i>Amendment 30G (William Powell) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>I formally move, yes.</p>	<p>Ydw, cynigiau yn ffurfiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 30G be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 39. Therefore, amendment 30G is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 30G: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 30G.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30G. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30G wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 30G not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 30G.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>William Powell, amendment 30B.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 30B (William Powell).</i></p>	<p>William Powell, gwelliant 30B.</p> <p><i>Amendment 30B (William Powell) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>Move.</p>	<p>Cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:38	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 30B be agreed to. Does any Member object? [Objection.] An electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 39. Therefore, amendment 30B is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 30B: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 30B.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30B. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Pleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30B wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 30B not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 30B.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:39	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>William Powell, amendment 30C.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 30C (William Powell).</i></p>	<p>William Powell, gwelliant 30C.</p> <p><i>Amendment 30C (William Powell) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:39	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>Move.</p>	<p>Cynnig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

16:39	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 30C be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 17. There voted against 39. Therefore, amendment 30C is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 30C: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 30C.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30C. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 17 o blaid. Pleidleisiodd 39 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30C wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 30C not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 30C.</p>
16:39	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>William Powell, amendment 30D.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 30D (William Powell).</i></p>	<p>William Powell, gwelliant 30D.</p> <p><i>Amendment 30D (William Powell) moved.</i></p>
16:39	William Powell Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Move.</p>	<p>Cynnig.</p>
16:39	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 30D be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. In accordance with the relevant Standing Order, I cast my vote against the amendment, which consequently falls. Amendment 30D is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 30D: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 30D.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30D. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol, rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn y gwelliant, sy'n methu o'r herwydd. Nid yw gwelliant 30D wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 30D not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 30D.</p>
16:40	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Llyr Gruffydd, amendment 30A.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 30A (Llyr Gruffydd).</i></p>	<p>Llyr Gruffydd, gwelliant 30A.</p> <p><i>Amendment 30A (Llyr Gruffydd) moved.</i></p>
16:40	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Cynnig.</p>	<p>Move.</p>
16:40	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>The question is that amendment 30A be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 16. There voted against 40. Therefore, amendment 30A is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 30A: O blaid 16, Yn erbyn 40, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 16 o blaid. Pleidleisiodd 40 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 30A wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 30A not agreed: For 16, Against 40, Abstain 0.</i></p>

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 30A.](#)

[Result of the vote on amendment 30A.](#)

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
William Powell, amendment 30E. William Powell, gwelliant 30E.

Cynigiwyd gwelliant 30E (William Powell).

Amendment 30E (William Powell) moved.

16:41 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 30E be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 30E, which consequently falls. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30E. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 30E, sy'n methu o'r herwydd.

Gwrthodwyd gwelliant 30E: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 30E not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 30E.](#)

[Result of the vote on amendment 30E.](#)

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
William Powell, amendment 30F. William Powell, gwelliant 30F.

Cynigiwyd gwelliant 30F (William Powell).

Amendment 30F (William Powell) moved.

16:41 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 30F be agreed to. Does any Member object? Then amendment 30F is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30F. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 30F wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 30F yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 30F agreed in accordance with Standing Order 12.36.

16:41 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 30, as amended, be agreed to. Does any Member object? Then amendment 30 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 30, fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 30 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 30, fel y'i diwygiwyd, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 30, as amended, agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 4: Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Gwelliannau 31, 31D, 31A, 31B, 31C, 9, 46, 10 a 50)

Group 4: Sustainable Development Principle (Amendments 31, 31D, 31A, 31B, 31C, 9, 46, 10 and 50)

16:41

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The next group of amendments relate to the sustainable development principle. The lead amendment in this group is amendment 31. I call on the Minister to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud ag egwyddor datblygu cynaliadwy. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 31. Galwaf ar y Gweinidog i gynnis y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

Cynigiwyd gwelliant 31 (Carl Sargeant).

Amendment 31 (Carl Sargeant) moved.

16:42

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I formally move the Government amendments in this group. I understand that William Powell is intending not to move amendment 31D regarding the integrated approach to the sustainable development principle. Following conversations with Bill, I want to make it clear to Members that we expect all public bodies to actively seek to achieve all the wellbeing goals listed in the Bill. I will ensure that the supporting guidance makes this very clear.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Cynigaf yn ffurfiol welliannau'r Llywodraeth yn y grŵp hwn. Deallaf fod William Powell yn bwriadu peidio â chynnig gwelliant 31D ynglŷn â'r ymagwedd integredig tuag at yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn dilyn sgysiau â Bill, rwyf am ei gwneud yn glir i'r Aelodau y disgwyliwn i bob corff cyhoeddus fynd ati i gyflawni'r holl nodau llesiant a restrir yn y Bil. Byddaf yn sicrhau bod y canllawiau ategol yn gwneud hyn yn glir iawn.

Amendment 31 in my name provides for a new revised section setting out the sustainable development principle. This is a critical part of the definition of sustainable development as agreed by Members earlier. It sets out the revised provisions about what is meant by doing things in accordance with the sustainable development principle long term—integration, collaboration, involvement and prevention. Amendment 9 is a consequential amendment to remove the current section of the sustainable development principle. To ensure clarity and consistency between the application of the principle by public bodies and public service boards, amendment 46 removes section 37, which sets out the sustainable development principle as it applies to local wellbeing plans.

Mae gwelliant 31 yn fy enw i yn darparu ar gyfer adran ddiwygiedig newydd yn nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn rhan hanfodol o ddiffiniad datblygu cynaliadwy fel y cytunodd yr Aelodau arno'n gynharach. Mae'n nodi'r darpariaethau diwygiedig ynghylch yr hyn a olygir wrth wneud pethau'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y tymor hir—integreiddio, cydweithredu, cyfranogi ac atal. Mae gwelliant 9 yn welliant canlyniadol i ddileu'r adran bresennol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb yn y ffordd y mae cyrff cyhoeddus a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cymhwyso'r egwyddor, mae gwelliant 46 yn dileu adran 37, sy'n nodi'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y mae'n berthnasol i gynlluniau llesiant lleol.

Non-Government amendment 31A in the name of Llyr Gruffydd—I do not consider that this amendment is necessary as the new wellbeing duty and definition make it clear that public bodies are to contribute to each of the wellbeing goals. With regard to amendment 31B, also in the name of Llyr Gruffydd, public bodies cannot make decisions without evidence. This is a well-established public law principle. I formally move the Government amendment.

Gwelliant anlywodraethol 31A yn enw Llyr Gruffydd—nid wyf o'r farn bod y gwelliant hwn yn angenrheidiol gan fod y dyletswyddau llesiant newydd a'r diffiniad yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i gyrff cyhoeddus gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant. O ran gwelliant 31B, hefyd yn enw Llyr Gruffydd, ni all cyrff cyhoeddus wneud penderfyniadau heb dystiolaeth. Mae hon yn egwyddor sefydledig o dan y gyfraith gyhoeddus. Cynigaf yn ffurfiol welliant y Llywodraeth.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, it may be a well-established public law principle, but it's one that we don't see applied in practice very often, unfortunately, and therefore the Welsh Conservatives will be supporting Plaid's amendments. I think it's quite regrettable that Government aren't supporting the amendments laid down by Plaid Cymru, because there are problems around where the wellbeing goals work against each other, potentially, or where there are conflicts. I think that that is one part of this Bill that hasn't properly been addressed by the Government, and it is something that has been raised in many of the scrutiny sessions. It's potentially a flaw in the Bill. This is an improvement. Section 31 is definitely an improvement on what was there before, but there are still doubts about how the Bill is going to impact in practice, and whether or not the public law principles are going to lead to substantial challenges, both for the public service boards and for those who need to implement those decisions. So, we will be supporting section 31 and the amendments tabled to it. But we sound that note of caution about the Bill, going forward, and we still have concerns about the Bill. It's an improvement and we accept that, Minister; we welcome it. But I would urge you and the Government to consider supporting the amendments that have been tabled to section 31.

Wel, efallai ei bod yn egwyddor sefydledig o dan y gyfraith gyhoeddus, ond mae'n un na welwn yn cael ei defnyddio'n aml iawn yn ymarferol, yn anffodus, ac felly bydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi gwelliannau Plaid. Credaf ei bod yn resyn nad yw'r Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Blaid Cymru, oherwydd mae problemau ynghylch ble y mae'r nodau llesiant yn gweithio yn erbyn ei gilydd, o bosibl, neu lle ceir gwrthdaro. Credaf fod hon yn un rhan o'r Bil hwn nad yw wedi cael sylw priodol gan y Llywodraeth, ac mae'n rhywbeth sydd wedi'i godi mewn llawer o sesiynau craffu. Mae'n wendid posibl yn y Bil. Mae hyn yn welliant. Mae adran 31 yn sicr yn well na'r hyn a oedd yno cynt, ond mae amheuan o hyd am y modd y bydd y Bil yn cael effaith yn ymarferol, a p'un a yw egwyddorion y gyfraith gyhoeddus yn mynd i arwain at heriau sylweddol ai peidio, i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac i'r rhai a fydd yn gorfod gweithredu'r penderfyniadau hynny. Felly, byddwn yn cefnogi adran 31 a'r gwelliannau a gyflwynwyd iddi. Ond rydym am erfyn am bwyll ynglŷn â'r Bil, wrth symud ymlaen, ac mae gennym bryderon am y Bil o hyd. Mae'n welliant ac rydym yn derbyn hynny, Weinidog; rydym yn ei groesawu. Ond byddwn yn eich annog chi a'r Llywodraeth i ystyried cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd i adran 31.

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae cymryd 'approach' integredig yn egwyddor allweddol i ddatblygu cynaliadwy, fel sy'n cael ei gydnabod, wrth gwrs, yn isadran (2), gwelliant 31 gan y Llywodraeth ei hunan, sy'n cyflwyno adran ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Serch hynny, dim ond mewn perthynas â'r 'impacts' ar yr amcanion llesiant y cyfeirir yn benodol at integreiddio yn yr achos yna, ac nid mewn perthynas â'r nodau llesiant eu hunain. Mae ein gwelliant ni, felly—gwelliant 31A—yn cryfhau'r egwyddor o integreiddio drwy sicrhau delio â'r nodau gan ddefnyddio'r un geiriad ag y mae'r Llywodraeth yn ei gynnig ei hunan ar gyfer yr amcanion.

Taking an integrated approach is a key principle of sustainable development, as recognised, of course, in subsection (2) of amendment 31 by the Government itself, which introduces a section on the principle of sustainable development. However, in that case, specific reference to integration is only made in relation to the impacts on the wellbeing objectives, and not in relation to the wellbeing goals themselves. Therefore, our amendment—amendment 31A—strengthens the principle of integration by ensuring that the goals are dealt with using the same wording as the Government is proposing for the objectives.

O safbwynt gwelliannau 31B a 31C yn enw Plaid Cymru, mae 31B yn ychwanegu cyfeiriad at ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael yn yr adran ddiwygiedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r egwyddor yma, wrth gwrs, sef y 'sound science principle', yn egwyddor allweddol o ddatblygu cynaliadwy. Byddai'n sicrhau bod y dystiolaeth orau bosib yn cael ei chymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau. Yn anffodus, fel sydd wedi cael ei awgrymu, mae yna gwestiwn ynghylch a yw hynny'n digwydd bob tro, fel ag y mae hi ar hyn o bryd. Mae 31C, wedyn, yn welliant amgen sy'n cyfeirio at yr angen i ystyried y dystiolaeth a'r cyngor a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn yr adran ar adroddiadau tueddiadau tebygol y dyfodol wrth wneud penderfyniadau. Unwaith eto, y bwriad yn y fan hyn yw sicrhau bod penderfyniadau wedi'u seilio ar y dystiolaeth orau bosib. Fel Cynulliad, nid wyf yn meddwl y dylem fod yn derbyn unrhyw beth yn llai na hynny.

With regard to amendments 31B and 31C in the name of Plaid Cymru, 31B adds reference to using the best available evidence in the revised section on the sustainable development principle. This principle, of course, namely the sound science principle, is a key principle of sustainable development. It would ensure that the best possible evidence was taken into account when making decisions. Unfortunately, as has been suggested, there is a question as to whether that happens every time, as things currently stand. Amendment 31C, then, is an alternative amendment that refers to the need to consider the evidence and the advice issued by Welsh Ministers in the section on likely future trends reports when making decisions. Once again, the intention here is to ensure that decisions are based on the best evidence possible. As an Assembly, I do not think that we should accept anything less than that.

16:47	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>As the Minister anticipated, I shall not be moving amendment 31D today, applying the same logic that caused me not to move amendment 129. I'm also grateful for him putting on the record the commitments that he has made, which will be of reassurance to Members across this Chamber. However, I endorse the comments made by Antoinette Sandbach in terms of my own disappointment that the Government isn't putting its weight behind supporting amendment 31A in the name of Llyr Gruffydd, as this is in line with amendments that we tabled at Stage 2, which sought expressly to avoid there being an unhelpful and unnecessary hierarchy within the goals. This adds to what we sought to achieve with amendment 31D, so there's another reason that I no longer feel the need to support that amendment. Amendments 31B and 31C from Llyr Gruffydd, in the name of the Plaid Cymru group, also enjoy our support.</p>	<p>Fel y rhagwelodd y Gweinidog, ni fyddaf yn cynnig gwelliant 31D heddiw, ar sail yr un rhesymeg a achosodd imi beidio â chynnig gwelliant 129. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iddo am roi ar gofnod yr ymrwymadau y mae wedi'u gwneud, a fydd yn tawelu meddyliau Aelodau ar draws y Siambr hon. Fodd bynnag, ategaf y sylwadau a wnaed gan Antoinette Sandbach o ran fy siom innau nad yw'r Llywodraeth wedi rhoi ei phwysau y tu ôl i gefnogi gwelliant 31A yn enw Llyr Gruffydd, gan fod hyn yn unol â gwelliannau a gyflwynwyd gennym yng Nghyfnod 2, a oedd yn benodol yn ceisio osgoi hierarchaeth ddi-fudd a diangen yn y nodau. Mae hyn yn ychwanegu at yr hyn yr oeddem yn ceisio ei gyflawni â gwelliant 31D, felly mae rheswm arall pam nad wyf yn teimlo bod angen cefnogi'r gwelliant hwnnw mwyach. Rydym hefyd yn cefnogi gwelliannau 31B a 31C gan Llyr Gruffydd, yn enw grŵp Plaid Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:48	Carl Sargeant Bywgraffiad Biography	<p>I've listened carefully to the Members' contributions. We do believe that we've moved significantly to redefine this section. I would probably have to agree to disagree with Antoinette Sandbach on this particular issue. I do believe organisations are keen to ensure that they use best evidence. I did take significant legal advice on the issue regarding the definition of how we would demonstrate best available evidence. We do believe that this is already in public law. I formally move.</p>	<p>Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar gyfraniadau'r Aelodau. Rydym o'r farn ein bod wedi gwneud cryn dipyn i ailddiffinio'r adran hon. Mae'n debyg y byddai'n rhaid imi gytuno i anghytuno ag Antoinette Sandbach ar y mater penodol hwn. Credaf fod sefydliadau'n awyddus i sicrhau eu bod yn defnyddio'r dystiolaeth orau. Cymerais gryn dipyn o gyngor cyfreithiol ar ddiffinio'r ffordd y byddem yn dangos y dystiolaeth orau sydd ar gael. Credwn fod hyn eisoes yn rhan o'r gyfraith gyhoeddus. Cynigiai yn ffurfiol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:48	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>Before disposing of amendment 31, we will deal with the amendments to that amendment. William Powell, do you wish to move amendment 31 D?</p>	<p>Cyn ymdrin â gwelliant 31, rydym am ymdrin â'r gwelliannau i'r gwelliant hwnnw. William Powell, a ydych yn dymuno cynnig gwelliant 31D?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:49	William Powell Bywgraffiad Biography	<p>No, I wish to decline.</p>	<p>Nac ydw, nid wyf am wneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Ni chynigiwyd gwelliant 31D (William Powell).</i></p>	<p><i>Amendment 31D not moved.</i></p>		
16:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The amendment has not been moved. Llyr Gruffydd, amendment 31A.</p>	<p>Nid yw'r gwelliant wedi'i gynnig. Llyr Gruffydd, gwelliant 31A.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<p><i>Cynigiwyd gwelliant 31A (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth William Powell).</i></p>	<p><i>Amendment 31A (Llyr Gruffydd, supported by William Powell) moved.</i></p>		
16:49	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography	<p>Cynnig.</p>	<p>Move.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
16:49	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	<p>The question is that amendment 31A be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 31A, which consequently falls.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 31A. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 31A, sy'n methu o'r herwydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Gwrthodwyd gwelliant 31A: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 31A not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 31A](#)

[Result of the vote on amendment 31A](#)

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Llyr Gruffydd, amendment 31B. Llyr Gruffydd, gwelliant 31B.

Cynigiwyd gwelliant 31B (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth William Powell).

Amendment 31B (Llyr Gruffydd, supported by William Powell) moved.

16:49 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynnig. Move.

16:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If amendment 31B is agreed to, amendment 31C falls. The question is that amendment 31B be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 31B, which consequently falls. Os derbynir gwelliant 31B, bydd gwelliant 31C yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 31B. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 31B, sy'n methu o'r herwydd.

Gwrthodwyd gwelliant 31B: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 31B not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 31B](#)

[Result of the vote on amendment 31B](#)

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Llyr Gruffydd, amendment 31C. Llyr Gruffydd, gwelliant 31C.

Cynigiwyd gwelliant 31C (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth William Powell).

Amendment 31C (Llyr Gruffydd, supported by William Powell) moved.

16:50 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynnig. Move.

16:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 31C be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 31C, which consequently falls. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 31C. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 31C, sy'n methu o'r herwydd.

Gwrthodwyd gwelliant 31C: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 31C not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 31C](#)

[Result of the vote on amendment 31C](#)

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 31 be agreed. Does any Member object? Then amendment 31 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 31. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 31 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 31 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 31 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 5: Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus—Sefydlu, Cyfranogiad, Craffu a Swyddogaethau (Gwelliannau 73, 87, 88, 39, 40, 89, 90, 91, 41, 92, 54, 55, 93, 42, 94, 95, 96, 97, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 139, 110, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 72 a 71)

Group 5: Public Services Boards—Establishment, Participation, Scrutiny & Functions (Amendments 73, 87, 88, 39, 40, 89, 90, 91, 41, 92, 54, 55, 93, 42, 94, 95, 96, 97, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 105, 106, 107, 108, 109, 139, 110, 112, 113, 114, 115, 116, 117, 118, 119, 120, 121, 122, 72 and 71)

16:51

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next group of amendments relates to the establishment, participation, scrutiny and functions of public service boards. The lead amendment in this group is amendment 73. I call on Antoinette Sandbach to move, and speak to, the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â sefydlu, cyfranogiad, craffu a swyddogaethau byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 73. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynneg y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

Cynigiwyd gwelliant 73 (Antoinette Sandbach).

Amendment 73 (Antoinette Sandbach) moved.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This is a series of amendments, effectively striking out section 4 of the Bill. There's a reason why these amendments have been tabled. Section 4 will effectively establish statutory public services boards that will apply across the whole of Wales. In the first instance, the environment committee accepted that it had serious reservations around the establishment of PSBs as a means of delivering the intended outcomes of the Bill. Stakeholders also raised concerns around the membership of the boards, commenting that the prescription of such a high-level membership will result in smaller organisations such as community groups or the voluntary sector being precluded from participation. I accept that there are some amendments tabled in that regard, but local people should be empowered to contribute to addressing the wellbeing needs of their own communities, and I think it's very important that local communities have the option to decide how they wish to implement this Bill. It takes power away from local communities. We do have local service boards, and it may well be that local communities decide that they want local service boards to assist them in implementing the provisions of this Bill. But it will add an extra layer of bureaucracy, it will take decision making further away from people at a local community level, and there is a concern about how that will impact on democracy and accountability, and we don't accept that the scrutiny committees of local authorities are the appropriate accountability forum for PSPs.

There is a second reason why we've tabled these amendments—and there are a number of them, but I don't know whether they could be dealt with in a bloc, or whether we have to vote on them individually. We don't believe, also, that public services boards should be created until local government restructuring has taken place. It is clear that local government restructuring will substantially change the format of the PSBs, and I think they will lose a lot of credibility if they set up and then, within a very short time, are directed to merge or make other changes.

Cyfres o welliannau sydd yma, sydd i bob pwrpas yn dileu adran 4 o'r Bil. Mae rheswm pam y cyflwynwyd y gwelliannau hyn. Bydd adran 4 i bob pwrpas yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus statudol a fydd yn gymwys ledled Cymru. Yn y lle cyntaf, derbyniodd pwyllgor yr amgylchedd fod ganddo amheuan difrifol ynghylch sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cyflawni canlyniadau bwriedig y Bil. Cododd rhanddeiliaid bryderon hefyd ynghylch aelodaeth y byrddau, gan ddweud y bydd rhagnodi aelodaeth ar lefel mor uchel yn atal sefydliadau llai megis grwpiau cymunedol neu'r sector gwirfoddol rhag cymryd rhan. Rwyf yn derbyn bod rhai gwelliannau wedi'u cyflwyno ynglŷn â hynny, ond dylai pobl leol gael eu grymuso i gyfrannu at ymdrin ag anghenion llesiant eu cymunedau eu hunain, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn fod cymunedau lleol yn cael dewis penderfynu sut y dymunant weithredu'r Bil hwn. Mae'n mynd â grym oddi wrth gymunedau lleol. Mae gennym fyrddau gwasanaethau lleol, ac mae'n bosibl iawn y bydd cymunedau lleol yn penderfynu eu bod am i'r byrddau gwasanaethau lleol eu cynorthwyo i weithredu darpariaethau'r Bil hwn. Ond bydd yn ychwanegu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth, bydd yn mynd â phenderfyniadau ymhellach oddi wrth bobl ar lefel y gymuned leol, ac mae pryder ynghylch y ffordd y bydd hynny'n effeithio ar ddemocratiaeth ac atebolrwydd, ac nid ydym yn derbyn mai pwyllgorau craffu awdurdodau lleol yw'r fforwm atebolrwydd priodol ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Mae ail reswm pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn—ac mae nifer ohonynt, ond nid wyf yn gwybod p'un a ellid ymdrin â hwy gyda'i gilydd, neu a fydd yn rhaid inni bleidleisio arnynt fesul un. Nid ydym yn credu, chwaith, y dylid creu byrddau gwasanaethau cyhoeddus hyd nes y bydd llywodraeth leol wedi'i ailstrwythuro. Mae'n amlwg y bydd ailstrwythuro llywodraeth leol yn newid ffurf y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn sylweddol, a chredaf y byddant yn colli llawer o hygredd os byddant yn ymsefydlu ac yna, o fewn cyfnod byr iawn, yn cael cyfarwyddyd i uno neu i wneud newidiadau eraill.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I'm grateful. She's making a very good point, that there's reorganisation of local services that needs to be taken into account in this Bill as well, but would she also accept that the local service boards, which we've had for a great period of time now, have been significantly ineffective at delivering change on the ground? My concern is that these will be similarly ineffective in delivering the change that this Bill deserves.

Rwyf yn ddiolchgar. Mae'n gwneud pwynt da iawn, sef bod angen rhoi ystyriaeth i ad-drefnu gwasanaethau lleol yn y Bil hwn yn ogystal, ond a fyddai hefyd yn derbyn bod y byrddau gwasanaethau lleol, sydd wedi bod gyda ni ers peth amser bellach, wedi bod yn sylweddol aneffeithiol o ran sicrhau newid ar lawr gwlad? Fy mhryder yw y bydd y rhain hefyd yn aneffeithiol yn yr un modd o ran sicrhau'r newid y mae'r Bil hwn yn ei haeddu.

16:54

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we've tabled the amendments because we do believe that they will be singularly ineffective and that they are undemocratic and unaccountable. It's a great concern that, effectively, a lot of public funding is going to be taken out of front-line services to fund another layer of bureaucracy and Welsh Government appointees at another level. So, we do agree with that, and that's why we have tabled these amendments, and we think it takes that empowerment, that involvement, and that decision making away from local communities, which should decide best how they want to implement the provisions of the Bill. So, we would seek your support for these amendments.

Wel, rydym wedi cyflwyno'r gwelliannau oherwydd credwn y byddant yn hynod aneffeithiol a'u bod yn annemocrataidd ac yn anatebol. Mae'n destun pryder mawr fod llawer o arian cyhoeddus, i bob pwrpas, yn mynd i gael ei gymryd oddi wrth y gwasanaethau rheng flaen i ariannu haen arall o fiwrocraetiaeth a phenodiadau Llywodraeth Cymru ar lefel arall. Felly, rydym yn cytuno â hynny, a dyna pam yr ydym wedi cyflwyno'r gwelliannau hyn, a chredwn fod hyn yn mynd â'r grymuso hwnnw, y cyfranogi hwnnw, a'r gallu hwnnw i wneud penderfyniadau oddi wrth gymunedau lleol, a ddylai benderfynu orau sut yr hoffent weithredu darpariaethau'r Bil. Felly, ceisiwn eich cefnogaeth i'r gwelliannau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:55

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Plaid Cymru wedi bod yn gyson o'r cychwyn cyntaf: yn gefnogol o'r bwriad polisi y tu ôl i'r Bil yma, ond mae'r modd y mae'r Llywodraeth wedi ei ddewis i roi'r polisi ar waith, serch hynny, efallai yn fater arall. Ar bob cam o'r daith drwy'r Cynulliad, rwyf wedi mynegi gofid bod y Llywodraeth yn creu byrdwn biwrocraidd gormodol ar y sector gyhoeddus, sydd eisoes o dan warchae o sawl cyfeiriad. Wrth greu 22 bwrdd gwasanaethau cyhoeddus lleol, sy'n cynnal 22 asesiad llesiant, a chreu 22 cynllun llesiant, a 22 adroddiad blynyddol llesiant, mae yna berygl bod y Llywodraeth yn creu strwythur newydd ychwanegol yn gyfochrog â'r strwythurau sydd eisoes yn bodoli er mwyn cyflawni'r nod polisi yn hytrach na phrif lifo hynny i mewn i systemau presennol a thrwy hynny lleihau, o bosibl, y baich biwrocraidd.

Plaid Cymru has been consistent from the outset: supportive of the policy intention behind this Bill, but the way in which the Government has chosen to implement the policy, however, may be another matter. At every step of the way through the Assembly, I have expressed concern that the Government is creating an excessive bureaucratic burden on the public sector, which is already under siege from a number of directions. In creating 22 local public services boards, holding 22 wellbeing assessments and creating 22 wellbeing plans and 22 annual reports on wellbeing, there is a risk that the Government is creating a new structure in parallel to the existing structures in order to achieve the policy objective, rather than mainstreaming that within existing systems, thereby possibly reducing the bureaucratic burden.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mi fyddwn ni, felly, yn cefnogi'r gwelliannau hynny sydd am wneud i ffwrdd â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, oni bai lle byddan nhw yn arwain at rai gwelliannau Plaid Cymru yn cwmpo. Os yw'r byrddau i ddod i fodolaeth, yn amlwg, mi fyddwn ni'n cefnogi'r gwelliannau a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau aelodaeth a chyfrifoldebau addas ar eu cyfer nhw.

We will, therefore, support the amendments that want to do away with the public services boards, unless they would lead to some of the Plaid Cymru amendments falling. If the boards are to come into existence, clearly we will support the amendments that will, in our view, ensure that the membership and responsibilities are appropriate for them.

16:56

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I speak to amendment 139. By making the Office of National Statistics one of the bodies to be consulted, we can ensure that appropriate indicators and milestones are properly developed. It also means that the indicators can be compared to previous indicators, and indeed improvements can be properly tracked and measured. This is important also for setting future objectives.

Siaradaf am welliant 139. Drwy nodi bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn un o'r cyrff yr ymgynghorir â hwy, gallwn sicrhau bod dangosyddion a cherrig milltir priodol yn cael eu datblygu'n briodol. Mae hefyd yn golygu y gellir cymharu'r dangosyddion â dangosyddion blaenorol, ac yn wir y gellir olrhain a mesur gwelliannau'n briodol. Mae hyn yn bwysig hefyd ar gyfer pennu amcanion yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We will not be supporting the majority of amendments tabled in the name of Antoinette Sandbach in this group, and believe that the role of the public service bodies, which need, certainly, to operate in a more functional way than the local service boards have done—and Simon Thomas is right in that regard—they are central to the effective running of this new legislation. We will be supporting, however, Antoinette Sandbach's amendment 106. This seeks to delete the section on merging public service boards, and I do not believe that this would, in practice, ever be necessary. That is the reason for us adopting that approach.

Ni fyddwn yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a gyflwynwyd yn enw Antoinette Sandbach yn y grŵp hwn, a chredwn fod rôl y cyrff gwasanaethau cyhoeddus, y mae angen iddynt, yn sicr, weithredu mewn ffordd fwy ymarferol nag y mae'r byrddau gwasanaethau lleol wedi'i wneud—ac mae Simon Thomas yn iawn yn hynny o beth—eu bod yn rhan ganolog o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd hon yn effeithiol. Byddwn, fodd bynnag, yn cefnogi gwelliant 106 Antoinette Sandbach. Mae hwn yn ceisio dileu'r adran ar uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ac nid wyf yn credu y byddai hyn byth yn angenrheidiol yn ymarferol. Dyna'r rheswm pam inni wneud hynny.

The subsequent section on collaboration between public service boards should be sufficient for covering eventualities when public service boards have to work together on shared objectives in order to safeguard the future of the future generations of this country.

Dylai'r adran nesaf ar gydweithredu rhwng byrddau gwasanaethau cyhoeddus fod yn ddigonol i ymdrin â'r adegau hynny pan fo'n rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gydweithio ar amcanion a rennir er mwyn diogelu dyfodol cenedlaethau'r dyfodol yn y wlad hon.

16:58

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf innau'n siarad o blaid gwelliannau Antoinette Sandbach a hefyd yn cefnogi'r sylwadau y mae Llyr Gruffydd wedi'u gwneud, achos, hyd y gallaf i ei weld, mae'r byrddau gwasanaeth lleol yma yn mynd i greu elfen fiwrocraidd gwbl ddiangen, rwy'n credu, yn y Bil yma. Mae hyn yn digwydd, wrth gwrs, ar adeg pan fo'r sector gyhoeddus yn cael ei chrebachu a'i gwario—nid yn unig yr awdurdodau lleol, ond hefyd cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid ichi ofyn y cwestiwn: pwy fydd ar ôl i ysgrifennu'r adroddiadau yma yn y pen draw, heblaw'r cwestiwn sylfaenol, i beth?

Ni allaf ragweld sut y bydd yr adroddiadau blynyddol hyn yn gyrru'r newidiadau sylfaenol rydym ni wedi clywed amdany'n nhw yn cael eu rhestru yma prynhawn yma yn y ffyrdd o greu penderfyniadau cynaliadwy allweddol. Mae'n rhaid imi gyfaddef efallai fod fy mhrofiadau i dros y 15 mlynedd diwethaf yma, fel cyn-aelod o fwrdd gwasanaeth lleol a'i aelodaeth anwadal ac anghyson, wedi dylanwadu arnaf. Fe wastraffwyd egni di-ben-draw yn y byrddau hynny, efo fawr ddim canlyniadau i ddangos eu bod nhw wedi digwydd.

Ond, wrth gwrs, mi allwn i hefyd gyfeirio at y byrddau rhanbarthol cynllun gofodol. Mae yna fuddsoddi amser ac egni diddiwedd yn y rheini wedi digwydd. Fe fues i'n cadeirio un ohonyn nhw, ac roedd pawb yn awyddus iawn i weld pethau da yn digwydd, ond mi roedden nhw yn fethiant llwyr. Mae'r deilliannau o'r rheini yn bitw bach o'u cymharu â'r ymdrech, ac rwy'n ofni bod y byrddau newydd yma yn mynd i greu cyfarfodydd diddiwedd. Mae'r pwyslais yma ar drefn fiwrocraidd a phroses yn gwbl ddiangen.

A dweud y gwir, mae hon yn thema gyson mewn deddfwriaeth yn y lle hwn, sef creu dyletswyddau ar gyrrf eraill i wneud rhywbeth heb ddiffinio'r rhywbeth hwnnw ac wedyn canolbwyntio ar y broses yn hytrach na'r deilliannau. Ni fydda'r Bil hwn ar ei golled o gael gwared ar y elfen yma.

I speak in favour of Antoinette Sandbach's amendments and in support of the comments made by Llyr Gruffydd, because, as far as I can see, these local service boards will create an entirely unnecessary bureaucratic element, I believe, to this Bill. This is happening, of course, at a time when the public sector is being shrunk and weakened—not just the local authorities, but bodies such as Natural Resources Wales. You have to ask the question: who will be left to write these reports ultimately? And that's before you ask the fundamental question of: for what reason?

I cannot foresee how these annual reports will drive the fundamental changes that we've heard being listed here this afternoon in terms of making key sustainable decisions. I have to confess that perhaps my experiences over the last 15 years as a former member of a local service board, with its inconstant and inconsistent membership, have influenced me. A huge amount of energy was wasted in those boards, with precious little results to demonstrate that they existed at all.

However, of course, I could also refer to the spatial plan regional boards. Endless time and energy was also invested in those. I chaired one of those boards, and everyone was very eager to see good things happening, but they were a huge failure. The outputs from those were very small in comparison with the energy inputted, and I fear that these new boards will create endless meetings. This emphasis on the bureaucratic and process-based regime is entirely unnecessary.

Truth be told, this is a consistent theme of legislation in this place, namely to place duties on other bodies to do something without defining what that thing is, and then focusing on the process rather than the outputs. This Bill would not be any weaker from getting rid of this element to it.

17:00

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the opportunity to respond to some of the comments. I seek to move the amendment in the Government's name and fundamentally reject all the amendments in Antoinette Sandbach's name. I believe that attempting to remove Part 4 in its entirety is contrary to the general principles of the Bill, which was agreed by a majority of this Assembly in Stage 1 in December. Part 4 of the Bill provides the infrastructure to enable key public service organisations to work together on the local level to achieve the wellbeing goals and it's essential to the meeting of the Bill's aims.

Diolch ichi am y cyfle i ymateb i rai o'r sylwadau. Rwyf am gynnig y gwelliant yn enw'r Llywodraeth a gwrthod yn llwyr yr holl welliannau yn enw Antoinette Sandbach. Credaf fod ceisio hepgor rhan 4 yn ei chyfanrwydd yn groes i egwyddorion cyffredinol y Bil, y cytunodd mwyafrif o'r Cynulliad hwn arnynt yng Nghyfnod 1 ym mis Rhagfyr. Mae rhan 4 o'r Bil yn darparu'r seilwaith i alluogi sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus allweddol i weithio gyda'i gilydd ar lefel leol i gyflawni'r nodau llesiant ac mae'n hanfodol er mwyn cyflawni nodau'r Bil.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I don't agree with the comments made by Antoinette and some points that were made by Simon, on the basis that there are some very effective LSBs that are operating in Wales. The Cardiff one, for instance, is doing an excellent job. But, I do accept there is no consistency across the piece. That's why I believe establishing the PSB under the leadership of the public services Minister will be a process of statutory footing, where now there will have to be a process where people will need to attend, in all instances, with consistency across Wales.

On the issue William Powell raised around the amendment around the joint LSB, it goes by fact if we're now putting PSBs into statute then we will have to have a process where we have the ability to merge these organisations further down the line. Already, we see LSBs currently in the situation where they are merging themselves. They are already working together on local plans. So, I see no reason why that wouldn't be able to be supported in this principle.

This is also not about PSBs and the Government saying so. I understand this was a key part of the recommendations in 'The Wales We Want' report, which was issued last week. So, it's not about just Government; this is about 7,000 people taking part in a survey that was taken and published only last week. I would hope that Members will seek to support the Government's amendments and reject the amendments tabled by Antoinette Sandbach today.

Nid wyf yn cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Antoinette a rhai pwyntiau a wnaed gan Simon, oherwydd mae rhai byrddau gwasanaethau lleol effeithiol iawn sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae un Caerdydd, er enghraifft, yn gwneud gwaith ardderchog. Ond derbynïaf nad oes dim cysondeb drwyddi draw. Dyna pam yr wyf yn credu y bydd sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus dan arweinyddiaeth y Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus yn broses o ddarparu sylfaen statudol, lle y bydd yn rhaid yn awr wrth broses lle y bydd angen i bobl fod yn bresennol, ym mhob achos, mewn modd cyson ar hyd a lled Cymru.

O ran y mater a godwyd gan William Powell ynghylch y gwelliant ynghylch y byrddau gwasanaethau lleol ar y cyd, mae'n wir, os ydym yn awr yn rhoi byrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn statud, y bydd yn rhaid inni gael proses lle y gallwn uno'r sefydliadau hyn ymhellach i lawr y lein. Eisoës, gwelwn y byrddau gwasanaethau lleol ar hyn o bryd yn eu huno eu hunain. Maent eisoes yn gweithio gyda'i gilydd ar gynlluniau lleol. Felly, ni welaf reswm pam na fyddai modd cefnogi hynny yn yr egwyddor hon.

Nid yw hyn ychwaith yn ymwneud â'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus a'r Llywodraeth yn dweud hynny. Deallaf fod hyn yn rhan allweddol o'r argymhellion yn adroddiad 'Y Gymru a Garem', a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Felly, nid mater i'r Llywodraeth yn unig yw hyn; cymerodd tua 7,000 o bobl ran mewn arolwg a gynhaliwyd ac a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau'n cefnogi gwelliannau'r Llywodraeth ac yn gwrthod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Antoinette Sandbach heddiw.

17:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Antoinette Sandbach to reply.

Antoinette Sandbach i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:02 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hear what the Minister says and I'm very sad that the Liberal Democrats can't support these amendments, because I think there is a great deal of concern about an additional layer of bureaucracy being created—one which takes away that very element of localism that I though Liberal Democrats stood for, that idea that you can trust local people with decisions about their environment. I think it's a great shame that you can't support that today. If there's any way of me persuading William Powell, I would try to. But, I don't agree with the Government's assessment, which is why these amendments have been tabled. You don't need an architecture to implement the policy decisions and the aims of this Bill, and I agree with the comments made by Alun Ffred Jones and Llyr Huws Gruffydd that we will have an expensive, ineffective bureaucracy that will be imposed on local people, that they will find irrelevant, and that they will consider our dictating to them. I think it's a great concern. So, I urge you to support the amendments.

Clywaf yr hyn a ddywed y Gweinidog ac rwyf yn drist iawn na all y Democratiaid Rhyddfrydol gefnogi'r gwelliannau hyn, oherwydd credaf fod llawer iawn o bryder am greu haen ychwanegol o firocratiaeth—un sy'n cymryd i ffwrdd yr union elfen honno o leoliaeth yr oeddwn yn credu bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn sefyll drosti, y syniad y gallwch ymddiried mewn pobl leol i wneud penderfyniadau am eu hamgylchedd. Credaf ei bod yn drueni mawr na allwch gefnogi hynny heddiw. Pe bai unrhyw ffordd y gallwn ddarbwyllio William Powell, byddwn yn rhoi cynnig arni. Ond, nid wyf yn cytuno ag asesiad y Llywodraeth, a dyna pam y cyflwynwyd y gwelliannau hyn. Nid oes angen pensaerniaeth arnoch i weithredu penderfyniadau polisi a nodau'r Bil hwn, a chytunaf â'r sylwadau a wnaed gan Alun Ffred Jones a Llyr Huws Gruffydd y bydd gennym firocratiaeth ddud, aneffeithiol a orfodir ar bobl leol, y byddant yn credu ei bod yn amherthnasol ac yn teimlo ein bod yn rhoi gorchmynion iddynt. Mae hyn yn destun pryder mawr yn fy marn i. Felly, fe'ch anogaf i gefnogi'r gwelliannau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 73 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. Voted in favour, 23; voted against, 28; there were five abstentions. Therefore, amendment 73 is not agreed.

Y cwestiwn yw a ddydil derbyn gwelliant 73. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid; pleidleisiodd 28 yn erbyn; mae pum Aelod wedi ymatal. Felly, nid yw gwelliant 73 wedi'i dderbyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gwrthodwyd gwelliant 73: O blaid 23, Yn erbyn 28, Ymatal 5.

Amendment 73 not agreed: For 23, Against 28, Abstain 5.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 73](#)

[Result of the vote on amendment 73](#)

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 3. Weinidog, gwelliant 3.

Cynigiwyd gwelliant 3 (Carl Sargeant).

Amendment 3 (Carl Sargeant) moved.

17:04 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Formally. Yn ffurfiol.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If amendment 3 is agreed, amendments 74 and 75 fall. The question is that amendment 3 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 44. There voted against 12. Therefore, amendment 3 is agreed. Os derbynir gwelliant 3, mae gwelliannau 74 a 75 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 44 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 3: O blaid 44, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment 3 agreed: For 44, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3.](#)

[Result of the vote on amendment 3.](#)

Methodd gwelliannau 74 a 75.

Amendments 74 and 75 fell.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 5. Weinidog, gwelliant 5.

Cynigiwyd gwelliant 5 (Carl Sargeant).

Amendment 5 (Carl Sargeant) moved.

17:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Formally. Yn ffurfiol.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 5 be agreed. Does any Member object? Then amendment 5 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 5 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, amendment 32. Weinidog, gwelliant 32.

Cynigiwyd gwelliant 32 (Carl Sargeant).

Amendment 32 (Carl Sargeant) moved.

17:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Formally. Yn ffurfiol.

- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The question is that amendment 32 be agreed. Does any Member object? Then amendment 32 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 32. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 32 wedi'i dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 32 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 32 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, amendment 7. Weinidog, gwelliant 7.
- Cynigiwyd gwelliant 7 (Carl Sargeant). Amendment 7 (Carl Sargeant) moved.*
- 17:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Formally. Yn ffurfiol.
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The question is that amendment 7 be agreed. Does any Member object? Then amendment 7 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 7 wedi'i dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, amendment 8. Weinidog, gwelliant 8.
- Cynigiwyd gwelliant 8 (Carl Sargeant). Amendment 8 (Carl Sargeant) moved.*
- 17:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Formally. Yn ffurfiol.
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 The question is that amendment 8 be agreed. Does any Member object? Then amendment 8 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 8. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 8 wedi'i dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Minister, amendment 9. Weinidog, gwelliant 9.
- Cynigiwyd gwelliant 9 (Carl Sargeant). Amendment 9 (Carl Sargeant) moved.*
- 17:05 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Formally. Yn ffurfiol.
- 17:05 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 If amendment 9 is agreed, amendment 129 falls. The question is that amendment 9 be agreed. Does any Member object? Then amendment 9 is agreed. Os derbynir gwelliant 9, bydd gwelliant 129 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 9. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 9 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Methodd gwelliant 129.

Amendment 129 fell.

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, amendment 33.

Weinidog, gwelliant 33.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiwyd gwelliant 33 (Carl Sargeant).

Amendment 33 (Carl Sargeant) moved.

17:06

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Formally.

Yn ffurfiol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 33 be agreed. Does any Member object? Then amendment 33 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 33. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 33 wedi'i dderbyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Derbyniwyd gwelliant 33 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 33 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Grŵp 6: Dangosyddion Cenedlaethol a Cherrig Milltir (Gwelliannau 11, 12, 13, 14, 15, 16, 76, 17, 18, 19, 123, 77 ac 20)

Group 6: National Indicators and Milestones (Amendments 11, 12, 13, 14, 15, 16, 76, 17, 18, 19, 123, 77 and 20)

17:06

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next group of amendments relates to national indicators and milestones. The lead amendment in this group is amendment 11. I call on William Powell to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 11. Galwaf ar William Powell i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiwyd gwelliant 11 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).

Amendment 11 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.

17:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I move and speak to amendments 11 to 20 in this group. We shall also be supporting amendment 123 from Antoinette Sandbach.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiau welliannau 11 i 20 yn y grŵp hwn a siaradaf amdanynt. Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 123 gan Antoinette Sandbach.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

From the very outset, the Welsh Liberal Democrat group has been firmly of the view that targets and indicators would be crucial for measuring the progress towards achieving the wellbeing goals, particularly in relation to climate change. Climate change is, beyond doubt, the biggest single threat to the wellbeing of future generations, and our amendments at Stage 2 sought also to put climate change targets firmly on the face of this Bill. Since then, the Minister has indicated that such targets would, according to advice received, more appropriately fall under the scope of the environment Bill and, as such, our amendment 11 today ensures that milestones must be set in relation to the national indicators, according to specified criteria and also to an established timeline by which milestones must be achieved. Amendments 12 to 20 simply ensure that the appropriate reference is made to these measurable milestones throughout this section of the Bill. These indicators and milestones should, then, correspond to the targets being laid out in the environment Bill, and I expect to see a correlation in that respect when a new Bill is published in the coming weeks.

Plaid Cymru's debate tomorrow will also give us a valuable opportunity to discuss this in some more detail, but I would like to take this opportunity to ask for an assurance from the Minister that the targets, when published in the environment Bill, will be sufficiently far reaching. Whilst reducing greenhouse gas emissions should be one of the principal aims in the fight against climate change, it is not the only aim and should not be considered in isolation.

I've also formally tabled support for Antoinette Sandbach's amendment 76 and 123. On the former, I agree that any revision to the national indicators must be laid before and be subject to approval from this National Assembly. For the latter, this echoes my own amendment 139 on which I spoke earlier.

O'r cychwyn cyntaf, mae grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi bod yn gadarn o'r farn y byddai targedau a dangosyddion yn hanfodol ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, yn enwedig o ran newid yn yr hinsawdd. Newid yn yr hinsawdd, heb os nac oni bai, yw'r bygythiad unigol mwyaf i lesiant cenedlaethau'r dyfodol, ac roedd ein gwelliannau yng Nghyfnod 2 hefyd yn ceisio rhoi targedau newid yn yr hinsawdd yn gadarn ar wyneb y Bil hwn. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi nodi y byddai targedau o'r fath, yn ôl y cyngor a dderbyniwyd, yn fwy priodol yn dod o fewn cwrpas Bil yr amgylchedd, ac o'r herwydd, mae ein gwelliant 11 heddiw yn sicrhau y bydd yn rhaid gosod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol, yn ôl meini prawf penodedig a hefyd yn unol ag amserlen a bennir ar gyfer cyrraedd cerrig milltir. Mae gwelliannau 12 i 20 yn syml iawn yn sicrhau y cyfeirir yn briodol at y cerrig milltir mesuradwy hyn drwy gydol yr adran hon o'r Bil. Dylai'r dangosyddion a'r cerrig milltir hyn gyfateb i'r targedau sy'n cael eu nodi ym Mil yr amgylchedd, a disgwyliaf weld cydberthynas yn hynny o beth pan gaiff Bil newydd ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.

Yfory bydd dadl Plaid Cymru hefyd yn gyfle da inni i drafod hyn yn fwy manwl, ond hoffwn gymryd y cyfle hwn i ofyn am sicrwydd gan y Gweinidog y bydd y targedau, pan gyhoeddir hwy ym Mil yr amgylchedd, yn ddigon pellgyrhaeddol. Dylai lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fod yn un o'r prif nodau yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ond nid dyna'r unig nod ac ni ddylid ei ystyried ar ei ben ei hun.

Rwyf hefyd wedi cyflwyno'n ffurfiol gefnogaeth i welliant 76 a 123 Antoinette Sandbach. O ran y cyntaf, cytunaf fod yn rhaid i unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion cenedlaethol gael eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol hwn a bod yn destun cymeradwyaeth ganddo. O ran yr ail, mae hyn yn adleisio fy ngwelliant 139 innau y siaradais amdano yn gynharach.

17:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Antoinette Sandbach.

Galwaf ar Antoinette Sandbach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:08 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, we agree with the amendments tabled by William Powell. I recall, under the chairmanship of Lord Elis-Thomas, when the committee looked at this Bill in its very first incarnation, we clearly indicated that there was a cart coming before a horse. [Interruption.] Those were the words that I'm certain were used. I think it's been very regrettable that the Government didn't listen to that, because actually were we looking at this Bill in the context of an already enacted environment Bill, we would have had a much clearer indication of where we were going and what was happening. I think it's been regrettable. Effectively, the legislation has unfortunately come the wrong way around, from an opposition point of view, which is why we support the amendments tabled by William Powell.

Wel, rydym yn cytuno â'r gwelliannau a gyflwynwyd gan William Powell. Cofiaf, o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Elis-Thomas, pan edrychodd y pwyllgor ar y Bil hwn yn ei ymgnawdoliad cyntaf, inni nodi'n glir fod trol yn dod o flaen ceffyl. [Torri ar draws.] Dyna oedd y geiriau a ddefnyddiwyd, rwyf yn siŵr. Credaf ei bod yn resyn na wrandawodd y Llywodraeth ar hynny, oherwydd a dweud y gwir, pe byddem yn edrych ar y Bil hwn yng nghyd-destun Bil amgylchedd wedi'i ddeddfu eisoes, byddai gennym syniad cliriach o lawer o ble'r oeddem yn mynd a beth oedd yn digwydd. Credaf fod hynny'n resyn o beth. I bob pwrpas, yn anffodus mae'r ddeddfwriaeth wedi dod y tu ôl ymlaen, o safbwynt yr wrthblaid, a dyna pam yr ydym yn cefnogi'r gwelliannau a gyflwynwyd gan William Powell.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I also want to move amendment 76. This requires that indicators be published and laid before the National Assembly for approval by it. That is to increase the democratic accountability and to ensure that goals aren't shifted and that we can actually see the goals, get them set and have our input and stamp on them, and also that they can't be changed. So, we think that's an important, democratically accountable process, which allows scrutiny. It allows people to feed into the indicators and the goals, and will allow consultation.

In terms of our amendment 123, as William Powell says, that is similar to the amendment that he spoke to earlier. We had very impressive evidence from the Office for National Statistics about the work that they had done on wellbeing. That has been taking place for two or three years and we do think it important that the statistics board is included within the list of organisations that the Minister must consult before preparing national indicators or any revisions to the indicators. Glenn Everett, the director of the measuring national wellbeing programme for the Office for National Statistics, told the committee that it would be beneficial if the indicators were granted national statistic status. The benefit of this would be the independence of the UK Statistics Authority stamps them as a robust set of indicators. It can mean that the statistics meet identified user needs, are well explained and readily accessible, are produced according to sound methods, and are managed impartially and objectively in the public interest. I cannot see any reason why the Government would not seek to support that kind of objective, robust scrutiny unless, of course, Minister, you're intending to set indicators that aren't robust and can't be scrutinised in that way. I would say that if the Government votes against this amendment it's going to be a very clear signal about how they intend this Bill to take effect.

The main focus of the Bill is intended to be about the public interest of current and future generations and it's logical that any national indicators should be impartial, objective and managed in the public interest. This amendment was also tabled at Stage 2, with slightly different wording, and the Minister commented, potentially because that wording was wrong, that the amendment was technically flawed, but you confirmed that you would give further consideration to this amendment. I would urge you to support it, because if you don't there will be a great deal of doubt about what the Government intends.

Rwyf hefyd am gynig gwelliant 76. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi dangosyddion a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo. Mae hynny er mwyn cynyddu atebolrwydd democrataidd a sicrhau nad yw'r nodau'n cael eu newid a'n bod mewn gwirionedd yn gallu gweld y nodau, eu sefydlu a rhoi ein mewnbwn a'n stamp arnynt fel na ellir eu newid. Felly, credwn ei bod yn broses bwysig, ddemocrataidd atebol, sy'n caniatáu craffu. Mae'n caniatáu i bobl gyfrannu at y nodau a'r dangosyddion, a bydd yn caniatáu ymgynghori.

O ran ein gwelliant 123, fel y dywed William Powell, mae'n debyg i'r gwelliant y siaradodd amdano yn gynharach. Cawsom dystiolaeth drawiadol iawn o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol am y gwaith y mae wedi'i wneud ar lesiant. Mae hynny wedi bod yn digwydd am ddwy neu dair blynedd a chredwn ei bod yn bwysig fod y bwrdd ystadegau'n cael ei gynnwys yn y rhestr o sefydliadau y mae'n rhaid i'r Gweinidog ymgynghori â hwy cyn paratoi dangosyddion cenedlaethol neu wneud unrhyw ddiwygiadau i'r dangosyddion. Dywedodd Glenn Everett, cyfarwyddwr y rhaglen mesur llesiant cenedlaethol i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, wrth y pwyllgor y byddai'n dda o beth pe bai'r dangosyddion yn cael statws ystadegau cenedlaethol. Mantais hyn fyddai fod annibyniaeth Awdurdod Ystadegau'r DU yn eu stampio fel cyfres gadarn o ddangosyddion. Gall olygu bod yr ystadegau'n bodloni anghenion dynodedig y defnyddwyr, eu bod wedi'u hegluro'n dda ac ar gael yn rhydd, eu bod yn cael eu cynhyrchu'n unol â dulliau cadarn, ac yn cael eu rheoli'n ddiduedd ac yn wrthrychol er budd y cyhoedd. Ni allaf weld dim rheswm pam na fyddai'r Llywodraeth yn cefnogi'r math hwnnw o graffu cadarn, gwrthrychol oni bai, wrth gwrs, Weinidog, eich bod yn bwriadu gosod dangosyddion nad ydynt yn gadarn ac na ellir craffu arnynt yn y ffordd honno. Yn fy marn i, os yw'r Llywodraeth yn pleidleisio yn erbyn y gwelliant hwn, bydd yn arwydd dir iawn ynghylch y ffordd y mae'n bwriadu i'r Bil hwn ddod i rym.

Y bwriad yw y bydd pwyslais y Bil yn anad dim ar sicrhau budd y cyhoedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac wrth reswm, dylai unrhyw ddangosyddion cenedlaethol fod yn ddiduedd, yn wrthrychol ac yn cael eu rheoli er budd y cyhoedd. Cyflwynwyd y gwelliant hwn hefyd yng Nghyfnod 2, â geiriad ychydig yn wahanol, a dywedodd y Gweinidog, o bosibl oherwydd bod y geiriad hwnnw'n anghywir, fod y gwelliant yn dechnegol ddiffygiol, ond cawsom gadarnhad gennych y byddech yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r gwelliant hwn. Byddwn yn eich annog i'w gefnogi, oherwydd os na wnewch hynny bydd llawer iawn o amheuaeth ynglŷn â'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei fwriadu.

Finally, in relation to our amendment 77, one hopes that the indicators are robust, impartial and objective and therefore we seek a positive process under the National Assembly for Wales to say that a resolution to approve the national indicators under subsections (1)(b) or (6)(b) has no effect unless at least two thirds of the Members voting support the motion. This is to ensure that there is buy-in across the Assembly, that there is clear consensus on what is good for the future of this country, and that it is not political but cross-party, and that it has the support of the whole Assembly, or at least two thirds of the Assembly. We think that that, in short, will ensure cross-party engagement in the process and that it will strengthen the Bill. So, I would invite you to support our amendments in that regard.

Yn olaf, o ran ein gwelliant 77, byddem yn gobeithio bod y dangosyddion yn gadarn, yn ddiduedd ac yn wrthrychol ac felly ceisiwn broses gadarnhaol o dan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ddweud na fydd dim effaith i gynnig i gymeradwyo'r dangosyddion cenedlaethol o dan isadrannau (1)(b) neu (6)(b) heb fod o leiaf ddwy ran o dair o'r Aelodau'n pleidleisio i gefnogi'r cynnig. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cefnogaeth i hyn ar draws y Cynulliad, fod consensws clir ynglŷn â'r hyn sy'n dda i ddyfodol y wlad hon, ac nad yw'n wleidyddol ond yn drawsbleidiol, a bod iddo gefnogaeth y Cynulliad cyfan, neu o leiaf ddwy ran o dair o'r Cynulliad. Credwn y bydd hynny, yn y bôn, yn sicrhau ymgysylltiad trawsbleidiol â'r broses ac y bydd yn cryfhau'r Bil. Felly, byddwn yn eich gwahodd i gefnogi ein gwelliannau yn hynny o beth.

17:14

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Plaid Cymru'n croesawu'r bwriad i ychwanegu cerrig milltir at y Bil. Roedd gan Blaid Cymru welliannau yng Nghyfnod 2 oedd yn galw am sefydlu targedau clir—nid ar wyneb y Bil, wrth gwrs, ond bod darpariaeth yn y Bil i sefydlu targedau perthnasol. Roedd ein gwelliannau ni yn sôn bod yn rhaid iddyn nhw gael eu nodi mewn gwerth neu nodweddion y gellir mesur yn eu herbyn ac rydym ni'n croesawu bod y geiriau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y gwelliannau o dan sylw yn y grŵp yma. Mae dangosyddion yn dangos i ni ble rŷm ni ond mae targedau, wrth gwrs, yn dangos ble rŷm ni eisiau mynd ac ymgyrraedd tuag ato fe. Mae'r term 'cerrig milltir' wedi ei ddewis fan hyn yn lle 'targedau', ond cyhyd â'u bod nhw'n fesuradwy ac yn glir o ran erbyn pryd y dylid eu cyflawni, yna mae hynny yn ddigon derbyniol i fi.

Nid oes angen i'r Llywodraeth bod ofn gwelliant 76 gan y Ceidwadwyr. Mae'n ddigon teg yn fy marn i bod y Cynulliad yn cymeradwyo'r dangosyddion, ond ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 77, oherwydd mae gofyn am fwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cynulliad i'w cymeradwyo nhw yn ormodol, yn fy marn i.

Plaid Cymru welcomes the intention to add milestones to the Bill. Plaid Cymru had amendments at Stage 2 that called for the establishment of clear targets—not on the face of the Bill, of course, but that there should be provision to establish relevant targets. Our amendments mentioned the fact that they would be have to be noted in values or characteristics that could be measured, and we welcome that those words are reflected in the amendments in this particular group. Indicators do indicate where we are but targets, of course, demonstrate the direction of travel and what we are aiming for. The term 'milestones' has been chosen here rather than 'targets', but as long as they are measurable and clear in terms of the timescale for attainment, then that is acceptable to me.

The Government doesn't need to fear amendment 76 from the Conservatives. I think it's quite fair that the Assembly should approve the indicators, but we won't be supporting amendment 77, because asking for a two-thirds majority in the Assembly for their approval is excessive in my view.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:15

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In light of the desires expressed by Members and stakeholders for there to be concrete measures of progress in Wales against the wellbeing goals, I will be supporting amendments 11 to 20 in the name of William Powell.

Section 8 of the Bill requires Welsh Ministers to lay a copy of the national indicators before the National Assembly, and also when they are revised. Section 8(7) of the Bill also requires Welsh Ministers to consult before national indicators are published. The National Assembly may, of course, express its view on anything the Welsh Government does, and this would include the setting of national indicators. I will ensure that Members are kept informed, and therefore I don't believe amendment 76 is necessary. I support the principle as outlined by Llyr Gruffydd on amendment 77, but we will not be seeking to support that either.

Yng ngoleuni'r dyheadau a fynegwyd gan Aelodau a rhanddeiliaid i sefydlu mesurau pendant o gynnydd yng Nghymru yn erbyn y nodau llesiant, byddaf yn cefnogi gwelliannau 11 i 20 yn enw William Powell.

Mae adran 8 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a hefyd pan gânt eu diwygio. Mae adran 8(7) o'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori cyn cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol. Wrth gwrs, caiff y Cynulliad Cenedlaethol fynegi ei farn ar unrhyw beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud, a byddai hynny'n cynnwys pennu dangosyddion cenedlaethol. Byddaf yn sicrhau bod yr Aelodau'n cael gwybodaeth am hyn, ac felly nid wyf yn credu bod gwelliant 76 yn angenrheidiol. Cefnogaf yr egwyddor fel y'i hamlinellwyd gan Llyr Gruffydd ar welliant 77, ond ni fyddwn yn cefnogi hynny ychwaith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Antoinette Sandbach's amendment 123: recognising that, at that earlier stage, the argument was well rehearsed, I am still not convinced of the argument that the Member presents. I'm urging colleagues to reject this amendment. There is no need to require the Welsh Government to consult with the statistics board when the Welsh Government's own statisticians, under the responsibility of the chief statistician, already publish statistics independently to the same code of practice as the statistics board. I formally support the amendments in the name of William Powell, as alluded to earlier.

Gwelliant 123 Antoinette Sandbach: gan gydnabod, yn y cyfnod cynharach hwnnw, fod y ddadl wedi'i thrafod yn drwyadl, nid wyf wedi fy argyhoeddi o hyd o'r ddadl y mae'r Aelod yn ei chyflwyno. Rwyf yn annog fy nghydweithwyr i wrthod y gwelliant hwn. Nid oes angen ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â'r bwrdd ystadegau pan fo ystadegwyr Llywodraeth Cymru ei hun, dan gyfrifoldeb y Prif Ystadegydd, eisoes yn cyhoeddi ystadegau'n annibynnol yn unol â'r un cod ymarfer â'r bwrdd ystadegau. Rwyf yn ffurfiol yn cefnogi'r gwelliannau yn enw William Powell, fel y crybwyllwyd yn gynharach.

17:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

And William Powell to reply.

A William Powell i ymateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:16 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I very much welcome the indication of support from the Welsh Government on this, and therefore the emerging consensus that we have around our amendments 11 to 20. I think this is entirely appropriate, given the importance—in fact, the central imperative—that we all face with regard to the fight against climate change.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Croesawaf yn fawr yr arwydd o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn hyn o beth, ac felly'r consensws sy'n datblygu ynghylch ein gwelliannau 11 i 20. Credaf fod hyn yn gwbl briodol ac ystyried pwysigrwydd—yn wir, y rheidrwydd canolog—y mae pob un ohonom yn ei wynebu yn y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I recognise the comments made by Antoinette Sandbach with regard to the fact that, in an ideal world, we wouldn't be in this place in terms of the sequencing of the various pieces of legislation, and also would associate myself with her remarks about the way in which my neighbour, Lord Dafydd Elis-Thomas, set the tone of the scrutiny process, which has been continued by the committee over the many months past.

Rwyf yn cydnabod y sylwadau a wnaed gan Antoinette Sandbach o ran y ffaith na fyddem, mewn byd delfrydol, yn y lle hwn o ran dilyniant y gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, a byddwn hefyd yn ategu ei sylwadau am y ffordd y gosododd fy nghymydog, yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, naws y broses graffu, sydd wedi parhau yn y pwyllgor dros y misoedd diwethaf.

I reiterate my stated support for amendments 76 and 123 with regard to those amendments proposed by Antoinette Sandbach. I think that the Minister's clear commitment on the record today in terms of climate change targets is most welcome, and I also appreciate the fact that Llyr Gruffydd, like myself, is not getting caught up in semantics by seeking to make a major distinction between milestones and targets, if they are indeed to be robustly enforced. So, I would welcome support around this Chamber for our amendments 11 to 20, and look forward to them being voted into this important piece of legislation.

Ailddatganaf fy nghefnogaeth i welliannau 76 a 123 o ran y gwelliannau hynny a gynigiwyd gan Antoinette Sandbach. Credaf fod ymrwymiad clir y Gweinidog ar gofnod heddiw o ran targedau newid yn yr hinsawdd i'w groesawu'n fawr, a hefyd rwyf yn gwerthfawrogi'r ffaith nad yw Llyr Gruffydd, fel finnau, yn cael ei ddal mewn semanteg drwy geisio gwahaniaethu rhwng cerrig milltir a thargedau, os ydynt yn wir am gael eu gorfodi'n gadarn. Felly, byddwn yn croesawu cefnogaeth o amgylch y Siambr hon i'n gwelliannau 11 i 20, ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn cael eu pleidleisio i mewn i'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth.

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 11 be agreed. Does any Member object? Then amendment 11 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddyliid derbyn gwelliant 11. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 11 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:18 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I propose that amendments 12 to 16 are disposed of en bloc. Does any Member object? William Powell, amendments 12 to 16.

Cynigaf fod gwelliannau 12 i 16 yn cael eu gwaredu gyda'i gilydd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? William Powell, gwelliannau 12 i 16.

Cynigiwyd gwelliannau 12, 13, 14, 15 ac 16 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).

Amendments 12, 13, 14, 15 and 16 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:19	William Powell Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
17:19	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendments 12 to 16 be agreed to. Does any Member object? Then amendments 12 to 16 are agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 12 i 16. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliannau 12 i 16 wedi'u derbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliannau 12, 13, 14, 15 ac 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 12, 13, 14, 15 and 16 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:19	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography Antoinette Sandbach, amendment 76.	Antoinette Sandbach, gwelliant 76.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 76 (Antoinette Sandbach, gyda chefnogaeth William Powell).</i>	<i>Amendment 76 (Antoinette Sandbach supported by William Powell) moved.</i>	
17:19	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
17:19	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography If amendment 76 is agreed, amendment 17 falls. The question is that amendment 76 be agreed. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 23. There voted against 33. Therefore, amendment 76 is not agreed.	Os derbynnir gwelliant 76, mae gwelliant 17 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 76. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 23 o blaid. Pleidleisiodd 33 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 76 wedi'i dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 76: O blaid 23, Yn erbyn 33, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 76 not agreed: For 23, Against 33, Abstain 0.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 76	Result of the vote on amendment 76	
17:19	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography William Powell, amendment 17.	William Powell, gwelliant 17.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 17 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).</i>	<i>Amendment 17 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.</i>	
17:19	William Powell Bywgraffiad Biography Move.	Cynnig.	Senedd.tv Fideo Video
17:19	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography The question is that amendment 17 be agreed. Does any Member object? Then amendment 17 is agreed.	Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 17. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae gwelliant 17 wedi'i dderbyn.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:20	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography William Powell, amendment 18.	William Powell, gwelliant 18.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Cynigiwyd gwelliant 18 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).</i>	<i>Amendment 18 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.</i>	

17:20	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p>	Cynnig.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:20	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 18 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 18 is agreed.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 18. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 18 wedi'i dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:20	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>William Powell, amendment 19.</p>	William Powell, gwelliant 19.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Cynigiwyd gwelliant 19 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).</i>	<i>Amendment 19 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.</i>	
17:20	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p>	Cynnig.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:20	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 19 be agreed to. Does any Member object? Then amendment 19 is agreed.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 19. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 19 wedi'i dderbyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	<i>Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>	
17:20	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Antoinette Sandbach, amendment 123.</p>	Antoinette Sandbach, gwelliant 123.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Cynigiwyd gwelliant 123 (Antoinette Sandbach, gyda chefnogaeth William Powell).</i>	<i>Amendment 123 (Antoinette Sandbach, supported by William Powell) moved.</i>	
17:20	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Move.</p>	Cynnig.	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:20	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 123 be agreed to. Does anyone object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 123, which consequently falls.</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 123. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 123, sy'n methu o'r herwydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
	<i>Gwrthodwyd gwelliant 123: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.</i>	<i>Amendment 123 not agreed: For 28, Against 28, Against 0.</i>	
	<i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i>	<i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i>	
	Canlyniad y bleidlais ar welliant 123	Result of the vote on amendment 123	

- 17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Antoinette Sandbach, amendment 77. Antoinette Sandbach, gwelliant 77.
- Cynigiwyd gwelliant 77 (Antoinette Sandbach).* *Amendment 77 (Antoinette Sandbach) moved.*
- 17:20 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.
- 17:20 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 77 be agreed to. Does anyone object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There were in favour 17, against 39. Therefore amendment 77 is not agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 77. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Roedd 17 o blaid, 39 yn erbyn. Felly nid yw gwelliant 77 wedi'i dderbyn.
- Gwrthodwyd gwelliant 77: O blaid 17, Yn erbyn 39, Ymatal 0.* *Amendment 77 not agreed: For 17, Against 39, Abstain 0.*
- [Canlyniad y bleidlais ar welliant 77.](#) [Result of the vote on amendment 77.](#)
- Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
William Powell, amendment 20. William Powell, gwelliant 20.
- Cynigiwyd gwelliant 20 (William Powell, gyda chefnogaeth Carl Sargeant).* *Amendment 20 (William Powell, supported by Carl Sargeant) moved.*
- 17:21 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Move. Cynnig.
- 17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The question is that amendment 20 be agreed. Does any Member object? Then amendment 20 is agreed. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 20. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 20 wedi'i dderbyn.
- Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*
- Grŵp 7: Adroddiad Tueddiadau Tebygol y Dyfodol (Gwelliannau 78, 126 a 127)** **Group 7: Future Trends Report (Amendments 78, 126 and 127)**
- 17:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The next group of amendments relates to the future trends report. The lead amendment in this group is amendment 78. I call on Antoinette Sandbach to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group. Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud ag adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 78. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp ac i siarad amdanynt.
- Cynigiwyd gwelliant 78 (Antoinette Sandbach).* *Amendment 78 (Antoinette Sandbach) moved.*

17:21

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 78 in my name. This amendment very much echoes the earlier amendments that we discussed, which were about the importance of making predictions based on evidence and expert advice. It's about having a sound scientific basis for future predictions and ensuring that the very best evidence is before decision makers. That's why this amendment has been tabled. The difficulty has been that, very often, we see decisions that aren't based on sound science and aren't based on expert advice and I think it's regrettable and that's why this amendment has been tabled and I very much hope it will get the support of the other parties in the Chamber.

Cynigaf welliant 78 yn fy enw i. Mae'r gwelliant hwn yn adleisio'n fawr iawn y gwelliannau cynharach a drafodwyd gennym, a oedd yn ymwneud â phwysigrwydd gwneud rhagfynegiadau ar sail tystiolaeth a chyngor arbenigol. Mae'n ymwneud â sicrhau sail wyddonol gadarn ar gyfer rhagfynegiadau yn y dyfodol a sicrhau bod y dystiolaeth orau gerbron y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Dyna pam y mae'r gwelliant hwn wedi'i gyflwyno. Yr anhawster, yn aml iawn, yw ein bod yn gweld penderfyniadau nad ydynt yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn ac nad ydynt yn seiliedig ar gyngor arbenigol a chredaf fod hynny'n resyn a dyna pam y cyflwynwyd y gwelliant hwn ac rwyf yn mawr obeithio y bydd yn cael cefnogaeth y pleidiau eraill yn y Siambur.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:22

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae gwelliannau Plaid Cymru yn y grŵp yma yn ymdrech i gryfhau adroddiadau tueddiadau tebygol y dyfodol, sy'n dipyn o lond pen o deitl ar adroddiad. Ond rydym am eu cryfhau nhw drwy sicrhau bod yr adroddiadau rheini'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac ar gyngor perthnasol a phriodol. Mi fydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r dystiolaeth a'r cyngor hwnnw. Mae hynny'n arfer dda; mae'n sicrhau mai'r dystiolaeth ac nid y gwleidyddiaeth sy'n arwain y broses ac yn sicrhau tryloywder wrth greu'r adroddiadau tueddiadau tebygol y dyfodol.

The Plaid Cymru amendments in this group are an attempt to strengthen the future trends reports, which is quite a long title in Welsh. But we want to strengthen them by ensuring that those reports are based on the best evidence available and on relevant and appropriate advice. It will also be a requirement of Welsh Ministers to publish that evidence and advice. That's good practice; it ensures that the evidence and not the politics leads the process and ensures transparency in creating those future trends reports.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Byddwn ni'n gwrthwynebu gwelliant 78, nid am ein bod ni'n anghytuno, ond am y bydd ein gwelliant ni, wrth gwrs, yn cwmpo os yw'n cael ei dderbyn.

We will be opposing amendment 78, not because we disagree with it, but because our amendment, of course, would fall if it were to be accepted.

17:23

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no amendments in this section, but rise simply to express my formal support for amendment 127. In the view of the Welsh Liberal Democrat group, this would add a valuable scientific component to the publication of the future trends report, and, of course, that report will play a key role in holding to account the public service boards, and, indeed, the wider public sector in terms of its commitments with regard to this matter.

Nid oes gennyf ddim gwelliannau yn yr adran hon, ond codaf i fynegi fy nghefnogaeth ffurfiol i welliant 127. Ym marn grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, byddai hyn yn ychwanegu elfen wyddonol werthfawr i gyhoeddi adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol, ac, wrth gwrs, bydd yr adroddiad hwnnw'n allweddol er mwyn dwyn i gyfrif y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ac, yn wir, y sector cyhoeddus ehangach o ran ei ymrwymïadau ynghylch y mater hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:24

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do understand the principles and why these amendments have been tabled. However, we will not be seeking to support the amendments in the name of Antoinette Sandbach or Llyr Gruffydd this afternoon.

Rwyf yn deall yr egwyddorion a pham y cyflwynwyd y gwelliannau hyn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliannau yn enw Antoinette Sandbach na Llyr Gruffydd y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The statutory future trends report will, of course, be based on evidence, but I don't consider it necessary to specify this, because this is, again, as earlier mentioned, a well-established public law principle. We received significant legal advice on this and it is appropriate.

Wrth gwrs, bydd adroddiad statudol tueddiadau tebygol y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth, ond nid wyf o'r farn bod angen nodi hynny'n benodol, oherwydd mae hyn, unwaith eto, fel y soniwyd yn gynharach, yn egwyddor sydd wedi hen ymsefydlu yn y gyfraith gyhoeddus. Cawsom gryn dipyn o gyngor cyfreithiol ar hyn ac mae'n briodol.

17:24

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way?

A wnewch chi ildio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 17:24 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Indeed. Gwnaf yn wir.
- 17:24 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
When you say 'evidence', do you accept that that includes scientific evidence, that, effectively, what we're talking about here is scientific evidence and expert evidence? Pan ddywedwch 'tystiolaeth', a ydych yn derbyn bod hynny'n cynnwys dystiolaeth wyddonol, a'n bod, i bob pwrpas, yn sôn yma am dystiolaeth wyddonol a thystiolaeth arbenigol?
- 17:24 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
If I may, I'll lead on to that very point. I am concerned about the issue around the undefined reference in the amendments to expert advice. I'm concerned about that, not because I don't understand what you're seeking to do, and I share that view, but because the principle of defining it in such a way possibly has unintended consequences, where it has a risk where key stakeholders—because they are not necessarily professional experts, their evidence could be considered as void. Therefore, we will not be seeking to support today's amendment. Os caf, rwyf am droi at yr union bwynt hwnnw. Rwyf yn bryderus ynghylch y cyfeirio heb ei ddiffinio yn y gwelliannau at gyngor arbenigol. Rwyf yn pryderu am hynny, nid oherwydd nad wyf yn deall yr hyn yr ydych yn ceisio'i wneud, a rhannaf y farn honno, ond oherwydd y gallai egwyddor ei ddiffinio yn y fath fodd arwain at ganlyniadau anfwriadol o bosibl, ble mae perygl y gallai rhanddeiliaid allweddol—am nad ydynt yn arbenigwyr proffesiynol o reidrywydd, gellid ystyried bod eu dystiolaeth yn ddi-rym. Felly, ni fyddwn yn cefnogi'r gwelliant heddiw.

With regard to Llyr Gruffydd's amendment, 127, we don't believe at this point it's needed. The analytical data and information on which the predictions in the future trends report are based will be published as part of that report and, therefore, a requirement for a separate publication of evidence, we believe, would be unduly onerous, but I understand the principle of the Member. O ran gwelliant 127 Llyr Gruffydd, nid ydym yn credu ar hyn o bryd fod ei angen. Bydd y data a'r wybodaeth ddadansodol y mae'r rhagfynegiadau yn adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol yn seiliedig arnynt yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad hwnnw ac, felly, byddai rheidrywydd i gyhoeddi dystiolaeth ar wahân, yn ein barn ni, yn rhy feichus, ond deallaf egwyddor yr Aelod.
- 17:25 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Antoinette Sandbach to reply. Antoinette Sandbach i ymateb.
- 17:25 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Well, I think it's regrettable that the Government won't support what I call proper evidence-based decision making. Again, it strikes a note of concern about what you really want this Bill to achieve, because by rejecting that kind of appropriate evidence, effectively, what we may see is what we see so often from Welsh Government, which is a spin report that puts a gloss on really quite poor decision making and a failure to achieve, very often, targets. We see that around the current climate change report and the Government's whitewash, greenwash, or whatever you want to call it, of it. I think it's really regrettable, because it actually undermines the Welsh Conservatives' confidence about what the Government is seeking to achieve in this Bill. By failing to set robust targets—well, targets approved by the statistics board—and evidence-based decision making, I wonder, really, Minister, what you're trying to achieve with this Bill. I have a great deal of sympathy with what the Institute of Welsh Affairs said earlier today, because it looks like you're not seeking to apply robust criteria to the Bill. I think that's of great concern. Wel, credaf ei bod yn resyn na fydd y Llywodraeth yn cefnogi'r hyn a alwaf yn wneud penderfyniadau ar sail dystiolaeth go iawn. Unwaith eto, mae'n taro nodyn o bryder am yr hyn yr ydych am i'r Bil hwn ei gyflawni mewn gwirionedd, oherwydd drwy wrthod y math hwnnw o dystiolaeth briodol, i bob pwrpas, yr hyn y gallem ei weld yw'r hyn yr ydym yn ei weld mor aml gan Lywodraeth Cymru, sef adroddiad sbin sy'n rhoi sglein ar wneud penderfyniad eithaf gwael mewn gwirionedd a methiant i gyflawni targedau, yn aml iawn. Rydym yn gweld hynny o ran yr adroddiad cyfredol ar newid yn yr hinsawdd a gwyngalchu, gwyrddgalchu, neu beth bynnag y dymunwch ei alw, y Llywodraeth arno. Credaf ei fod yn destun gofid mawr, oherwydd mewn gwirionedd mae'n tansilio hyder y Ceidwadwyr Cymreig yn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i gyflawni yn y Bil hwn. Drwy fethu â gosod targedau cadarn—wel, targedau wedi'u cymeradwyo gan y bwrdd ystadegau—a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, tybed, mewn gwirionedd, Weinidog, beth ydych chi'n ceisio ei gyflawni â'r Bil hwn? Mae gennyf lawer o gydymdeimlad â'r hyn a ddywedodd y Sefydliad Materion Cymreig yn gynharach heddiw, oherwydd mae'n ymddangos nad ydych am gymhwyso meini prawf cadarn i'r Bil. Credaf fod hynny'n destun pryder mawr.

17:27	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>If amendment 78 is agreed, amendment 126 falls. The question is that amendment 78 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 12 and voted against 44. Therefore, amendment 78 is not agreed.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 78: O blaid 12, Yn erbyn 44, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 78</p>	<p>Os derbynir gwelliant 78, bydd gwelliant 126 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 78. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 12 o blaid a phleidleisiodd 44 yn erbyn. Felly, nid yw gwelliant 78 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 78 not agreed: For 12, Against 44, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 78</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:27	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Llyr Gruffydd, amendment 126.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 126 (Llyr Gruffydd.)</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 78</p>	<p>Llyr Gruffydd, gwelliant 126.</p> <p><i>Amendment 126 (Llyr Gruffydd) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:27	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynnig.</p>	<p>Move.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 126 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Members need to concentrate. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 126, which consequently falls.</p> <p><i>Gwrthodwyd gwelliant 126: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.</i></p> <p><i>Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 126</p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 126. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Mae angen i'r Aelodau ganolbwyntio. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 126, sy'n methu o'r herwydd.</p> <p><i>Amendment 126 not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.</i></p> <p><i>As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 126</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Llyr Gruffydd, amendment 60.</p> <p><i>Cynigiwyd gwelliant 60 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Carl Sargeant.)</i></p>	<p>Llyr Gruffydd, gwelliant 60.</p> <p><i>Amendment 60 (Llyr Gruffydd, supported by Carl Sargeant) moved.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Cynnig.</p>	<p>Move.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:28	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 44. There voted against 12. Therefore, amendment 60 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 60: O blaid 44, Yn erbyn 12, Ymatal 0.</i></p>	<p>Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 60. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 44 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 60 wedi'i dderbyn.</p> <p><i>Amendment 60 agreed: For 44, Against 12, Abstain 0.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

17:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Llyr Gruffydd, amendment 127. Llyr Gruffydd, gwelliant 127.

Cynigiwyd gwelliant 127 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth William Powell.)

Amendment 127 (Llyr Gruffydd, supported by William Powell) moved.

17:29 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynnig. Move.

17:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 127 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 28. There voted against 28. I cast my vote against amendment 127, which consequently falls.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 127. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 28 o blaid. Pleidleisiodd 28 yn erbyn. Rwyf yn bwrw fy mhleidlais yn erbyn gwelliant 127, sy'n methu o'r herwydd.

Gwrthodwyd gwelliant 127: O blaid 28, Yn erbyn 28, Ymatal 0.

Amendment 127 not agreed: For 28, Against 28, Abstain 0.

Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.

As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.

17:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Llyr Gruffydd, amendment 61. Llyr Gruffydd, gwelliant 61.

Cynigiwyd gwelliant 61 (Llyr Gruffydd, gyda chefnogaeth Carl Sargeant.)

Amendment 61 (Llyr Gruffydd, supported by Carl Sargeant) moved.

17:29 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Cynnig. Move.

17:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 61 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We'll have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 44. There voted against 12. Therefore, amendment 61 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 61. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Cawn bleidlais electronig. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 44 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, mae gwelliant 61 wedi'i dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 61: O blaid 44, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment 61 agreed: For 44, Against 12, Abstain 0.

**Grŵp 8: Deddf Llywodraeth Cymru—
Datblygu Cynaliadwy (Gwelliant 34)**

**Group 8: Government of Wales Act—
Sustainable Development (Amendment 34)**

17:29

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The next group of amendments relates to sustainable development duties in the Government of Wales Act. The only amendment in this group is amendment 34. I call on the Minister to move and speak to the amendment.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â dyletswyddau datblygu cynaliadwy yn Neddf Llywodraeth Cymru. Yr unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 34. Galwaf ar y Gweinidog i gynig a siarad am y gwelliant.

Cynigiwyd gwelliant 34 (Carl Sargeant).

Amendment 34 (Carl Sargeant) moved.

17:30

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I formally move this amendment in the Government's name. Section 79 of the Government of Wales Act 2006 imposes a duty on Welsh Ministers to make a scheme setting out how they will promote sustainable development. The additional new sustainable development duties on the Welsh Ministers in this Bill go far beyond what is currently in section 79 of GOWA. I formally move.

Rwy'n cynig y gwelliant hwn yn ffurfiol yn enw'r Llywodraeth. Mae adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud cynllun yn nodi sut y byddant yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Mae'r dyletswyddau datblygu cynaliadwy newydd ychwanegol ar Weinidogion Cymru yn y Bil hwn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r hyn sydd ar hyn o bryd yn adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Cynigiau yn ffurfiol.

17:30

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Roeddwn i angen gwneud pwynt yn y fan hon ynglŷn â'r broses, oherwydd mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno hwn yn hwyr yn y broses, a dweud y gwir. Mi osodwyd y Gorchymyn i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru drwy'r Bil yma yn hwyr yn y dydd o safbwynt taith y Bil drwy'r Cynulliad, a oedd yn golygu na chafodd y pwyllgor gyfle i ystyried y goblygiadau'n llawn, ac na chafwyd cyfle i wyntyllu'r bwriad gyda rhanddeiliaid. Nawr, Deddf Llywodraeth Cymru yw'r peth agosaf sydd gennym ni yn y fan hon i gyfansoddiad cenedlaethol, am wn i, ac mae ei ddiwygio drwy welliant i Fil a heb y lefel ddyledus o graffu, yn fy marn i, yn anffodus, a dweud y lleiaf.

I wanted to make a point here about the process, because the Government has tabled this late in the day, to be honest. The Order to amend the Government of Wales Act through this Bill was laid late in the day in terms of the Bill's journey through the Assembly, which meant that the committee didn't have an opportunity to fully consider the implications, and there wasn't an opportunity to air this intention with stakeholders. Now, the Government of Wales Act is the closest thing that we have here to a national constitution, I suppose, and amending it through an amendment to a Bill, without the appropriate level of scrutiny is, in my view, unfortunate to say the least.

Cwestiwn arall, wrth gwrs, yw: beth yw'r newid yn y ddyletswydd mae'r gwelliant yma yn ei ganiatáu? Wel, mi roddwyd yr hawl i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru heb fod yn gwybod, mewn gwirionedd, beth fyddai'r dyletswyddau tebygol ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Does dim problem gyda'r egwyddor mai'r Cynulliad a ddylai fod yn medru newid y Ddeddf, ond mae cynsail anffodus wedi'i osod yn y fan hyn—un y mae'n rhaid inni warchod yn ei erbyn yn y dyfodol er mwyn sicrhau craffu effeithiol a digonol.

Another question then, of course, is: what is the change in the duty that this amendment proposes? Well, the right to amend the Government of Wales Act was given without knowing what the likely duties would be in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. There is no problem with the principle that the Assembly should be able to amend the Act, but there is an unfortunate precedent set here—one that we must guard against for the future in order to ensure effective and adequate scrutiny.

Byddwn ni'n cefnogi gwelliant 34, ond rwy'n awyddus i nodi'r pryder na fydd, bellach, asesiad annibynnol o effeithlonrwydd yn cael ei greu, a oedd yn rhan o 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Nawr, rwy'n derbyn y bydd comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn darparu ffynonellau newydd o graffu gwaith y Llywodraeth, felly, fel rwy'n dweud, byddwn ni'n cefnogi'r gwelliant, ond roeddwn i'n awyddus bod yr ychydig sylwadau yna yn cael eu gwneud fel rhan o'r drafodaeth.

I wanted to make a point here about the process, because the Government has tabled this late in the day, to be honest. The Order to amend the Government of Wales Act through this Bill was laid late in the day in terms of the Bill's journey through the Assembly, which meant that the committee didn't have an opportunity to fully consider the implications, and there wasn't an opportunity to air this intention with stakeholders. Now, the Government of Wales Act is the closest thing that we have here to a national constitution, I suppose, and amending it through an amendment to a Bill, without the appropriate level of scrutiny is, in my view, unfortunate to say the least.

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I note the Member's concern. In January, this Assembly agreed to an Order to confer legislative competence to amend section 79. Thanks to Members the Order came into force on 12 February, and I think that I did explain to committee the proposals and development of this Order. There were extended discussions with the Westminster Government in terms of how we were able to develop this. I am grateful for the support of the committee and of the Assembly, but note the Member's concerns in that process.

Nodaf bryder yr Aelod. Ym mis Ionawr, cytunodd y Cynulliad hwn ar Orchymyn i roi cymhwysedd deddfwriaethol i ddiwygio adran 79. Diolch i'r Aelodau daeth y Gorchymyn i rym ar 12 Chwefror, a chredaf fy mod wedi esbonio cynigion a datblygiad y Gorchymyn hwn i'r Pwyllgor. Cafwyd trafodaethau estynedig gyda Llywodraeth San Steffan o ran sut yr oeddem yn gallu datblygu hyn. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth y pwyllgor a'r Cynulliad, ond yn nodi pryderon yr aelod ynglŷn â'r broses honno.

The existing duty in section 79 requires Welsh Ministers to have a scheme to promote sustainable development. With this amendment those efforts will be instead spent on meeting the range of stronger duties on Welsh Ministers to carry out sustainable development rather than just promote it. There is no reason why we would go back on the commitments of 'One Wales: One Planet', but, put bluntly, those commitments aren't binding. It's not that we are seeking to move away from them. I note the Member's concerns, but formally move the amendment.

Mae'r ddyletswydd bresennol yn adran 79 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy. Gyda'r gwelliant hwn bydd yr ymdrechion yn mynd yn lle hynny ar gyflawni'r ystod o ddyletswyddau cryfach ar Weinidogion Cymru i gyflawni datblygiad cynaliadwy yn hytrach na dim ond ei hyrwyddo. Nid oes unrhyw reswm pam y byddem yn bradychu ymrwymadau 'Cymru'n un: Cenedl Un Blaned', ond, i'w roi'n blwmp ac yn blaen, nid yw'r ymrwymadau hynny'n ein rhwymo. Nid yw'n fater o geisio symud oddi wrthynt. Rwy'n nodi pryderon yr Aelod, ond rwy'n cynnig y gwelliant yn ffurfiol.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The question is that amendment 34 be agreed to. Does any Member object? [Objection.] We will have an electronic vote. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 44. There voted against 12. Therefore, amendment 34 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 34. A oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Fe gawn bleidlais electronig. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 44 o blaid. Pleidleisiodd 12 yn erbyn. Felly, derbynnir gwelliant 34.

Derbyniwyd gwelliant 34: O blaid 44, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Amendment 34 agreed: For 44, Against 12, Abstain 0.

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 34](#)

[Result of the vote on amendment 34](#)

Grŵp 9: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol—Trefniadau Penodi ac Ariannol (Gwelliannau 79, 130, 21, 142, 22, 51, 52 a 53)**Group 9: Future Generations Commissioner—Appointment & Financial Arrangements (Amendments 79, 130, 21, 142, 22, 51, 52 and 53)****Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next group of amendments relates to the appointment of, and financial arrangements for, the future generations commissioner. The lead amendment in this group is amendment 79. I call on Antoinette Sandbach to move and speak to the lead amendment and the other amendments in the group.

Mae'r grŵp nesaf o welliannau'n ymwneud â phenodi comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol, a'r trefniadau ariannol ar ei gyfer. Y prif welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 79. Galwaf ar Antoinette Sandbach i gynnig a siarad am y prif welliant a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

Cynigiwyd gwelliant 79 (Antoinette Sandbach).

Amendment 79 (Antoinette Sandbach) moved.

Well, this amendment concerns the appointment of the future generations commissioner. It removes the requirement for the commissioner to be appointed by Welsh Ministers and replaces it with an alternative requirement, which specifies that the First Minister is to appoint the commissioner on the nomination of the National Assembly. Now, I know that a Plaid amendment carried at Stage 2, which involved the committee in the process, but I think the wording of this amendment is slightly stronger. Professor Robert Lee, representing the UK Environmental Law Association said,

'I am sure that we would all agree that what will matter is that the commissioner is independent, impartial and free from political interference. We simply thought that that might be better achieved—both for the commissioner and possibly for the advisory panel—if decisions, for example, in extremis, to dismiss the commissioner, were to be taken by the Assembly rather than by the Ministers.'

That was at paragraph 117 of their evidence.

Witnesses representing various environmental groups unanimously agreed that the commissioner should be appointed by the Assembly in order to ensure their independence, especially as part of the role would be advising on and potentially criticising the Welsh Government's decisions. The committee agreed that there should be cross-party and stakeholder involvement in the appointment process in the interests of independence and transparency. Minister, I know that there was an amendment carried at Stage 2 and that you agree with much of what I've said, but I'd be grateful if you could support that on the record here. It is important that there is a clear independence to the commissioner.

We will be supporting William Powell's amendment 21, which will ensure that the fixed-term period of seven years is the appointment term for the commissioner. I know that that's an amendment that was tabled previously, both by us and the Liberal Democrats. We haven't tabled one, because we could see that William Powell had. I do think it is important to make sure that it's a single term and it's a term that has a defined end.

I also move my amendment 81, which gives the commissioner powers to require a public body to provide information to the commissioner. In particular we also, by our amendment 80, insert the ability for the commissioner to have an inquiry—in other words to be able to conduct an independent inquiry. We think that independence is important and in order for that process to be effective, the commissioner should have the ability to require evidence. Save that, that evidence shouldn't be required if there's any other statute that prohibits the providing of that information. So, this will give greater investigative powers to the commissioner and we think it's important.

Wel, mae'r gwelliant hwn yn ymwneud â phenodi comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n dileu'r gofyniad bod rhaid i'r comisiynydd gael ei benodi gan Weinidogion Cymru ac yn ei ddisodli â gofyniad amgen, sy'n nodi bod y Prif Weinidog i benodi'r comisiynydd ar enwebiad y Cynulliad Cenedlaethol. Nawr, rwy'n gwybod bod gwelliant gan Plaid wedi'i dderbyn yng Nghyfnod 2, yn cynnwys y pwyllgor yn y broses, ond rwy'n meddwl bod geiriad y gwelliant hwn ychydig yn gryfach. Dywedodd yr Athro Robert Lee, sy'n cynrychioli Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU,

Rwy'n siŵr y byddem oll yn cytuno mai'r hyn fydd o bwys yw bod y comisiynydd yn annibynnol, yn ddiuedd ac yn rhydd rhag ymyrraeth wleidyddol. Roeddem yn credu y gellid cyflawni hynny'n well—y byddai'n well i'r comisiynydd ac o bosibl i'r panel cyngori—pe byddai penderfyniadau, er enghraifft, mewn sefyllfaoedd eithafol, i ddiswyddo'r comisiynydd, yn cael eu gwneud gan y Cynulliad yn hytrach na'r Gweinidogion.

Yr oedd hynny ym mharagraff 117 o'u tystiolaeth.

